Mae anghydraddoldebau sylweddol o ran disgwyliad oes a disgwyliad oes iach yn amlwg ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, ac mae'r gwahaniaethau hyn yn tanlinellu'r angen am ymyriadau fferyllol wedi'u targedu sy'n cefnogi atal, hunan-ofal, diagnosis cynnar, optimeiddio meddyginiaethau a rheoli cyflyrau hirdymor yn y cymunedau sy'n profi'r canlyniadau gwaethaf. Y disgwyliad oes cyfartalog ar adeg genedigaeth ar gyfer y Bwrdd Iechyd yw 77.6 mlynedd i ddynion ac 81.3 mlynedd i fenywod, ond mae gwahaniaethau amlwg yn y disgwyliad oes rhwng ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol y Bwrdd Iechyd.[41]

Sir Fynwy sydd â'r disgwyliad oes uchaf, sef 80.4 mlynedd i ddynion ac 83.9 mlynedd i fenywod. Mewn cyferbyniad, Blaenau Gwent sy'n cofnodi'r

---

[40] Source StatsWales Population projections by local authority and year

[41] JSA 2024/25

disgwyliad oes isaf, gyda dynion yn byw am 76.0 mlynedd ar gyfartaledd a menywod am 78.9 mlynedd. Mae Caerffili, Casnewydd a Thorfaen yn disgyn rhwng y ddau begwn, ac ym mhob ardal mae benywod yn byw'n hirach na gwrywod yn gyson.

Mae'r patrymau hyn yn amlygu anghydraddoldebau daearyddol parhaus o ran canlyniadau iechyd ledled Gwent, ac mae'r rhain yn berthnasol o ran ceisio deall yr amrywiad yn nifer yr achosion o gyflyrau hirdymor a'r galw am wasanaethau fferyllol.

Ffigur Dau – Disgwyliad oes ar adeg genedigaeth - Blynyddoedd o fywyd 2021-23



Disgwyliad oes iach yw'r nifer o flynyddoedd y mae pobl yn byw mewn iechyd da. Y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw 12.8 mlynedd i ddynion a 20.5 mlynedd i fenywod.

Sir Fynwy sydd â'r disgwyliad oes iach uchaf i ddynion a menywod, a Thorfaen sydd â'r isaf.

Ffigur Tri - Disgwyliad oes iach ar adeg genedigaeth - Blynyddoedd o fywyd iach, 2021-23[42]



Mae'r gwahaniaethau hyn mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach yn atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau fferyllol yn hygyrch, yn gymesur ac yn ymatebol er mwyn diwallu anghenion y poblogaethau yn yr ardaloedd sy'n profi'r anghydraddoldebau iechyd mwyaf ar draws Gwent.

2.2.4. Strwythur Oedran a Heneiddio ymhlith y Boblogaeth

Mae'r proffil oedran (ffigur pedwar) yn dangos poblogaeth oedran gwaith eang ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, ac mae'r niferoedd mwyaf yn y grŵp oedran 30–59 ar gyfer dynion a menywod. Yn 2023, roedd tua 61% o'r boblogaeth o oedran gwaith (16–64), 21% yn 65 oed a hŷn, ac 18% yn iau na 16 oed.

Ffynhonnell: Gwent JSA 24/25 (Disgwyliad oes ar gyfer ardaloedd lleol Prydain Fawr - Swyddfa'r Ystadegau Cenedlaethol + disgwyliad oes o ran cyflwr iechyd, pob oed, y DU - Swyddfa'r Ystadegau Cenedlaethol)

Ffigur Pedwar - Poblogaeth Gwent yn ôl Oedran (amcangyfrifon canol blwyddyn 2023)[43]

Mae ffigur pump yn amlygu amrywiad yn y strwythur oedran ar draws awdurdodau lleol. Mae gan Sir Fynwy broffil poblogaeth gymharol hŷn a Chaerffili a Chasnewydd â phoblogaethau mwy o oedran gwaith. Mae'n debygol y bydd ardaloedd â sydd chyfrannau uwch o drigolion hŷn yn profi mwy o alw am wasanaethau fferyllol, yn enwedig o ran cyflyrau hirdymor, amlgyffuriaeth ac optimeiddio meddyginiaethau, tra bod poblogaethau gwaith mwy yn dylanwadu ar y galw am wasanaethau atal ac iechyd y cyhoedd.

Ffigur Pump – Strwythur y Boblogaeth yn ôl Band Oedran ac Awdurdod Lleol, 2023[44]



[43] Ffynhonnell - Gwent JSA 24/25 (Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer Lloegr a Chymru - Swyddfa'r Ystadegau Cenedlaethol).

[44] Ffynhonnell – Gwent JSA 24/25 (Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer Lloegr a Chymru - Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol).

Fel y nodir yn ffigur un (adran 2.2.2), rhagwelir twf yn y boblogaeth gyffredinol ledled Gwent hyd at 2043.

Ochr yn ochr â'r twf hwn, mae proffil oedran y boblogaeth yn newid, gyda chyfran gynyddol o drigolion hŷn mewn nifer o ardaloedd awdurdod lleol [45]. Rhagwelir y bydd heneiddio ymhlith y boblogaeth yn cyflymu ymhellach, gyda thua un o bob pedwar preswylydd yng Ngwent (23.5%) yn 65 oed neu'n hŷn erbyn 2034, a disgwylir i nifer y bobl 85 oed a hŷn gynyddu 44.6% o 2025 i 2034, gan godi'n uwch na'r rhagolygon cenedlaethol.

Mae'r tueddiadau hyn yn dangos galw cynyddol am wasanaethau fferyllol sy'n gysylltiedig â chyflyrau hirdymor a chydafiachedd, ochr yn ochr ag angen parhaus am gymorth ataliol a chymorth ar ffurf ymyrraeth gynnar ar draws y cylch bywyd. Maent hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd mynd i'r afael â amlgyffuriaeth, cydymffurfiaeth â meddyginiaethau, a'r angen am hygyrchedd i boblogaeth sy'n heneiddio ar d

raws Gwent.

2.2.5. Cyfansoddiad Cartrefi

Mae cyfansoddiad cartrefi yn darparu cyd-destun ychwanegol ar gyfer deall anghenion y boblogaeth ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 30.6% o gartrefi yn aelwydydd un person, a bod bron i hanner y rhain yn cael eu meddiannu gan bobl 66 oed a hŷn. Roedd cartrefi un teulu yn cyfrif am 65% o'r cartrefi, gyda chyfran fechan wedi'i dosbarthu'n fathau eraill o aelwydydd [46]. Mae amrywiad rhwng awdurdodau lleol. Blaenau Gwent sydd â'r gyfran uchaf o gartrefi person sengl, a Sir Fynwy sydd â'r gyfran uchaf o gartrefi person sengl a chartrefi un teulu sy'n cael eu meddiannu'n gyfan gwbl gan bobl 65 oed a hŷn. Mae'r patrymau hyn yn rhoi cipolwg cyd-destunol ar drefniadau byw ar draws yr ardal ac maent yn berthnasol o ran deall sut y gellir cael mynediad at wasanaethau fferyllol a sut y gellir eu defnyddio, yn enwedig gan bobl hŷn sy'n byw ar eu pen eu hunain.

2.2.6. Marwoldeb a Marwolaeth Gynamserol

Mae patrymau marwolaethau yn adlewyrchu'r baich sylfaenol y mae cyflyrau hirdymor yn ei greu, gan eu bod yn ysgogi presgripsiynu parhaus a ymyriadau fferylliaeth ataliol.

---

[45] Stats Wales - Rhagamcanion poblogaeth 2022 yn ôl awdurdod lleol ac oedran

[46] Nomis DC1109EW - Cyfansoddiad cartrefi yn ôl oedran a rhyw

Mae cyfraddau marwolaethau wedi'u safoni yn ôl oedran ar gyfer awdurdodau lleol yn dangos gostyngiad ers 2015 ar gyfer Caerffili (-7.8%), Sir Fynwy (-8.4%), Casnewydd (-8.6%) a Thorfaen (-2.1%). Fodd bynnag, ym Mlaenau Gwent mae'r gyfradd marwolaethau wedi'i safoni yn ôl oedran wedi cynyddu o 1,214 ar gyfer pob 100,000 o'r boblogaeth yn 2015 i 1,247.5 ar gyfer pob 100,000 o'r boblogaeth yn 2024, sef cynnydd o 2.8[47]%.

Mae marwolaethau cynamserol (a ddiffinnir fel rhywun a fu farw o unrhyw achos cyn eu pen-blwydd yn 75 oed) o brif glefydau anhrosglwyddadwy yn dangos amrywiad sylweddol ar draws awdurdodau lleol ac yn darparu tystiolaeth bellach o anghydraddoldeb iechyd. Blaenau Gwent sydd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau cynamserol yng Ngwent, yr ail waethaf yng Nghymru [48]. Sir Fynwy sydd â'r gyfradd isaf a'r orau yng Nghymru. Mae Caerffili, Casnewydd a Thorfaen yn disgyn rhwng yr pegynau hyn.

Mae Tabl Tri yn manylu ar nifer y marwolaethau cynamserol o brif glefydau anhrosglwyddadwy, 2021-2023 yn ôl awdurdod lleol [49]. Y cyfraddau hyn yw Cyfraddau Ewropeaidd o farwolaethau wedi'u safoni yn ôl oedran o'r prif glefydau anhrosglwyddadwy ar gyfer bob 100,000 o'r boblogaeth.

Tabl Tri - Marwolaethau cynamserol o glefydau anhrosglwyddadwy allweddol, 2021-2023

	Cyfradd	Safle
Blaenau Gwent	385.0	2
Caerffili	357.4	3
Sir Fynwy	239.4	22
Casnewydd	338.2	6
Torfaen	331.3	9
Gwent	385.0	2

[47] ONS - Marwolaethau a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru

[48] Asesiad Lles Blaenau Gwent 2022-23

[49] Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus (PHOF 2025)

Mae'r patrymau hyn yn gyson â'r gwahaniaethau a welwyd mewn disgwyliad oes iach, gydag ardaloedd sy'n profi mwy o farwolaethau cynamserol hefyd yn tueddu i gael llai o flynyddoedd o fywyd mewn iechyd da. Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth hon yn amlygu baich anghyfartal afiechydon y gellir eu hatal ar draws Gwent a goblygiadau hyn ar alw am wasanaethau fferyllol.

2.2.7. Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb

Mae cyfraddau ffrwythlondeb yn rhoi arwydd o dwf poblogaeth yn y dyfodol a'r galw posibl am wasanaethau mamolaeth, iechyd plant a gwasanaethau fferyllol sy'n ymwneud â theuluoedd.

Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb (TFR) yn Lloegr a Chymru yw'r nifer cyfartalog o blant y byddai disgwyl i fenyw eu cael dros ei hoes pe bai'r cyfraddau geni presennol sy'n benodol i oedran yn aros yr un fath drwy gydol ei blynyddoedd beichiogi. Mae'r TFR wedi bod yn dirywio ers 2010 ac mae'n parhau i ostwng er gwaethaf cynnydd bach yn nifer y genedigaethau yn 2024. Yng Nghymru, gostyngodd nifer y genedigaethau byw 2.0% rhwng 2023 a 2024, ac mae amcangyfrifon diweddar yn dangos bod nifer y genedigaethau wedi disgyn yn is na nifer y marwolaethau, gan adlewyrchu newid demograffig hirdymor. Mae amrywiad ar draws awdurdodau lleol o fewn ardal y Bwrdd Iechyd. Yn 2024, Casnewydd oedd â'r TFR uchaf yng Nghymru, sef 1.64, ac mae wedi cofnodi'r gyfradd uchaf ers 2022. Mae hyn yn golygu, ar gyfartaledd, bod pob menyw yn Nghasnewydd yn cael 1.64 o blant yn ystod ei hoes. Roedd gan Flaenau Gwent a Thorfaen hefyd gyfraddau ffrwythlondeb uwch na chyfartaledd Cymru, gyda cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb o 1.50, sy'n golygu, ar gyfartaledd, bod pob menyw yn cael tua un a hanner o blant, tra bod Caerffili yn cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol ar 1.35[50].

Ar y cyfan, mae'r gyfradd ffrwythlondeb gyffredinol a'r TFR yn uwch mewn tri o'r pum awdurdod lleol yng Ngwent na chyfartaledd Cymru, sy'n dangos galw cymharol fwy am wasanaethau fferyllol sy'n ymwneud â mamolaeth, iechyd atgenhedlol, meddyginiaethau plentyndod a brechu mewn rhai ardaloedd.

Gyda'i gilydd, mae'r tueddiadau hyn o ran y boblogaeth yn rhoi cyd-destun pwysig ar gyfer deall patrymau defnyddio meddyginiaethau a'r galw am wasanaethau fferyllol ledled Gwent.

---

[50] Genedigaethau yn Lloegr a Chymru: cofrestriadau geni - Swyddfa'r Ystadegau Cenedlaethol

2.3. Penderfynyddion Cymdeithasol Iechyd

Mae'r adran hon yn amlinellu patrymau amddifadedd a phenderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd, gan gynnwys incwm, cyflogaeth a thai. Mae cysylltiadau agos rhwng anghydraddoldebau cymdeithasol-economaidd a chanlyniadau iechyd gwaeth a defnydd uwch o feddyginiaethau ac felly maent yn ystyriaeth bwysig wrth asesu angen fferyllol.

2.3.1. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2025 yw’r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bychan yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yn unedau daearyddol bach, cyson a ddefnyddir ar gyfer data cyfrifiad a ystadegau yng Nghymru a Lloegr, ac maent fel arfer yn cynnwys rhwng 1,000 a 3,000 o drigolion neu 400 a 1,200 o gartrefi. Mae'r WIMD yn graddio LSOAs yng Nghymru o 1 (y mwyaf difreintiedig) i 1,917 (y lleiaf difreintiedig).

Mae wyth parth sy'n ffurfio'r mynegai, ac mae gan bob un ohonynt ddangosyddion gwahanol ynddynt. Caiff y rhain eu pwyso ac yna eu cyfuno i roi'r mynegai cyffredinol o amddifadedd lluosog. Mae'r ffigur chwech yn dangos pob parth a'u pwysoliad.

Ffigur Chwech – Parthau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru



Nid yw amddifadedd yn golygu bod mewn caledi ariannol yn unig; gall hefyd olygu bod â llai o adnoddau a chyfleoedd nac y byddem yn eu disgwyl yn ein cymdeithas, er enghraifft o ran iechyd neu addysg. Mae dosbarthiad amddifadedd ar draws Gwent yn bwysig wrth ddatblygu polisïau, rhaglenni a chyllid sy'n seiliedig ar ardal. Gellir defnyddio WIMD i lywio'r penderfyniadau hyn ac i roi gwell dealltwriaeth o dueddiadau amddifadedd ar draws Gwent, gan gynnwys nodi'r ardaloedd bach mwyaf difreintiedig. Defnyddir LSOAau i dorri ardaloedd mawr, megis awdurdodau lleol, yn

ddarnau llai, haws i’w rheoli er mwyn cymharu data rhwng gwahanol gymdogaethau lleol.

Mae'r map isod yn dangos pob LSOA o fewn ardal y Bwrdd Iechyd a'i safle yn y mynegai. Yr awdurdod lleol gyda'r gyfran uchaf o'r ardaloedd bach hyn sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru yw Blaenau Gwent (20% neu 9 ardal), yna Casnewydd (18% neu 18 ardal). Sir Fynwy yw'r unig awdurdod lleol heb unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig.

Map Wyth – Map o LSOAs wedi'u lliwio yn ôl grŵp amddifadedd, WIMD 2025



© Hawlfraint y Goron 2025. Cartograffeg Llywodraeth Cymru

Mae Tabl Pedwar yn dangos dosbarthiad LSOA ar draws bandiau amddifadedd cenedlaethol ar gyfer pob awdurdod lleol o fewn ardal y Bwrdd Iechyd, yn seiliedig ar fynegai cyffredinol WIMD 2025. Mae'r amrywiad rhwng awdurdodau lleol yn amlygu gwahaniaethau yn y crynodiad o amddifadedd o fewn yr ardal ac yn darparu cefndir cyd-destunol sy’n ein helpu i ddeall sut y gall y galw am wasanaethau fferyllol amrywio ar sail daearyddol.

Tabl Pedwar – Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Isaf mwyaf difreintiedig yn ôl awdurdod lleol (2025) [51]

Local Authority	Cyfanswm yr LSOAs	Y 10% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru (graddfeydd 1 - 191)	Y 20% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru (graddfeydd 1 - 382)	Y 30% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru (graddfeydd 1 - 574)	50% o'r LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru (graddfeydd 1 - 958)
Blaenau Gwent	46	9	17	27	35
Caerffili	110	12	28	41	65
Sir Fynwy	58	0	3	4	11
Casnewydd	100	18	32	41	51
Torfaen	60	5	18	26	35

Fel y nodir yn adran 2.2.3, mae lefelau uwch o amddifadedd yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd gwaeth a disgwyliad oes is. Mae Ffigur Saith yn darlunio'r bwlch amddifadedd, mewn blynyddoedd, o ran disgwyliad oes iach ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, gan ddangos amrywiad rhwng ardaloedd a bwlch cyson rhwng gwrywod a benywod. Mae'r berthynas hon yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer deall patrymau galw am wasanaethau fferyllol, yn enwedig mewn cymunedau mwy difreintiedig lle mae'n debygol y bydd mwy o ddibyniaeth ar wasanaethau hygyrch megis fferyllfeydd.

[51] (proffiliau amddifadedd awdurdodau lleol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALC) 2025 | StatsCymru)

Ffigur Saith – Bwlch amddifadedd Gwent, mewn blynyddoedd, o disgwyliad oes iach 2018-20[52]



Mar data disgwyliad oes iach (2018–20) yn dangos bwlch amddifadedd amlwg ledled Gwent. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 (WIMD) yn cadarnhau bod patrymau amddifadedd yn parhau i fod wedi'u gwreiddio ar draws rhannau o ardal y Bwrdd Iechyd, gan ddarparu cyd-destun parhaus ar gyfer yr anghydraddoldebau hyn.

2.3.2. Gweithgaredd economaidd

Mae gweithgarwch economaidd yn elfen allweddol o amddifadedd o fewn y WIMD ac mae cysylltiad agos rhwng hyn â chanlyniadau iechyd a disgwyliad oes iach. Mae ardaloedd sydd â lefelau is o weithgarwch economaidd yn fwy tebygol o brofi amddifadedd uwch, afiechydon yn dechrau'n gynt a llai o flynyddoedd o fywyd iach, fel y dangosir gan y patrymau amddifadedd a disgwyliad oes a ddisgrifir yn adran 2.2.

Mae Ffigur 8 yn dangos cyfraddau cyflogaeth ar gyfer gwrywod a benywod ar draws ardal y Bwrdd Iechyd yn 2023/24. Mae ardaloedd sydd â chrynodiadau uwch o amddifadedd, fel y dangosir ym nosbarthiad y WIMD 2025 yn nhabl pedwar, yn tueddu i gael cyfraddau cyflogaeth cyffredinol is. Ar draws pob ardal, mae cyfraddau cyflogaeth yn gyson uwch i ddynion nag i fenywod.

[52] Ffynhonnell – Gwent JSA 24/25 (Offeryn Adrodd PHOF)

Ffigur Wyth – Cyfradd Cyflogaeth (% y bobl 16-64 oed)[53]

Mae patrymau amddifadedd a disgwyliad oes yn berthnasol i ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol, gan fod cyffredinrwydd uwch o gyflyrau hirdymor ymhlith poblogaethau mewn ardaloedd mwy difreintiedig a mwy o ddibyniaeth ar wasanaethau hygyrch fel fferyllfeydd cymunedol ar gyfer cyflenwi meddyginiaethau, derbyn cyngor, gwasanaethau ataliol a chymorth gyda chydymffurfiaeth â meddyginiaethau.

2.4. Dosbarthiad Daearyddol

Mae amrywiad daearyddol yn dylanwadu ar y ffordd y ceir mynediad at wasanaethau ac mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd darpariaeth sy'n briodol i'r ardaloedd lleol penodol. Mae gwahaniaethau mewn dwysedd poblogaeth a natur wledig ardaloedd yn cael effaith ar fynediad ffisegol at wasanaethau fferyllol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Gall ardaloedd gwledig ddibynnu mwy ar feddygon fferyllol, gwasanaethau dosbarthu meddyginiaethau a threfniadau mynediad hyblyg, tra gall ardaloedd trefol mwy poblog brofi mwy o weithgarwch a phwysau o ran capasiti a ddaw yn sgil hyn.

[53] Ffynhonnell – Gwent JSA 24/25 (Arolwg Poblogaeth Blynyddol/Arolwg y Gweithlu - Ffynonellau Data - hafan - Nomis - Cyfrifiad Swyddogol ac Ystadegau'r Farchnad Lafur)

2.4.1. Dwysedd poblogaeth

Ac eithrio Sir Fynwy, mae dwysedd poblogaeth ar draws ardal y Bwrdd Iechyd yn uwch na chyfartaledd Cymru. Casnewydd yw'r awdurdod lleol mwyaf poblog, tra bod gan Sir Fynwy ddwysedd poblogaeth sylweddol is, sy'n adlewyrchu ei chymeriad mwy gwledig. Mae tabl naw yn dangos dwysedd poblogaeth yn ôl awdurdod lleol.

Tabl Naw - dwysedd poblogaeth (pobl ar gyfer pob cilomedr sgwâr), 2023[54]

Cymru	**152.60**
Blaenau Gwent	619.49
Caerffili	636.07
Sir Fynwy	111.37
Casnewydd	859.25
Torfaen	743.20

2.4.2. Trafnidiaeth

Mae argaeledd trafnidiaeth yn ffactor bwysig o ran sut mae pobl yn cael mynediad at wasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â dwysedd poblogaeth is. Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos nad oedd car na fan gan 19.9% o'r cartrefi yn ardal y Bwrdd Iechyd. Gall lefelau is o berchnogaeth ceir mewn rhai ardaloedd greu rhwystrau o ran cael mynediad at wasanaethau fferyllol, gan gynyddu pwysigrwydd fferyllfeydd lleol sy'n hygyrch, gwasanaethau dosbarthu ac oriau agor priodol. Mae mwy o bobl yn berchen ar geir yn Sir Fynwy, ac mae gan gyfran uwch o gartrefi fynediad at ddau gerbyd neu fwy. Ym Mlaenau Gwent ar y llaw arall mae cyfran uwch o gartrefi nad oes ganddynt fynediad at gar na fan, neu fynediad at un cerbyd yn unig.

[54] Dwysedd StatsCymru

Ffigur Naw – perchnogaeth ceir ar lefel awdurdod lleol[55]



2.5. Nodweddion Gwarchodedig

mae nodweddion gwarchodedig, fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae ystyried y nodweddion hyn yn bwysig gan y gallant ddylanwadu ar fynediad at wasanaethau fferyllol a'r modd yr ymgysylltir â hwy.

Yn yr asesiad hwn, ystyriwyd yr holl nodweddion gwarchodedig. Lle bo hynny'n berthnasol, a ble mae wedi'i gefnogi gan y dystiolaeth sydd ar gael, rhoddir mwy o bwyslais ar y nodweddion sydd â'r cysylltiad agosaf â mynediad at wasanaethau fferyllol a'u defnydd, megis oedran, anabledd, ethnigrwydd a rhyw. Cydnabyddir nodweddion gwarchodedig eraill i ddangos sylw dyladwy a chydraddoldeb o ran mynediad, ond ni chânt eu trafod yn fanwl os nad oes llawer o dystiolaeth leol sy'n dangos eu bod yn cael unrhyw effaith ar y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol.

2.5.1. Oedran

Mae oedran yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar ddefnydd o wasanaethau fferyllol. Fel y nodir yn adran 2.2.4, mae poblogaeth ardal y Bwrdd Iechyd yn heneiddio, ac mae nifer yr henoed a'r bobl sydd mewn oed mawr yn cynyddu. Mae hyn yn berthnasol i wasanaethau fferyllol oherwydd cyffredinrwydd cyflyrau hirdymor, cydafiachedd ac amlgyffuriaeth mewn grwpiau oedran hŷn, ochr yn ochr â'r angen am wasanaethau hygyrch,

[55] Cyfrifiad 2021 - Cyfrifiad y Boblogaeth - Ffynonellau Data - hafan - Nomis - Ystadegau Swyddogol y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur

cymorth cydymffurfio â meddyginiaethau a ymyriadau ataliol ar draws y cwrs bywyd. Gellir dod o hyd i ddadansoddiad manwl o'r boblogaeth yn ôl oedran yn gynharach yn y bennod hon ac ni chaiff ei ailadrodd yma.

2.5.2. Anabledd

Mae anabledd yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac mae cysylltiad agos rhwng anabledd a chyflyrau hirdymor a phatrymau defnyddio gwasanaethau fferyllol. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd ag anableddau dysgu, a allai brofi rhwystrau ychwanegol sy'n ymwneud â chyfathrebu, deall meddyginiaethau a defnyddio gwasanaethau. Gall y ffactorau hyn effeithio ar fynediad at wasanaethau, dibyniaeth ar feddyginiaethau, a'r angen am gymorth ychwanegol gan dimau fferyllol. Wrth i'r boblogaeth heneiddio, disgwylir i nifer y bobl sy'n byw gyda salwch hirdymor cyfyngol gynyddu ar draws holl ardaloedd awdurdodau lleol y Bwrdd Iechyd.

Mae rhagamcanion yn dangos y disgwylir i bob awdurdod lleol yn ardal y Bwrdd Iechyd weld cynnydd yn nifer y bobl 18 oed a hŷn sydd â salwch hirdymor cyfyngol rhwng 2013 a 2035, ac amcangyfrifir y bydd y cynnydd hwn yn amrywio o 14.1% ym Mlaenau Gwent i 25.1% yng Nghasnewydd[56].

Ffigur Ddeg – rhagamcan o nifer y bobl 18 oed a hŷn sydd â salwch hirdymor cyfyngol



Mae Ffigur un ar ddeg isod yn dangos cyfran yr oedolion 16 oed a hŷn y cyfyngir ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd gan salwch hirdymor ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Mae'r gyfran yn amrywio rhwng gwahanol awdurdodau lleol ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru ym Mlaenau Gwent a Thorfaen, tra bod cyfrannau is yn cael eu gweld yng Nghasnewydd a

[56] Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022-2023

Chaerffili. Mae'r amrywiad hwn yn rhoi cipolwg cyd-destunol ar y gwahaniaethau mewn cyfyngiad swyddogaethol ar draws y boblogaeth, ac mae hyn yn berthnasol wrth geisio deall ystyriaethau hygyrchedd ar gyfer gwasanaethau fferyllol.

Ffigur un ar ddeg - Oedolion 16+ oed y mae eu gweithgareddau wedi'u cyfyngu gan salwch hirsefydlog 2022-23



Gyda'i gilydd, mae'r patrymau hyn yn darparu gwybodaeth gyd-destunol ar lefelau cyfyngiad swyddogaethol ar draws y boblogaeth ac yn amlygu ystyriaethau sy'n berthnasol i hygyrchedd a phrofiad gwasanaeth. Mae niferoedd cynyddol o bobl ag anableddau a salwch hirdymor cyfyngol yn debygol o arwain at fwy o alw am adeiladau hygyrch, gwasanaeth dosbarthu i'r cartref, cymhorthion cydymffurfio, adolygiadau o feddyginiaethau a chymorth parhaus gyda meddyginiaethau.

2.5.3. Ethnigrwydd ac Iaith

Mae ethnigrwydd yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n berthnasol o ran mynediad at wasanaethau fferyllol, cyfathrebu ac ymgysylltu. Mae [57]data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod gan ardal y Bwrdd Iechyd boblogaeth sy'n bennaf wyn, gyda chyfrannau llai o drigolion o grwpiau ethnig Asiaidd, Du, Hiliol a grwpiau ethnig eraill. Mae Ffigur 12 yn dangos bod poblogaeth fwy amrywiol yn ethnig yng Nghasnewydd nac yn ardaloedd awdurdodau lleol eraill, tra bod gan yr awdurdodau sy'n weddill gyfran uwch o drigolion sy'n nodi eu bod yn wyn o'i gymharu â chyfartaledd Cymru. Mae Atodlen L yn darparu dadansoddiad llawn o'r data hwn ac yn cynnwys gwybodaeth hefyd sy'n ymwneud â

[57] Nomis - Grwpiau ethnig 2021

nodweddion gwarchodedig eraill, yn ogystal â grwpiau agored i nwed a chynhwysiant.

Ffigur 12 - Canran ethnigrwydd Gwent[58]



Gall ardaloedd sydd â mwy o amrywiaeth ethnig fod angen gwell mynediad at wasanaethau sy'n briodol yn ddiwylliannol, cymorth o ran iaith ac ymyriadau iechyd y cyhoedd cyhoeddus wedi'u targedu i sicrhau mynediad teg at ofal fferyllol.

Er nad yw iaith yn nodwedd warchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae cysylltiad agos rhwng iaith y cartref a hil ac ethnigrwydd ac mae'n ffactor pwysig wrth sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau.

Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod y rhan fwyaf o drigolion yn nodi Saesneg neu Gymraeg fel eu prif iaith. Fodd bynnag, mae lleiafrif bach yn adrodd mai ychydig o allu sydd ganddynt o ran siarad Saesneg yn hyderus neu'n rhugl.[59]. Mae hyn yn amrywio yn ôl awdurdod lleol. Mae'r gyfran o gartrefi sydd â Saesneg yn brif iaith yn is yng Nghasnewydd o'i gymharu â gweddill ardal y Bwrdd Iechyd (Ffigur 13).

[58] Ffynhonnell - Gwent JSA (Grŵp ethnig - Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol)

[59] Nomis 2021 hyfedredd iaith (Saesneg)

Ffigur 13 – Medrusrwydd yn Saesneg yn ôl oedran



Gall rhwystrau iaith effeithio ar gyfathrebu, dealltwriaeth o feddyginiaethau ac ymgysylltiad â gofal iechyd, a gallant gael effaith anghymesur ar rai grwpiau gwarchodedig.

Mae'r Gymraeg, er nad yw wedi'i chynnwys fel nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn ddarostyngedig i ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. Mae data'r cyfrifiad yn dangos amrywiad mewn sgiliau iaith Gymraeg ar draws awdurdodau lleol, gyda'r rhan fwyaf o drigolion yn nodi nad oes ganddynt unrhyw allu i siarad Cymraeg. Mae Caerffili yn cofnodi lefelau cymharol uwch o hyfedredd yn yr Gymraeg na llawer o ardaloedd eraill. Atodiad L

Gyda'i gilydd, mae ethnigrwydd a phatrymau iaith yn darparu gwybodaeth gysylltiol sy'n berthnasol o ran deall anghenion cyfathrebu ac ystyriaethau hygyrchedd ar gyfer gwasanaethau fferyllol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

2.5.4. Rhyw

Mae rhyw yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n berthnasol o ran deall gwahaniaethau mewn anghenion iechyd, patrymau defnyddio gwasanaethau a mynediad at ofal. Mae gwahaniaethau sy'n gysylltiedig â rhyw yn dylanwadu ar ymgysylltiad â gwasanaethau ataliol, iechyd atgenhedlol a rhywiol, a rheolaeth o gyflyrau hirdymor ar draws cwrs bywyd. Mae ystyried rhyw yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer deall sut mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu cyrchu a'u profi gan wahanol grwpiau o’r boblogaeth.

Fel y nodir yn adrannau 2.2.3 a 2.3.1, mae gwahaniaethau rhyw cyson o ran disgwyliad oes a disgwyliad oes iach ar draws Gwent. Mae disgwyliad oes menywod yn uwch na disgwyliad oes dynion ym mhob awdurdod lleol, ac mae'r disgwyliad oes uchaf yn Sir Fynwy a'r isaf ym Mlaenau Gwent (Ffigur dau). Fodd bynnag, mae disgwyliad oes iach yn is i fenywod nag i ddynion (Ffigur tri), sy'n dangos bod menywod fel arfer yn byw'n hirach ond yn treulio mwy o flynyddoedd mewn iechyd gwaelach. Mae anghydraddoldebau pendant rhwng y rhywiau, mae'r bwlch amddifadedd o ran disgwyliad oes iach yn sylweddol fwy i fenywod na dynion ar draws Gwent (20.5 mlynedd o'i gymharu â 12.8 mlynedd), ac mae bylchau arbennig o fawr i'w gweld yng Nghasnewydd a Thorfaen (Ffigur saith).

Yng Nghymru, mae polisi cenedlaethol, gan gynnwys Cynllun Iechyd Menywod[60] y Llywodraeth, yn pwysleisio pwysigrwydd gwella mynediad, ymyriad cynnar a chymorth ataliol ar gyfer anghenion iechyd menywod.

Mae dynion yn profi patrymau gwahanol o ran angen iechyd ac ymgysylltu â gwasanaethau gofal iechyd o'u cymharu â menywod, gan gynnwys llai o ddefnydd o rai gwasanaethau ataliol a chyflwyno'n hwyrach ar gyfer rhai cyflyrau. Mae'r gwahaniaethau hyn yn berthnasol wrth ystyried mynediad at wasanaethau fferyllol, yn enwedig o ran ymyriad cynnar, hunan-ofal ac ymgysylltu â chyngor a chymorth.

Gyda'i gilydd, mae ystyried nodweddion gwarchodedig yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer deall gwahaniaethau o ran mynediad, profiad ac ymgysylltiad â gwasanaethau fferyllol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Mae'r asesiad hwn yn mabwysiadu dull cymesur, gan ganolbwyntio ar y nodweddion sydd â'r cysylltiad agosaf â chael mynediad at wasanaethau fferyllol a'u defnyddio, gan sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi i'r holl nodweddion gwarchodedig yn unol â dyletswyddau cydraddoldeb.

2.6. Grwpiau agored i niwed a chynhwysiant

Yn ogystal â nodweddion gwarchodedig, efallai bod rhai grwpiau o fewn y boblogaeth yn fwy agored i niwed neu'n wynebu rhwystrau ychwanegol wrth gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd. Nid yw'r grwpiau hyn yn cael eu diffinio gan un nodwedd warchodedig yn unig, ond efallai eu bod yn wynebu cyfuniad o wahanol fathau o anfantais sy'n gysylltiedig ag iechyd, amgylchiadau cymdeithasol neu batrymau defnyddio gwasanaethau. Mae ystyried grwpiau bregus a chynhwysiant yn darparu cyd-destun pellach o ran deall sut y ceir mynediad at wasanaethau fferyllol yn ymarferol ar draws

[60] Cynllun Iechyd Menywod ar gyfer Cymru.pdf

ardal y Bwrdd Iechyd, ac mae hyn yn llywio asesiad o’r ddarpariaeth o wasanaethau yn nes ymlaen. Mae'r adran hon yn disgrifio grwpiau o’r boblogaeth a allai wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at ofal iechyd neu ganlyniadau iechyd gwaeth, gan gynnwys pobl ddigartref, cymunedau Sipsi a Teithwyr, gofalwyr a throseddwyr. Cydnabyddir grwpiau bregus eraill hefyd, megis ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr, gweithwyr rhyw, cyn-filwyr, a phlant a phobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid, a chaiff eu hanghenion fferyllol eu hystyried drwy'r asesiad o fynediad ehangach, parhad gofal a chymorth meddyginiaethau yn hytrach na fel is-adrannau annibynnol.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi crynodebau o dystiolaeth sy'n amlinellu statws iechyd grwpiau Iechyd Cynhwysiant ledled Cymru. Er nad yw'r data hyn yn benodol i Went, maent yn darparu cyd-destun pwysig ynghylch graddfa a chymhlethdod yr angen iechyd a brofir gan y poblogaethau hyn, ac mae’n llywio'r ystyriaeth o sut y gall gwasanaethau fferyllol ymateb mewn modd cymesur[61].

Ystyrir cyflyrau iechyd meddwl fel rhan o gyflyrau hirdymor oherwydd eu natur gronig a'r defnydd o feddyginiaethau cysylltiedig.

2.6.1. Gofalwyr

Gofalwyr yw pobl o unrhyw oedran sy'n darparu gofal a chymorth di-dâl i aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog sydd ag anabledd, cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor, neu broblem camddefnyddio sylweddau, ac na fyddai'n gallu ymdopi heb y cymorth hwn. Gall rolau gofalu gynnwys ystod eang o weithgareddau ymarferol a chefnogol, gan gynnwys cymorth gyda byw o ddydd i ddydd, cydlynu gofal a chymorth gyda meddyginiaethau.

Mae data Cyfrifiad 2021[62] yn dangos bod tua 310,700 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru, sy'n cynrychioli tua 10.5% o'r boblogaeth. Mae'r gyfran hon yn uwch na chyfran Lloegr. O blith y rheiny a nododd eu bod yn ofalwyr di-dâl, roedd cyfran uwch yn fenywod na dynion, ac mae hyn yn adlewyrchu patrymau cenedlaethol ehangach o ran cyfrifoldeb gofalu.

O fewn ardal y Bwrdd Iechyd, nododd 60,415 o drigolion eu bod yn ofalwyr di-dâl, sy'n cyfateb i 10.9% o'r boblogaeth. Mae amrywiad yng nghyffredinrwydd a dwyster y gofalu ar draws awdurdodau lleol. Adroddodd dros un rhan o bum o ofalwyr eu bod yn darparu 50 awr neu fwy o ofal di-

---

[61] Inclusion Health Evidence Summaries and Infographics - Primary Care One

[62] Cyfrifiad 2021 - Gofal di-dâl yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd, Cymru

dâl yr wythnos, tra bod eraill yn darparu lefelau is o ofal ochr yn ochr â gwaith neu addysg. Cofnodwyd y cyfrannau uchaf o ofalwyr di-dâl yng Nghaerffili a Thorfaen, gyda nifer yr oriau o ofal a ddarparwyd yn amrywio ar draws yr ardal[63].

Mae'r patrymau hyn yn darparu cyd-destun pwysig o ran deall mynediad at wasanaethau fferyllol a'u defnydd. Efallai bod gan ofalwyr anghenion cymorth ychwanegol sy'n ymwneud â rheoli meddyginiaethau, cyfyngiadau amser, straen a chydlynu gofal, ar gyfer y sawl y maent yn gofalu amdanynt yn ogystal â nhw eu hunain. Mae ystyried gofalwyr, felly, yn berthnasol o ran deall sut mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu cyrraedd a'u profi ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

2.6.2. Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Cydnabyddir bod cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn grwpiau a allai brofi canlyniadau iechyd gwaeth a wynebu rhwystrau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd. Yng Nghyfrifiad 2021, cofnodwyd "Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig" a "Roma" fel categorïau ar wahân o fewn y grŵp ethnig Gwyn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod Roma yn cael eu cydnabod fel poblogaeth benodol[64].

Yng Nghyfrifiad 2021, nododd 0.12% o boblogaeth gyffredin Lloegr a Chymru [65]2021 eu bod yn Sipsi neu'n Deithiwr Gwyddelig. O'r rhain, roedd 94.9% (67,815) yn byw yn Lloegr a 5.1% (3,630) yn byw yng Nghymru. O ran poblogaeth Roma, nododd 0.2% (103,020) o boblogaeth arferol preswyl Lloegr a Chymru eu bod o grŵp ethnig Roma. O'r rhain, roedd 98.2% (101,135) yn byw yn Lloegr ac roedd 1.8% (1885) yn byw yng Nghymru[66]. O fis Ionawr 2025, roedd 1,320 o garafannau Sipsi, Teithwyr Gwyddelig neu Roma yng Nghymru, ac roedd 87% ohonynt wedi'u hawdurdodi a 13% heb eu hawdurdodi.

---

[63] caring-in-wales-census-2021-briefing.pdf

[64] (Cymuned Roma i gael ei chydnabod yng Nghyfrifiad 2021 - Ffrindiau, Teuluoedd a Theithwyr)

[65] (Poblogaethau Roma neu Deithwyr Gwyddelig, Lloegr a Chymru - Swyddfa'r Ystadegau Cenedlaethol)

[66] Poblogaethau Roma, Lloegr a Chymru - Swyddfa'r Ystadegau Cenedlaethol

Mae'r Dangosfwrdd[67] Iechyd Cynhwysiant yn dangos, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, bod 188 o garafannau Sipsi, Roma neu Deithwyr Gwyddelig, a Thorfaen sy'n cynnwys y nifer uchaf (wytheg chwech) ac yng Nghasnewydd y mae'r gyfran uchaf o safleoedd heb awdurdod. Mae'r data yn dangos bod cyfrannau bach o'r boblogaeth ym mhob awdurdod lleol yn uniaethu fel Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, ac mae amrywiad ar draws ardal y Bwrdd Iechyd (gweler atodiad L). Er bod y cymarebau hyn yn debyg i gyfartaledd Cymru, efallai nad ydynt yn adlewyrchu maint na dosbarthiad y gymuned yn llawn oherwydd tan-gyfrif[68]. Mae'r data hwn yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer deall dosbarthiad daearyddol cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr o fewn ardal y Bwrdd Iechyd.

[69]Mae tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cynnwys cymunedau Roma, Sipsi a Theithwyr Gwyddelig, yn dangos bod y cymunedau hyn yn profi canlyniadau iechyd sylweddol waeth o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol, gan gynnwys disgwyliad oes 10-12 mlynedd yn fyrrach, nifer uwch o gyflyrau hirdymor, risg uwch o orbryder ac hunanladdiad, a chyfraddau ysmygu sylweddol uwch (57% o'u cymharu â 21.5% mewn grwpiau cymharol). Mae'r dystiolaeth hefyd yn amlygu risg sylweddol uwch o glefydau y gellir eu hatal gan frechlyn, gan gynnwys y frech goch, sydd 100 gwaith yn uwch ymhlith y poblogaethau hyn na'r boblogaeth gyffredinol. Mae'r canfyddiadau hyn yn berthnasol i wasanaethau fferyllol o ran rhoi'r gorau i smygu, cyfraddau brechu, rheoli cyflyrau hirdymor a chyngor hygyrch am feddyginiaethau a ddarperir mewn lleoliadau cymunedol.

Mae'r wybodaeth hon yn rhoi cipolwg cyd-destunol ar nodweddion ac amgylchiadau bywyd cymunedau Roma, Sipsi a Theithwyr ar draws Gwent. Gall symud, lleoliad safleoedd, a ffactorau diwylliannol a chyfathrebu ddylanwadu ar y ffordd y mae unigolion o'r cymunedau hyn yn cael mynediad at wasanaethau fferyllol ac yn eu defnyddio.

2.6.3. Pobl sydd â chyswllt â'r system cyfiawnder troseddol

Mae presenoldeb poblogaethau carchardai ac unigolion sy'n cael eu symud i'r gymuned yn cael goblygiadau ar barhad meddyginiaethau, mynediad at

---

[67] Content Navigation - Inclusion Health 2025-26 - Power BI

[68] (2023.06-Making-sense-of-the-Census-2021-for-the-outcomes-and-experiences-of-Gypsy-Roma-and-Traveller-people.pdf).

[69] primarycareone.nhs.wales/topics/teg-i-pawb-fair-for-all/wales-health-inequalities-programme-for-primary-care/phw-onlinedocs-summary-gypsy-d-pdf/

fferyllfeydd cymunedol a chymorth gyda chydymffurfiaeth a thriniaeth barhaus. Mae dau garchar o fewn ardal y Bwrdd Iechyd: CEF Brynbuga a'i sefydliad lloeren, CEF Prescoed. Mae CEF Brynbuga yn garchar i ddynion Categori C wedi'i leoli ym Mrynbuga, Sir Fynwy, sy'n dal hyd at 275 o ddynion.

Mae'r ail sefydliad, CEF Prescoed, yn garchar agored i ddynion o Gategori D sydd wedi'i leoli yn Coed-y-Paen, tua thair milltir o Frybnuga, ac mae'n darparu llety i hyd at 260 o ddynion. Gall carcharorion dreulio amser y tu allan i'r carchar a chael mynediad at wasanaethau'r GIG, gan gynnwys gwasanaethau fferyllol ar y Stryd Fawr.

Mae'r Dangosfwrdd[70] Iechyd Cynhwysiant yn dangos, o fis Gorffennaf 2025, fod 5,353 o garcharorion yng Nghymru, gan gynnwys y rheiny ar absenoldeb awdurdodedig. Mae'n dangos, hefyd, bod poblogaeth carchar Brynbuga/Prescoed wedi cynyddu o 483 i 520 rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2025. Mae ardal y Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnwys 2,986 o unigolion ar brawf. Mae'r ffigurau hyn yn dangos maint y poblogaethau sy'n rhan o'r system gyfiawnder o fewn ardal y Bwrdd Iechyd ac maent yn tanlinellu pwysigrwydd gwasanaethau fferyllol o ran cefnogi parhad meddyginiaethau, rhoi'r gorau i smygu, cymorth gyda defnyddio sylweddau a threfniadau pontio o ran gofal wrth iddynt gael eu rhyddhau i'r gymuned.

Mae tystiolaeth[71] Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos lefelau uchel o anghenion iechyd cymhleth o fewn y system gyfiawnder, gan gynnwys diagnosisau deuol o iechyd meddwl a defnyddio sylweddau (75–85%), risg uwch o hunanladdiad, a defnydd sylweddol o feddyginiaethau, gyda 44% o boblogaeth y carchardai yn cymryd meddyginiaeth ar bresgripsiwn. Mae'r gyfradd marwolaethau 20% yn uwch yn y flwyddyn gyntaf ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar. Mae'r canfyddiadau hyn yn berthnasol i wasanaethau fferyllol o ran cefnogi parhad meddyginiaethau yn ystod y cyfnodau pontio, rhoi'r gorau i smygu (mae 54% yn mynegi awydd i roi'r gorau iddi), cymorth i ddefnyddwyr sylweddau a mynediad at wasanaethau sy'n gysylltiedig â gofal sylfaenol yn dilyn eu rhyddhad.

Mae hyn yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer deall patrymau mynediad at wasanaethau fferyllol a defnydd o wasanaethau fferyllol ymhlith y boblogaeth o droseddwyr o fewn ardal y Bwrdd Iechyd, yn enwedig lle gall

---

[70] Content Navigation - Inclusion Health 2025-26 - Power BI

[71] primarycareone.nhs.wales/topics/teg-i-pawb-fair-for-all/wales-health-inequalities-programme-for-primary-care/phw-onlinedocs-summary-justicesystem-f-pdf/

unigolion gael mynediad at wasanaethau o fewn carchardai ac yn ogystal ag yn y gymuned.

2.6.4. Digartref a Phobl sy'n Cysgu Allan

Diffinnir pobl sy'n cysgu allan fel unigolion sy'n cysgu dros nos yn yr awyr agored (megis drysau siopau, llochesi bws neu barciau) neu mewn adeiladau, cerbydau neu leoedd eraill nad ydynt wedi'u dylunio ar gyfer preswylio (megis grisiau, ysguboriau, siediau, meysydd parcio, pebyll, ceir/faniau).

Mae'r Dangosydd[72] Iechyd Cynhwysiant yn dangos bod 2,895 o aelwydydd digartref wedi'u cofnodi yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn 2023–24. Ym Mhrydain, ystyrir cartref yn ddi-gartref yn gyfreithiol os nad oes ganddynt lety yn y DU neu mewn man arall y mae ganddynt hawl gyfreithiol i'w feddiannu, neu os na allant gael mynediad i'w cartref. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd megis cysgu allan, syrffio soffas, byw mewn llety dros dro (e.e., hosteli neu Wely a Brecwast), neu wynebu risg uniongyrchol o gael eich troi allan neu o gam-drin domestig.

Yng Nghasnewydd mae'r nifer uchaf o aelwydydd digartref (1,284). Cafodd tua 30 o bobl sy'n cysgu allan eu cyfrif ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ym mis Mai 2025. Mae'r ffigurau hyn yn amlygu maint yr ansicrwydd o ran tai o fewn ardal y Bwrdd Iechyd.

Mae tystiolaeth[73] Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod unigolion sy'n profi digartrefedd yn wynebu anghydraddoldebau iechyd eithafol, gan gynnwys oedrannau marwolaeth cyfartalog yn eu 40au cynnar i 40au, lefelau uchel o glefyd cronig, a risg uwch o farwolaeth sy'n gysylltiedig â sylweddau. Adroddir bod rhwng 57–82% yn ysmygu ac mae 80% yn adrodd bod ganddynt iechyd meddwl gwael. Mae nifer yr achosion o feirysau a gludir yn y gwaed, clefydau anadlol a chlefydau cardiofasgwlaidd yn sylweddol uwch nac ymhlith y boblogaeth gyffredinol.

Mae'r patrymau hyn yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer deall sut y mae pobl ddigartref neu bobl sy'n cysgu allan yn cael mynediad at wasanaethau fferyllol - gall eu defnydd fod yn ysbeidiol ac mae angen hyblygrwydd ar gyfer cymorth meddyginiaethau. Yn fwy eang, mae tystiolaeth genedlaethol sy'n ymwneud â grwpiau Iechyd Cynhwysiant yn dangos anghenion iechyd cymhleth, sy'n gorgyffwrdd, sy'n berthnasol iawn o ran hygyrchedd,

---

[72] Content Navigation - Inclusion Health 2025-26 - Power BI

[73] primarycareone.nhs.wales/topics/teg-i-pawb-fair-for-all/wales-health-inequalities-programme-for-primary-care/phw-onlinedocs-summary-homeless-d-pdf/

ymatebolrwydd a rôl ataliol gwasanaethau fferyllol cymunedol ar draws Gwent.

2.7. Poblogaethau Crwydrol a Phoblogaethau Dros Dro

Gall poblogaethau crwydrol a phoblogaethau dros dro, megis myfyrwyr addysg uwch ac ymwelwyr, ddylanwadu ar batrymau o ran galw a mynediad at wasanaethau fferyllol mewn rhannau o ardal y Bwrdd Iechyd.

2.7.1. Myfyrwyr

Mae Prifysgol De Cymru, sydd â champws mawr yn Nghasnewydd, yn un o brifysgolion mwyaf Cymru, ac mae dros 23,000 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar draws ei gampysau[74] yn ardal y Bwrdd Iechyd. Gall poblogaethau myfyrwyr fod yn symudol iawn ac maent yn dibynnu ar wasanaethau fferyllol lleol, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau iechyd rhywiol megis atal cenhedlu a dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys, cymorth rhoi'r gorau i smygu, brechu a thriniaeth ar gyfer mân anhwylderau. Mae lefelau cynyddol o orbryder, iselder a phryderon iechyd meddwl eraill ymysg myfyrwyr hefyd yn amlygu pwysigrwydd cyngor fferyllol hygyrch, cymorth gyda meddyginiaethau a chyfeirio at wasanaethau ehangach, yn enwedig lle gall myfyrwyr wynebu rhwystrau wrth geisio cael mynediad at rannau eraill o'r system iechyd.

2.7.2. Twristiaid

Mae gweithgarwch ymwelwyr hefyd yn cyfrannu at amrywiad yn y boblogaeth dros dro ar draws ardal y Bwrdd Iechyd gan bod ymwelwyr o Brydain ac ymwelwyr rhyngwladol yn defnyddio gwasanaethau lleol. Ymhlith y prif atyniadau mae Cae Rasio Cas-gwent, Cyrchfan y Celtic Manor, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy, Camlas Mynwy ac Aberhonddu, Parc Trefeglwys ac amrywiaeth o safleoedd treftadaeth megis Castell y Fenni, Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon, Abaty Tyndyrn, Castell Caerffili a Chastell Raglan. Er nad oes data cynhwysfawr ar dwristiaeth ar gael yn rheolaidd ar lefel Bwrdd Iechyd, mae arolygon[75] twristiaeth cenedlaethol yn dangos bod gweithgarwch ymwelwyr yn creu galw

---

Ynglŷn â Phrifysgol De Cymru - Casnewydd

[75] Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr: Ymweliad Dydd 2023, adroddiad ansawdd cefndir) post wedi'i ddiwygio ar ôl yr adolygiad methodolegol

ychwanegol am wasanaethau lleol, gan gynnwys gwasanaethau fferyllol sy'n darparu cyngor, cyflenwad brys a thriniaeth ar gyfer mân anhwylderau.

Mae presenoldeb poblogaethau myfyrwyr ac ymwelwyr yn darparu dealltwriaeth gyd-destunol o amrywiadau yn y defnydd o wasanaethau ac yn pwysleisio bwysigrwydd sicrhau gwasanaethau fferyllol hygyrch ac ymatebol drwy gydol y flwyddyn.

2.8. Cyflyrau Hirdymor

Mae cyflyrau hirdymor yn sbardun mawr o ran morbidrwydd, marwoldeb a'r defnydd o feddyginiaethau ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, ac mae'n arwain at alw parhaus ar wasanaethau fferyllol. Mae cyflyrau megis canser, clefydau cardiofasgwlaidd, diabetes, cyflyrau iechyd meddwl a chlefydau anadlol yn fwy cyffredin ymhlith poblogaethau hŷn ac mewn ardaloedd mwy difreintiedig, gan gyfrannu at anghydraddoldebau iechyd a phatrymau cymhleth o ddefnydd o feddyginiaethau. Mae'r cyflyrau hyn yn gysylltiedig ag ystod o farcwyr iechyd sy'n cael eu siapio gan ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ac maent yn gofyn am driniaeth barhaus, optimeiddio meddyginiaethau a chymorth cydymffurfio.

Mae gan fferyllfa gymunedol rôl allweddol wrth gefnogi pobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor drwy ddefnyddio meddyginiaethau'n ddiogel ac effeithiol, rheoli amlgyffuriaeth, adnabod problemau'n gynnar, cefnogi hunan-reoli a chyfeirio at wasanaethau ehangach. Mae deall amlder a chyffredinrwydd cyflyrau hirdymor felly yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer asesu a yw darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol yn diwallu anghenion y boblogaeth.

2.8.1. Canser

Mae data[76] canser yn dangos bod canser yn parhau i fod yn ffactor sylweddol sy'n cyfrannu at afiechyd a marwolaeth gynamserol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, gyda digwyddedd uwch a chanlyniadau gwaeth yn gysylltiedig ag amddifadedd cynyddol. Mae canserau'r ysgyfaint, y coluddyn, y prostad, a'r fron yn gyfrifol am dros 43% o'r holl farwolaethau o ganser yng Nghymru[77]. Yn 2022, roedd cyfraddau marwolaethau wedi'i safoni yn ôl oedran ar gyfer pob canser (ac eithrio canserau'r croen di-felanoma) i bobl yng Ngwent yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae ffigur

[76] Cancer mortality - Public Health Wales

[77] Wide inequalities in cancer death rates in Wales remain - with no recent improvement - Public Health Wales

14 isod yn dangos amrywiad ar draws ardaloedd y gwahanol awdurdodau lleol. Roedd y cyfraddau uchaf ym Mlaenau Gwent a Chaerffili a'r isaf yn Sir Fynwy.

Ffigur 14 - Marwolaethau a achosir gan bob math o ganser (ac eithrio canserau'r croen nad ydynt yn felanoma Personau)2022



Mae hyn yn amlygu anghydraddoldebau parhaus a chyfleoedd i wasanaethau fferyllol gefnogi pobl yr effeithir arnynt gan ganser, gan gynnwys; rheoli sgil-effeithiau sy'n gysylltiedig â thriniaeth, rhoi'r gorau i ysmygu a chymorth parhaus yn ystod ac ar ôl triniaeth.

2.8.2. Diabetes

Mae Diabetes Math 2 yn achosi marwolaeth gynnar ataliadwy ac anabledd y gellir ei osgoi yng Nghymru, gan gynnwys strôc, clefyd yr arennau, colli rhannau o'r corff, a cholli golwg, yn aml mewn oedolion sydd o oedran gwaith. Mae Cyd-asesiad Strategol (JSA) Gwent 2024/25 yn nodi diabetes fel cyflwr hirdymor sydd ar gynnydd. Mae Ffigur 15 isod yn dangos cynnydd cyson o 0.2 pwynt canran y flwyddyn yng nghyffredinrwydd diabetes ymhlith pobl 17 oed a hŷn, ers 2020. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 4,902 o gleifion ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

Ffigur 15 - Canran diabetes 17+ oed 2020-2024[78]



Mae cyffredinrwydd sy'n cynyddu yn cyfrannu at y galw cynyddol am feddyginiaethau a chymorth i reoli cymhlethdodau cysylltiedig. Gall gwasanaethau fferyllol gefnogi gofal diabetes drwy optimeiddio meddyginiaethau, rhoi cymorth cydymffurfio, rhoi cyngor ar fonitro glwcos yn y gwaed a gweithgarwch atal.

2.8.3. Iechyd meddwl

Mae cyflyrau iechyd meddwl yn gyffredin ar draws pob grŵp oedran yng Ngwent. Mae JSA Gwent yn tynnu sylw at y pwysau parhaus sy'n gysylltiedig â gorbryder, iselder, salwch meddwl difrifol a dementia, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig ac ymhlith pobl hŷn. Mae cyflyrau iechyd meddwl yn yrrwr pwysig o ran y defnydd hirdymor o feddyginiaethau. Gall cyflyrau iechyd meddwl weithiau gydfodoli â defnydd o alcohol neu sylweddau, gan gynyddu cymhlethdod gofal a phwysleisio'r angen am gymorth cydgysylltiedig, yn y gymuned.

Mae tueddiadau dros y blynyddoedd diwethaf yn dangos amrywiadau yn y gyfran o oedolion sy'n adrodd am gyflyrau iechyd meddwl ar draws ardaloedd awdurdodau lleol Gwent, ac yn gyffredinol mae'r patrwm yn dangos cynnydd mewn sawl ardal. Ym Mlaenau Gwent a Chaerffili gwelir lefelau uwch yn gyson dros amser, tra bod Sir Fynwy yn aros yn is ond yn amrywiol[79]. Mae'r patrymau hyn yn dangos bod galw parhaus am gymorth

---

[78] Source: Disease registers by local health board, cluster and GP practice

[79] https://statswales.gov.wales/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Population-Health/Adult-general-health-and-illness/generalhealthillness-by-healthboard

gyda meddyginiaethau ac am ymyriadau iechyd meddwl cymunedol, hygyrch.

Mae Ffigur 16 isod yn dangos, yn 2022–23, fod y gyfran o oedolion 16 oed a hŷn a oedd yn adrodd bod ganddynt gyflwr iechyd meddwl yn uwch yng Ngwent na chyfartaledd Cymru, sef 12.1%. O fewn ardal y Bwrdd Iechyd, roedd y cyfraddau uchaf ym Mlaenau Gwent (16.8%) a Chaerffili (14.8%) ac roedd y cyfraddau isaf yn Sir Fynwy (8.4%). Mae hyn yn amlygu'r amrywiad rhwng ardaloedd awdurdodau lleol.

Ffigur 16– Canran o Oedolion 16 oed a hŷn sy'n adrodd bod ganddynt gyflyrau iechyd meddwl[80]



Mae fferyllfeydd cymunedol yn cefnogi iechyd meddwl drwy gymorth cydymffurfiaeth, adnabod problemau'n gynnar, cyfeirio at wasanaethau arbenigol a darparu gofal hygyrch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

2.8.4. Cyflyrau Anadlol

Mae cyflyrau anadlol megis asthma a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint yn parhau i roi baich sylweddol ar wasanaethau iechyd ar draws Gwent, gyda cyffredinrwydd uwch a chanlyniadau gwaelach mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Mae ysmygu yn parhau i fod yn un o'r ffactorau risg mwyaf.

Mae Ffigur 17 isod yn dangos, yn 2022–23, bod y gyfran o oedolion 16 oed a hŷn yng Ngwent a adroddodd am gwynion yn ymwneud â'r system anadlol yn fras yn gyfartal â chyfartaledd Cymru ar 8.2%, gydag amrywiad ar draws

---

[80] Source: Fframwaith Dangosyddion Gwent 24/25 https://statswales.gov.wales/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Population-Health/Adult-general-health-and-illness/generalhealthillness-by-healthboard)

ardaloedd awdurdodau lleol. Roedd y cyfraddau uchaf yng Nghasnewydd ar 9% ac ym Mlaenau Gwent ar 8.6%, ac roedd y cyfraddau isaf yn Sir Fynwy ar 6.2%.

Ffigur 17 – Canran yr Oedolion 16 oed a hŷn sy'n adrodd am gwynion yn ymwneud â'r system anadlol[81]



Mae gwasanaethau fferyllol yn cefnogi iechyd anadlol drwy wneud gwiriadau o dechnegau defnyddio anadlyddion, gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu, brechu a chymorth ar gyfer hunan-reoli.

Wrth ystyried yr holl dystiolaeth, mae'r adran hon yn dangos bod cyflyrau hirdymor yn parhau i ysgogi'r galw am feddyginiaethau a chymorth fferyllol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, ac yn dangos bod cysylltiad agos rhwng patrymau ac oedran, amddifadedd a lle. Mae'r cyflyrau hyn yn gysylltiedig ag ystod o farcwyr iechyd ehangach sy'n cael eu siapio gan ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, a all gyfyngu ar allu unigolion i wneud neu gynnal newidiadau i'w hymddygiad. Mae'r adran ganlynol, felly, yn ystyried atal, gwella iechyd ac iechyd y cyhoedd, gan ganolbwyntio ar y ffordd y mae gwasanaethau fferyllol yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r dangosyddion iechyd hyn drwy gymorth hygyrch, lleol ac ymyriad cynnar.

2.9. Marcwyr Iechyd, Atal ac Iechyd y Cyhoedd

Gan adeiladu ar yr asesiad o gyflyrau hirdymor, mae'r adran hon yn ystyried y marcwyr iechyd ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd y boblogaeth ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Caiff y marciwr hyn eu siapio gan benderfynyddion iechyd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a masnachol, a all ddylanwadu'n sylweddol ar ymddygiadau iechyd a chyfrannu at anghydraddoldebau iechyd parhaus, yn enwedig mewn

[81] Source: Gwent indicator Framework 24/25 (Adult general health and illness by local authority and health board, 2020-21 onwards)

ardaloedd o amddifadedd. Fel rhanbarth Marmot, rydym yn canolbwyntio'n gryf ar fynd i'r afael â'r amodau y mae pobl yn cael eu geni ynddynt, yn tyfu, yn byw, yn gweithio ac yn heneiddio ynddynt.

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar bum marciwr iechyd blaenoriaeth lle gall gwasanaethau fferyllol chwarae rhan bwysig o ran atal ac iechyd y cyhoedd: ysmygu a fepio; pwysau; iechyd rhywiol; yfed alcohol; a brechu, gan bwysleisio sut y gall gwasanaethau fferyllol gyfrannu drwy ddarparu gwasanaethau ataliol, rhoi cyngor a chymorth o fewn cymunedau lleol, yn enwedig i boblogaethau sy'n wynebu mwy o anfantais.

2.9.1. Ysmygu (gan gynnwys e-sigaréts)

Mae ysmygu yn parhau i fod yn farciwr iechyd sylweddol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd ac mae’n parhau i gyfrannu at anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd. Fel y nodwyd mewn adrannau cynharach, mae ysmygu yn gysylltiedig iawn â digwyddedd a chanlyniadau gwaeth ar gyfer canser, clefydau anadlol a chlefydau cardiofasgwlaidd, ac mae'n cyfrannu at ddatblygiad cyflyrau hirdymor fel diabetes ac yn cyfrannu at eu gwneud yn gynyddol. Mae nifer y bobl sy'n ysmygu hefyd yn uwch ymysg pobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd meddwl. Mae hyn yn dwysau anghydraddoldebau presennol ac yn cynyddu cymhlethdod y defnydd o feddyginiaethau a gofal hirdymor. Mae fferyllfeydd cymunedol, ochr yn ochr â gwasanaethau 'Hepa Fi i Stopio', yn chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag ysmygu drwy wasanaethau rhoi’r gorau i ysmygu hygyrch, cyngor a chymorth, gan gynnwys i boblogaethau sy'n wynebu mwy o amddifadedd, a thrwy hynny'n cyfrannu at atal, ymyrraeth gynnar a lleihau'r galw ar wasanaethau iechyd yn y dyfodol.

Mae Ffigur 18 isod yn dangos, yn 2023, fod cyfran yr oedolion 18 oed a hŷn a oedd yn ysmygwyr cyfredol yn amrywio ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Gwelir y cyfraddau uchaf yn Nhorfaen ar 16.3% a Blaenau Gwent ar 15.8% a'r cyfraddau isaf yn Sir Fynwy ar 7.1%. Roedd cyfradd ysmygu mewn sawl ardal awdurdod lleol yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 12.6%. Mae ysmygu yn cyfrannu at ganser, clefydau anadlol, clefyd cardiofasgwlaidd a diabetes, ac felly mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd cymorth hygyrch i roi'r gorau i ysmygu a ddarperir trwy fferyllfa gymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n profi mwy o anghydraddoldeb iechyd.

Figure Eighteen - Percentage of the 18+ population who are current smokers (annual Population survey)[82]



Er bod cyffredinrwydd ysmygu ymysg plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn gymharol isel[83], mae amlygiad cynnar i nicotin yn parhau i fod yn farciwr iechyd pwysig sy'n cael goblygiadau o ran canlyniadau iechyd yn y dyfodol. Mae patrymau o ddefnyddio nicotin yn newid. Mae mwy o ddefnydd o e-sigaréts ymysg oedolion, er bod lefelau is o ysmygu tybaco. Mae dechrau ysmygu neu ddefnyddio nicotin yn gynnar yn gysylltiedig â risg uwch o ddibyniaeth hirdymor ar dybaco a datblygiad rhai canserau, clefydau anadlol a chlefydau cardiofasgwlaidd yn y dyfodol. Mae'r tueddiadau hyn yn amlygu pwysigrwydd atal ac ymyriad cynnar, gan gynnwys rôl fferyllfa gymunedol wrth ddarparu cyngor, cymorth i roi'r gorau i smygu a chyfeirio pobl ifanc a theuluoedd.

2.9.2. Pwysau

Mae cynnal pwysau iach yn farciwr iechyd allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd y boblogaeth a'r galw am wasanaethau iechyd yn y tymor hir. Pwysau Iach Mae cynllun cyflawni Iechyd Cymru 2025 - 2027[84] yn cydnabod bod gormod o bwysau yn gysylltiedig â mwy o risg o glefyd cardiofasgwlaidd, diabetes math 2, cyflyrau cyhyrysgerbydol a rhai canserau, ac mae'n tynnu sylw at ddylanwad yr amgylchedd fwyd ehangach, gan gynnwys argaeledd, fforddiadwyedd a marchnata bwyd a diod, ar siapio patrymau deietegol. Mae mesurau lleol o fewn Fframwaith Dangosyddion Gwent, gan gynnwys y defnydd o ffrwythau a llysiau a faint o ddiodydd llawn siwgr sy'n cael ei yfed, yn darparu cyd-destun ychwanegol ar dueddiadau deietegol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

---

[82] Source Gwent JSA 24/25 - Smoking habits in the UK and its constituent countries - Office for National Statistics

[83] https://publichealthwales.shinyapps.io/PHOF_Dashboard_Eng/_w_7d77dfd1/

[84] Healthy Weight: Healthy Wales delivery plan 2025 to 2027 [HTML] | GOV.WALES

Mae Ffigur 19 isod yn dangos bod cyfran yr oedolion 16 oed a hŷn a oedd dros eu pwysau neu'n ordew yng Ngwent, yn 2021-2023, yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac roedd amrywiad mawr ar draws ardaloedd yr awdurdodau lleol. Roedd y cyfraddau uchaf ym Mlaenau Gwent a Chaerffili a'r isaf yn Sir Fynwy.

Ffigur 19 - Canran yr oedolion sydd â BMI o 25+ (dros bwysau neu'n ordew)[85]



Mae fferyllfeydd cymunedol yn cyfrannu drwy roi cyngor hygyrch, gwneud ymyriadau byr a chyfeirio at wasanaethau cymorth rheoli pwysau a ffordd o fyw lleol, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n profi mwy o amddifadedd.

Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad y gallai cymorth rheoli pwysau fod yn wasanaeth fferyllol cymunedol posibl yn y dyfodol. Byddai unrhyw wasanaeth ychwanegol yn amodol ar bolisi cenedlaethol, angen wedi'i asesu, capasiti'r gweithlu, trefniadau llywodraethu clinigol a chomisiynu cynaliadwy. Nid yw'r gwasanaethau hyn wedi'u nodi fel bylchau o ran y ddarpariaeth fferyllol ar hyn o bryd.

2.9.3. Iechyd Rhywiol

Mae iechyd rhywiol yn farciwr iechyd pwysig sy'n cyfrannu at les cyffredinol a chanlyniadau iechyd y boblogaeth. Mae'n cynnwys atal, profi a thrin heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STIs), mynediad at atal cenhedlu, a chymorth i osgoi beichiogrwydd anfwriadol. Mae safonau cenedlaethol ar gyfer iechyd rhywiol ac iechyd atgenhedlol yn pwysleisio bod angen mynediad amserol at yr ystod lawn o ddulliau atal cenhedlu, gan gynnwys atal cenhedlu brys ac atal cenhedlu gwrthdroadwy hirdymor (LARC), gyda ffocws arbennig ar fynediad cyfartal i boblogaethau sy'n profi amddifadedd

[85] Table | Lifestyle, 2020-21 onwards (National Survey for Wales) | General health | Health and social care | Data | Home - InfoBaseCymru

neu sy’n agored i niwed. Mae'r safonau hyn yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer asesu darpariaeth gwasanaethau[86] fferyllol.

Mae Adroddiad Blynyddol Tueddiadau Iechyd Rhywiol yng Nghymru: 2025[87] yn amlygu'r amrywiad parhaus mewn STIs ar draws Cymru. Mae oedolion iau yn cael eu heffeithio'n anghymesur ac mae anghydraddoldebau’n bodoli sy'n gysylltiedig ag amddifadedd. Mae gwasanaethau iechyd rhywiol arbenigol yn gyfrifol am wneud diagnosis o heintiau fel gonorrhoea a siffilis a'u trin, ond mae fferyllfeydd cymunedol yn cyfrannu'n sylweddol at atal a gwneud ymyriadau cynnar.

Gall fferyllfeydd cymunedol ddarparu cyngor iechyd rhywiol a rhai dulliau o atal cenhedlu, gan gynnwys atal cenhedlu brys, atal cenhedlu pontio (cyflenwad cychwynnol o 3 mis o'r bilsen progestogen-yn-unig), neu gyfuniad o'r ddau. Y Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Mae Adroddiad[88] Ebrill 2023 i Fawrth 2024 yn nodi bod ymgynghoriadau atal cenhedlu mewn fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru yn 2023-24 wedi cynyddu, a bod mwyafrif helaeth yr ymgynghoriadau (97.0%) ar gyfer atal cenhedlu brys yn unig, sef gwasanaeth fferylliaeth gymunedol hirsefydlog.

Er bod cyfraddau beichiogrwydd yn yr arddegau wedi gostwng dros amser yn genedlaethol, mae amrywiad yn parhau rhwng ardaloedd lleol ac mae cysylltiad ag rhwng hyn ac amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Mae sicrhau mynediad teg at gyngor iechyd rhywiol a dulliau atal cenhedlu, felly, yn parhau i fod yn bwysig wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chefnogi iechyd a chyfleoedd bywyd pobl ifanc.

Gall fferyllfeydd cymunedol gyfrannu at iechyd rhywiol drwy ddarparu atal cenhedlu hormonaidd brys, cymryd rhan mewn ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus, cyfeirio at wasanaethau profi a thrin STI, a rhoi cyngor yn ystod ymgynghoriadau arferol. Gall mynediad at fferyllfa, gan gynnwys oriau agor estynedig a'r gallu i ymweld heb apwyntiad, wella mynediad prydlon at atal cenhedlu a chyngor, yn enwedig pan fo gwasanaethau gofal sylfaenol eraill ar gau. Mae'r rôl hygyrch, gymunedol hon yn cefnogi atal, ymyrraeth gynnar a lleihau'r galw ar wasanaethau iechyd ehangach yn y dyfodol.

2.9.4. Alcohol a yfir

---

[86] Overview | Contraceptive services for under 25s | Guidance | NICE

[87] phw.nhs.wales/publications/publications1/sexual-health-trends-in-wales-annual-report-2025/

[88] https://www.gov.wales/community-pharmacy-services-april-2023-march-2024-html#159863

Mae'r defnydd o alcohol yn farciwr iechyd pwysig sy'n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth a'r galw am wasanaethau yn y tymor hir. Mae yfed gormod o alcohol yn gysylltiedig â risg uwch o nifer o ganserau, clefyd cardiofasgwlaidd, clefyd yr afu ac iechyd meddwl gwael, a gall gyfrannu at ddefnydd cymhleth o feddyginiaethau a chydafiachedd. Mae patrymau o yfed alcohol hefyd yn cael eu llywio gan ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, gan gynnwys amddifadedd, argaeledd a fforddiadwyedd, ac maent yn gysylltiedig ag anghydraddoldebau iechyd.

Mae Ffigur ugain yn dangos bod cyfran yr oedolion 16 oed a hŷn sy'n adrodd eu bod yn yfed mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos wedi amrywio ar draws ardal y Bwrdd Iechyd yn 2021–2023. Yr oedd y cyfraddau uchaf ym Sir Fynwy a Thorfaen ac ar eu hisaf yng Nghasnewydd a Blaenau Gwent. Mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol, roedd y defnydd a adroddwyd o dros 14 uned yr wythnos yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r gwahaniaethau hyn yn amlygu amrywiad yn y marcwyr iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol ar draws Gwent ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd atal a ymyriad cynnar.

Ffigur 20 - Canran o Oedolion (16+) a adroddodd eu bod yn yfed dros 14 uned o alcohol yr wythnos (canran wedi'i safoni yn ôl oedran)[89].



Mae fferyllfeydd cymunedol yn cyfrannu drwy wneud ymyriadau byr, rhoi cyngor pan mae’r cyfle’n codi, adolygu meddyginiaethau a chyfeirio at wasanaethau arbenigol camddefnyddio sylweddau. Mae eu hygyrchedd o fewn cymunedau lleol yn galluogi ymgysylltu cynnar ac yn cefnogi lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn enwedig i boblogaethau sy'n profi anfantais.

2.9.5. Brechu

Mae brechu yn parhau i fod yn un o'r ymyriadau iechyd cyhoeddus mwyaf effeithiol. Maent yn amddiffyn unigolion a chymunedau rhag afiechydon

[89] Table | Lifestyle, 2020-21 onwards (National Survey for Wales) | General health | Health and social care | Data | Home - InfoBaseCymru

heintus difrifol ac yn atal derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau y gellir eu hosgoi. Fodd bynnag, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd 2025/26 – Y Sgwrs Fawr am Frechu[90] yng Ngwent, mae nifer y bobl sy'n manteisio ar frechiadau ar draws Gwent yn amrywio yn ôl y brechlyn a'r grŵp poblogaeth, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae gostyngiad wedi bod yng nghyrhaeddiad rhai o'r rhaglenni brechu. Mae'r data am y nifer sy'n manteisio a gyflwynir yn yr adroddiad yn dangos, er bod rhai rhaglenni'n cyrraedd targedau cenedlaethol neu'n agos atynt (e.e., brechu rhag y ffliw ymhlith oedolion hŷn), bod eraill yn is na'r lefelau darpariaeth a argymhellir, gan gynnwys brechiadau plentyndod, a'r nifer sy'n manteisio ar frechiadau HPV a phigiadau atgyfnerthu COVID-19 ymhlith grwpiau cymwys.

Roedd rhwystrau ymarferol i frechu yn thema gyson o fewn ymgysylltiad Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, gan gynnwys ymwybyddiaeth gyfyngedig o wasanaethau brechu fferyllfeydd a heriau'n ymwneud â thrafnidiaeth a oedd yn effeithio ar fynediad i glinigau canolog. Mae presenoldeb fferyllfeydd cymunedol lleol o fewn cymdogaethau yn cynnig cyfle i liniaru'r rhwystrau hyn, gan fod fferyllfeydd yn aml yn hygyrch ar droed, drwy lwybrau trafnidiaeth lleol a heb fod angen apwyntiadau ffurfiol. Gallai cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau brechu a ddarperir mewn fferyllfeydd, felly, wella cyfleustra, lleihau rhwystrau sy'n gysylltiedig â theithio ac arwain at gyfraddau tecach o ran nifer y bobl sy'n manteisio ar frechlynnau.

Mae fferyllfeydd yn darparu gwasanaethau brechu hygyrch, cymunedol, yn enwedig ar gyfer brechu tymhorol rhag y ffliw, gan leihau'r galw ar feddygfeydd cyffredinol a gwella cyfleustra i oedolion o oedran gweithio a grwpiau sy'n cael eu tanwasanaethu. Mae eu horiau agor estynedig, eu presenoldeb lleol mewn cymdogaethau, a'u perthnasoedd sefydledig â chleifion yn eu gosod mewn sefyllfa i gynyddu nifer y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, darparu sicrwydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, atal camwybodaeth, a chefnogi mynediad teg. Felly, mae gwasanaethau brechu a ddarperir gan fferyllfeydd yn ffurfio elfen allweddol o gynnig atal y Bwrdd Iechyd a'i ymrwymiad i leihau anghydraddoldebau o ran cwmpas imiwneiddio ar draws Gwent.

Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod brechiad atgyfnerthu COVID-19, brechiad firws niwmococol a Feirws Syncytiol Anadlol yn wasanaethau y gellid, o bosib, eu darparu mewn fferyllfa gymunedol yn y dyfodol. Pe byddai'r rhain yn cael eu ehangu, byddai hyn yn amodol ar bolisi

[90] The-Big-Gwent-Vaccination-Conversation-DPH-Annual-Report-2025.pdf

cenedlaethol, angen wedi’i asesu, capasiti'r gweithlu, trefniadau llywodraethu clinigol a chomisiynu cynaliadwy. Nid yw'r gwasanaethau hyn wedi'u nodi fel bylchau o ran y ddarpariaeth fferyllol ar hyn o bryd.

2.10 Crynodeb

Mae'r bennod hon yn dangos bod nodweddion poblogaeth, amddifadedd, daearyddiaeth a marcwyr iechyd ehangach yn llywio dosbarthiad cyflyrau hirdymor a'r ffordd y mae pobl yn cael mynediad at wasanaethau fferyllol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Mae amrywiad amlwg yn bodoli rhwng ardaloedd awdurdodau lleol, a chaiff anghydraddoldebau eu hadlewyrchu mewn disgwyliad oes iach, cyffredinrwydd cyflyrau hirdymor, a dangosyddion sy'n gysylltiedig ag atal. Mae gwasanaethau fferyllol felly'n gweithredu o fewn cyd-destun cymhleth, lleol, lle mae hygyrchedd, parhad ac atal wedi'i dargedu yn hanfodol.

Mae'r bennod nesaf yn nodi'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, gan sefydlu'r llinell sylfaen y mae asesiad o ddigonolrwydd ac angen yn y dyfodol yn cael ei wneud yn seiliedig arni.

Pennod Tri – Darpariaeth Bresennol o Wasanaethau Fferyllol

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd a thu hwnt i'w ffiniau. Mae'n adeiladu ar y diffiniadau, y fframwaith deddfwriaethol a chwmpas y gwasanaeth a nodir ym Mhennod Un ac yn canolbwyntio ar argaeledd, hygyrchedd a dosbarthiad gwasanaethau fferyllol. Yn ogystal â disgrifio'r ddarpariaeth o wasanaethau, mae'r bennod yn ymgorffori tystiolaeth sy'n deillio o ymgysylltiad â chleifion, y cyhoedd a chontractwyr er mwyn rhoi cipolwg cyd-destunol ar y ffordd y ceir mynediad at wasanaethau fferyllol a'r ffordd y cânt eu darparu yn ymarferol. Mae'r bennod yn sefydlu llinell sylfaen ffeithiol o ddarpariaeth a phrofiad ac nid yw'n asesu digonolrwydd nac yn nodi bylchau. Caiff y rhain eu hystyried mewn penodau diweddarach.

3.1. Darpariaeth gwasanaethau fferyllol o fewn ardal y Bwrdd Iechyd

Mae'r adran hon yn disgrifio argaeledd presennol gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfeydd cymunedol, contractwyr cyfarpar sy'n dosbarthu a meddygon fferyllol o fewn ardal y Bwrdd Iechyd, fel y'i diffinnir ym Mhennod Un.

3.1.1. Contractwyr Cyfarpar sy'n Dosbarthu

Fel y soniwyd ym Mhennod Un, nid oes unrhyw gontractwyr cyfarpar sy'n dosbarthu wedi'u lleoli yn Ardal y Bwrdd Iechyd. Caiff presgripsiynau ar gyfer offer eu cyflenwi gan fferyllfeydd cymunedol neu feddygon fferyllol o fewn ardal y Bwrdd Iechyd neu cânt eu dosbarthu o du allan i ardal y Bwrdd Iechyd.

3.1.2. Meddygon Fferyllol

O ran y gwasanaethau a gynigir gan feddygon fferyllol, dim ond cyflenwi cyffuriau neu offer rhestredig sy'n cael eu dosbarthu gan ddeddfwriaeth.[91] fel gwasanaeth fferyllol sy'n dod o dan y PNA hwn.

Mae 13 o feddygon fferyllol o fewn ardal y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain yn cynnwys safleoedd cangen a chânt eu gweithredu gan 11 o feddygfeydd teulu sy'n gallu cyflenwi i gleifion cymwys fel y disgrifir ym Mhennod Un. Mae un o'r fferyllfeydd yn cael ei rhedeg gan bractis meddyg teulu y tu allan

[91] Atodlen 7 Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

i ardal y Bwrdd Iechyd yng Nghaerloyw ac mae wedi'i chynnwys yn yr adran hon gan ei bod yn darparu gwasanaeth fferyllol i gleifion yn ein hardal. Mae un practis Meddyg teulu o fewn ardal y Bwrdd Iechyd sydd â fferyllfa y tu allan i'r ardal, nad yw wedi'i gynnwys yn y bennod hon.

3.1.2.1. Argaeledd gwasanaeth

Mae practisau meddygon teulu fferyllol yn darparu gwasanaeth cyflenwi yn ystod eu horiau agor arferol o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc. Bydd gwasanaethau a ddarperir o feddygfa gangen yn adlewyrchu oriau agor y gangen . Gweler atodiad M

Fel y disgrifiwyd ym Mhennod Un, mae'r rheoliadau ynghylch darparu gwasanaeth cyflenwi gan feddygon yn gymhleth ac yn golygu mai dim ond pobl sydd:

- Yn byw mewn ardal reoledig (fel arfer gwledig ei natur) o fewn pellter o fwy nag 1.6km mewn llinell syth o fferyllfa; a
- Wedi cofrestru gyda phractis sydd â hawliau hanesyddol neu ganiatâd i gyflenwi ac sydd wedi cael cymeradwyaeth safle ar gyfer pob fferyllfa a;
- Yn cael anhawster difrifol i gael gafael ar gyffuriau neu offer angenrheidiol oherwydd pellter neu rwystrau o ran cyfathrebu

Bydd y bobl hyn yn byw yn yr ardal a gwmpesir gan restr gofrestru'r practis ac at ddibenion y PNA mae pellteroedd i feddygon fferyllol y tu allan i gwmpas y PNA hwn. Dylid nodi bod cleifion yn parhau i fod yn rhydd i ddefnyddio fferyllfa gymunedol o'u dewis.

3.1.2.2. Gweithgaredd cyflenwi

Ym mis Tachwedd 2025, roedd y practisiau meddygon fferyllol o fewn ardal y Bwrdd Iechyd yn cyflenwi meddyginiaethau i 26,209 o'u cleifion cofrestredig (4.15% o gyfanswm maint y rhestr ar gyfer pob un o'r 67 Meddygfa). Mae canran y cleifion sy'n cael eu meddyginiaethau yn y practisau yn amrywio o rhwng 5% a 94% o'u cleifion cofrestredig.

Yn 2024/25, cyflenwodd y meddygon fferyllol hyn 708,660 o bresgripsiynau (4.13% o'r holl bresgripsiynau a roddwyd a 4.09% o'r holl bresgripsiynau a ysgrifennwyd yn ABUHB).[92]

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

3.1.3. Fferyllfeydd cymunedol:

Ym mis Chwefror 2026, roedd 105 o fferyllfeydd wedi'u cynnwys ar restr fferyllol y Bwrdd Iechyd, ac roeddynt yn cael eu rhedeg gan 55 o gontractwyr gwahanol.

3.1.3.1. Argaeledd gwasanaeth

Mae Atodiad N yn darparu gwybodaeth am oriau agor fferyllfeydd cymunedol ym mis Chwefror 2026 ac ar yr adeg honno roedd:

- 8 fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- 22 o fferyllfeydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- 39 o fferyllfeydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac am hanner diwrnod ar ddydd Sadwrn.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio data pellter i adlewyrchu hygyrchedd at wasanaethau fferyllfa. Dadansoddwyd lleoliadau fferyllfeydd gan GIG Cymru Iechyd a Gofal Digidol Cymru . Fel y gwelir o Fap 9, mae’r rhan fwyaf o boblogaeth y Bwrdd Iechyd yn byw o fewn 10 munud mewn car i fferyllfa

Map 9 – Taith a gymerwyd i gael mynediad at fferyllfa



3.1.3.2. Gweithgaredd cyflenwi

Yn ystod 2024/25, cafodd 97.17% o'r 17,308,966 o eitemau'r GIG a bresgripsiynwyd o fewn ardal y Bwrdd Iechyd eu dosbarthu o fewn ardal y Bwrdd Iechyd. O'r rhain, dosbarthwyd 95.79% gan fferyllfeydd cymunedol.

O'r 2.83% o bresgripsiynau na chafodd eu dosbarthu o fewn ardal y Bwrdd Iechyd, dosbarthwyd 24.77% mewn ardaloedd eraill o Gymru, dosbarthwyd 40.11% yn Lloegr. a rhoddwyd 35.12% gan y presgripsiynwr ei hun.[93]

3.1.3.3. Argaeledd a gweithgaredd gwasanaethau clinigol ychwanegol

3.1.3.3.1. Y Gwasanaeth Fferyllfeydd Cymunedol Clinigol

Mae'r Gwasanaeth Fferyllfeydd Cymunedol Clinigol yn dwyn ynghyd dri modiwl gwasanaeth, a nodir isod, er mwyn sicrhau cysondeb o ran mynediad.

- **Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin**

Mae'r Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin yn darparu cyngor a thriniaeth a ariennir gan y GIG ar gyfer ystod o gyflyrau penodol megis acne, brech yr ieir, llid yr amrant, llau pen, dolur gwddf/tonsilitis a ferwcau. Mae cleifion yn cofrestru gyda fferyllfa ac yn cael ymgynghoriad gyda fferyllydd, maent yn cael cyngor ar reoli a thriniaeth lle bo angen, neu maent yn cael eu hatgyfeirio os oes angen. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio sgiliau clinigol fferyllwyr ac yn cynnig dewis arall i gleifion yn lle gwneud apwyntiad gyda meddyg teulu.

Mae pob un o'r 125 fferyllfa ar restr fferyllol y Bwrdd Iechyd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth a chynhaliwyd 70,637 o ymgynghoriadau yn ystod 2024/25.

- **Gwasanaeth Atal Cenhedlu**

Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi cyflenwad o ddulliau atal cenhedlu brys, trefniadau pontio neu ddulliau atal cenhedlu cychwyn cyflym gan fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol. Caiff hyn ei ariannu gan y GIG. Nod y gwasanaeth yw lleihau beichiogrwydd heb ei gynllunio drwy wella mynediad at ddulliau atal cenhedlu brys a chyngor iechyd rhywiol.

Mae pob un o'r 125 o fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth ac yn ystod 2024/25 darparwyd 4,602 o ymgynghoriadau.

- **Cyflenwad Meddyginiaethau Brys**

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Mae'r Gwasanaeth Cyflenwi Meddyginiaethau Brys yn darparu mynediad at feddyginiaeth sydd wedi'i roi ar bresgripsiwn yn flaenorol i gleifion mewn sefyllfaoedd lle mae angen brys am y feddyginiaeth presgripsiwn yn unig, a lle y byddai'n anymarferol o dan yr amgylchiadau i gael presgripsiwn heb achosi oedi gormodol. Mae cost y feddyginiaeth a gyflenwir yn cael ei hariannu gan y GIG a nod y gwasanaeth yw lleihau'r baich ar ofal y tu allan i oriau a gofal brys drwy gael gwared ar y rhwystr cost sy'n gysylltiedig â chyflenwadau brys preifat o feddyginiaeth.

Rheoliad 225 o Ddeddf Meddyginiaethau Dynol 2012[94] yw'r brif ddeddfwriaeth o hyd sy'n llywodraethu cyflenwad brys o feddyginiaeth ar gais claf a rhaid cyflenwi pob meddyginiaeth yn unol â'r rheoliad.

Mae pob un o'r 125 fferyllfa yn ardal y Bwrdd Iechyd yn darparu'r gwasanaeth ac yn ystod 2024/25, cyflenwyd 23,257 o ymgynghoriadau a 40,458 o feddyginiaethau.

3.1.3.3.2. Gwasanaeth Fferyllydd-bresgripsiynydd Annibynnol

Mae gwasanaeth y Fferyllydd-bresgripsiynydd Annibynnol yn rhoi mynediad i gleifion sy'n dod i'r fferyllfa gymunedol am gyngor a thriniaeth effeithiol ar ystod o gyflyrau acíwt ac atal cenhedlu, sy'n berthnasol i'w hanghenion clinigol, gan Fferyllydd-bresgripsiynydd Annibynnol. Mae'r gwasanaeth yn galluogi cleifion i gael mynediad at ofal clinigol a ariennir gan y GIG heb yr angen i weld meddyg teulu.

Yn ystod 2024/25, comisiynwyd 57 o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth a chynhaliwyd 24,692 o ymgynghoriadau ganddynt.

3.1.3.3.3. Gwasanaeth Imiwneiddio rhag y Ffliw

Mae'r gwasanaeth hwn yn caniatáu i fferyllfeydd ddarparu imiwneiddiad rhag y ffliw i'r cleifion hynny mewn grwpiau risg y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ac yn lleol. Mae'n cefnogi'r ddarpariaeth ehangach o imiwneiddio rhag y ffliw a thrwy gynyddu mynediad, mae'n anelu at gynyddu cyfran yr unigolion sy'n wynebu risg sy'n derbyn imiwneiddiad a thrwy hynny helpu i leihau morbidrwydd a marwolaethau.

Yn ystod tymor 2024/25, comisiynwyd 124 o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth a brechwyd 14,563 o unigolion.

3.1.3.3.4. Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2

Mae'r gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2 yn cysylltu fferyllfeydd cymunedol yn ffurfiol â rhaglen cymorth ymddygiadol ddwys Helpa Fi i

---

[94] Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012

Stopio (HMQ) ac mae’n gwella mynediad at therapi disodlo nicotin (NRT) er mwyn cryfhau ymdrechion i roi'r gorau i ysmygu. O dan y gwasanaeth hwn, mae contractwyr fferyllol yn cyflenwi NRT i unigolion ar ôl derbyn llythyr atgyfeirio HMQ yn cadarnhau dibyniaeth ar nicotin.

Mae cant a dau ddeg dau o fferyllfeydd wedi'u comisiynu ar gyfer y gwasanaeth ac yn ystod 2024/25, darparwyd 5,040 o ymgynghoriadau.

3.1.3.3.5. Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3

Mae'r gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3 wedi'i gynllunio i ddarparu cymorth ymddygiadol cynhwysfawr a gwasanaeth triniaeth NRT i gleifion er mwyn eu helpu i roi'r gorau i ysmygu dros raglen 12 wythnos.

Mae naw deg pedwar o fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth a darparwyd 3,513 o ymgynghoriadau i gleifion yn ystod 2024/25.

3.1.3.3.6. Rhaglen Nodwyddau a Chwistrellau

Prif nod y gwasanaeth hwn yw helpu i leihau lledaeniad HIV, Hepatitis C a firysau eraill a gludir yn y gwaed ymhlith defnyddwyr cyffuriau sy'n chwistrellu trwy ddarparu mynediad cyfleus i gleientiaid at becyn o offer chwistrellu di-haint a chyfleuster ar gyfer cael gwared ar offer a ddefnyddiwyd yn ddiogel, a thrwy hynny leihau'r risg yn y gymuned.

Mae un ar hugain o fferyllfeydd wedi'u comisiynu ar draws ardal y Bwrdd Iechyd ac maent yn darparu elfennau o wasanaeth haenog:

- mae lefel un yn wasanaeth cyflenwi yn unig ac mae 15 o gontractwyr wedi'u comisiynu i gyflenwi cyflenwadau wedi'u pecynnu ymlaen llaw a 6 yn cyflenwi trwy drefniant dewis a chymysgu.
- Mae lefel dau yn cynnwys yr un swyddogaeth gyflenwi â lefel 1 ond mae'n ychwanegu amod o ddarparu cyngor rhagweithiol, cyfeirio ac adnabod unigolion ar gyfer profion firysau a gludir yn y gwaed. Mae dau gontractwr yn cael eu comisiynu i ddarparu hyn ochr yn ochr â chyflenwi offer wedi'i becynnu ymlaen llaw.
- Mae Lefel 3 yn cynnwys naill ai lefel 1 neu lefel 2 ynghyd â darparu naloxone i'w gymryd adref a chyngor/hyfforddiant ar ei ddefnyddio’n diogel. Mae tri chontractwr wedi'u comisiynu ar gyfer hyn yn ABUHB.

Yn ystod 2024/25 cynhaliodd fferyllfeydd 7,095 o gysylltiadau unigol ar gyfer y gwasanaeth.

3.1.3.3.7. Gwasanaeth Cyflenwi Meddyginiaethau Brys

Mae'r gwasanaeth Cyflenwi Meddyginiaethau Brys wedi'i gomisiynu mewn 25 o fferyllfeydd ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Mae dwy lefel o

ddarpariaeth gwasanaeth; mae lefel 1 yn darparu ystod eang o feddyginiaethau gan gynnwys y rhai sydd eu hangen fel arfer ar gyfer gofal diwedd oes, triniaeth frys ar gyfer gwrthgeulyddion a phroffylacsis gwrthfeirysol. Mae Lefel 2 yn cynnwys ystod fwy arbenigol o feddyginiaethau gofal lliniarol a gwrthficrobaidd ac mae'n gysylltiedig â gwasanaeth gofal lliniarol ar alwad y fferyllfa gymunedol.

Mae un deg chwech o fferyllfeydd wedi'u comisiynu ar gyfer y gwasanaeth lefel 1 ac mae 9 arall yn darparu'r gwasanaeth lefel 2.

3.1.3.3.8. Gwasanaeth rhoi meddyginiaeth dan oruchwyliaeth

Mae'r gwasanaeth Gweinyddiaeth dan Oruchwyliaeth yn cefnogi'r amrywiol wasanaethau dibyniaeth o fewn ABUHB trwy ddarparu mynediad at oruchwyliaeth wrth gymryd therapi wedi'i phresgripsiynu. Nod y gwasanaeth yw cefnogi cleifion i lynu wrth gynlluniau triniaeth y cytunwyd arnynt a lleihau'r risg o ddefnydd amhriodol a dargyfeirio meddyginiaethau.

Mae cant a phedwar ar ddeg o fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ac yn ystod 2024/25 goruchwyliwyd 70,435 o ddosau o feddyginiaeth.

3.1.3.3.9. Gwasanaeth Cyflenwi Prawf Llif Unffordd

Mae'r Gwasanaeth Cyflenwi Prawf Llif Unffordd (LFT) wedi'i gomisiynu er mwyn galluogi cleifion sy'n gymwys ar gyfer triniaeth wrthfeirysol COVID-19 i gael mynediad at gyflenwad o LFTs i'w cadw gartref.

Mae naw deg dau o fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ac yn ystod 2024/25 darparwyd 2,346 o becynnau LFT i unigolion cymwys.

3.1.3.3.10. Mynediad i'r gwasanaeth Profi am Feirysau a Gludir yn y Gwaed

Bwriad y Gwasanaeth Profi ar gyfer Feirysau a Gludir yn y Gwaed yw cynyddu mynediad at sgrinio ar gyfer firysau a gludir yn y gwaed, y driniaeth gysylltiedig a'r cyngor iechyd, ac ymwybyddiaeth ohono. Ei nod yw cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu profi am firysau a gludir yn y gwaed a lleihau'r risgiau iechyd personol a chyhoeddus sy'n gysylltiedig â Hepatitis-B, Hepatitis C a HIV.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gomisiynu mewn 11 fferyllfa ledled Gwent ac mae wedi cwblhau 296 o brofion yn 2024/25.

3.1.3.3.11. Mynediad at wasanaethau fferyllol y tu allan i oriau gwaith - darpariaeth rota

Mae rotâu ar waith er mwyn sicrhau mynediad at wasanaethau fferyllol ar nosweithiau yn ystod yr wythnos, ar ddydd Sul a gwyliau cyhoeddus a

gwyliau banc. Mae eu manylion wedi'u cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd. Mae posteri yn cadarnhau pa fferyllfeydd fydd ar agor, a phryd, hefyd yn cael eu harddangos yn y fferyllfeydd.

Mae Rheoliadau 80 ac 81 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006[95] yn nodi dyletswydd ar y Bwrdd Iechyd i wneud trefniadau o fewn ei ardal ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol i bersonau o fewn yr ardal honno. Fodd bynnag, nid yw'r rheoliadau'n nodi'r dyddiau a'r amseroedd y mae'n rhaid i'r rhain fod ar gael: dim ond bod "cyffuriau, meddyginiaethau ac offer rhestredig priodol a digonol" a gwasanaethau ychwanegol cyfeiriedig yn cael eu darparu.

Nid oes yn rhaid i Fferyllfeydd Cymunedol a Chontractwyr cyfarpar sy’n dosbarthu (DACs) agor ar Ddydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith, Sul y Pasg nac unrhyw ŵyl y banc. At hyn, dim ond o leiaf 40 awr (Fferyllfeydd) a 30 awr (DACs) o wasanaethau fferyllol sydd angen iddynt eu darparu bob wythnos oni bai bod y Bwrdd Iechyd yn cyfarwyddo fel arall. Adlewyrchir hyn yn y ffaith mai dim ond wyth fferyllfa sy'n agor yn fasnachol ar y Sul.

I gefnogi mynediad at wasanaethau fferyllol ar Dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith, Sul y Pasg a gwyliau banc , mae'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu gwasanaethau fferyllol pellach ar sail rota. At hyn, mewn ardaloedd lle nad yw fferyllfeydd yn gweithredu gydag oriau estynedig, mae rota ar ddiwrnodau'r wythnos yn darparu'r gwasanaeth ychwanegol.

Mae pymtheg ar hugain o fferyllfeydd yn darparu gwasanaeth rheolaidd ar y Sul rhwng 18:00 a 20:00 ar sail rota er mwyn rhoi mynediad at wasanaethau cyflenwi ym mhob un o bum Ardal y Bwrdd Iechyd.

Mae 64 o fferyllfeydd eraill yn darparu gwasanaeth ar draws ardal y Bwrdd Iechyd ar ddydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith, Sul y Pasg a gwyliau banc. Yn ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen, darperir rotâu yn ystod yr wythnos rhwng 17:30 a 18:00 neu 18:30 yn dibynnu ar yr ardal.

3.1.3.3.12. Gwasanaeth Cofnodi Gweinyddu Meddyginiaethau (MAR)

Mae'r Gwasanaeth MAR yn cefnogi gweinyddu meddyginiaethau'n ddiogel i gleifion gofal cartref trwy gyflenwi siartiau MAR clir a chywir mewn ymateb i bresgripsiynau a gyflwynir a sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng fferyllfeydd, darparwyr gofal a phresgripsiynwyr. Ei nod yw gwella defnydd

[95] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/42

diogel ac effeithiol o feddyginiaethau a darparu cymorth fferyllol hygyrch ar gyfer datrys problemau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau.

Mae wyth deg pump o fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ac yn 2024/25, darparwyd 2,376 o siartiau MAR.

3.1.3.3.13. Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion

Mae'r Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion yn cefnogi cleifion sy'n defnyddio meddyginiaethau anadladwy drwy asesu a gwella techneg defnyddio anadlydd, optimeiddio glynu wrth driniaeth, a nodi asthma neu COPD nad ydynt yn cael eu rheoli'n dda. Mae hefyd yn anelu at leihau gwastraff meddyginiaethau a hyrwyddo presgripsiynu sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol drwy adolygu’r mathau o anadlyddion ac addasrwydd ar gyfer dewisiadau amgen carbon is. Mae Lefel 1 yn canolbwyntio ar dechneg defnyddio anadlydd ac ystyriaethau amgylcheddol, tra bod Lefel 2 yn darparu adolygiad clinigol manwl o reolaeth o symptomau asthma neu COPD.

Mae pedwar deg saith o fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth yn BIPAB ac yn ystod 2024/25, cynhaliwyd 1,164 o adolygiadau lefel un. Yn ystod yr un cyfnod, darparwyd dau adolygiad lefel dau.

3.1.3.3.14. Adolygiad o Feddyginiaethau wrth Ryddhau (DMR)

Mae'r Gwasanaeth DMR yn cefnogi cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o leoliad gofal trwy gysoni meddyginiaethau er mwyn lleihau gwallau, gwella diogelwch a chynnal parhad gofal. Mae'n gwella cyfathrebu rhwng ysbytai, fferyllfeydd cymunedol a meddygfeydd teulu, yn gwella dealltwriaeth cleifion o'u meddyginiaethau, yn lleihau gwastraff a phresgripsiynau â ddyblygir, ac yn helpu i atal ail-dderbyniadau y gellir eu hosgoi. Mae'r gwasanaeth yn gwneud defnydd effeithiol o sgiliau fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol i sicrhau parhad gwybodaeth gywir am feddyginiaethau wrth drosglwyddo gofal.

Mae pob fferyllfa yn BIPAB wedi'i chomisiynu ac yn gallu darparu'r gwasanaeth. Yn ystod 2024/25, cwblhawyd 2,494 o DMRs.

3.1.3.3.15. Gwasanaeth Lleihau Gwastraff

Nod y Gwasanaeth Lleihau Gwastraff Fferyllfeydd Cymunedol yw lleihau gwastraff presgripsiwn a meddyginiaeth amlroddadwy diangen trwy ofyn i gleifion a oes angen pob eitem ar bresgripsiwn amlroddadwy pan fyddant yn cael eu casglu. Mae timau fferyllfa yn nodi meddyginiaethau “pan fo angen” a meddyginiaethau defnydd amrywiol ac yn trafod rhesymau pam nad oes angen eitemau. Mae eitemau nad oes eu hangen yn cael eu cymeradwyo'n briodol ac mae'r rhan fwyaf o gost eu cyflenwi’n cael ei

harbed. Caiff penderfyniadau clinigol pwysig eu pasio ymlaen i bresgripsiynwyr gyda chydsyniad y claf. Mae'r gwasanaeth yn gwella'r gallu i optimeiddio meddyginiaethau, yn lleihau gwastraff y gellir ei osgoi, ac yn cefnogi arferion presgripsiynu a dosbarthu mwy diogel. Yn BIPAB, mae 106 o fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ac yn 2024/25 gwnaed 16,518 o ymyriadau ac ataliwyd gwerth £278,363 o feddyginiaethau diangen rhag cael eu rhoi.

3.1.3.3.16. Therapi a Arsylwyd yn Uniongyrchol

Mae'r gwasanaeth Therapi a Arsylwyd yn Uniongyrchol yn galluogi fferyllfeydd cymunedol i helpu cleifion i gadw at eu cynllun triniaeth y cytunwyd arno trwy roi meddyginiaeth ar bresgripsiwn mewn rhandaliadau penodol a bod yn dyst i'r dosau a gymerir. Mae wedi cael ei ddefnyddio'n aml ar gyfer meddyginiaethau twbercwlosis a'r bwriad yw cefnogi unigolion sydd ag anghenion meddyginiaeth cymhleth. Er nad oes unrhyw fferyllfeydd wedi'u comisiynu ar hyn o bryd, mae'n parhau i fod ar gael i'w gomisiynu ar gais y presgripsiynwr i ddiwallu anghenion y claf.

3.1.3.3.17. Gwasanaeth Cyflenwi Tîm DOTS Twbercwlosis

Mae dwy fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu gwasanaeth cymorth i Therapi a Arsylwyd yn Uniongyrchol (DOT) y Bwrdd Iechyd ar gyfer Twbercwlosis. Mae tîm DOTs wedi'i leoli yn Ysbyty Gwynllyw, Casnewydd ac mae'r gwasanaeth wedi'i gomisiynu gyda dwy fferyllfa sy'n lleol i'r gwasanaeth. Yn ystod 2024/25, darparodd y fferyllfeydd 250 o achosion o gefnogaeth i dîm DOT.

3.1.3.3.18. Gwasanaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau gwaith

Mae'r Gwasanaeth Gofal Lliniarol y Tu Allan i Oriau Gwaith yn darparu mynediad ar alwad i ystod gytunedig o feddyginiaethau arbenigol yn unol â'r fanyleb a nodir yn y Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 2. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar y cyd â Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau Gwent a'r Gwasanaeth Cludiant Brys i ddarparu mynediad brys at feddyginiaethau diwedd oes ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

Mae naw fferyllydd yn darparu'r gwasanaeth hwn ar sail rota gan sicrhau bod y gwasanaeth ar gael 24 awr. Yn 2024/25 ymatebodd y fferyllwyr i 193 o alwadau am fynediad brys at feddyginiaethau gofal lliniarol yn ystod y cyfnod y tu allan i oriau gwaith.

3.1.3.3.19. Gwasanaeth Dosbarthu Fferyllfa i Garchar Brynbuga a Charchar Prescoed

Mae dau garchar o fewn ardal y Bwrdd Iechyd:

- Mae Carchar Brynbuga yn garchar dynion Categori C, wedi'i leoli yn Stryd Maryport ym Mrynbuga; a
- Mae CEF Prescoed yn garchar agored, sy'n dal dynion sydd wedi'u heuogfarnu categori D, ac sydd wedi'i leoli ym mhentref Coed-y-Paen.

Mae'r ddau garchar yn cael eu gweithredu gan Wasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi, ac yn cael eu rheoli ar y cyd.

Yn 2024/25, rhagnodwyd a dosbarthwyd 26,673 o eitemau i boblogaeth y carchardai fel rhan o wasanaethau fferyllol. Er mwyn sicrhau bod yr eitemau'n cael eu danfon i'r fferyllfa mewn modd diogel, effeithlon ac effeithiol sy'n cydymffurfio â rheolau a gorchmynion sefydlog y Carchar, comisiynir gwasanaeth danfon o un fferyllfa yn Sir Fynwy. Mae'r fferyllfa'n dosbarthu meddyginiaethau a archebir i'r ddau garchar yn ôl yr angen.

3.1.3.3.20. Gwasanaeth Cartrefi Gofal Lefel 1

Mae'r Gwasanaeth Adolygu Cartrefi Gofal yn darparu adolygiadau, a arweinir gan fferyllfeydd cymunedol, o’r modd y rheolir meddyginiaethau er mwyn gwella diogelwch, lleihau gwastraff, a chefnogi cydymffurfiaeth o ran systemau archebu, storio, gweinyddu a gwaredu meddyginiaethau. Mae'n cynnwys dau ymweliad blynyddol i asesu arferion, gosod a monitro cynlluniau gweithredu, a chynnig canllawiau sy'n cyd-fynd â safonau NICE a CIW, ac mae DMRs yn cael eu cwblhau ar gyfer preswylwyr sydd newydd eu trosglwyddo.

Mae chwe fferyllfa wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth. Yn 2024/25, darparwyd y gwasanaeth gan ddwy fferyllfa, a wnaeth 76 o ymweliadau â chartrefi gofal rhyngddynt.

3.1.3.3.21. Adolygiadau o’r Defnydd o Offer (AUR)

Mae'r gwasanaeth Adolygu Defnydd o Offer yn rhoi cyngor a chymorth i gleifion ar ddefnydd diogel ac effeithiol o offer rhagnodedig penodol. Mae wedi’i gynllunio i helpu i nodi unrhyw broblemau y gallai'r claf eu profi wrth ddefnyddio eu teclyn ac i wella cydymffurfiaeth a chanlyniadau.

Ni ddarparodd unrhyw fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn ystod 2024/25.

3.1.3.3.22. Addasiadau i Offer Stoma

Mae'r Gwasanaeth Addasu Stoma yn sicrhau bod offer stoma a gyflenwir yn cael eu haddasu yn ôl anghenion clinigol cleifion er mwyn sicrhau y gellir eu gosod a'u haddasu'n iawn er mwyn sicrhau eu bod yn gyfforddus, yn ddiogel ac yn gallu cael eu defnyddio’n effeithiol.

Ni ddarparodd unrhyw fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn ystod 2024/25.

3.2. Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Mae dewis yn agwedd bwysig ar gael mynediad at wasanaethau fferyllol ac mae'n adlewyrchu’r ffordd y mae unigolion yn ymgysylltu â'r ddarpariaeth yn ymarferol. Gall cleifion ddewis o ble maen nhw'n cael mynediad at wasanaethau fferyllol. Gall hyn fod yn agos at eu practis meddyg teulu, eu cartref, eu man gwaith, neu y man y maent yn mynd i siopa, cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden neu resymau eraill.

Mae adborth yn dangos bod gan y rhan fwyaf o bobl fferyllfa gymunedol y maent yn ei ffafrio a’u bod yn dangos patrymau defnydd cyson, sy’n cael eu dylanwadu’n aml gan ffactorau megis cyfleustra, ymddiriedaeth mewn staff fferyllfa, profiad o wasanaeth, ac agosrwydd at wasanaethau gofal iechyd eraill.

Mae argaeledd mwy nac un darparwyr o fewn rhai ardaloedd yn galluogi dewis, ond mewn lleoliadau eraill gall dewis gael ei lywio gan ddaearyddiaeth, trafnidiaeth, neu gyfluniad gwasanaethau.

Mae'r cyd-destun hwn yn cefnogi dealltwriaeth o sut y mae'r boblogaeth yn cael mynediad at wasanaethau fferyllol ac yn eu dewis ac yn rhoi cefndir ar gyfer asesu'r ddarpariaeth mewn penodau diweddarach.

3.3. Gwasanaethau Fferyllol a ddarperir y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd

Gan bod cleifion yn rhydd i ddewis ble maen nhw'n cael mynediad at wasanaethau fferyllol, efallai bod rhai unigolion sy'n byw yn ardal y Bwrdd Iechyd yn dderbyn gwasanaethau gan ddarparwyr sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal.

Yn ystod 2024/25, cafodd 0.68% o'r holl bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan bresgripsiynwyr o fewn ardal y Bwrdd Iechyd eu dosbarthu gan gontractwyr mewn ardaloedd eraill o Gymru. Dosbarthwyd 1.11% arall gan gontractwyr yn Lloegr.

3.3.1. Contractwyr cyfarpar sy’n dosbarthu (DACs)

Mae cleifion yn ardal y Bwrdd Iechyd yn cael offer wedi’u presgripsiynu i raddau helaeth yn yr un ffordd â chleifion eraill yng Nghymru. Er bod fferyllfeydd cymunedol a meddygon fferyllol yn gallu cyflenwi offer, mae'n debygol y bydd cyfran o'r presgripsiynau a gyflenwir y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd ar gyfer offer.

3.3.1.1. Gweithgaredd cyflenwi

Mae data Cymru yn awgrymu bod 0.16% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd yn y Bwrdd Iechyd wedi'u cyflenwi gan DACs sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd eraill o Gymru. O ystyried bod DACs wedi'u lleoli yn Lloegr hefyd a bod dosbarthu yn aml yn rhan o'r gwasanaeth, mae'n debygol y bydd cleifion hefyd yn defnyddio'r rhain i gael offer sydd wedi'u rhoi ar bresgripsiwn o fewn BIPAB.

3.3.1.2. Adolygiadau o'r Defnydd o Offer

Nid oes gwybodaeth ar gael am y math o wasanaethau a ddarperir gan fferyllfeydd a Contractwyr cyfarpar sy'n dosbarthu y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd i'w drigolion . Wrth hawlio am wasanaethau, mae contractwyr yn hawlio am y cyfanswm a ddarparwyd ar gyfer pob gwasanaeth.

3.3.1.3. Addasu Stoma

Er bod taliad am y gwasanaeth hwn yn cael ei wneud yn seiliedig ar y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y presgripsiwn, nid oes gwybodaeth ar gael am y weithgaredd a ddarperir gan Contractwyr cyfarpar sy'n dosbarthu y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd i'w drigolion.

3.3.2. Meddygon Fferyllol

Bydd rhai trigolion yn ardal y Bwrdd Iechyd yn dewis cofrestru gyda meddygfa deulu y tu allan i'r ardal a gallant gael mynediad at y gwasanaeth cyflenwi a gynigir gan eu meddygfa. Mae gan Bractis Vauxhall yng Nghas-gwent hefyd gyflenwyr dros y ffin yn Tutshill, Lloegr ac efallai y bydd rhai trigolion BIPAB yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth dosbarthu yno.

3.3.3. Fferyllfeydd cymunedol

3.3.3.1. Gwasanaethau cyflenwi

Nid oes data ar gael ar gyfer trigolion y Bwrdd Iechyd sy'n defnyddio gwasanaethau cyflenwi gan gontractwyr y tu allan i'r ardal. Fodd bynnag, mae'n debygol, o'r 1.79% o bresgripsiynau a ysgrifennir yn yr ardal sy'n cael eu cyflenwi mewn mannau eraill, y bydd cyfran yn cael eu cyflenwi gan gontractwyr fferyllfa.

3.3.3.2. Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol

Nid yw data ar y ddarpariaeth o wasanaethau clinigol yn nodi'r cleifion sy'n derbyn y gwasanaeth. Fodd bynnag, o ystyried y rhesymau a grybwyllwyd yn flaenorol ynghylch dewis cleifion, mae'n debygol y gallai cleifion gael mynediad at wasanaethau mewn mannau eraill.

3.4. Adborth gan randdeiliaid a'r cyhoedd ar y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol

Mae'r adran hon yn crynhoi adborth a dderbyniwyd gan gleifion, y cyhoedd a chontractwyr fferyllol ar eu profiad o gael mynediad at wasanaethau fferyllol a darparu gwasanaethau fferyllol ledled ardal y Bwrdd Iechyd. Mae'n tynnu sylw at themâu a phatrymau allweddol a'i fwriad yw rhoi cipolwg cyd-destunol ar brofiad ymarferol pobl o'r gwasanaethau, yn hytrach nag asesiad o ddigonolrwydd. Darperir canlyniadau manwl, gan gynnwys tablau llawn a sylwadau gair am air, yn Atodiad H: Canlyniadau ymgysylltu â chleifion, y cyhoedd a chontractwyr.

3.4.1. Adborth y Cyhoedd

3.4.1.1. Trosolwg o weithgarwch ymgysylltu

Casglodd y weithgaredd ymgysylltu, trwy ddefnyddio holiaduron, farn gan ystod eang o drigolion a chontractwyr fferyllol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, gan roi cipolwg ar fynediad, ymwybyddiaeth a phrofiad o wasanaethau fferyllol. Nod yr holiadur oedd deall mwy am y ffordd y mae pobl leol yn cael mynediad at fferyllfeydd cymunedol a meddygon fferyllol ac yn eu defnyddio, sut yr hoffent eu defnyddio yn y dyfodol, a'u barn ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn a allai fod yn well. Roedd yr holiadur ar gael ar-lein yn y Gymraeg a'r Saesneg o 10 Tachwedd i 22 Rhagfyr 2025. Cwblhaodd cyfanswm o 1,102 o bobl (0.17% o'r boblogaeth gofrestredig) yr holiadur. Mae copi, sy'n dangos y cwestiynau a ofynnwyd, i'w gael yn atodiad G. Gellir gweld y canlyniadau llawn yn atodiad H. Mae'r tabl isod yn cyflwyno codau post yr ymatebwyr i'r holiadur cleifion. Derbyniwyd adborth o bob cwr o'r Bwrdd Iechyd, ac mae hyn yn dangos bod y canlyniadau'n eang ac yn gynrychioliadol o gyfranogwyr.

Tabl 6 - Ardaloedd cod post y rheiny a ymatebodd i'r holiadur cleifion a'r cyhoedd

Cod Post	Cyfrif	Canran
NP26	322	29.2%
NP16	130	11.8%
NP11	85	7.7%
NP4	70	6.4%
NP44	56	5.1%
NP19	54	4.9%
NP20	48	4.4%
NP23	46	4.2%
CF83	39	3.5%

NP10	39	3.5%
NP22	36	3.3%
NP7	35	3.2%
NP12	32	2.9%
NP13	19	1.7%
NP18	17	1.5%
CF82	14	1.3%
NP25	13	1.2%
NP15	11	1.0%
CF81	4	0.4%
CF8	3	0.3%
NP24	3	0.3%
CF46	2	0.2%
CF3	1	0.1%
GL14	1	0.1%
GL15	1	0.1%
NP48	1	0.1%
NP6	1	0.1%
NP8	1	0.1%
Fformat anghywir	18	1.6%

Dangosir proffil oedran yr ymatebwyr yn Ffigur 21. Roedd mwy o gynrychiolaeth o grwpiau oedran hŷn, a dylid ystyried hyn wrth ddehongli patrymau defnyddio gwasanaethau a adroddir mewn adrannau diweddarach.

Ffigur 21 – Ystod Oedran



3.4.1.2. Defnydd o wasanaethau fferyllol cymunedol

Mae adborth yn dangos bod gwasanaethau fferyllfeydd cymunedol yn cael eu defnyddio'n helaeth, gyda 64.2% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn defnyddio eu fferyllfa leol yn rheolaidd. Dywedodd 32.21% o'r ymatebwyr bod eu presgripsiynau'n cael eu cyflenwi gan eu meddygfa ac nid oedd 3.54% yn gwybod. Fodd bynnag, mae eu hymatebion dilynol yn awgrymu eu bod yn cael eu cyflenwi mewn fferyllfa. Dylid nodi bod yr ymateb hwn yn gorbwysleisio faint sy’n cael ei gyflenwi gan feddygfeydd teulu, gan fod dadansoddiad yn awgrymu efallai bod rhai ymatebwyr wedi dehongli'r cwestiwn fel un sy'n gofyn ble maen nhw'n derbyn eu presgripsiwn yn hytrach na ble mae'n cael ei gyflenwi; yn arbennig, roedd cyfran sylweddol (66%) o'r ymatebion cadarnhaol yn dod o ardaloedd heb ddarpariaeth meddygon fferyllol. Mae hyn yn awgrymu bod tua 11-15% o ymatebwyr yn debygol o ddefnyddio gwasanaethau meddygon dosbarthu.

Mae fferyllfeydd yn aml yn cael eu defnyddio i gyflenwi meddyginiaethau ac i gael cyngor ac yn aml fe'u defnyddir fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â meddyginiaethau, gan adlewyrchu eu hygyrchedd o fewn cymunedau.

Nododd ymatebwyr eu bod yn defnyddio fferyllfeydd cymunedol am amrywiaeth o resymau, yn fwyaf cyffredin ar gyfer cyflenwi meddyginiaethau ar bresgripsiwn. Adroddodd llawer hefyd eu bod wedi ymweld â fferyllfeydd i gael cyngor ynghylch meddyginiaethau, mân anhwylderau a phryderon iechyd cyffredinol, ac mae hyn yn adlewyrchu rôl fferyllfeydd fel ffynhonnell hygyrch o gymorth proffesiynol.

3.4.1.3. Mynediad

Mae'r adran hon yn crynhoi adborth gan gleifion a'r cyhoedd ar y ffordd y mae nhw'n cael mynediad at wasanaethau fferyllol ac yn eu defnyddio, gan gynnwys patrymau defnydd, cyfleustra, mynediad a rhesymau dros ymweld â fferyllfa. Mae'r canfyddiadau'n rhoi cipolwg cyd-destunol ar y defnydd o’r gwasanaeth ac nid eu bwriad yw asesu digonolrwydd na nodi bylchau

Mae Ffigur 22, isod, yn dangos pa mor aml y mae ymatebwyr yn ymweld â fferyllfa. Yn ôl y disgwyl, mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymweld bob mis ac mae hyn yn adlewyrchu hyd y presgripsiwn.

Ffigur 22 – Pa mor aml ydych chi'n ymweld â fferyllfa?



Er nad oedd 34.12% o'r ymatebwyr yn ffafrio amser a oedd fwyaf cyfleus, i'r rheiny a oedd yn ffafrio amser, yr amser mwyaf cyfleus oedd 3pm i 6pm (20% o'r ymatebion), ac yna 8am i hanner dydd (18%). Mae Ffigur 3 yn dangos yr ymatebion.

Ffigur 23 - Beth yw'r amser mwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa?



Yna dadansoddwyd yr amser mwyaf cyfleus i gael mynediad at fferyllfa yn ôl grŵp oedran yr ymatebwyr i nodi unrhyw wahaniaethau y gallai hyn ei greu o ran yr amseroedd y defnyddir fferyllfeydd. Mae Ffigur 24, isod, yn dangos yr oedran a'r amser mwyaf poblogaidd i ymweld â fferyllfa.

Ffigur 24 – Oedran a'r amser mwyaf poblogaidd i ymweld â fferyllfa



Allan o 1,102 o ymatebion, atebodd 746 o bobl y ddau gwestiwn. Yr amser mwyaf poblogaidd i ymweld â fferyllfa i'r rheiny rhwng 25 a 54 oed oedd 3pm i 6pm a 6pm i 8pm. Yn gyffredinol, nid oedd gan ymatebwyr 55 oed ac hŷn hoff amser o ran pa amser oedd orau iddynt fynd i'r fferyllfa.

Pan ofynnwyd iddynt pa ddiwrnod oedd y mwyaf cyfleus i gael mynediad i fferyllfa, dywedodd 43% nad oedd ots ganddynt, dywedodd 22% o'r ymatebwyr ddyddiau'r wythnos yn gyffredinol, a dywedodd 18.14% benwythnosau yn gyffredinol.

Pan oedd fferyllfa arferol yr ymatebwyr ar gau, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod wedi addasu trwy fynd i fferyllfa arall neu aros nes i'w fferyllfa arferol ailagor. Nododd nifer lai y byddent yn ceisio cymorth gan rannau eraill o'r system iechyd, megis cysylltu â'u meddyg teulu, GIG 111 Cymru neu fynychu'r ysbyty. Caniatawyd ymatebion lluosog ar gyfer y cwestiwn hwn.

Dangosodd adborth hefyd fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn dangos eu bod yn defnyddio fferyllfeydd mewn modd cyson. Roedd dros ddwy ran o dair yn nodi eu bod bob amser yn defnyddio'r un fferyllfa a chyfran arall yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd ond yn ffafrio un gan amlaf. Dim ond lleiafrif bach a nododd mai anaml yr oeddynt yn defnyddio fferyllfa neu'n defnyddio gwahanol fferyllfeydd yn gyson.

3.4.1.4. Teithio a chyfleustra

Yna edrychodd yr holiadur ar y ffordd y mae pobl yn teithio i fferyllfeydd. Mae Ffigur 25 , isod, yn dangos sut mae pobl yn teithio i fferyllfa. Mae patrwm y teithio wedi aros yr un fath ag yn 2021.

Ffigur 25 - Os ydych chi'n mynd i'r fferyllfa, sut ydych chi'n cyrraedd yno fel arfer?



I'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr, mae eu hamser teithio yn cymryd llai na 15 munud (90%), gyda 97.3% o fewn 20 munud i fferyllfa. Nododd 2.6% o'r bobl a ymatebodd ei bod yn cymryd mwy nag 20 munud iddyn nhw gyrraedd y fferyllfa. Mae Ffigur 26, isod yn dangos yr amseroedd teithio.

Ffigur 26 - Pa mor hir mae'n ei gymryd i chi gyrraedd y fferyllfa fel arfer?



3.4.1.5. Pethau sy'n dylanwadau ar ddewis fferyllfa

Pan ofynnwyd iddynt am y fferyllfa y maent yn ei ffafrio, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio fferyllfa gymunedol yn gyson, gyda 67.9% bob amser yn defnyddio'r un fferyllfa a 29% arall yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd ond yn ffafrio un gan amlaf. Dim ond lleiafrif bach a nododd mai anaml yr oeddynt yn defnyddio fferyllfa neu'n defnyddio gwahanol fferyllfeydd yn gyson.

Pan ofynnwyd iddynt beth sy'n dylanwadu ar eu dewis o fferyllfa, yr hyn a ddyfynnwyd amlaf gan ymatebwyr oedd agosrwydd a chyfleustra, yn enwedig fferyllfeydd sy'n agos at adref neu feddygfeydd teulu ac sy’n hawdd eu cyrraedd. Roedd ansawdd gwasanaeth ac ymddiriedaeth hefyd yn ffactorau pwysig, gan gynnwys gwasanaeth cwsmeriaid cadarnhaol, ymddiriedaeth yn staff y fferyllfa, parhad defnydd a hyder y byddai meddyginiaethau mewn stoc. Roedd ystyriaethau ymarferol megis parcio, cyflymder gwasanaeth ac oriau agor hefyd yn dylanwadu. Caniatawyd ymatebion lluosog ar gyfer y cwestiwn hwn, a darperir y canlyniadau llawn yn yr atodiad H.

Pan nododd ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o fferyllfa agosach neu fferyllfa fwy cyfleus nad oeddent yn ei defnyddio, roedd y rhesymau a nodwyd amlaf yn ymwneud â phrofiad o'r gwasanaeth a rhwystrau ymarferol. Roedd y rhain yn cynnwys canfyddiadau o wasanaeth arafach, meddyginiaethau ddim ar gael mewn stoc, anhawster gyda pharcio, oriau agor cyfyngedig, a phrofiadau negyddol yn y gorffennol. Adroddwyd hefyd am broblemau’n ymwneud â phreifatrwydd, parhad staff a bod yn gyfarwydd â thimau’r fferyllfa. Roedd rhesymau ychwanegol a roddwyd yn adlewyrchu teyrngarwch i fferyllfa bresennol, presgripsiynau'n cael eu hanfon i leoliad penodol, cydleoli â phractisau meddygon teulu, a ffactorau gweithredol ehangach. Darperir manylion llawn yr ymatebion yn yr atodiad H.

Pan ofynnwyd a oes fferyllfa fwy cyfleus a/neu agosach nad ydyn nhw'n ei defnyddio, atebodd 316 o bobl ‘oes’ ac aeth 306 ymlaen i roi rheswm pam (er gwybodaeth, gellid rhoi sawl ateb i'r cwestiwn hwn).

Nododd cyfran o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o fferyllfa fwy cyfleus neu agosach nad oeddent yn ei defnyddio a rhoddasant resymau dros y dewis hwn. Roedd y rhesymau hyn yn ymwneud amlaf â theyrngarwch i fferyllfa bresennol, presgripsiynau'n cael eu hanfon i leoliad penodol, profiad gwasanaeth ac ymddygiad staff, problemau gweithredol megis amseroedd aros, a chyfleustra cydleoli â phractisau meddygon teulu. Darperir manylion ychwanegol am ymatebion sydd wedi'u categoreiddio fel 'arall' yn yr atodiad H.

3.4.1.6. Ymwybyddiaeth o wasanaethau fferyllol

Chwilio drwy’r rhyngrwyd oedd y ffordd fwyaf poblogaidd o ddod o hyd i wybodaeth am fferyllfa, er enghraifft oriau agor a’r gwasanaethau a gynigir, ac yna edrych yn ffenestri fferyllfa neu bosteri a arddangoswyd yn y fferyllfa. Dewisiadau poblogaidd eraill ar gyfer dod o hyd i wybodaeth oedd ar wefan y fferyllfa a ffonio'r fferyllfa'n uniongyrchol.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo eu bod yn gallu trafod rhywbeth preifat gyda fferyllydd, atebodd y mwyafrif naill ai ie (53%) neu efallai (21.3%). Fodd bynnag, dywedodd 12.4% o'r ymatebwyr na, sy'n destun pryder yn enwedig gan fod gan bob fferyllfa ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn defnyddio fferyllfa i gael presgripsiwn, mae fferyllfeydd yn darparu ystod o wasanaethau clinigol. Rhestrodd yr holiadur nifer o wasanaethau a ddarperir gan bob un neu'r rhan fwyaf o fferyllfeydd yn ardal y Bwrdd Iechyd a gofynnodd a oedd yr ymatebwyr yn ymwybodol ohonynt.

Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau'r GIG sydd ar gael trwy fferyllfeydd cymunedol yn 2025 wedi newid yn fawr ers 2021. Yn ystod y ddwy flynedd, mae mwy o ymwybyddiaeth o wasanaethau sefydledig fel brechu rhag y ffliw, y cynllun anhwylderau cyffredin a chymorth rhoi'r gorau i ysmygu, tra bod ymwybyddiaeth o wasanaethau fel adolygiadau o feddyginiaethau wrth ryddhau a chyflenwi meddyginiaethau brys yn parhau i fod yn is. Er bod niferoedd yr ymatebion yn uwch yn 2025, mae'r patrwm cyffredinol a'r ymwybyddiaeth gymharol o wasanaethau yn gyson â 2021, ac mae hyn yn dangos nad oes unrhyw newid sylweddol wedi digwydd dros amser ac mae’n tynnu sylw at angen parhaus i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ystod lawn o wasanaethau a ddarperir mewn fferyllfeydd. Mae Atodiad G yn rhestru'r gwasanaethau a gwmpesir gan yr holiadur.

3.4.1.7. Profiad o gael mynediad at wasanaethau

Roedd 99 o sylwadau cadarnhaol am fferyllfeydd ac 1 am feddygon fferyllol, 176 o sylwadau negyddol am fferyllfeydd, a 125 o arsylwadau, mae'r manylion yn yr atodiad H.

Tynnodd adborth sylw at y ffaith bod cyflenwi meddyginiaethau yn cael ei weld fel gwasanaeth gwerthfawr, ochr yn ochr â chyfraniad ehangach timau fferyllfeydd i ofal iechyd yn lleol. Roedd y sylwadau cadarnhaol yn ymwneud yn bennaf â safon ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, gwelliannau sy'n gysylltiedig â chyflwyno technolegau presgripsiynu a chyflenwi electronig, a pha mor garedig, cymwynasgar a chroesawgar yw staff fferyllfa. Mae'r tebygrwydd mawr rhwng yr adborth hwn a’r adborth a dderbyniwyd yn

2021. Yn ystod y ddwy flwyddyn, roedd sylwadau cadarnhaol yn pwysleisio pa mor broffesiynol a chroesawgar oedd staff fferyllfa a faint o werth cymunedol y maent yn ei roi. Mae thema cyson i sylwadau negyddol hefyd, ac maent yn canolbwyntio ar amseroedd aros, pwysau staffio, argaeledd stoc, preifatrwydd ac oriau agor cyfyngedig.

Ochr yn ochr â'r adborth cadarnhaol hwn, nododd yr ymatebwyr hefyd feysydd lle gellid gwella eu profiad. Roedd y rhain yn cynnwys cyfathrebu rhwng meddygfeydd teulu a fferyllfeydd, amrywiad o ran argaeledd gwasanaethau yn dibynnu ar leoliad ac argaeledd fferyllwyr, a phroblemau o ran mynediad ymarferol megis oriau agor, amseroedd aros ac argaeledd stoc. Codwyd pryderon ychwanegol ynghylch agwedd ac ymddygiad staff mewn rhai achosion, profiadau wrth gael mynediad at y gwasanaeth anhwylderau cyffredin, a thaliadau sy'n gysylltiedig â chymhorthion cydymffurfio fel blychau dosette. Er bod mwy o sylwadau wedi dod i law y tro hwn, nid yw' themâu wedi newid, ac mae hyn yn dangos bod heriau gweithredol parhaus yn bodoli ochr yn ochr â gwerthfawrogiad y cyhoedd o wasanaethau fferyllfeydd gymunedol.

3.4.1.8. Crynodeb o themâu allweddol yn deillio o'r ymgysylltiad

At ei gilydd, mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at rôl ganolog fferyllfeydd cymunedol o ran darparu cyflenwad a chyngor hygyrch ar feddyginiaethau ac yn darparu cyd-destun pwysig o ran deall sut mae pobl yn cael mynediad at wasanaethau fferyllol yn ymarferol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

3.4.2. Adborth contractwr fferyllol ar ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol

Mae'r adran hon yn crynhoi adborth a dderbyniwyd gan gontractwyr fferyllfeydd cymunedol ar eu profiad o ddarparu gwasanaethau fferyllol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Mae'n rhoi cipolwg cyd-destunol ar y ffordd y mae gwasanaethau'n gweithredu'n ymarferol, gan gynnwys sylwadau ar y capasiti presennol a'r gallu i reoli cynnydd arfaethedig yn y ddarpariaeth o wasanaethau. Dim ond ffactorau gweithredol y mae'r adran yn eu hamlinellu ac nid yw'n asesu digonolrwydd nac yn nodi bylchau. Darperir canlyniadau llawn yr holiadur ac ymatebion manwl yn Atodiadau I.

3.4.2.1. Trosolwg o'r ymgysylltiad â fferyllfeydd cymunedol

Anfonwyd holiadur ar-lein i fferyllfeydd cymunedol rhwng 10 Tachwedd a 22 Rhagfyr 2025. Derbyniwyd ymatebion gan chwe deg chwech o'r cant a phump ar hugain o fferyllfeydd cymunedol yn ardal y Bwrdd Iechyd, sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 53%.

3.4.2.2. Adeiladau, hygyrchedd a chyfleusterau ymgynghori

Cadarnhaodd pob fferyllfa gymunedol a ymatebodd fod eu hadeiladau yn hygyrch i bobl anabl. Nododd y mwyafrif fod ganddynt ystafell ymgynghori sy'n bodloni'r gofynion cytundebol ar gyfer darparu gwasanaethau uwch a chlinigol, gan gynnwys bod yn lle caeedig a dynodedig sy'n addas ar gyfer trafodaethau cyfrinachol. Adroddwyd bod bron pob un (97%) o'r ardaloedd ymgynghori yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Dylid nodi bod data sydd wedi'i gasglu yn sgil ymweliadau monitro a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd yn adlewyrchu bod gan bob fferyllfa ystafelloedd ymgynghori sy'n bodloni gofynion cytundebol, felly efallai bod rhywfaint o dan-adrodd yn yr ymatebion.

Adroddodd fferyllfeydd hefyd am argaeledd staff sy'n siarad ieithoedd heblaw Saesneg. Adroddwyd am allu yn y Gymraeg mewn nifer o fferyllfeydd, ochr yn ochr ag amrywiaeth o ieithoedd eraill, gan adlewyrchu amrywiad yn y gefnogaeth ieithyddol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

3.4.2.3. Gweithgaredd cyflenwi a darpariaeth o offer

Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gyflenwi pob presgripsiwn GIG dilys ar gyfer cyffuriau ac ar gyfer offer y maent yn eu cyflenwi "yn ystod busnes arferol". Cadarnhaodd pum deg chwech o fferyllfeydd (85%) eu bod yn cyflenwi pob teclyn, cadarnhaodd saith (11%) mai dim ond dresin y maen nhw'n ei gyflenwi, nid yw dau yn dosbarthu unrhyw declynnau ac mae un yn cyflenwi teclynnau ac eithrio teclynnau ar gyfer anymataliaeth.

3.4.2.4. Gwasanaethau nad ydynt yn rhan o'r GIG a gynigir gan fferyllfeydd

Nid yw rhai gwasanaethau mewn fferyllfeydd yn rhan o'r fframwaith cytundebol craidd ac maent y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Bwrdd Iechyd. Adroddodd contractwyr eu bod yn darparu ystod o wasanaethau sydd y tu allan i fframwaith cytundebol craidd y GIG.

Mae pob un o'r 66 fferyllfa yn casglu presgripsiynau gan feddygfeydd teulu. Mae deugain o fferyllfeydd yn dosbarthu eitemau sydd wedi'u cyflenwi i gleifion fel gwasanaeth am ddim. Mae 17 yn darparu gwasanaeth dosbarthu cyffuriau ac mae 13 yn darparu gwasanaeth dosbarthu offer fel gwasanaeth preifat, y codir tâl amdano. O'r rhai sy'n darparu'r gwasanaeth am ddim, mae 22 yn ei gyfyngu i rai categorïau o gleifion, er enghraifft y rhai sydd â phroblemau symudedd neu sy'n gaeth i'r tŷ, cleifion hŷn, cleifion anabl, a'r rheiny mewn grŵp risg y GIG. Mae wyth fferyllfa yn cyfyngu'r gwasanaeth dosbarthu i gleifion mewn ardaloedd daearyddol penodol.

3.4.2.5. Bylchau yn y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau clinigol presennol

Er mwyn helpu i nodi unrhyw fylchau posibl yn y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau clinigol, gofynnwyd i gontractwyr fferyllfa am eu barn ynghylch a oes angen unrhyw wasanaeth clinigol presennol nad yw ar gael yn yr ardal ar hyn o bryd, a gofynnwyd iddynt ddarparu tystiolaeth ategol ar gyfer eu hymateb.

Atebodd 40 o'r 66, ac awgrymodd 33 ohonynt nad oedd angen heb ei ddiwallu ar hyn o bryd am wasanaethau presennol. Ymatebodd chwech fod angen gwasanaeth arall ond ni nodwyd ganddynt wasanaethau sydd ar gael yn ardal y Bwrdd Iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys pedwar a nododd angen am gymhorthion cydymffurfio aml-adran a dau yn awgrymu gwasanaeth brechu rhag covid.

3.4.2.6. Safbwyntiau fferyllfeydd ar anghenion gwasanaeth newydd.

Pan ofynnwyd iddynt am yr angen posibl am wasanaethau newydd, ymatebodd 38 o'r 66 (57.57%). Ni nododd pump ar hugain o ymatebwyr (64%) unrhyw angen am unrhyw wasanaethau newydd ac ymatebodd dau nad oeddent yn siŵr.

O'r 11 ymatebydd (29%) a nododd angen, nododd 8 fod angen gwasanaeth cymorth cydymffurfio aml-adran ac awgrymodd y 3 arall y gellid monitro pwysedd gwaed, colli pwysau, brechiadau teithio, cael gwared ar gwyr clust a gwasanaethau presgripsiynu annibynnol. Mae'r safbwyntiau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau contractwyr unigol ac nid ydynt yn cynrychioli anghenion a aseswyd yn ffurfiol.

3.4.2.7. Y gallu i fodloni'r galw yn y dyfodol

Gan gydnabod bod y galw am wasanaethau fferyllol yn cynyddu, wedi'i yrru gan y nifer cynyddol o eitemau ar bresgripsiwn a phoblogaeth sy'n tyfu, gofynnwyd i fferyllfeydd a allent ymdopi â'r pwysau ychwanegol hwn. Nododd y rhan fwyaf (pum deg saith o fferyllfeydd, 86.4%) fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau a'u lefelau staffio presennol, ond nododd 8 fferyllfa arall (12.1%) y gallent ymdopi â'r cynnydd gyda rhai addasiadau. Dywedodd un fferyllfa nad oedd ganddyn nhw ddigon o safleoedd a chapasiti staffio ac y byddent yn cael anhawster rheoli cynnydd yn y galw.

Nododd tua hanner y fferyllfeydd cymunedol a ymatebodd (34 o fferyllfeydd, 51.5%) gynlluniau i ddatblygu neu ehangu safleoedd neu wasanaethau. Roedd y cynlluniau a adroddwyd yn cynnwys cynyddu gofod ymgynghori, buddsoddi mewn seilwaith a thechnoleg (defnyddio robot), datblygu'r gweithlu, ac ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau clinigol neu

wasanaethau preifat, gan adlewyrchu esblygiad disgwyliedig gwasanaethau yn y dyfodol o fewn fframweithiau cytundebol a pholisi presennol.

3.4.2.8. Crynodeb o themâu allweddol yn deillio o’r ymgysylltiad

At ei gilydd, mae adborth contractwyr fferyllfeydd yn rhoi cyd-destun pwysig ar ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys hygyrchedd, gweithgaredd cyflenwi a chapasiti gweithredol, ac mae’n cefnogi dealltwriaeth o sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu'n ymarferol.

3.4.3. Adborth Meddygon Fferyllol ar ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol

3.4.3.1. Trosolwg o ymgysylltiad meddygon fferyllol

Cyhoeddwyd holiadur ar wahân i feddygfeydd fferyllol o fewn ardal y Bwrdd Iechyd yn ystod yr un cyfnod. Derbyniwyd ymatebion gan dri o'r deuddeg practis fferyllol, sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 25%. Mae copi o'r holiadur ar gael yn atodiad J

3.4.3.2. Oriau agor y fferyllfa a’r ddarpariaeth o wasanaethau

Adroddodd y practisau a ymatebodd bod oriau agor eu fferyllfa, yn gyffredinol, yn cyd-fynd ag oriau agor craidd y meddygon teulu, gyda rhywfaint o amrywiad ar ddiwedd yr wythnos waith. Roedd y trefniadau cyflenwi’n amrywio, gyda rhai practisau'n cyflenwi'r holl offer ac eraill yn cyfyngu'r ddarpariaeth i ddresin yn unig.

Adroddwyd gan rai practisau am wasanaethau dosbarthu, naill ai am ddim i grwpiau penodol o gleifion neu fel gwasanaeth y codir tâl amdano, tra bod eraill yn adrodd nad oeddent yn darparu unrhyw wasanaethau dosbarthu.

3.4.3.3. Darpariaeth iaith a hygyrchedd

Nododd y rhan fwyaf o'r practisau a ymatebodd eu bod yn darparu gwasanaethau yn Saesneg yn unig, er bod darpariaeth iaith Gymraeg wedi'i nodi mewn rhai safleoedd naill ai ar ddiwrnodau penodol neu bob amser.

3.4.3.4. Ystyriaethau o ran capasiti a gwasanaeth yn y dyfodol

Adroddodd y rhan fwyaf o'r practisau a ymatebodd fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn yr adeiladau ac o fewn lefelau staffio presennol i reoli cynnydd yn y galw am gyflawni meddyginiaethau, neu y gellid gwneud addasiadau os oes angen.

Pan ofynnwyd iddynt am angen heb ei ddiwallu neu wasanaethau ychwanegol, tynnodd practisau sylw at faterion gweithredol penodol, gan gynnwys cyflenwi presgripsiynau acíwt yn hwyr, mynediad at gymhorthion

cydymffurfio ar gyfer cleifion agored i niwed, a defnyddio presgripsiynu electronig. Mae'r safbwyntiau hyn yn adlewyrchu safbwyntiau practisiau sydd wedi ymateb ac nid ydynt yn cynrychioli anghenion sydd wedi'u nodi a'u dilysu'n ffurfiol.

3.4.3.5. Crynodeb o themâu allweddol yn deillio o'r ymgysylltiad

Mae adborth sy'n ymwneud â meddygfeydd fferyllol yn tynnu sylw at eu rôl o ran cefnogi cyflenwad a mynediad at feddyginiaethau i gleifion cymwys, yn enwedig mewn ardaloedd a wasanaethir gan bractisiau fferyllol, ac mae'n rhoi cyd-destun ychwanegol o ran deall sut mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu yn y lleoliadau hyn.

Mae'r bennod hon yn rhoi disgrifiad sylfaenol o'r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol a phrofiadau ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio'r asesiad a gyflwynir mewn penodau diweddarach.

Pennod Pedwar - Gwasanaethau GIG Eraill

Mae amrywiaeth o wasanaethau'r GIG yn gweithredu o fewn ardal y Bwrdd Iechyd sy'n dylanwadu ar y galw am wasanaethau fferyllol, naill ai drwy gynhyrchu presgripsiynau, cyfeirio cleifion at wasanaethau fferyllol cymunedol neu drwy leihau'r angen am rai gwasanaethau fferyllol drwy gyflenwi neu roi meddyginiaethau'n uniongyrchol.

4.1. Cynnydd yn y Galw

Darparwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) sy'n creu'r galw mwyaf am gyflenwi gwasanaethau fferyllol o fewn gofal sylfaenol. Yn ystod 2024/2025, rhagnododd darparwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol y Bwrdd Iechyd 16,871,095 o eitemau, ac o'r rhain cafodd 15,727,062 (93.22%) eu dosbarthu gan fferyllfeydd cymunedol yn ABUHB. Cafodd 290,940 o eitemau pellach, a ragnodwyd gan ddarparwyr GMS y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd, eu cyflenwi o fewn BIPAB hefyd. At ei gilydd, mae presgripsiynu GMS yn cyfrif am 97.25% o’r llwyth gwaith sy’n ymwneud â phresbripsiynu mewn fferyllfeydd cymunedol yn ABUHB.[96]

Mae data diweddar yn dangos gostyngiad yn nifer yr apwyntiadau Meddygon Teulu brys ac apwyntiadau wedi’u trefnu. Mae hyn yn awgrymu bod newid yn digwydd o ran y ffordd y mae cleifion yn dewis cael mynediad at ofal sylfaenol. Mae’n bosib bod y gostyngiad hwn yn dangos bod mwy o alw am fferyllfeydd cymunedol, gan bod mwy o gleifion yn dewis prynu meddyginiaethau dros y cownter neu ddefnyddio gwasanaethau megis y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin a’r Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol mewn Fferyllfa yn hytrach na chysylltu gyda’u practis Meddyg Teulu. Mae’r duedd hon yn tynnu sylw at rôl bwysig fferyllfeydd cymunedol o ran diwallu anghenion cleifion a chynnig gweithgarwch y byddai cleifion wedi’i geisio gan ymarfer cyffredinol cyn hyn.

Mae darparwyr Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDS) hefyd yn creu galw am wasanaethau cyflenwi. Rhagnodwyd 48,742 o eitemau yn 2024/25 gan Deintyddion BIPAB. Roedd deintyddion o'r tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am 1,320 o eitemau ychwanegol, gyda chyfanswm o 50,004 o eitemau deintyddol yn cael eu cyflenwi mewn fferyllfeydd cymunedol yn BIPAB. Mae hyn yn cyfrif am 3% o lwyth gwaith fferyllfeydd cymunedol.

---

[96] NWSSP Dispensing Data -https://nwssp.nhs.wales/ourservices/primary-care-services/general-information/data-and-publications/pharmacy-practice-dispensing-data/

Rhagnododd Presgripsiynwyr Offthalmig Annibynnol o fewn ardal y Bwrdd Iechyd 7,108 o bresgripsiynau yn 2024/25 a'r cyfanswm a gyflenwyd gan fferyllfeydd cymunedol ABUHB oedd 7,159. Bydd cyflwyno archebion wedi'u llofnodi gan y GIG ar gyfer Optometryddion sy'n darparu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) ym mis Ebrill 2026 a thwf parhaus y gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Optometreg hefyd yn cynyddu'r galw am gyflenwi meddyginiaethau.

Creodd y gwasanaeth Fferyllydd-bresgripsiynydd Annibynnoll lwyth gwaith ychwanegol o ran cyflenwi hefyd, gyda 24,018 o eitemau wedi'u presgripsiynu yn BIPAB a 24,017 wedi'u cyflenwi, a disgwylir i'r gweithgaredd hwn dyfu ymhellach oherwydd nifer cynyddol y fferyllwyr dan hyfforddiant ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ehangu'r gwasanaeth.

Mae gwasanaethau ysbyty yn effeithio ar y galw am gyflenwi gan fod presgripsiynau cleifion allanol, adrannau damweiniau ac achosion brys, a phresgripsiynau rhyddhau yn cael eu dosbarthu yn y gymuned. Yn yr un modd, mae presgripsiynau a roddir gan wasanaeth Tu Allan i Oriau Gwent, Cynllun Triniaeth Amgen y GMS, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, a gwasanaethau ymarferwyr cyflyrau hirdymor yn cynyddu'r galw am gyflenwi mewn fferyllfeydd cymunedol.

Mae adrannau ysbytai'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio presgripsiynau cymunedol (WP10HPs) fel bod presgripsiynau cleifion allanol a rhywfaint o bresgripsiynau rhyddhau yn cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd cymunedol. Yn ystod 2024/25, presgripsiynodd ysbytai o fewn BIPAB 257,374 o eitemau a gyflenwyd gan fferyllfeydd cymunedol o fewn BIPAB. Cyflenwodd fferyllfeydd cymunedol yng Ngorllewin Casnewydd 18.84% o gyfanswm y nifer o eitemau, ac roedd y gweddill wedi'i wasgaru'n gyfartal ymhlith fferyllfeydd cymunedol o fewn yr NCNs eraill.

Presgripsiynodd gwasanaeth Tu Allan o Oriau (OOH) Gwent 25,699 o eitemau yn 2024/25, a chyflenwyd 97.71% ohonynt o fewn ardal y Bwrdd Iechyd. Cyflenwyd 2.01% arall mewn Byrddau Iechyd eraill ledled Cymru, a chyflenwyd 0.18% yn Lloegr. O fewn y Bwrdd Iechyd, cyflenwyd presgripsiynau a roddwyd gan Wasanaeth y Tu Allan i Oriau Gwent yn bennaf gan fferyllfeydd cymunedol yng Ngorllewin Casnewydd (23.54%), De Caerffili (14.12%), a Gogledd Sir Fynwy (12.72%).

Presgripsiynodd y gwasanaeth Gofal Sylfaenol Amgen 1,534 yn 2024/25 gyda 52.48% wedi'u cyflenwi gan fferyllfeydd cymunedol yng Ngogledd Caerffili a 34.29% yng Ngorllewin Casnewydd. Cafodd y 13.23% sy'n

weddill eu cyflenwi gan fferyllfeydd cymunedol mewn mannau eraill o fewn ardal y Bwrdd Iechyd.[97]

Mae Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Arbenigol Aneurin Bevan (ABSDAS) yn Wasanaeth Caethiwed Arbenigol y GIG sy'n ymroddedig i helpu pobl ag anghenion caethiwed a/neu ddibyniaeth. Mae ABSDAS yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector i helpu pobl i gyflawni eu nodau o ymatal neu leihau niwed. Presgripsiynodd y gwasanaeth 1,666 o eitemau yn 2024/25 a chyflenwyd pob un ohonynt gan fferyllfeydd cymunedol yng Ngorllewin Casnewydd (81.27%) a Dwyrain Casnewydd (18.73%).

Darperir Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent o amrywiaeth eang o ganolfannau ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, mae'n gweithredu mewn lleoliadau cymunedol ac yn cynnig gwasanaeth allgymorth. Mae'r gwasanaeth yn gweld pobl sydd ag anghenion cymedrol o ran cymhlethdod a chaiff ei ei ddarparu gan gonsortiwm o dri sefydliad – Kaleidoscope, G4S a Barod. Presgripsiynodd y gwasanaeth 12,383 o eitemau yn 2024/25, wedi'u dosbarthu'n eang ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, gweler atodiad X

Presgripsiynodd y Tîm Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth o fewn y Bwrdd Iechyd, sy'n cynnal prosiect sy'n cefnogi pobl â diabetes math 2, 1876 o eitemau yn 2024/25, wedi'u dosbarthu'n eang ar draws y Bwrdd Iechyd, gweler atodiad X.

Darperir gwasanaethau meddygol sylfaenol i garchardai CEF Brynbuga a CEF Prescoed trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda darparwr Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol. Yn ystod 2024/25, ysgrifennwyd 24,214 o bresgripsiynau drwy’r gwasanaeth gyda mwy na 99% o’r rhain yn cael eu dosbarthu drwy fferyllfa gymunedol yn Rhaglan.

Caiff presgripsiynau amlroddadwy ar gyfer offer ymataliaeth arbenigol eu rheoli gan dîm o nyrsys arbenigol yng ngwasanaeth y bledren a’r coluddion ABUHB. Yn ystod 2024/25, ysgrifennwyd 41,834 o bresgripsiynau gan y gwasanaeth, dosbarthwyd 70.02% o'r rhain gan gontractwyr o Loegr, 28.48% gan Gontractwyr Cyfarpar sy’n Dosbarthu sy'n gweithredu yng Nghymru, ac 1.53% gan fferyllfeydd cymunedol o fewn BIPAB. Mae'r gyfran uchel hon o bresgripsiynau sy'n cael eu cyflenwi yn Lloegr yn cael ei gyrru'n bennaf gan y nifer sylweddol o Gontractwyr Cyfarpar sy’n Dosbarthu

[97] NWSSP Dispensing Data

(DACs) yn Lloegr sy'n gweithredu gwasanaethau dosbarthu i’r cartref cenedlaethol sefydledig .

Mae'r gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu yn y gymuned a weithredir gan Helpa Fi i Stopio yn dibynnu ar fferyllfeydd cymunedol i wneud cyflenwadau o ffarmacotherapi i gefnogi ymdrechion i roi'r gorau iddi. Yn 2024/25, cyhoeddwyd 6,149 o geisiadau am ffarmacotherapi gan gynghorwyr Helpa Fi i Stopio a chawsant eu cyflenwi gan fferyllfeydd cymunedol o fewn ABUHB. [98]

4.2. 4.2 Gostyngiad yn y Galw

Mewn cyferbyniad, mae rhai gwasanaethau'n lleihau'r angen am wasanaethau fferyllol. Rhoddodd y meddygfeydd teulu yn BIPAB 184,617 o eitemau i'w cleifion yn bersonol. Gall meddyginiaethau unedau mân anafiadau, a meddyginiaethau cleifion mewnol a gyflenwir gan adrannau fferyllol ysbytai leihau'r galw am gyflenwi gwasanaethau hanfodol, yn ogystal, mae clinigau hybiau iechyd rhywiol hefyd yn lleihau'r galw am rai gwasanaethau fferyllol, yn enwedig atal cenhedlu hormonaidd brys, trwy ddarparu gofal atal cenhedlu ac iechyd rhywiol cynhwysfawr.

Mae mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennir gan feddygon fferyllol ar gyfer y cleifion sy’n defnyddio’r gwasanaeth yn cael eu cyflenwi gan fferyllfa’r feddygfa. Yn ystod 2024/25, rhoddodd meddygon sydd â hawliau fferyllol 708,660 o eitemau presgripsiwn i'w cleifion cymwys. [99]

Darperir cymorth rhoi'r gorau i ysmygu ar draws ystod o leoliadau, gan gynnwys fferyllfeydd cymunedol, meddygfeydd teulu, ysbytai a lleoliadau cymunedol, ac mae'r ddarpariaeth ehangach hon yn dylanwadu ar y galw am wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu ymddygiadol mewn fferyllfeydd.

4.3. Crynodeb o weithgarwch ac effaith

Mae'r data'n dangos bod set benodol o wasanaethau'r GIG yn gwneud cyfraniad sylweddol a pharhaus i weithgarwch cyflenwi gwasanaethau fferyllol, gyda'r rhan fwyaf o bresgripsiynau a gynhyrchir gan y gwasanaethau hyn yn cael eu cyflenwi'n lleol o fewn ardal y Bwrdd Iechyd. Mae gwasanaethau y tu allan i oriau, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, a'r Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Amgen yn gyson yn cynhyrchu galw am bresgripsiynau mewn ardaloedd penodol, yn enwedig Gorllewin

---

[98] NWSSP Dispensing Data

[99] NWSSP Dispensing Data

Casnewydd, Caerffili, a rhannau o Sir Fynwy. Mae hyn yn dangos patrymau rhagweladwy o ddefnyddio gwasanaethau fferyllol sy'n gysylltiedig â lleoliad y gwasanaeth ac anghenion y boblogaeth.

Roedd gwasanaeth ysbytai'r Bwrdd Iechyd yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r cyflenwadau nad oeddent yn cael eu rhoi gan feddygon teulu o gryn dipyn, ond yn gyffredinol dim ond 1.56% o'r cyflenwadau yr oeddent yn cyfrif amdano.

Mae gwasanaethau cyffuriau ac alcohol yn cyfrif am nifer sylweddol o bresgripsiynau, sy'n adlewyrchu dwyster a pharhad y driniaeth sydd ei hangen ar y boblogaeth hon. Mae'r carchardai hefyd yn cyfrif am lefel sylweddol ond mae’r galw wedi’i grynhoi mewn ardal ddaearyddol benodol. Yn bwysig, mae'r gweithgarwch hwn yn cynrychioli patrymau rhagnodi sefydledig a pharhaus sy'n cael eu deall yn dda gan y system, gan ganiatáu i gapasiti gwasanaeth fferyllol a darpariaeth gwasanaeth gael eu cynllunio mewn ffordd ragweladwy a rheoledig yn hytrach na chynrychioli pwysau ysbeidiol neu annisgwyl.

I’r gwrthwyneb, mae’r data a’r disgrifiadau gwasanaeth yn cadarnhau bod gwasanaethau eraill y GIG, megis gofal cleifion mewnol mewn ysbytai, gweinyddiaeth bersonol gan feddygfeydd teulu, unedau mân anafiadau, gwasanaethau fferyllol carchardai, a chlinigau iechyd rhywiol, yn lleihau’r angen am wasanaethau fferyllol sy’n cyflenwi ar gyfer penodau gofal penodol trwy gyflenwi neu roi meddyginiaethau’n uniongyrchol.

Darperir gweithgarwch rhoi'r gorau i ysmygu ar draws sawl lleoliad, gan gynnwys fferyllfeydd, ac mae'r gyd-ddarpariaeth hon yn dylanwadu ar faint a natur gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu mewn fferyllfeydd yn hytrach na dileu'r galw.

Gyda'i gilydd, mae'r data'n dangos sut mae gwasanaethau fferyllol yn gweithredu o fewn system gofal ehangach, gyda rhai gwasanaethau'n cynyddu'r galw am gyflenwi mewn ffyrdd cyson a phenodol i'r ardal, ac eraill yn gwrthbwyso'r galw trwy ddarpariaeth uniongyrchol. Mae hyn oll yn berthnasol o ran deall yr angen am wasanaethau fferyllol presennol a rhai'r dyfodol.

At ei gilydd, mae'r gwasanaethau hyn yn rhan o'r system gofal iechyd ehangach y mae gwasanaethau fferyllol yn gweithredu ynddi ac fe'u hystyrir wrth asesu'r angen am wasanaethau fferyllol presennol a rhai'r dyfodol.

Pennod Pump - Anghenion Iechyd y gall Gwasanaethau Fferyllol eu Diwallu

5.1. Diben a Chyd-destun

Mae Atodlen 1 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020[100] yn ei gwneud yn ofynnol i'r Asesiad o Anghenion Fferyllol (PNA) nodi pa anghenion iechyd o fewn ardal y Bwrdd Iechyd y gall gwasanaethau fferyllol eu diwallu. Mae Pennod Dau yn nodi'r proffil demograffig, patrymau amddifadedd, anghydraddoldebau iechyd a baich clefydau ar draws y boblogaeth. Mae'r bennod hon yn adeiladu ar y dystiolaeth honno drwy nodi'r agweddau ar yr anghenion hynny sy'n dod o fewn cwmpas gwasanaethau fferyllol. Nid yw'n ailadrodd y dadansoddiad ystadegol a gyflwynwyd yn flaenorol, nac yn asesu digonolrwydd y ddarpariaeth bresennol; ymdrinnir â hynny ym Mhennod Tri a Phennod Chwech.

Mae gwasanaethau fferyllol yn cynnwys gwasanaethau hanfodol ac ychwanegol a ddarperir gan gontractwyr fferyllfa a chontractwyr cyfarpar sy’n dosbarthu (DACs), ynghyd â gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan bractisau fferyllol. Gyda'i gilydd, mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi mynediad diogel at feddyginiaethau, optimeiddio triniaeth, atal clefydau rhag gwaethygu neu ddatblygu, anghenion gofal brys, a chyflawni ymyriadau iechyd y cyhoedd penodol.

Bydd angen meddyginiaeth neu offer ar bresgripsiwn ar gyfran uchel o'r boblogaeth rywbryd yn ystod eu bywydau, dim ots a ydynt yn rhan o un o'r grwpiau a nodwyd ym Mhennod Dau neu peidio. Mae hyn yn golygu mai presgripsiynu yw un un o ymyriadau mwyaf cyffredin ac arferol y GIG. Gall hyn fod ar gyfer cwrs untro o wrthfiotigau neu’n feddyginiaeth y bydd angen i gleifion ei chymryd, neu offer y bydd angen iddynt ei ddefnyddio, am weddill eu hoes er mwyn rheoli cyflwr hirdymor. Dim ond trwy ddarparu gwasanaethau fferyllol y gellir diwallu'r angen iechyd hwn o fewn gofal sylfaenol, boed hynny gan fferyllfeydd, DACs neu feddygon fferyllol.

5.2. Newid Demograffig a Rheoli Cyflyrau Hirdymor

Mae proffil y boblogaeth a ddisgrifir ym Mhennod Dau yn dangos twf parhaus ochr yn ochr â symudiad clir tuag at grwpiau oedran hŷn. Mae'r cynnydd a ragwelir yn nifer y trigolion sy'n chwe deg pump oed ac hŷn, ac

[100] Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

yn enwedig y rheiny sy'n wyth deg pump oed a hŷn, yn gysylltiedig â cyffredinrwydd uwch o gyflyrau hirdymor, amlafiachedd a chyfundrefnau meddyginiaeth cymhleth. Mae'r newidiadau hyn o ran demograffeg yn trosi'n uniongyrchol i angen parhaus a chynyddol am wasanaethau fferyllol.

Mae gwasanaethau fferyllol yn diwallu'r angen hwn drwy gyflenwi presgripsiynau'n ddiogel a'u gwirio'n glinigol, adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty a rheoli meddyginiaethau sy'n benodol i glefydau. Wrth i nifer a chymhlethdod meddyginiaethau a ragnodir gynyddu, felly hefyd yr angen i lynu at feddyginiaethau a lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau. Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio hefyd yn cynyddu'r galw am gymorth i gydymffurfio, gwasanaethau cartref a darpariaeth meddyginiaethau i leoliadau gofal.

Felly nid yw cyfraniad fferyllol o ran rheoli cyflyrau hirdymor wedi'i gyfyngu i gyflenwi meddyginiaethau yn unig, mae'n ymestyn hefyd i wella diogelwch cleifion, canlyniadau therapiwtig, a lleihau derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi.

5.3. Anghydraddoldebau Iechyd ac Amddifadedd

Mae Pennod Dau yn nodi amrywiad sylweddol mewn amddifadedd ar draws ardal y Bwrdd Iechyd, ynghyd ag anghydraddoldebau amlwg o ran disgwyliad oes a disgwyliad oes iach. Mewn ardaloedd sydd â lefelau uwch o amddifadedd economaidd-gymdeithasol gwelir bod clefydau cronig yn dechrau'n gynharach, bod mwy o farwolaethau cynamserol a mwy o ddibyniaeth ar wasanaethau gofal sylfaenol hygyrch.

Mae gwasanaethau fferyllol yn chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn. Mae fferyllfeydd cymunedol yn leoliadau y gellir cerdded i mewn iddynt fod angen apwyntiad ac maent yn darparu gwasanaethau'r GIG am ddim yn y fan a'r lle. Mewn cymunedau difreintiedig, yn aml, dyma'r lleoliad gofal iechyd mwyaf hygyrch ac agosaf. Drwy Wasanaethau Fferyllol Cymunedol (CCPS)—gan gynnwys gwasanaethau anhwylderau cyffredin, cyflenwi meddyginiaethau brys, a gwasanaethau atal cenhedlu—mae fferyllfeydd cymunedol yn cefnogi atal ac ymyrraeth gynnar. Ochr yn ochr â CCPS, mae gwasanaethau ehangach megis cyngor personol ar feddyginiaethau, cymorth i roi'r gorau i ysmygu, a rhaglenni brechu yn cryfhau rôl fferyllfeydd ymhellach o ran gwella iechyd y boblogaeth a lleihau salwch y gellir ei osgoi.

Felly mae crynodiad amddifadedd mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol yn creu mwy o alw cyfrannol am ddarpariaeth fferyllol hygyrch a gwasanaethau ataliol.

5.4. Atal ac Iechyd y Cyhoedd

Mae baich clefydau y gellir eu hatal a nodwyd ym Mhennod Dau yn arwain at angen clir am wasanaethau fferyllol sy'n canolbwyntio ar atal a lleihau risg. Mae ysmygu, gordewdra, ffactorau risg cardiofasgwlaidd a chlefyd anadlol yn cyfrannu'n sylweddol at forbidrwydd a marwolaethau y gellir eu hosgoi ar draws yr ardal.

Mae gwasanaethau fferyllol yn cefnogi amcanion iechyd y cyhoedd trwy wasanaethau brechu, rhaglenni rhoi'r gorau i ysmygu, gwasanaethau atal cenhedlu, cyfnewid nodwyddau a defnydd dan oruchwyliaeth, ochr yn ochr â rhoi cyngor ar ffordd iach o fyw. Mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi mentrau iechyd y cyhoedd ehangach ac yn lleihau'r pwysau ar leoliadau ymarfer cyffredinol a gofal brys.

O ystyried yr anghydraddoldebau o ran disgwyliad oes iach a ddisgrifiwyd yn gynharach, mae gwasanaethau fferyllol sy'n canolbwyntio ar atal yn arbennig o berthnasol mewn cymunedau sy'n profi canlyniadau iechyd gwaeth.

5.5. Amrywiad Daearyddol a Mynediad

Mae ardal y Bwrdd Iechyd yn cynnwys canolfannau trefol dwys eu poblogaeth a chymunedau gwledig sydd â phoblogaethau gwasgaredig. Mae amrywiad daearyddol yn dylanwadu ar y ffordd y mae trigolion yn cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd ac mae’n creu galw o fath gwahanol ar ddarpariaeth fferyllol.

Mewn ardaloedd gwledig, mae parhad cyflenwad meddyginiaethau a rôl practisiau fferyllol yn arbennig o bwysig. Mewn lleoliadau trefol, mae poblogaeth fwy dwys yn gysylltiedig â lefelau cyflenwi uwch a mwy o alw am wasanaethau mynediad brys. Felly mae’n rhaid i wasanaethau fferyllol ymateb i broblemau o ran capasiti a hygyrchedd ar draws cyd-destunau daearyddol amrywiol.

Mae'r bennod hon yn nodi bod angen o'r fath yn bodoli; bydd yr adroddiad yn ystyried yn nes ymlaen a yw'r dosbarthiad presennol yn cyd-fynd â'r patrymau hyn.

5.6. Iechyd Mamau, Atgenhedlu a Theuluoedd

Mae amrywiad mewn cyfraddau ffrwythlondeb a thwf y boblogaeth ar draws awdurdodau lleol yn creu galw parhaus am wasanaethau fferyllol sy'n gysylltiedig ag iechyd atgenhedlu a iechyd teuluol. Mae gwasanaethau atal cenhedlu, cyngor ar feddyginiaethau yn ystod beichiogrwydd a bwydo ar y

fron, a gwasanaethau anhwylderau cyffredin i blant yn cyfrannu at ddiwallu'r angen hwn.

Mewn ardaloedd sydd â chyfraddau ffrwythlondeb uwch a strwythurau poblogaeth iau, mae'r galw cymesur am y gwasanaethau hyn uwch. Mae darpariaeth fferyllol, felly, yn cefnogi gofal ataliol a gofal ymatebol yn y maes hwn.

5.7. Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau

Mae anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol yn gysylltiedig â cyffredinrwydd uwch o ran cyflyrau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae gwasanaethau fferyllol yn cyfrannu drwy ddosbarthu meddyginiaethau seicotropig yn ddiogel, gwasanaethau gweinyddu dan oruchwyliaeth, rhaglenni cyfnewid nodwyddau a chwistrellau a chefnogaeth o ran ymlyniad. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhan annatod o lwybrau triniaeth ehangach ac yn cefnogi amcanion lleihau niwed.

5.8. Gofal Brys a Gofal Heb ei Gynllunio

Mae gwasanaethau fferyllol hefyd yn diwallu anghenion sy'n deillio o bryderon iechyd brys ond nad ydynt yn argyfwng. Mae'r Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin, cyflenwad o feddyginiaethau mewn argyfwng a gwasanaethau ychwanegol fel y gwasanaeth meddyginiaethau brys a Phresgripsiynydd Annibynnol mewn Fferyllfa (PIPs) yn cefnogi gofal yn agosach at adref ac yn helpu i osgoi’r angen i fynd i feddygfeydd teulu ac adrannau brys.

Wrth i systemau gofal sylfaenol wynebu pwysau parhaus o ran galw, mae rôl fferyllfa gymunedol fel pwynt cyswllt cyntaf hygyrch yn dod yn fwy fwy pwysig.

5.9. Angen yn y Dyfodol yn ystod Oes y PNA

Mae'r cyfuniad o dwf rhagamcanol yn y boblogaeth, demograffeg sy'n heneiddio, amddifadedd parhaus a chymhlethdod cynyddol o ran presgripsiynu yn dangos y bydd y galw am wasanaethau fferyllol yn parhau drwy gydol oes yr PNA hwn. Disgwylir twf nid yn unig o ran faint o weithgaredd cyflenwi sydd ei angen ond hefyd o ran cymhlethdod glynu wrth feddyginiaethau, monitro ac ymyriadau ataliol.

Felly mae angen gwasanaethau fferyllol i gefnogi:

- Rheoli cyflyrau hirdymor ac amlafiachedd
- Diogelwch a glynu wrth feddyginiaethau
- Atal ac ymyrryd yn gynnar

- Lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Cymorth gofal brys hygyrch
- Cyflenwad parhaus o feddyginiaethau ar draws cymunedau gwledig a threfol

Ar ôl nodi'r anghenion iechyd y gall gwasanaethau fferyllol eu diwallu, mae'r bennod nesaf yn gwerthuso'r ddarpariaeth bresennol ar lefel leol er mwyn penderfynu a yw lleoliad, hygyrchedd a chymysgedd gwasanaethau’r ddarpariaeth yn gymesur â'r angen presennol a'r angen disgwyliedig.

Pennod Chwech - Asesiad o Ddigonolrwydd Gwasanaethau Fferyllol

6.1. Dull Asesu Lleol

Mae'r bennod hon yn asesu p'un a yw'r ddarpariaeth bresennol o ran gwasanaethau fferyllol yn ddigonol i fynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth ac anghenion iechyd sydd wedi'u pennu ym Mhennod 2, gan ystyried yr amrywiaeth o wasanaethau fferyllol a gwasanaethau ehangach y GIG sydd wedi'u disgrifio ym Mhenodau tri a phedwar.

Caiff yr asesiad ei gynnal gan ddefnyddio dull ar sail ardaloedd lleol, wedi'i strwythuro'n ôl ardal awdurdod lleol a Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth (NCN). Mae awdurdodau lleol yn darparu fframwaith daearyddol clir a chyson sydd wedi'i alinio â data poblogaeth, er bod NCNs yn adlewyrchu'r ôl troed gweithredol ar gyfer cynllunio a chyflwyno gwasanaethau sylfaenol a gwasanaethau cymunedol.

Er mwyn caniatáu ystyried amrywiadau lleol o ran mynediad, capasiti a galw'n fanylach, caiff yr asesiad o ddigonolrwydd ei gynnal ar lefel NCN.

Mae'r dull hwn yn sicrhau'r canlynol:

- Bod anghenion o ran y boblogaeth ac iechyd sydd wedi'u nodi ym Mhennod dau yn cael eu hystyried yn systematig ar lefel leol
- Bod gwasanaethau fferyllol sy'n bodoli eisoes yn cael eu hasesu'n gyson ac yn dryloyw
- Bod amrywiadau rhwng ardaloedd lleol yn cael eu cydnabod, gan gynnal strwythur cymesur a hylaw

Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar asesu digonolrwydd y ddarpariaeth bresennol a chanfod pwysau neu risgiau posibl. Ymdrinnir â chanfod meysydd penodol neu ofynion gwasanaeth yn y dyfodol ar wahân yn y bennod nesaf. Caiff pob NCN ei asesu yn ei dro, ac mae dadansoddiad llawn o ddata gweithgarwch ar gyfer pob NCN wedi cael ei gynnwys ym mhob adran NCN.

Yn ystod o broses o baratoi'r PNA hwn, dylid nodi bod nifer y NCNs o fewn BIPAB wedi newid. Cafodd Gogledd Torfaen a De Torfaen eu cyfuno i ddod yn NCN unigol ar gyfer Torfaen o 1 Hydref 2025, ac roedd Dwyrain Blaenau Gwent a Gorllewin Blaenau Gwent yn ffurfio NCN unigol ar gyfer Blaenau Gwent o 1 Ebrill 2026.

Yn y ddau achos, ni fydd unrhyw newidiadau i'r ôl troed daearyddol, maint y boblogaeth, nifer y darparwyr, y ddarpariaeth bresennol o ran gwasanaethau na'r angen fferyllol wedi'i asesu.

Er bod gwasanaethau hanfodol a rhai gwasanaethau clinigol ychwanegol yn cael eu hasesu ar lefel NCN er mwyn adlewyrchu mynediad a chapasiti lleol, caiff nifer o wasanaethau mwy arbenigol eu comisiynu ar draws ôl troed y Bwrdd Iechyd. Felly, caiff y gwasanaethau hyn eu hasesu ar lefel y Bwrdd Iechyd i adlewyrchu trefniadau comisiynnu ac i osgoi dyblygu diangen fel rhan o asesu pob ardal leol.

Mae'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan Feddygon Fferyllol wedi'u diffinio a'u cyfyngu'n gaeth gan reoliadau cenedlaethol, ac nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw ddisgresiwn i estyn eu cwmpas y tu hwnt i'r fframwaith statudol a ddisgrifir ym Mhennod Un.

6.2. Gwasanaethau Fferyllol wedi'u Comisiynu ar Ôl Troed Gwent Gyfan.

Er bod gwasanaethau hanfodol a rhai gwasanaethau clinigol ychwanegol yn cael eu hasesu ar lefel NCN, caiff nifer o wasanaethau mwy arbenigol eu comisiynu ar draws ôl troed y Bwrdd Iechyd. Felly caiff y gwasanaethau hyn eu hasesu ar wahân er mwyn osgoi dyblygu ac i adlewyrchu bwriadau comisiynu'n well. Bwriad y gwasanaethau hyn yw diwallu anghenion y boblogaeth ar draws ôl troed Gwent ac maent wedi'u seilio'n bennaf ar alw, defnyddio gwasanaethau, a galluoedd darparwyr.

Fel y cyfryw, nid yw absenoldeb y gwasanaethau hyn o fewn NCN unigol yn awgrymu bod bwlch o ran y ddarpariaeth. Bydd cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau partner yn cyrchu'r gwasanaethau hyn fel mater o drefn ar draws ffiniau ardaloedd lleol a chaiff darparwyr eu dethol er mwyn sicrhau cyfrifoldeb, gwydnwch ac ansawdd priodol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal asesiad wedi'i gydgrynhoi o'r gwasanaethau hyn ar lefel Gwent gyfan, gan ystyried lleoliad, data ynghylch gweithgarwch, defnydd o wasanaethau ac anghenion y boblogaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth ar hyn o bryd ac anghenion disgwyliedig y boblogaeth yn y dyfodol.

Mae'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r dull hwn wedi'u cynnwys isod:

- **Gwasanaethau Fferyllol Cartrefi Gofal**

Nid yw gwasanaethau fferyllol cartrefi gofal yn cael eu comisiynu fel mater o drefn o fewn pob ardal leol. Gall cartrefi gofal fanteisio ar wasanaethau gan ddarparwyr o bob rhan o ôl troed y Bwrdd Iechyd, ac mae'r trefniadau presennol yn ddigonol i ateb y galw.

- **Gwasanaeth Adolygu Defnydd o Anadlyddion**

Mae cymeriant o'r gwasanaeth Adolygu Defnydd o Anadlyddion yn parhau i fod yn gymharol isel ar draws y Bwrdd Iechyd ac mae modd rheoli'r galw presennol yn lleol gyda chapasiti presennol darparwyr

- **Gwasanaeth Feirysau a Gludir yn y Gwaed**

Caiff y Gwasanaeth Feirysau a Gludir yn y Gwaed ei gomisiynu yn unol ag anghenion a nodir. Mae lefelau gweithgarwch yn parhau i fod yn isel a chânt eu cynorthwyo'n ddigonol gan y darparwyr presennol.

- **Cyfnewid Nodwyddau**

Mae darpariaeth cyfnewid nodwyddau ar y gweill mewn partneriaeth â Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent, yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth wedi'u hasesu. Caiff gwasanaethau eu cynnig trwy gyfuniad o ddarparwyr arbenigol a fferyllfeydd cymunedol, ac mae'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol i ddiwallu anghenion ar draws y Bwrdd Iechyd.

- **Gwasanaeth Cyflenwi'r Tîm Therapi Arsylwi Twbercwlosis Uniongyrchol (DOTS)**

Caiff y Gwasanaeth DOTS Twbercwlosis ei gomisiynu fesul achos mewn ymateb i anghenion a nodir. Nid oes unrhyw ofyniad am ddarpariaeth gyffredinol, ac mae'r trefniadau presennol yn ddigonol.

- **Gwasanaeth Gofal Lliniarol y Tu Allan i Oriau**

Caiff gwasanaethau fferyllol gofal lliniarol eu comisiynu ar sail Gwent gyfan er mwyn sicrhau darpariaeth ddaearyddol briodol a mynediad prydlon at feddyginiaethau. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol i ddiwallu anghenion cleifion.

- **Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys**

Caiff y Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys ei gomisiynu ar draws y Bwrdd Iechyd, ac mae fferyllfeydd sy'n cymryd rhan yn cynnig mynediad ar gyfer y boblogaeth gyfan. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol i ateb y galw.

Tabl 7- Asesu Digonolrwydd

Gwasanaeth	Sail Gomisiynu	Dull o ran Darpariaeth	Asesiad o ddigonolrwydd
Cartref Gofal	Dewis Bwrdd Iechyd cyfan / darparwr	Trawsffiniol	Digonol
IUR	Wedi'i dargedu	Darparwyr dethol	Digonol
BBV	Yn seiliedig ar angen	Darparwyr cyfyngedig	Digonol

Cyfnewid Nodwyddau	Wedi'i hysbysu gan GAPB	Model rhwydwaith	Digonol
DOTS TB	Yn seiliedig ar ofal	Yn ôl yr angen	Digonol
Gofal Lliniarol	Bwrdd Iechyd cyfan	Lledaeniad daearyddol	Digonol
Meddyginiaethau Brys	Bwrdd Iechyd cyfan	Darpariaeth rhwydwaith	Digonol

Caiff y gwasanaethau hyn eu comisiynu'n fwriadol ar sail Bwrdd Iechyd cyfan neu sail wedi'i thargedu. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw angen ar hyn o bryd nac unrhyw newid yn y dyfodol i ehangu darpariaeth i'r holl fferyllfeydd neu ardaloedd lleol, gan fod anghenion cleifion yn cael eu diwallu trwy'r rhwydwaith presennol o ddarparwyr. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro gweithgarwch ac anghenion y boblogaeth trwy gydol oes y PNA a bydd yn adolygu trefniadau comisiynu lle bo angen.

6.3. Blaenau Gwent

Blaenau Gwent sydd â'r boblogaeth leiaf o fewn ardal y Bwrdd Iechyd ac mae'n profi rhai o'r lefelau uchaf o amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Mae Pennod Dau yn nodi bod ganddi'r gyfran uchaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is o fewn y degraddau cenedlaethol mwyaf difreintiedig a'r gyfran uchaf o farwolaethau cyn pryd oherwydd clefydau anhrosglwyddadwy ar draws Gwent. Mae disgwyliad oes a disgwyliad oes iach yn is o gymharu ag awdurdodau lleol eraill, ac mae bylchau nodedig o ran anghydraddoldeb.

Mae'r strwythur oedran yn adlewyrchu poblogaeth aeddfed o oedran gweithio ac mae niferoedd y trigolion hŷn yn cynyddu. Er bod twf y boblogaeth yn gyffredinol yn gymedrol, mae baich clefydau ataliadwy a chyflyrau hirdymor sy'n dechrau'n gynharach yn parhau i fod yn drawiadol. Mae 16 o fferyllfeydd yn yr ardal hon. Mae'n rhaid i ddarpariaeth ym Mlaenau Gwynt ymateb i'r canlynol:

- Amlder uwch o glefyd cardiofasgwlaidd, clefyd anadlol a chydafiechedd
- Angen uwch am optimeiddio meddyginiaethau a chymorth ymlynu
- Galw mawr am ymyriadau ataliol (e.e. rhoi'r gorau i ysmygu, brechu)
- Gwasanaethau hygyrch ar gyfer cymunedau difreintiedig yn cynnwys ymgysylltu is o bosibl â gofal sylfaenol wedi'i drefnu
- Nodweddion poblogaeth yn y Pen Dwfn - sy'n golygu cymunedau sy'n byw yn yr ardaloedd sydd â'r amddifadedd economaidd-gymdeithasol

mwyaf - gan gynnwys cymhlethdod clinigol uwch, cyfraddau ymgynghori cynyddol a'r angen am fodelau gofal rhagweithiol, yn seiliedig ar allgymorth ac sy'n hygyrch i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad a chanlyniadau

Mae fferyllfeydd cymunedol yn arbennig o bwysig o ran lliniaru anghenion iechyd sydd wedi'u symbylu gan anghydraddoldeb a darparu cymorth clinigol galw heibio sy'n hygyrch.

Fel y'i disgrifiwyd yn gynharach yn y bennod hon, o Ebrill 2026, bydd Blaenau Gwent yn cael ei hystyried fel NCN unigol ar ôl cyfuno'r Dwyrain a'r Gorllewin. Nid yw'r cyfuno yn newid yr asesiadau sy'n dilyn.

6.3.1. Dwyrain Blaenau Gwent

Mae Dwyrain Blaenau Gwent yn cynnwys cymunedau'r cymoedd sy'n wynebu heriau economaidd-gymdeithasol hirsefydledig a lefelau uwch o amddifadedd o gymharu â chyfartaledd y Bwrdd Iechyd. Mae'r ardal leol yn profi anghydraddoldeb o ran disgwyliad oes a baich parhaus o ran salwch ataliadwy, gan gyfrannu at alw cyson am wasanaethau gofal sylfaenol hygyrch. Mae proffil y boblogaeth yn adlewyrchu cymunedau sefydledig sy'n cynnwys cyfran gynyddol o drigolion hŷn. Mae'r patrwm demograffig hwn, ochr yn ochr ag anghydraddoldeb iechyd sy'n gysylltiedig ag amddifadedd, yn gysylltiedig ag amlder uwch o gyflyrau cronig, cydafiechedd a gofynion presgripsiynu cymhleth. Felly mae anghenion fferyllol o fewn Dwyrain Blaenau Gwent wedi'u llywio gan ddulliau rheoli cyflyrau hirdymor, optimeiddio meddyginiaethau a chymorth ymlynu, ochr yn ochr ag ymyriadau ataliol sy'n targedu ysmygu, risg gardiofasgwlaidd a chlefydau anadlol. Mae saith fferyllfa yn yr ardal hon.

6.3.1.1. Y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae'r tablau isod yn amlinellu gwasanaethau fferyllol y GIG sydd ar gael ar hyn o bryd o fewn Dwyrain Blaenau Gwent, ynghyd â’r ddarpariaeth bresennol a'r lefelau gweithgarwch ar gyfer pob gwasanaeth yn ystod 2024/25.

Tabl 8 – Data Gweithgarwch Dwyrain Blaenau Gwent

Dwyrain Blaenau Gwent: Gweithgarwch Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol 2024/25		BIPAB
Nifer y Fferyllfeydd	7	125
Poblogaeth practisau cofrestredig wedi'i phwysoli	33,370	618,679
Nifer y fferyllfeydd fesul 10,000 o gleifion	2.10	2.02

Gwasanaeth Clinigol Ychwanegol	Nifer y fferyllfeydd a gomisiynwyd	Canran y fferyllfeydd a gomisiynwyd	Gweithgarwch	Gweithgarwch fesul 10,000 o gleifion	Gweithgarwch fesul 10,000 o gleifion
Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin (CCPS)	7	100%	3178 o Ymgynghoriadau	952 o Ymgynghoriadau	1,142 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Atal Cenhedlu (CCPS)	7	100%	200 o Ymgynghoriadau	60 o Ymgynghoriadau	74 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Cyflenwi Meddyginiaethau Brys (CCPS)	7	100%	438 o Ymgynghoriadau	131 o Ymgynghoriadau	376 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol Fferyllfeydd	4	57%	681 o Ymgynghoriadau	204 o Ymgynghoriadau	399 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau Wrth Ryddhau	7	100%	145 o Adolygiadau	43 o Adolygiadau	40 o Adolygiadau
Gwasanaeth Brechu Rhag y Ffliw	7	100%	604 o Frechiadau	181 o Frechiadau	235 o Frechiadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 1	1	14%	100 o Ymgynghoriadau	30 o Ymgynghoriadau	19 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 2	1	14%	0	0	0
Gwasanaeth Gweinyddu o dan Oruchwyliaeth	7	100%	6,336 o Achosion o Oruchwylio	1,899 Achosion o Oruchwylio	1,138 o Achosion o Oruchwylio
Gwasanaeth Profion Llif Unffordd	5	71%	171 o Brofion a ddarparwyd	51 o Brofion a ddarparwyd	38 o Brofion a ddarparwyd
Gwasanaeth Cartrefi Gofal	0	0%	0	0	1 Cartref Gofal
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2	7	100%	300 o Gysylltiadau	90 o Gysylltiadau	81 o Gysylltiadau
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3	6	86%	272 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi	82 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi	57 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi
Gwasanaeth Cyfnewid Nodwyddau	2	29%	954 o Ryngweithiadau	286 o Ryngweithiadau	115 o Ryngweithiadau
Gwasanaeth Feirysau a Gludir yn y Gwaed	1	14%	0	0	5 o Brofion
Gwasanaeth Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth	4	57%	13 o gleifion	4 o Gleifion	38 o Gleifion

Gwastraff Lleihau Gwastraff	6	86%	968 o Ymyriadau	290 o Ymyriadau	267 o Ymyriadau
Gwasanaeth Cyflenwi DOTS Twbercwlosis	0	0%	0	0	4 o Gleifion
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau Gofal Lliniarol	0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 1	1	14%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 2	0	0%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau	4	57%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Tabl 9 – Data Gweithgarwch Dwyrain Blaenau Gwent

Dwyrain Blaenau Gwent: Gweithgarwch Dosbarthu 2024/25			**BIPAB**
Nifer y Fferyllfeydd		**7**	**125**
Poblogaeth practisau cofrestredig wedi'i phwysoli		**33,370**	**618,679**
Nifer y fferyllfeydd fesul 10,000 o gleifion		**2.10**	**2.02**
Rhagnodydd	Cyfanswm Nifer y presgripsiynau	Presgripsiynau a Ddosbarthwyd fesul 10,000 o'r Boblogaeth wedi'i Phwysoli	Presgripsiynau a Ddosbarthwyd fesul 10,000 o'r Boblogaeth wedi'i Phwysoli
Pob un	947,658	283,985	266,224
Meddyg Teulu BIPAB	928,568	278,264	254,204
Meddyg Teulu mewn Bwrdd Iechyd arall	216	65	4,624
Ysbyty	11,956	3,583	4,160
Deintydd	2,600	779	809
Yng Nghymru heb fanylu	886	266	718
Carchar BIPAB	0	0	431
Y tu allan i oriau BIPAB	1,038	311	406
Rhagnodi Annibynnol Fferyllfeydd	588	176	388
GDAS	931	279	195
Rhagnodi Annibynnol Offthalmig	637	191	116
Rhagnodydd yn Lloegr	28	8	79
Tîm Gofal Iechyd ar Sail Gwerth BIPAB	186	56	30

ABSDAS	0	0	27
ATS	0	0	25
Gwasanaeth Ymataliaeth BIPAB	18	5	10
Podiatreg BIPAB	6	2	2
Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	0	0	0.15

6.3.1.2. Gwasanaethau Fferyllol sydd wedi'u Cyrchu y Tu Allan i'r Ardal Leol

Mae rhai trigolion yn dewis cyrchu contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd naill ai am wasanaethau fferyllol sydd wedi'u lleoli'n agos i ble maent yn gweithio, siopa neu'n ymweld ag ef neu er mwyn cyrchu'r gwasanaethau a gynigir gan Gontractwyr Dosbarthu Cyfarpar.

Mae dadansoddiad o weithgarwch presgripsiynu ar draws y pum practis meddyg teulu o fewn yr ardal leol yn ystod 2024/25 yn dangos i'r rhan fwyaf o'r presgripsiynau gael eu dosbarthu gan fferyllfeydd sydd wedi'u lleoli o fewn ardal y NCN. Fodd bynnag, cafodd lleiafrif nodedig, sef 9.4% o'r holl bresgripsiynau, eu dosbarthu y tu allan i'r ardal leol. Er bod hyn yn cynrychioli cyfran gymharol fach o'r cyfanswm gweithgarwch dosbarthu, mae’n amlygu lefelau ystyrlon o ddefnydd y tu allan i'r ardal, serch hynny.

Ar draws yr ardal leol, roedd y gyfran fwyaf o ddosbarthu allanol yn digwydd o fewn ardaloedd lleol cyfagos. Roedd Dwyrain Caerffili yn cyfrif am 3.7% o'r presgripsiynau a ddosbarthwyd y tu allan i'r ardal leol, ac roedd Gorllewin Blaenau Gwent yn dilyn hyn, sef 1.9%. Cafodd cyfrannau llai eu dosbarthu ar draws yr ardaloedd lleol sy'n weddill. Cafodd cyfran fach arall o bresgripsiynau ei dosbarthu gan fferyllfeydd mewn Byrddau Iechyd eraill, a chafodd cyfran debyg ei gweinyddu gan gontractwyr yn Lloegr. Yn ogystal, cafodd cyfran fach o bresgripsiynau eu cofnodi fel eitemau a weinyddwyd yn bersonol yn hytrach na chael eu dosbarthu trwy fferyllfeydd cymunedol.

Mae'n bosibl y gallai fod defnydd ychwanegol o wasanaethau fferyllol o fferyllfeydd sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Ni ellir mesur y gweithgarwch hwn gan nad yw'r set ddata gofnodedig yn ymdrin â hyn.

6.3.1.3. Dewis a Mynediad at Wasanaethau Fferyllol

Mae'r rhan fwyaf o'r trigolion sy'n byw yn yr ardal leol ac sy'n gofrestredig ag un o'r pum practis meddyg teulu fel arfer yn defnyddio un o'r fferyllfeydd lleol i dderbyn eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae cyfran o gleifion yn dewis cael eu presgripsiynau o rywle arall. Mae hyn fel arfer gan ei fod yn

well ganddynt fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu cyfarpar sydd wedi'u lleoli'n agosach at ble maent yn gweithio, yn siopa, yn treulio amser hamdden, neu am reswm personol arall.

O ran mynediad, mae rhestr fanwl o oriau agor Fferyllfeydd Cymunedol ar gael yn atodiad N.

6.3.1.4. Gwasanaethau GIG Eraill sy'n Dylanwadu ar Anghenion Fferyllol

Mae rhagor o wybodaeth yn ymwneud â dylanwad Gwasanaethau GIG eraill ar anghenion fferyllol wedi'i hamlinellu ym Mhennod 4, ac mae manylion cynhwysfawr wedi'u darparu yn Atodiad O. Nid yw asesiad y Bwrdd Iechyd wedi canfod unrhyw wasanaethau GIG ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai a restrir yn Atodiad O, y disgwylir iddynt effeithio ar anghenion fferyllol yn Nwyrain Blaenau Gwent

6.3.1.5. Asesiad o Ddigonolrwydd y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae fferyllfeydd o fewn yr ardal leol wedi'u dosbarthu'n helaeth, ac mae safleoedd wedi'u lleoli ar draws yr ardal mewn ardaloedd sydd wedi'u nodweddu gan ddwysedd poblogaeth uwch a lefelau uwch o amddifadedd. Mae'r dosbarthiad hwn yn ategu hygyrchedd i drigolion sydd fwyaf tebygol o fod angen gwasanaethau fferyllol rheolaidd. Mae dadansoddi hygyrchedd amser gyrru yn dangos bod bron yr ardal leol gyfan o fewn taith 10 munud mewn car i fferyllfa. Yr unig ardal y tu allan i'r trothwy hwn yw darn bach o dir lle nad oes unrhyw boblogaeth breswyl ac felly, nid yw'n peri pryder o ran mynediad.

Mae amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn dangos cynnydd bach yn y boblogaeth gyffredinol dros y blynyddoedd sydd i ddod. Fodd bynnag, mae graddfa'r twf hwn yn gymedrol, sy'n golygu bod disgwyl i unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau fferyllol sy'n deillio o hyn fod yn gyfyngedig.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw safleoedd tai ychwanegol wedi'u canfod o fewn y Cynllun Datblygu Lleol (LDP) 2026-2021 presennol [101] sy'n perthyn i derfyn amser y ddogfen hon. Gan nad yw'r LDP wedi cael ei ddiweddaru ers yr Asesiad o Anghenion Fferyllol (PNA) diwethaf, ni ddisgwylir i unrhyw ddatblygiad preswyl newydd ddod i'r fei a fyddai'n creu pwysau wedi'i symbylu gan y boblogaeth ar wasanaethau fferyllol.

[101] Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Gwnaeth pedair o blith y saith fferyllfa sy'n gweithredu yn yr ardal leol ymateb i'r holiadur i gontractwyr. Gwnaeth tair fferyllfa gadarnhau bod ganddynt gapasiti digonol—o ran eiddo a staff—i ddelio ag unrhyw gynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Gwnaeth y bedwaredd fferyllfa ddatgan, er nad oedd ganddynt eiddo a chapasiti staffio ar hyn o bryd, y gallent addasu i ddelio ag unrhyw gynnydd yn y galw. Mae hyn yn dangos lefel sefydlog a gwydn o ddarpariaeth gwasanaeth ar draws yr ardal.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol o ran gwasanaethau fferyllol hanfodol yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn yr ardal leol hon ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn ôl pob tebyg.

Mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol ychwanegol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth o fewn y NCN, gan gynnwys gwasanaethau craidd sydd wedi'u comisiynu'n genedlaethol megis y Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol, y Gwasanaeth Brechu Rhag Ffliw Tymhorol, Adolygu Meddyginiaethau ar Adeg Rhyddhau, ochr yn ochr â Helpa Fi i Stopio (Rhoi'r Gorau i Ysmygu). Mae pob gwasanaeth wedi cael ei asesu o ran nifer y contractwyr sydd wedi'u comisiynu i'w ddarparu, lefel y gweithgarwch a welwyd, ac i fesur i ba raddau y mae'r ddarpariaeth bresennol yn adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd. Mae dadansoddiad manwl o ddarpariaeth a defnydd gwasanaeth wedi'i amlinellu yn Nhabl 8 a 9 uchod.

Mae'r asesiad hwn yn dangos, ar draws y gwasanaethau hyn, bod y lefelau presennol o ran darpariaeth a gweithgarwch yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, ac nid oes unrhyw dystiolaeth o alw heb ei ddiwallu neu ofyniad am gomisiynu ychwanegol o fewn y NCN ar hyn o bryd.

Caiff ystod o wasanaethau fferyllol ychwanegol eraill, gan gynnwys cymorth i gartrefi gofal, adolygu defnydd o anadlyddion, profion feirysau a gludir yn y gwaed, cyfnewid nodwyddau, DOTS twbercwlosis, gofal lliniarol a gwasanaethau meddyginiaethau brys, eu comisiynu naill ai ar sail Gwent gyfan neu mewn ymateb i anghenion penodol y boblogaeth, yn hytrach na bod ar gael yn unffurf o fewn pob ardal leol. Yn gyson â'r dull a amlinellir yn Adran 6.2, mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu hasesu ar lefel system gyfan i adlewyrchu trefniadau comisiynu, ffurfwedd gwasanaethau a phatrymau o ran defnydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol ar lefel Gwent gyfan a darpariaeth wedi'i thargedu o ran y gwasanaethau hyn yn ddigonol

i ddiwallu anghenion trigolion yn yr ardal leol hon, ac nid yw eu habsenoldeb o fewn ôl troed y NCN yn cynrychioli bwlch mewn darpariaeth gwasanaeth.

Yn seiliedig ar y wybodaeth a amlinellir yn Nhablau 8 a 9 a'r manylion cysylltiedig uchod, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y gwasanaethau fferyllol presennol, gan gynnwys darpariaeth y ceir mynediad ati mewn ardaloedd cyfagos, yn ddigonol ar hyn o bryd i ddiwallu'r angen a nodwyd.

6.3.2. Gorllewin Blaenau Gwent

Mae Gorllewin Blaenau Gwent yn cynnwys cymunedau sefydledig y cymoedd sydd ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol cyson ac anghydraddoldeb iechyd cysylltiedig Er ei bod yn rhannu heriau strwythurol tebyg i rannau eraill o'r fwrdeistref, mae'r ardal leol hon yn cynnwys ardaloedd lle bo angen dwys a galw uwch am wasanaethau gofal iechyd rheng flaen sy'n hygyrch. Mae amlder uwch o gyflyrau cronig, gan gynnwys clefydau cardiofasgwlaidd ac anadlol, ochr yn ochr â ffactorau risg ymddygiadol sy'n cyfrannu at salwch ataliadwy yn dylanwadu ar anghenion iechyd o fewn Gorllewin Blaenau Gwent. Mae'r ffactorau hyn yn arwain at alw cyson am optimeiddio meddyginiaethau, cymorth ymlynu a gwasanaethau fferyllol ataliol. Mae naw fferyllfa yn yr ardal hon.

6.3.2.1. Y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae'r tablau isod yn amlinellu gwasanaethau fferyllol y GIG sydd ar gael ar hyn o bryd o fewn Gorllewin Blaenau Gwent, ynghyd â'r ddarpariaeth bresennol a'r lefelau gweithgarwch ar gyfer pob gwasanaeth yn ystod 2024/25.

Tabl 10- Data Gweithgarwch Gorllewin Blaenau Gwent

Gorllewin Blaenau Gwent: Gweithgarwch Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol 2024/25					**BIPAB**
Nifer y Fferyllfeydd			9		**125**
Poblogaeth practisau cofrestredig wedi'i phwysoli			39,108		**618,679**
Nifer y fferyllfeydd fesul 10,000 o gleifion			2.30		**2.02**
Gwasanaeth Clinigol Ychwanegol	Nifer y fferyllfeydd a gomisiynwyd	Canran y fferyllfeydd a gomisiynwyd	Gweithgarwch	Gweithgarwch fesul 10,000 o gleifion	Gweithgarwch fesul 10,000 o gleifion
Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin (CCPS)	9	100%	5940 o Ymgynghoriadau	1,519 o Ymgynghoriadau	1,142 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Atal Cenhedlu (CCPS)	9	100%	314 o Ymgynghoriadau	680 o Ymgynghoriadau	74 o Ymgynghoriadau

Gwasanaeth Cyflenwi Meddyginiaethau Brys (CCPS)	9	100%	746 o Ymgynghoriadau	191 o Ymgynghoriadau	376 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol Fferyllfeydd	4	44%	2327 o Ymgynghoriadau	595 o Ymgynghoriadau	399 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau ar Adeg Rhyddhau	9	100%	209 o Adolygiadau	53 o Adolygiadau	40 o Adolygiadau
Gwasanaeth Brechu Rhag y Ffliw	9	100%	877 o Frechiadau	224 o Frechiadau	235 o Frechiadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 1	4	44%	298 o Ymgynghoriadau	76 o Ymgynghoriadau	19 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 2	4	44%	0	0	0
Gwasanaeth Gweinyddu o dan Oruchwyliaeth	9	100%	8510 o Achosion o Oruchwylio	2,176 o Achosion o Oruchwylio	1,138 o Achosion o Oruchwylio
Gwasanaeth Profion Llif Unffordd	7	78%	120 o Brofion a ddarparwyd	31 o Brofion a ddarparwyd	38 o Brofion a ddarparwyd
Gwasanaeth Cartrefi Gofal	0	0%	0	0	1 Cartref Gofal
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2	9	100%	471 o Gysylltiadau	120 o Gysylltiadau	81 o Gysylltiadau
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3	7	78%	268 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi	69 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi	57 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi
Gwasanaeth Cyfnewid Nodwyddau	2	22%	534 o Ryngweithiadau	137 o Ryngweithiadau	115 o Ryngweithiadau
Gwasanaeth Feirysau a Gludir yn y Gwaed	1	11%	18 o brofion	5	5 o Brofion
Gwasanaeth Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth	5	56%	21 o gleifion	5 o Gleifion	38 o Gleifion
Gwastraff Lleihau Gwastraff	7	78%	1052 o Ymyriadau	269 o Ymyriadau	267 o Ymyriadau

Gwasanaeth Cyflenwi DOTS Twbercwlosis	0	0%	0	0	4 o Gleifion
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau Gofal Lliniarol	0	0%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 1	1	11%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 2	0	0%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau	3	33%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Tabl 11- Data Gweithgarwch Gorllewin Blaenau Gwent

Gorllewin Blaenau Gwent: Gweithgarwch Dosbarthu 2024/25			**BIPAB**
Nifer y Fferyllfeydd		9	**125**
Poblogaeth practisau cofrestredig wedi'i phwysoli		39,108	**618,679**
Nifer y fferyllfeydd fesul 10,000 o gleifion		2.30	**2.02**
Rhagnodydd	Cyfanswm Nifer y presgripsiynau	Presgripsiynau a Ddosbarthwyd fesul 10,000 o'r Boblogaeth wedi'i Phwysoli	Presgripsiynau a Ddosbarthwyd fesul 10,000 o'r Boblogaeth wedi'i Phwysoli
Pob un	1,189,670	304,201	266,224
Meddyg Teulu BIPAB	1,161,176	296,915	254,204
Meddyg Teulu mewn Bwrdd Iechyd arall	2,302	589	4,624
Ysbyty	15,151	3,874	4,160
Deintydd	4,476	1,145	809
Yng Nghymru heb fanylu	782	200	718
Carchar BIPAB	0	0	431
Y tu allan i oriau BIPAB	1,467	375	406
Rhagnodi Annibynnol Fferyllfeydd	2,166	554	388
GDAS	1,201	307	195
Rhagnodi Annibynnol Offthalmig	262	67	116
Rhagnodydd yn Lloegr	140	36	79

Tîm Gofal Iechyd ar Sail Gwerth BIPAB	445	114	30
ABSDAS	0	0	27
ATS	16	4	25
Gwasanaeth Ymataliaeth BIPAB	79	20	10
Podiatreg BIPAB	5	1	2
Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	2	1	0.15

6.3.2.2. Gwasanaethau fferyllol wedi'u cyrchu y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis cyrchu contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd naill ai am wasanaethau fferyllol sydd wedi'u lleoli'n agos i ble maent yn gweithio, siopa neu'n ymweld ag ef neu er mwyn cyrchu'r gwasanaethau a gynigir gan Gontractwyr Dosbarthu Cyfarpar.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y pum practis meddyg teulu o fewn y NCN wedi'u dosbarthu gan fferyllfeydd o fewn yr ardal leol, cafodd rhyw 4% eu dosbarthu mewn mannau eraill, gan adlewyrchu lefel fach ond ystyrlon o ddosbarthu y tu allan i'r ardal.

Dim ond cyfrannau bach iawn o bresgripsiynau a gafodd eu dosbarthu ar draws yr ardaloedd lleol sy'n weddill, ac mae symiau bach tebyg yn cael eu prosesu gan fferyllfeydd mewn Byrddau Iechyd eraill neu gan gontractwyr yn Lloegr. Cafodd cyfran fach bellach o eitemau ei chofnodi fel rhai a gafodd eu gweinyddu'n bersonol yn hytrach na chael eu dosbarthu trwy fferyllfeydd cymunedol.

Efallai bod defnydd ychwanegol o wasanaethau fferyllol wedi'i wneud gan fferyllfeydd y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Ni ellir mesur y gweithgarwch hwn gan nad yw'r set ddata gofnodedig yn ymdrin â hyn

6.3.2.3. Dewis a Mynediad at Wasanaethau Fferyllol

Mae'r rhan fwyaf o'r trigolion sy'n byw yn yr ardal leol ac sy'n gofrestredig ag un o'r pum practis meddyg teulu fel arfer yn defnyddio un o'r fferyllfeydd lleol i dderbyn eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae cyfran o gleifion yn dewis cael eu presgripsiynau o rywle arall. Mae hyn fel arfer gan ei fod yn well ganddynt fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu cyfarpar sydd wedi'u lleoli'n agosach at ble maent yn gweithio, yn siopa, yn treulio amser hamdden, neu am reswm personol arall.

O ran mynediad, mae rhestr fanwl o oriau agor Fferyllfeydd Cymunedol ar gael yn atodiad N

6.3.2.4. Gwasanaethau GIG Eraill sy'n Dylanwadu ar Anghenion Fferyllol

Mae rhagor o wybodaeth yn ymwneud â dylanwad Gwasanaethau GIG eraill ar anghenion fferyllol wedi'i hamlinellu ym Mhennod 4, ac mae manylion cynhwysfawr wedi'u darparu yn Atodiad O. Nid yw asesiad y Bwrdd Iechyd wedi canfod unrhyw wasanaethau GIG ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai a restrir yn Atodiad O, y disgwylir iddynt effeithio ar anghenion fferyllol yng Ngorllewin Blaenau Gwent

6.3.2.5. Asesiad o Ddigonolrwydd y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae'r fferyllfeydd o fewn NCN Gorllewin Blaenau Gwent wedi'u dosbarthu'n eang ar draws ardaloedd o ddwysedd poblogaeth ac amddifadedd uwch, ac mae'r holl drigolion yn byw o fewn taith deg munud mewn car i fferyllfa.

Mae rhagamcaniadau ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn dangos cynnydd bach yn unig yn y boblogaeth dros y blynyddoedd sydd i ddod, sy'n awgrymu y bydd unrhyw bwysau ychwanegol ar wasanaethau fferyllol yn ddibwys. Cafodd un datblygiad tai yng Nglynebwy ei nodi yng Nghynllun Datblygu Lleol 2006-2021, yn cynnwys capasiti o 805 o gartrefi newydd. Gan nad yw'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei ddiweddaru ers y PNA diwethaf, erys hwn fel y dyraniad tai a fabwysiadwyd yn ffurfiol yn fwyaf diweddar. Er y bydd y datblygiad yn cyfrannu at dwf y boblogaeth, ni ddisgwylir iddo effeithio'n sylweddol ar alw am wasanaethau fferyllol.

Gwnaeth wyth o blith y naw fferyllfa sy'n gweithredu yn yr ardal leol ymateb i'r holiadur i gontractwyr. Gwnaeth saith fferyllfa gadarnhau bod ganddynt gapasiti digonol—o ran eiddo a staff—i ddelio ag unrhyw gynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Gwnaeth un darparwr adrodd y byddent yn ei chael yn anodd delio â galw cynyddol oherwydd eiddo cyfyngedig a chapasiti staffio annigonol. Mae hyn yn dangos lefel ddibynadwy a gwydn o wasanaeth yn yr ardal trwyddi draw.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol o ran gwasanaethau fferyllol hanfodol yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn yr ardal leol hon ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn ôl pob tebyg.

Mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol ychwanegol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth o fewn y NCN, gan gynnwys gwasanaethau craidd sydd wedi'u comisiynu'n genedlaethol megis y Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol, y Gwasanaeth Brechu Rhag Ffliw Tymhorol, Adolygu Meddyginiaethau ar Adeg Rhyddhau, ochr yn ochr â Helpa Fi i Stopio (Rhoi'r Gorau i Ysmygu). Mae pob gwasanaeth wedi cael

ei asesu o ran nifer y contractwyr sydd wedi'u comisiynu i'w ddarparu, lefel y gweithgarwch a welwyd, ac i fesur i ba raddau y mae'r ddarpariaeth bresennol yn adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd. Mae dadansoddiad manwl o ddarpariaeth a defnydd gwasanaeth wedi'i amlinellu yn Nhablau 10 a 11 uchod.

Mae'r asesiad hwn yn dangos, ar draws y gwasanaethau hyn, bod y lefelau presennol o ran darpariaeth a gweithgarwch yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, ac nid oes unrhyw dystiolaeth o alw heb ei ddiwallu neu ofyniad am gomisiynu ychwanegol o fewn y NCN ar hyn o bryd.

Caiff ystod o wasanaethau fferyllol ychwanegol eraill, gan gynnwys cymorth i gartrefi gofal, adolygu defnydd o anadlyddion, profion feirysau a gludir yn y gwaed, cyfnewid nodwyddau, DOTS twbercwlosis, gofal lliniarol a gwasanaethau meddyginiaethau brys, eu comisiynu naill ai ar sail Gwent gyfan neu mewn ymateb i anghenion penodol y boblogaeth, yn hytrach na bod ar gael yn unffurf o fewn pob ardal leol. Yn gyson â'r dull a amlinellir yn Adran 6.2, mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu hasesu ar lefel system gyfan i adlewyrchu trefniadau comisiynu, ffurfwedd gwasanaethau a phatrymau o ran defnydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol ar lefel Gwent gyfan a darpariaeth wedi'i thargedu o ran y gwasanaethau hyn yn ddigonol i ddiwallu anghenion trigolion yn yr ardal leol hon, ac nid yw eu habsenoldeb o fewn ôl troed y NCN yn cynrychioli bwlch mewn darpariaeth gwasanaeth.

Yn seiliedig ar y wybodaeth a nodir yn Nhablau 10 ac 11 a'r manylion cysylltiedig uchod, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y gwasanaethau fferyllol presennol, gan gynnwys darpariaeth y ceir mynediad ati mewn ardaloedd cyfagos, yn ddigonol ar hyn o bryd i ddiwallu'r angen a nodwyd

6.4. Caerffili - Cyd-destun Lleol a Chrynodeb o'r Boblogaeth

Caerffili yw'r awdurdod lleol mwyaf o fewn y Bwrdd Iechyd yn ôl poblogaeth. Mae pennod dau yn amlygu proffil economaidd-gymdeithasol cymysg, yn cynnwys pocedi sylweddol o amddifadedd, yn enwedig yng ngorllewin y fwrdeistref. Mae cyfraddau marwolaethau cyn pryd yn uwch na'r ardaloedd sy'n perfformio orau yng Ngwent, ac mae disgwyliad oes iach yn parhau i fod yn is mewn cymunedau mwy difreintiedig.

Mae strwythur y boblogaeth yn cynnwys carfan sylweddol o bobl sydd o oedran gweithio ochr yn ochr â phoblogaeth gynyddol sy'n heneiddio. Mae newid demograffig rhagamcanol yn awgrymu bod pwysau cyson ar

wasanaethau rheoli cyflyrau hirdymor. Mae 41 o fferyllfeydd yn yr ardal hon, mae'n rhaid i ddarpariaeth yng Nghaerffili fynd i'r afael â'r canlynol:

- Cyfaint presgripsiynu mawr sy'n gysylltiedig â maint y boblogaeth
- Rheoli cyflyrau hirdymor ar draws cymunedau difreintiedig a chymunedau cymysg
- Angen iechyd cyhoeddus ataliol sy'n gysylltiedig ag ysmygu, gordewdra a risg gardiofasgwlaidd
- Cymorth gyda meddyginiaethau ar gyfer poblogaeth gynyddol sy'n heneiddio
- Nodweddion poblogaeth y Pen Dwfn, gan gynnwys cymhlethdod clinigol cynyddol, cyfraddau ymgynghori uwch a'r angen am fodelau gofal rhagweithiol, sy'n seiliedig ar allgymorth ac sy'n hygyrch er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad a chanlyniadau

Mae graddfa'r boblogaeth yn golygu bod capasiti, hygyrchedd a dosbarthiad gwasanaethau yn ystyriaethau allweddol wrth asesu'r ddarpariaeth yn ddiweddarach.

6.4.1. Dwyrain Caerffili

Mae Dwyrain Caerffili yn cynnwys poblogaeth drefol a rhannol wledig gymysg ynghyd ag ardaloedd o amrywiadau economaidd-gymdeithasol. Er ei fod yn elwa o fod yn agos at gysylltiadau trafnidaeth a chanolbwyntiau economaidd, mae rhannau o'r ardal leol yn profi lefelau uwch o amddifadedd ac anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae'r boblogaeth yn cynnwys carfan sylweddol o bobl o oedran gweithio ochr yn ochr â nifer cynyddol o drigolion hŷn, gan gyfrannu at alw cyson am ddulliau rheoli cyflyrau hirdymor. Mae proffil y ddemograffeg sy'n heneiddio mewn rhannau o'r ardal leol yn cynyddu'r galw am gymorth amlgyffuriaeth, monitro meddyginiaethau risg fawr a gwasanaethau sy'n galluogi pobl i barhau i fod yn annibynnol gartref. Mewn cymdogaethau difreintiedig, mae fferyllfeydd cymunedol yn cyflawni rôl bwysig fel pwyntiau cyswllt hygyrch ar gyfer cyngor, cyflenwadau brys o feddyginiaethau ac ymyriadau iechyd y cyhoedd. Mae 23 o fferyllfeydd yn yr ardal hon.

6.4.1.1. Y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae'r tablau isod yn amlinellu gwasanaethau fferyllol y GIG sydd ar gael ar hyn o bryd o fewn Dwyrain Caerffili, ynghyd â'r ddarpariaeth bresennol a'r lefelau gweithgarwch ar gyfer pob gwasanaeth yn ystod 2024/25.

Tabl 12 - Data Gweithgarwch Dwyrain Caerffili

Dwyrain Caerffili: Gweithgarwch Ychwanegol Gwasanaethau Clinigol 2024/25					BIPAB
Nifer y Fferyllfeydd				**13**	**125**
Poblogaeth practisau cofrestredig wedi'i phwysoli				**67,505**	**618,679**
Nifer y fferyllfeydd fesul 10,000 o gleifion				**1.93**	**2.02**
Gwasanaeth Clinigol Ychwanegol	Nifer y fferyllfeydd a gomisiynwyd	Canran y fferyllfeydd a gomisiynwyd	Gweithgarwch	Gweithgarwch fesul 10,000 o gleifion	Gweithgarwch fesul 10,000 o gleifion
Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin (CCPS)	13	100%	5,279 o Ymgynghoriadau	782 o Ymgynghoriadau	1,142 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Atal Cenhedlu (CCPS)	13	100%	313 o Ymgynghoriadau	46 o Ymgynghoriadau	74 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Cyflenwi Meddyginiaethau Brys (CCPS)	13	100%	1,355 o Ymgynghoriadau	201 o Ymgynghoriadau	376 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol Fferyllfeydd	6	46%	1,749 o Ymgynghoriadau	259 o Ymgynghoriadau	399 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau ar Adeg Rhyddhau	13	100%	86 o Adolygiadau	13 o Adolygiadau	40 o Adolygiadau
Gwasanaeth Brechu Rhag y Ffliw	11	85%	1398 o Frechiadau	207 o Frechiadau	235 o Frechiadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 1	1	8%	10 o Ymgynghoriadau	1 o Ymgynghoriadau	19 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 2	1	8%	0	0	0
Gwasanaeth Gweinyddu o dan Oruchwyliaeth	10	77%	5,103 o Achosion o Oruchwylio	756 o Achosion o Oruchwylio	1,138 o Achosion o Oruchwylio
Gwasanaeth Profion Llif Unffordd	8	62%	78 o Brofion a ddarparwyd	12 o Brofion a ddarparwyd	38 o Brofion a ddarparwyd
Gwasanaeth Cartrefi Gofal	0	0%	0	0	1 Cartref Gofal
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2	12	92%	252 o Gysylltiadau	37 o Gysylltiadau	81 o Gysylltiadau
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3	8	62%	352 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi	52 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi	57 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi
Gwasanaeth Cyfnewid Nodwyddau	1	8%	25 o Ryngweithiadau	4 o Ryngweithiadau	115 o Ryngweithiadau
Gwasanaeth Feirysau a Gludir yn y Gwaed	1	8%	1	0	5 o Brofion

Gwasanaeth Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth	7	54%	150 o gleifion	22 o Gleifion	38 o Gleifion
Gwastraff Lleihau Gwastraff	10	77%	862 o Ymyriadau	128 o Ymyriadau	267 o Ymyriadau
Gwasanaeth Cyflenwi DOTS Twbercwlosis	0	0%	0	0	4 o Gleifion
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau Gofal Lliniarol	1	8%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 1	1	8%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 2	1	0%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau	5	38%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Tabl 13- Data Gweithgarwch Dwyrain Caerffili

Dwyrain Caerffili: Gweithgarwch Dosbarthu 2024/25		**BIPAB**
Nifer y Fferyllfeydd	**13**	**125**
Poblogaeth practisau cofrestredig wedi'i phwysoli	**67,505**	**618,679**
Nifer y fferyllfeydd fesul 10,000 o gleifion	**1.93**	**2.02**

Rhagnodydd	Cyfanswm Nifer y presgripsiynau	Presgripsiynau a Ddosbarthwyd fesul 10,000 o'r Boblogaeth wedi'i Phwysoli	Presgripsiynau a Ddosbarthwyd fesul 10,000 o'r Boblogaeth wedi'i Phwysoli
Pob un	1,750,478	259,311	266,224
Meddyg Teulu BIPAB	1,695,600	251,181	254,204
Meddyg Teulu mewn Bwrdd Iechyd arall	15,001	2,222	4,624
Ysbyty	25,685	3,805	4,160
Deintydd	4,523	670	809
Yng Nghymru heb fanylu	4,514	669	718
Carchar BIPAB	0	0	431
Y tu allan i oriau BIPAB	1,562	231	406
Rhagnodi Annibynnol Fferyllfeydd	1,643	243	388
GDAS	1,041	154	195
Rhagnodi Annibynnol Offthalmig	458	68	116
Rhagnodydd yn Lloegr	119	18	79

Tîm Gofal Iechyd ar Sail Gwerth BIPAB	189	28	30
ABSDAS	0	0	27
ATS	82	12	25
Gwasanaeth Ymataliaeth BIPAB	51	8	10
Podiatreg BIPAB	10	1	2
Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	0	0	0.15

6.4.1.2. Gwasanaethau Fferyllol sydd wedi'u Cyrchu y Tu Allan i'r Ardal Leol

Mae rhai trigolion yn dewis cyrchu contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd naill ai am wasanaethau fferyllol sydd wedi'u lleoli'n agos i ble maent yn gweithio, siopa neu'n ymweld ag ef neu er mwyn cyrchu'r gwasanaethau a gynigir gan Gontractwyr Dosbarthu Cyfarpar.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau sy'n cael eu hysgrifennu yn 2024/25 gan y saith practis meddyg teulu o fewn y NCN wedi cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd o fewn yr ardal leol, cafodd rhyw 8.5% eu dosbarthu yn rhywle arall, lefel o ddosbarthu y tu allan i'r ardal sy'n parhau i fod o fewn amrediad derbyniol ac nad yw'n peri pryder. O fewn hyn, cafodd rhyw 3.8% eu dosbarthu yng Ngogledd Caerffili, a chafodd 2.7% arall ei ddosbarthu gan fferyllfeydd mewn Byrddau Iechyd eraill, sy'n cynrychioli'r gyfran fwyaf o weithgarwch y tu allan i'r ardal.

Dim ond cyfrannau bach iawn o bresgripsiynau a gafodd eu dosbarthu ar draws yr ardaloedd lleol sy'n weddill, a chafodd symiau bach tebyg eu prosesu gan gontractwyr yn Lloegr. Cafodd cyfran fach bellach o eitemau ei chofnodi fel rhai a gafodd eu gweinyddu'n bersonol yn hytrach na chael eu dosbarthu trwy fferyllfeydd cymunedol.

Efallai bod defnydd ychwanegol o wasanaethau fferyllol wedi'i wneud gan fferyllfeydd y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Ni ellir mesur y gweithgarwch hwn gan nad yw'r set ddata gofnodedig yn ymdrin â hyn

6.4.1.3. Dewis a Mynediad at Wasanaethau Fferyllol

Mae'r rhan fwyaf o drigolion sy'n byw o fewn yr ardal leol ac sy'n gofrestredig ag un o'r saith practis meddyg teulu yn defnyddio un o'r fferyllfeydd lleol fel mater o drefn at ddibenion dosbarthu eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae cyfran o gleifion yn dewis cael eu presgripsiynau o rywle arall. Mae hyn fel arfer gan ei fod yn well ganddynt fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu cyfarpar sydd wedi'u lleoli'n

agosach at ble maent yn gweithio, yn siopa, yn treulio amser hamdden, neu am reswm personol arall.

O ran mynediad, mae rhestr fanwl o oriau agor Fferyllfeydd Cymunedol ar gael yn atodiad N

6.4.1.4. Gwasanaethau GIG Eraill sy'n Dylanwadu ar Anghenion Fferyllol

Mae rhagor o wybodaeth yn ymwneud â dylanwad gwasanaethau GIG eraill ar anghenion fferyllol wedi'u hamlinellu ym Mhennod 4, ac mae manylion cynhwysfawr wedi'u darparu yn Atodiad O. Nid yw asesiad y Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw wasanaethau GIG ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai a restrir yn Atodiad O, y disgwylir iddynt effeithio ar anghenion fferyllol yn Nwyrain Caerffili.

6.4.1.5. Asesiad o Ddigonolrwydd y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae adolygiad y Bwrdd Iechyd o ddarpariaeth fferyllol o fewn yr ardal leol yn dangos bod fferyllfeydd wedi'u dosbarthu'n eang ar draws yr ardal, ac ar y cyfan, mae lleoliadau wedi'u halinio â chymunedau sydd â dwysedd poblogaeth uwch a lefelau uwch o amddifadedd. Mae'r patrwm hwn o ran lleoliad yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael lle bo'r angen mwyaf ar y cyfan. Mae'r ardal leol gyfan o fewn taith 15 munud mewn car i fferyllfa.

Mae amcanestyniadau o'r boblogaeth ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn dangos cynnydd dibwys o ryw 3% rhwng 2022 a 2047. Ni ddisgwylir i dwf o'r lefel hon roi pwysau ychwanegol sylweddol ar wasanaethau fferyllol hanfodol. Cafodd tri datblygiad tai yn y Coed-duon a Phontllanfraith eu nodi o fewn LDP 2010-2021[102], yn cynnwys capasiti cyfunol o 552 o gartrefi newydd, y mae rhai o'r rhain eisoes wedi cael eu cwblhau. Gan nad yw'r LDP wedi cael ei ddiweddaru ers y PNA diwethaf, y rhain yw'r dyraniadau tai sydd wedi'u mabwysiadu yn fwyaf diweddar. Er y bydd y datblygiadau hyn yn cyfrannu at dwf y boblogaeth leol, ystyrir bod y raddfa'n hylaw o fewn y capasiti gwasanaeth presennol.

Gwnaeth 6 o blith y 13 o fferyllfeydd sy'n gweithredu o fewn yr ardal leol ymateb i'r holiadur ar gyfer contractwyr. Gwnaeth pump gadarnhau bod ganddynt gapasiti digonol - o ran eiddo a staffio - i ddelio ag unrhyw gynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Gwnaeth y chweched adrodd, er nad oes ganddynt yr eiddo a'r capasiti staffio

[102] Caerffili - Bwrdeistref Sirol Caerffili

angenrheidiol ar hyn o bryd, y gallent wneud addasiadau gweithredol er mwyn delio ag unrhyw gynnydd yn y galw.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol o ran gwasanaethau fferyllol hanfodol yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn yr ardal leol hon ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn ôl pob tebyg.

Mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol ychwanegol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth o fewn y NCN, gan gynnwys gwasanaethau craidd sydd wedi'u comisiynu'n genedlaethol megis y Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol, y Gwasanaeth Brechu Rhag Ffliw Tymhorol, Adolygu Meddyginiaethau ar Adeg Rhyddhau, ochr yn ochr â Helpa Fi i Stopio (Rhoi'r Gorau i Ysmygu). Mae pob gwasanaeth wedi cael ei asesu o ran nifer y contractwyr sydd wedi'u comisiynu i'w ddarparu, lefel y gweithgarwch a welwyd, ac i fesur i ba raddau y mae'r ddarpariaeth bresennol yn adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd. Mae dadansoddiad manwl o ddarpariaeth gwasanaeth a defnydd ohono wedi'i amlinellu yn nhablau 12 a 13 uchod.

Mae'r asesiad hwn yn dangos, ar draws y gwasanaethau hyn, bod y lefelau presennol o ran darpariaeth a gweithgarwch yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, ac nid oes unrhyw dystiolaeth o alw heb ei ddiwallu neu ofyniad am gomisiynu ychwanegol o fewn y NCN ar hyn o bryd.

Caiff ystod o wasanaethau fferyllol ychwanegol eraill, gan gynnwys cymorth i gartrefi gofal, adolygu defnydd o anadlyddion, profion feirysau a gludir yn y gwaed, cyfnewid nodwyddau, DOTS twbercwlosis, gofal lliniarol a gwasanaethau meddyginiaethau brys, eu comisiynu naill ai ar sail Gwent gyfan neu mewn ymateb i anghenion penodol y boblogaeth, yn hytrach na bod ar gael yn unffurf o fewn pob ardal leol. Yn gyson â'r dull a amlinellir yn Adran 6.2, mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu hasesu ar lefel system gyfan i adlewyrchu trefniadau comisiynu, ffurfwedd gwasanaethau a phatrymau o ran defnydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol ar lefel Gwent gyfan a darpariaeth wedi'i thargedu o ran y gwasanaethau hyn yn ddigonol i ddiwallu anghenion trigolion yn yr ardal leol hon, ac nid yw eu habsenoldeb o fewn ôl troed y NCN yn cynrychioli bwlch mewn darpariaeth gwasanaeth.

Yn seiliedig ar y wybodaeth a amlinellir yn Nhablau 12 a 13, a'r manylion cysylltiedig uchod, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y gwasanaethau fferyllol presennol, gan gynnwys darpariaeth y ceir mynediad ati mewn ardaloedd cyfagos, yn ddigonol ar hyn o bryd i ddiwallu'r angen a nodwyd.

6.4.2. Gogledd Caerffili

Mae Gogledd Caerffili yn cynnwys nifer o gymunedau'r cymoedd sydd â lefelau amrywiol o amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldeb iechyd cysylltiedig. Mae gan yr ardal leol broffil oedran gweddol hŷn o gymharu â rhai rhannau eraill o'r fwrdeistref, yn cynnwys cymunedau sefydledig ac amlder cynyddol o gyflyrau hirdymor. Mae'r nodweddion demograffig hyn yn cyfrannu at alw cyson am gyflenwi meddyginiaethau, optimeiddio a monitro. Mae dangosyddion iechyd yn adlewyrchu cyfraddau uwch o glefydau cronig, gan gynnwys cyflyrau cardiofasgwlaidd ac anadlol, ochr yn ochr â ffactorau risg ymddygiadol megis ysmygu. Mae patrymau o'r fath yn arwain at angen parhaus am wasanaethau fferyllol hygyrch sy'n ategu ymlynu, rheoli cydafiachedd ac ymyriadau iechyd cyhoeddus ataliol. Mae 14 o fferyllfeydd yn yr ardal hon.

6.4.2.1. Y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae'r tablau isod yn amlinellu gwasanaethau fferyllol y GIG sydd ar gael ar hyn o bryd yng Ngogledd Caerffili, ynghyd â'r ddarpariaeth a'r lefelau gweithgarwch presennol ar gyfer pob gwasanaeth yn ystod 2024/25.

Tabl 14- Data Gweithgarwch Gogledd Caerffili

Gogledd Caerffili: Gweithgarwch Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol 2024/25					**BIPAB**
Nifer y Fferyllfeydd				**14**	**125**
Poblogaeth practisau cofrestredig wedi'i phwysoli				**61,363**	**618,679**
Nifer y fferyllfeydd fesul 10,000 o gleifion				**2.28**	**2.02**
Gwasanaeth Clinigol Ychwanegol	Nifer y fferyllfeydd a gomisiynwyd	Canran y fferyllfeydd a gomisiynwyd	Gweithgarwch	Gweithgarwch fesul 10,000 o gleifion	Gweithgarwch fesul 10,000 o gleifion
Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin (CCPS)	14	100%	6,866 o Ymgynghoriadau	1,119 o Ymgynghoriadau	1,142 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Atal Cenhedlu (CCPS)	14	100%	333 o Ymgynghoriadau	54 o Ymgynghoriadau	74 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Cyflenwi Meddyginiaethau Brys (CCPS)	14	100%	1,919 o Ymgynghoriadau	313 o Ymgynghoriadau	376 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol Fferyllfeydd	9	64%	3,130 o Ymgynghoriadau	510 o Ymgynghoriadau	399 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygu	14	100%	236 o Adolygiadau	38 o Adolygiadau	40 o Adolygiadau

Meddyginiaethau ar Adeg Rhyddhau					
Gwasanaeth Brechu Rhag y Ffliw	14	100%	1,799 o Frechiadau	293 o Frechiadau	235 o Frechiadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 1	5	36%	103 o Ymgynghoriadau	17 o Ymgynghoriadau	19 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 2	5	36%	0	0	0
Gwasanaeth Gweinyddu o dan Oruchwyliaeth	12	86%	11,734 o Achosion o Oruchwylio	1,912 o Achosion o Oruchwylio	1,138 o Achosion o Oruchwylio
Gwasanaeth Profion Llif Unffordd	11	79%	163 o Brofion a ddarparwyd	27 o Brofion a ddarparwyd	38 o Brofion a ddarparwyd
Gwasanaeth Cartrefi Gofal	0	0%	0	0	1 Cartref Gofal
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2	14	100%	621 o Gysylltiadau	101 o Gysylltiadau	81 o Gysylltiadau
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3	13	93%	360 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi	59 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi	57 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi
Gwasanaeth Cyfnewid Nodwyddau	5	36%	1,397 o Ryngweithiadau	228 o Ryngweithiadau	115 o Ryngweithiadau
Gwasanaeth Feirysau a Gludir yn y Gwaed	2	14%	0	0	5 o Brofion
Gwasanaeth Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth	14	100%	506 o gleifion	82 o Gleifion	38 o Gleifion
Gwastraff Lleihau Gwastraff	13	93%	1,943 o Ymyriadau	317 o Ymyriadau	267 o Ymyriadau
Gwasanaeth Cyflenwi DOTS Twbercwlosis	0	0%	0	0	4 o Gleifion
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau Gofal Lliniarol	0	0%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 1	1	7%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 2	0	0%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau	8	57%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Tabl 15- Data Gweithgarwch Gogledd Caerffili

Gogledd Caerffili: Gweithgarwch Dosbarthu 2024/25		**BIPAB**
Nifer y Fferyllfeydd	**14**	**125**

Poblogaeth practisau cofrestredig wedi'i phwysoli		**61,363**	**618,679**
Nifer y fferyllfeydd fesul 10,000 o gleifion		**2.28**	**2.02**
Rhagnodydd	Cyfanswm Nifer y presgripsiynau	Presgripsiynau a Ddosbarthwyd fesul 10,000 o'r Boblogaeth wedi'i Phwysoli	Presgripsiynau a Ddosbarthwyd fesul 10,000 o'r Boblogaeth wedi'i Phwysoli
Pob un	1,979,985	322,668	266,224
Meddyg Teulu BIPAB	1,839,622	299,793	254,204
Meddyg Teulu mewn Bwrdd Iechyd arall	84,735	13,809	4,624
Ysbyty	25,953	4,229	4,160
Deintydd	3,996	651	809
Yng Nghymru heb fanylu	17,332	2,825	718
Carchar BIPAB	0	0	431
Y tu allan i oriau BIPAB	1,789	292	406
Rhagnodi Annibynnol Fferylliaeth	2,989	487	388
GDAS	1,713	279	195
Rhagnodi Annibynnol Offthalmig	358	58	116
Rhagnodydd yn Lloegr	514	84	79
Tîm Gofal Iechyd ar Sail Gwerth BIPAB	104	17	30
ABSDAS	0	0	27
ATS	805	131	25
Gwasanaeth Ymataliaeth BIPAB	60	10	10
Podiatreg BIPAB	11	2	2
Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	4	1	0.15

6.4.2.2. Gwasanaethau fferyllol wedi'u cyrchu y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis cyrchu contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd naill ai am wasanaethau fferyllol sydd wedi'u lleoli'n agos i ble maent yn gweithio, siopa neu'n ymweld ag ef neu er mwyn cyrchu'r gwasanaethau a gynigir gan Gontractwyr Dosbarthu Cyfarpar.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd yn 2024/25 gan y saith practis meddyg teulu o fewn y NCN wedi cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd o fewn yr ardal leol, cafodd rhyw 9.4% eu dosbarthu yn rhywle arall, gan adlewyrchu bod rhyw un ym mhob deg o bresgripsiynau wedi cael eu cwblhau y tu allan i'r ardal. O fewn hyn, cafodd rhyw 4.6% ei ddosbarthu yn Nwyrain Caerffili, gan gynrychioli'r gyfran unigol fwyaf o weithgarwch y

tu allan i'r ardal, tra bod 2.2% arall wedi'i ddosbarthu gan fferyllfeydd mewn Byrddau Iechyd eraill.

Dim ond cyfrannau bach iawn o bresgripsiynau a gafodd eu dosbarthu ar draws yr ardaloedd lleol sy'n weddill, a chafodd symiau bach tebyg eu prosesu gan gontractwyr yn Lloegr. Cafodd cyfran fach bellach o eitemau ei chofnodi fel rhai a gafodd eu gweinyddu'n bersonol yn hytrach na chael eu dosbarthu trwy fferyllfeydd cymunedol.

Efallai bod defnydd ychwanegol o wasanaethau fferyllol wedi'i wneud gan fferyllfeydd y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Ni ellir mesur y gweithgarwch hwn gan nad yw'r set ddata gofnodedig yn ymdrin â hyn

6.4.2.3. Dewis a Mynediad at Wasanaethau Fferyllol

Mae'r rhan fwyaf o drigolion sy'n byw o fewn yr ardal leol ac sy'n gofrestredig ag un o'r saith practis meddyg teulu yn defnyddio un o'r fferyllfeydd lleol fel mater o drefn at ddibenion dosbarthu eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae cyfran o gleifion yn dewis cael eu presgripsiynau o rywle arall. Mae hyn fel arfer gan ei fod yn well ganddynt fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu cyfarpar sydd wedi'u lleoli'n agosach at ble maent yn gweithio, yn siopa, yn treulio amser hamdden, neu am reswm personol arall.

O ran mynediad, mae rhestr fanwl o oriau agor Fferyllfeydd Cymunedol ar gael yn atodiad N

6.4.2.4. Gwasanaethau GIG Eraill sy'n Dylanwadu ar Anghenion Fferyllol

Mae rhagor o wybodaeth am ddylanwad gwasanaethau GIG eraill ar anghenion fferyllol wedi'u hamlinellu ym Mhennod Pedwar, yn cynnwys manylion cynhwysfawr a ddarperir yn Atodiad O. Nid yw asesiad y Bwrdd Iechyd wedi canfod unrhyw wasanaethau GIG ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai a restrir yn Atodiad O, y disgwylir iddynt effeithio ar anghenion fferyllol yng Ngogledd Caerffili.

6.4.2.5. Asesiad o Ddigonolrwydd y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae fferyllfeydd wedi'u dosbarthu'n briodol ar draws yr ardal leol, gan alinio'n glir ag ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch a mwy o amddiffadedd economaidd-gymdeithasol. Mae'r dosbarthiad hwn yn sicrhau bod cymunedau â lefelau o anghenion a allai fod yn uwch o bosibl yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Yn ogystal, mae hygyrchedd ar draws yr ardal leol yn gryf, ac mae'r holl drigolion wedi'u lleoli o fewn taith 15- munud mewn car i fferyllfa.

Mae amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn dangos cynnydd dibwys o ryw 3% rhwng 2022 a 2047. Ni ystyrir twf o'r lefel hon i fod yn ddigonol i arwain at alw ychwanegol a fyddai'n fwy na chapasiti'r gwasanaethau fferyllol presennol. Mae'r asesiad hefyd yn cadarnhau nad oes unrhyw safleoedd tai ychwanegol wedi'u canfod yn LDP 2010-2021 a fyddai'n newid dosbarthiad y boblogaeth yn sylweddol nac yn creu ardaloedd o alw dwys newydd. Gan nad yw'r LDP wedi cael ei ddiweddaru ers y PNA diwethaf, nid oes unrhyw ddatblygiadau hysbys sydd i ddod a fyddai'n newid y sefyllfa hon.

Gwnaeth chwech o'r 14 o fferyllfeydd sy'n gweithredu yn yr ardal leol ymateb i'r holiadur i gontractwyr. Gwnaeth pedair fferyllfa gadarnhau bod ganddynt gapasiti digonol - o ran eiddo a staffio - i ddelio ag unrhyw gynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Gwnaeth y ddwy fferyllfa sy'n weddill sôn, er nad oes ganddynt y safleoedd a'r capasiti staffio angenrheidiol ar hyn o bryd, y gallent wneud addasiadau gweithredol i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol o ran gwasanaethau fferyllol hanfodol yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn yr ardal leol hon ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn ôl pob tebyg.

Mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol ychwanegol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth o fewn y NCN, gan gynnwys gwasanaethau craidd sydd wedi'u comisiynu'n genedlaethol megis y Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol, y Gwasanaeth Brechu Rhag Ffliw Tymhorol, Adolygu Meddyginiaethau ar Adeg Rhyddhau, ochr yn ochr â Helpa Fi i Stopio (Rhoi'r Gorau i Ysmygu). Mae pob gwasanaeth wedi cael ei asesu o ran nifer y contractwyr sydd wedi'u comisiynu i'w ddarparu, lefel y gweithgarwch a welwyd, ac i fesur i ba raddau y mae'r ddarpariaeth bresennol yn adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd. Mae dadansoddiad manwl o ddarpariaeth gwasanaeth a defnydd ohono wedi'i amlinellu yn nhabl 14 a 15 uchod.

Mae'r asesiad hwn yn dangos, ar draws y gwasanaethau hyn, bod y lefelau presennol o ran darpariaeth a gweithgarwch yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, ac nid oes unrhyw dystiolaeth o alw heb ei ddiwallu neu ofyniad am gomisiynu ychwanegol o fewn y NCN ar hyn o bryd.

Caiff ystod o wasanaethau fferyllol ychwanegol eraill, gan gynnwys cymorth i gartrefi gofal, adolygu defnydd o anadlyddion, profion feirysau a gludir yn y gwaed, cyfnewid nodwyddau, DOTS twbercwlosis, gofal lliniarol a

gwasanaethau meddyginiaethau brys, eu comisiynu naill ai ar sail Gwent gyfan neu mewn ymateb i anghenion penodol y boblogaeth, yn hytrach na bod ar gael yn unffurf o fewn pob ardal leol. Yn gyson â'r dull a amlinellir yn Adran 6.2, mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu hasesu ar lefel system gyfan i adlewyrchu trefniadau comisiynu, ffurfwedd gwasanaethau a phatrymau o ran defnydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol ar lefel Gwent gyfan a darpariaeth wedi'i thargedu o ran y gwasanaethau hyn yn ddigonol i ddiwallu anghenion trigolion yn yr ardal leol hon, ac nid yw eu habsenoldeb o fewn ôl troed y NCN yn cynrychioli bwlch mewn darpariaeth gwasanaeth.

Yn seiliedig ar y wybodaeth a amlinellir yn nhablau 14 a 15, a'r manylion cysylltiedig uchod, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y gwasanaethau fferyllol presennol, gan gynnwys darpariaeth y ceir mynediad ati mewn ardaloedd cyfagos, yn ddigonol ar hyn o bryd i ddiwallu'r angen a nodwyd.

6.4.3. De Caerffili

Mae De Caerffili yn cynnwys cymunedau trefol â phoblogaeth fwy dwys, yn cynnwys ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol ochr yn ochr â chymdogaethau mwy cymysg. Mae'r ardal leol yn profi pwysau parhaus o ran y boblogaeth a grwpiau oedran sy'n gymharol iau yn rhannol, gan gyfrannu at batrymau galw sy'n wahanol i ardaloedd sy'n fwy gwledig neu'r cymoedd. Mae dwysedd y boblogaeth o fewn canolfannau trefol yn cynyddu cyfaint presgripsiynu'n gyffredinol a'r galw am fynediad prydlon at feddyginiaethau, cyflenwadau brys a gwasanaethau galw heibio. Er bod dulliau rheoli cyflyrau hirdymor yn parhau i fod yn arwyddocaol, mae'r ardal leol hefyd yn profi lefel uwch o ymwelwyr a mwy o ddibyniaeth ar fferyllfeydd fel pwyntiau cyswllt cyntaf ar gyfer mân salwch a gofal heb ei gynllunio. Mae 14 o fferyllfeydd yn yr ardal hon.

6.4.3.1. Y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae'r tablau isod yn amlinellu gwasanaethau fferyllol y GIG sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ne Caerffili, ynghyd â'r ddarpariaeth bresennol a'r lefelau gweithgarwch ar gyfer pob gwasanaeth yn ystod 2024/25.

Tabl 16- Data Gweithgarwch De Caerffili

De Caerffili: Gweithgarwch Ychwanegol Gwasanaethau Clinigol 2024/25		BIPAB
Nifer y Fferyllfeydd	14	125
Poblogaeth practisau cofrestredig wedi'i phwysoli	55,925	618,679
Nifer y fferyllfeydd fesul 10,000 o gleifion	2.50	2.02

Gwasanaeth Clinigol Ychwanegol	Nifer y fferyllfeydd a gomisiynwyd	Canran y fferyllfeydd a gomisiynwyd	Gweithgarwch	Gweithgarwch fesul 10,000 o gleifion	Gweithgarwch fesul 10,000 o gleifion
Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin (CCPS)	14	100%	6,302 o Ymgynghoriadau	1,127 o Ymgynghoriadau	1,142 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Atal Cenhedlu (CCPS)	14	100%	368 o Ymgynghoriadau	66 o Ymgynghoriadau	74 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Cyflenwi Meddyginiaethau Brys (CCPS)	14	100%	2,748 o Ymgynghoriadau	491 o Ymgynghoriadau	376 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol Fferyllfeydd	5	36%	654 o Ymgynghoriadau	117 o Ymgynghoriadau	399 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau ar Adeg Rhyddhau	14	100%	144 o Adolygiadau	26 o Adolygiadau	40 o Adolygiadau
Gwasanaeth Brechu Rhag y Ffliw	13	93%	1,203 o Frechiadau	215 o Frechiadau	235 o Frechiadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 1	4	29%	188 o Ymgynghoriadau	34 o Ymgynghoriadau	19 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 2	4	29%	0	0	0
Gwasanaeth Gweinyddu o dan Oruchwyliaeth	11	79%	3,029 o Achosion o Oruchwylio	542 o Achosion o Oruchwylio	1,138 o Achosion o Oruchwylio
Gwasanaeth Profion Llif Unffordd	10	71%	235 o Brofion a ddarparwyd	42 o Brofion a ddarparwyd	38 o Brofion a ddarparwyd
Gwasanaeth Cartrefi Gofal	0	0%	0	0	1 Cartref Gofal
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2	13	93%	290 o Gysylltiadau	52 o Gysylltiadau	81 o Gysylltiadau
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3	8	57%	237 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi	42 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi	57 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi
Gwasanaeth Cyfnewid Nodwyddau	1	7%	2 o Ryngweithiadau	0 o Ryngweithiadau	115 o Ryngweithiadau
Gwasanaeth Feirysau a Gludir yn y Gwaed	0	0%	0	0	5 o Brofion
Gwasanaeth Cofnodion	8	57%	62 o gleifion	11 o Gleifion	38 o Gleifion

Gweinyddu Meddyginiaeth					
Gwastraff Lleihau Gwastraff	11	79%	711 o Ymyriadau	128 o Ymyriadau	267 o Ymyriadau
Gwasanaeth Cyflenwi DOTS Twbercwlosis	0	0%	0	0	4 Cleifion
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau Gofal Lliniarol	1	7%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 1	2	14%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 2	1	7%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau	4	29%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Tabl 17- Data Gweithgarwch De Caerffili

De Caerffili: Gweithgarwch Dosbarthu 2024/25			**BIPAB**
Nifer y Fferyllfeydd		**14**	**125**
Poblogaeth practisau cofrestredig wedi'i phwysoli		**55,925**	**618,679**
Nifer y fferyllfeydd fesul 10,000 o gleifion		**2.50**	**2.02**
Rhagnodydd	Cyfanswm Nifer y presgripsiynau	Presgripsiynau a Ddosbarthwyd fesul 10,000 o'r Boblogaeth wedi'i Phwysoli	Presgripsiynau a Ddosbarthwyd fesul 10,000 o'r Boblogaeth wedi'i Phwysoli
Pob un	1,478,379	264,350	266,224
Meddyg Teulu BIPAB	1,409,757	252,080	254,204
Meddyg Teulu mewn Bwrdd Iechyd arall	33,109	5,920	4,624
Ysbyty	22,616	4,044	4,160
Deintydd	6,249	1,117	809
Yng Nghymru heb fanylu	751	134	718
Carchar BIPAB	1	0	431
Y tu allan i oriau BIPAB	3,629	649	406
Rhagnodi Annibynnol Fferyllfeydd	396	71	388
GDAS	809	145	195
Rhagnodi Annibynnol Offthalmig	817	146	116
Rhagnodydd yn Lloegr	159	28	79
Tîm Gofal Iechyd ar Sail Gwerth BIPAB	10	2	30
ABSDAS	0	0	27
ATS	1	0	25
Gwasanaeth Ymataliaeth BIPAB	66	12	10
Podiatreg BIPAB	9	2	2

Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	0	0	0.15

6.4.3.2. Gwasanaethau fferyllol wedi'u cyrchu y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis cyrchu contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd naill ai am wasanaethau fferyllol sydd wedi'u lleoli'n agos i ble maent yn gweithio, siopa neu'n ymweld ag ef neu er mwyn cyrchu'r gwasanaethau a gynigir gan Gontractwyr Dosbarthu Cyfarpar.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd yn 2024/25 gan y chwe phractis meddyg teulu o fewn y NCN wedi cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd yn yr ardal leol, cafodd rhyw 6.9% eu dosbarthu mewn mannau eraill, gan ddangos bod cyfran fach ond nodedig yn cael eu cyflawni y tu allan i'r ardal. O'r rhain, cafodd rhyw 2.1% eu dosbarthu yn Nwyrain Caerffili, sy'n cynrychioli'r gyfran unigol fwyaf o weithgarwch y tu allan i'r ardal.

Dim ond cyfrannau bach iawn o bresgripsiynau a gafodd eu dosbarthu ar draws yr ardaloedd lleol sy'n weddill, ac roedd symiau bach tebyg yn cael eu prosesu gan fferyllfeydd mewn Byrddau Iechyd eraill neu gan gontractwyr y tu allan i'r ardal. Cafodd cyfran fach bellach o eitemau ei chofnodi fel rhai a gafodd eu gweinyddu'n bersonol yn hytrach na chael eu dosbarthu trwy fferyllfeydd cymunedol.

Efallai bod defnydd ychwanegol o wasanaethau fferyllol wedi'i wneud gan fferyllfeydd y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Ni ellir mesur y gweithgarwch hwn gan nad yw'r set ddata gofnodedig yn ymdrin â hyn

6.4.3.3. Dewis a Mynediad at Wasanaethau Fferyllol

Mae'r rhan fwyaf o drigolion sy'n byw yn yr ardal leol ac sydd wedi cofrestru ag un o'r chwe phractis meddyg teulu fel arfer yn defnyddio un o'r fferyllfeydd lleol i dderbyn eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae cyfran o gleifion yn dewis cael eu presgripsiynau o rywle arall. Mae hyn fel arfer gan ei fod yn well ganddynt fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu cyfarpar sydd wedi'u lleoli'n agosach at ble maent yn gweithio, yn siopa, yn treulio amser hamdden, neu am reswm personol arall.

O ran mynediad, mae rhestr fanwl o oriau agor Fferyllfeydd Cymunedol ar gael yn atodiad N

6.4.3.4. Gwasanaethau GIG Eraill sy'n Dylanwadu ar Anghenion Fferyllol

Mae rhagor o wybodaeth am ddylanwad gwasanaethau GIG eraill ar anghenion fferyllol wedi'u hamlinellu ym Mhennod Pedwar, yn cynnwys manylion cynhwysfawr a ddarperir yn Atodiad O. Nid yw asesiad y Bwrdd Iechyd wedi canfod unrhyw wasanaethau GIG ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai a restrir yn Atodiad O, y disgwylir iddynt effeithio ar anghenion fferyllol yn Ne Caerffili.

6.4.3.5. Asesiad o Ddigonolrwydd y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae fferyllfeydd wedi'u dosbarthu'n briodol ar draws yr ardal leol ac ar y cyfan, maent wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch a lefelau mwy o amddifadedd. Mae'r holl ardaloedd o fewn taith 15 munud mewn car i fferyllfa, gan ddangos hygyrchedd cynhwysfawr i drigolion.

Mae amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn dangos cynnydd disgwyliedig o ryw 3% rhwng 2022 a 2047. Nid oes disgwyl i dwf o'r lefel hon arwain at bwysau ychwanegol sylweddol ar y gwasanaethau fferyllol presennol.

Mae hwb yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ar gyfer Cwm Aber. Er nad yw ffurfwedd derfynol y gwasanaethau wedi cael ei phennu eto, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl y bydd y datblygiad yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys fferyllfa.

Gwnaeth chwech o'r 14 o fferyllfeydd sy'n gweithredu o fewn yr ardal leol ymateb i'r holiadur ar gyfer contractwyr, gyda phob un yn cadarnhau bod ganddynt gapasiti digonol, o ran eiddo a staffio, er mwyn delio ag unrhyw gynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol o ran gwasanaethau fferyllol hanfodol yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn yr ardal leol hon ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn ôl pob tebyg.

Mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol ychwanegol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth o fewn y NCN, gan gynnwys gwasanaethau craidd sydd wedi'u comisiynu'n genedlaethol megis y Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol, y Gwasanaeth Brechu Rhag Ffliw Tymhorol, Adolygu Meddyginiaethau ar Adeg Rhyddhau, ochr yn ochr â Helpa Fi i Stopio (Rhoi'r Gorau i Ysmygu). Mae pob gwasanaeth wedi cael ei asesu o ran nifer y contractwyr sydd wedi'u comisiynu i'w ddarparu, lefel y gweithgarwch a welwyd, ac i fesur i ba raddau y mae'r ddarpariaeth

bresennol yn adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd. Mae dadansoddiad manwl o ddarpariaeth gwasanaeth a defnydd ohono wedi'i amlinellu yn nhablau 16 a 17 uchod.

Mae'r asesiad hwn yn dangos, ar draws y gwasanaethau hyn, bod y lefelau presennol o ran darpariaeth a gweithgarwch yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, ac nid oes unrhyw dystiolaeth o alw heb ei ddiwallu neu ofyniad am gomisiynu ychwanegol o fewn y NCN ar hyn o bryd.

Caiff ystod o wasanaethau fferyllol ychwanegol eraill, gan gynnwys cymorth i gartrefi gofal, adolygu defnydd o anadlyddion, profion feirysau a gludir yn y gwaed, cyfnewid nodwyddau, DOTS twbercwlosis, gofal lliniarol a gwasanaethau meddyginiaethau brys, eu comisiynu naill ai ar sail Gwent gyfan neu mewn ymateb i anghenion penodol y boblogaeth, yn hytrach na bod ar gael yn unffurf o fewn pob ardal leol. Yn gyson â'r dull a amlinellir yn Adran 6.2, mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu hasesu ar lefel system gyfan i adlewyrchu trefniadau comisiynu, ffurfwedd gwasanaethau a phatrymau o ran defnydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol ar lefel Gwent gyfan a darpariaeth wedi'i thargedu o ran y gwasanaethau hyn yn ddigonol i ddiwallu anghenion trigolion yn yr ardal leol hon, ac nid yw eu habsenoldeb o fewn ôl troed y NCN yn cynrychioli bwlch mewn darpariaeth gwasanaeth.

Yn seiliedig ar y wybodaeth a amlinellir yn nhablau 16 a 17, a'r manylion cysylltiedig uchod, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y gwasanaethau fferyllol presennol, gan gynnwys darpariaeth y ceir mynediad ati mewn ardaloedd cyfagos, yn ddigonol ar hyn o bryd i ddiwallu'r angen a nodwyd.

6.5. Sir Fynwy

Sir Fynwy sydd â'r ddaearyddiaeth fwyaf gwledig yn ardal y Bwrdd Iechyd a lefelau o amddifadedd sy'n is ar y cyfan o gymharu ag awdurdodau lleol eraill. Mae ganddi'r lefel uchaf o ddisgwyliad oes a disgwyliad bywyd iach yng Ngwent. Fodd bynnag, mae'r golud cymharol hwn yn cuddio pocedi o angen.

Mae proffil y boblogaeth yn neilltuol hŷn nag o gymharu ag ardaloedd eraill, yn cynnwys cyfran uwch o drigolion sy'n 65 oed ac yn hŷn a disgwyliad i'r boblogaeth barhau i heneiddio. Mae twf y boblogaeth yn arafach ond mae'r newid demograffig o ran grwpiau oedran hŷn yn amlwg. Mae 18 o fferyllfeydd yn yr ardal hon. Mae 12 o feddygon fferyllol hefyd. Mae'n rhaid i ddarpariaeth yn Sir Fynwy ymateb i'r canlynol:

- Galw cynyddol am ddulliau rheoli amlgyffuriaeth ac adolygu meddyginiaethau
- Trefnau cymhleth o ran meddyginiaethau
- Cymorth ar gyfer cartrefi gofal a meddyginiaethau yn y cartref
- Heriau o ran mynediad daearyddol sy'n gysylltiedig â natur wledig yr ardal

Mae rôl practisau dosbarthu fferyllol a gwasanaethau danfon i'r cartref yn arbennig o berthnasol o ran sicrhau dilyniant o ran cyflenwi meddyginiaethau mewn cymunedau gwasgaredig.

6.5.1. Gogledd Sir Fynwy

Mae Gogledd Sir Fynwy wedi'i nodweddu gan ddaeryddiaeth sy'n wledig yn bennaf yn cynnwys aneddiadau gwasgaredig a lefelau cymharol is o amddifadedd o gymharu â llawer o rannau eraill o ardal y Bwrdd Iechyd. Mae anghenion iechyd yng Ngogledd Sir Fynwy wedi'u llywio lai gan anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd a fwymwy gan ystyriaethau o ran newid demograffig a mynediad gwledig. Mae'r gyfran uwch o drigolion hŷn yn gysylltiedig ag amlder uwch o gyflyrau hirdymor, amlgyffuriaeth a'r angen i fonitro meddyginiaethau. Felly mae galw am gymorth yn y cartref, gwasanaethau cartrefi gofal a dilyniant cyflenwi meddyginiaethau yn nodwedd sylweddol yn ymwneud ag angen yn yr ardal leol. Mae 11 o fferyllfeydd yn yr ardal hon. Mae wyth safle meddyg fferyllol hefyd.

6.5.1.1. Y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae'r tablau isod yn amlinellu gwasanaethau fferyllol y GIG sydd ar gael ar hyn o bryd yng Ngogledd Sir Fynwy, ynghyd â'r ddarpariaeth bresennol a'r lefelau gweithgarwch ar gyfer pob gwasanaeth yn ystod 2024/25.

Tabl 18- Data Gweithgarwch Gogledd Sir Fynwy

Gogledd Sir Fynwy: Gweithgarwch Ychwanegol Gwasanaethau Clinigol 2024/25					**BIPAB**
Nifer y Fferyllfeydd				11	125
Poblogaeth practisau cofrestredig wedi'i phwysoli				50,357	618,679
Nifer y fferyllfeydd fesul 10,000 o gleifion				2.18	2.02
Gwasanaeth Clinigol Ychwanegol	Nifer y fferyllfeydd a gomisiynwyd	Canran y fferyllfeydd a gomisiynwyd	Gweithgarwch	Gweithgarwch fesul 10,000 o gleifion	Gweithgarwch fesul 10,000 o gleifion
Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin (CCPS)	11	100%	5,209 o Ymgynghoriadau	1,034 o Ymgynghoriadau	1,142 o Ymgynghoriadau

Gwasanaeth Atal Cenhedlu (CCPS)	11	100%	350 o Ymgynghoriadau	70 o Ymgynghoriadau	74 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Cyflenwi Meddyginiaethau Brys (CCPS)	11	100%	1,035 o Ymgynghoriadau	206 o Ymgynghoriadau	376 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol Fferyllfeydd	3	27%	1,053 o Ymgynghoriadau	209 o Ymgynghoriadau	399 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau ar Adeg Ryddhau	11	100%	194 o Adolygiadau	39 o Adolygiadau	40 o Adolygiadau
Gwasanaeth Brechu Rhag y Ffliw	11	100%	1,484 o Frechiadau	295 o Frechiadau	235 o Frechiadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 1	4	36%	54 o Ymgynghoriadau	11 o Ymgynghoriadau	19 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 2	4	36%	0	0	0
Gwasanaeth Gweinyddu o dan Oruchwyliaeth	10	91%	5,190 o Achosion o Oruchwylio	1,031 o Achosion o Oruchwylio	1,138 o Achosion o Oruchwylio
Gwasanaeth Profion Llif Unffordd	9	82%	160 o Brofion a ddarparwyd	32 o Brofion a ddarparwyd	38 o Brofion a ddarparwyd
Gwasanaeth Cartrefi Gofal	0	0%	0	0	1 Cartref Gofal
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2	11	100%	289 o Gysylltiadau	57 o Gysylltiadau	81 o Gysylltiadau
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3	8	73%	166 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi	33 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi	57 o Ymgeisiau i Roi'r Gorau iddi
Gwasanaeth Cyfnewid Nodwyddau	2	18%	418 o Ryngweithiadau	83 o Ryngweithiadau	115 o Ryngweithiadau
Gwasanaeth Feirysau a Gludir yn y Gwaed	0	0%	0	0	5 Profion
Gwasanaeth Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth	7	64%	138 o gleifion	27 o Gleifion	38 o Gleifion
Gwastraff Lleihau Gwastraff	9	82%	473 o Ymyriadau	94 o Ymyriadau	267 o Ymyriadau

Gwasanaeth Cyflenwi DOTS Twbercwlosis	0	0%	0	0	4 o Gleifion
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau Gofal Lliniarol	1	9%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Meddyginiaetha u Brys Lefel 1	2	18%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Meddyginiaetha u Brys Lefel 2	1	9%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau	5	45%	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Tabl 19- Data Gweithgarwch Gogledd Sir Fynwy

Gogledd Sir Fynwy: Gweithgarwch Dosbarthu 2024/25		**BIPAB**
Nifer y Fferyllfeydd	11	125
Poblogaeth practisau cofrestredig wedi'i phwysoli	50,357	618,679
Nifer y fferyllfeydd fesul 10,000 o gleifion	2.18	2.02

Rhagnodydd	Cyfanswm Nifer y presgripsiynau	Presgripsiynau a Ddosbarthwyd fesul 10,000 o'r Boblogaeth wedi'i Phwysoli	Presgripsiynau a Ddosbarthwyd fesul 10,000 o'r Boblogaeth wedi'i Phwysoli
Pob un	1,202,392	238,774	266,224
Meddyg Teulu BIPAB	1,060,780	210,652	254,204
Meddyg Teulu mewn Bwrdd Iechyd arall	83,382	16,558	4,624
Ysbyty	18,352	3,644	4,160
Deintydd	2,948	585	809
Yng Nghymru heb fanylu	2,170	431	718
Carchar BIPAB	26,650	5,292	431
Y tu allan i oriau BIPAB	3,268	649	406
Rhagnodi Annibynnol Fferyllfeydd	888	176	388
GDAS	742	147	195
Rhagnodi Annibynnol Offthalmig	603	120	116
Rhagnodydd yn Lloegr	2,460	489	79
Tîm Gofal Iechyd ar Sail Gwerth BIPAB	28	6	30
ABSDAS	0	0	27
ATS	12	2	25
Gwasanaeth Ymataliaeth BIPAB	73	14	10
Podiatreg BIPAB	35	7	2

Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	1	0	0.15

6.5.1.2. Gwasanaethau Fferyllol sydd wedi'u Cyrchu y Tu Allan i'r Ardal Leol

Mae rhai trigolion yn dewis cyrchu contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd naill ai am wasanaethau fferyllol sydd wedi'u lleoli'n agos i ble maent yn gweithio, siopa neu'n ymweld ag ef neu er mwyn cyrchu'r gwasanaethau a gynigir gan Gontractwyr Dosbarthu Cyfarpar.

Cafodd rhyw ddau draean o bresgripsiynau a ysgrifennwyd yn 2024/25 gan y saith practis meddyg teulu o fewn yr NCN eu dosbarthu gan fferyllfeydd o fewn yr ardal leol, cafodd rhyw 37% eu dosbarthu mewn mannau eraill, a chafodd rhyw 32.1% eu dosbarthu'n uniongyrchol gan y practisau dosbarthu fferyllol. Mae hyn yn adlewyrchu cyfran sylweddol o ddosbarthu y tu allan i'r ardal wedi'i lywio'n bennaf gan weithgarwch meddygon fferyllol.

Dim ond cyfrannau bach iawn o bresgripsiynau a gafodd eu dosbarthu ar draws yr ardaloedd lleol sy'n weddill, ac mae symiau bach tebyg yn cael eu prosesu gan fferyllfeydd mewn Byrddau Iechyd eraill neu gan gontractwyr yn Lloegr.

Efallai bod defnydd ychwanegol o wasanaethau fferyllol wedi'i wneud gan fferyllfeydd y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Ni ellir mesur y gweithgarwch hwn gan nad yw'r set ddata gofnodedig yn ymdrin â hyn

6.5.1.3. Mynediad Trwy Ddewis at Wasanaethau Fferyllol

Mae'r rhan fwyaf o drigolion sy'n byw o fewn yr ardal leol ac sy'n gofrestredig ag un o'r saith practis meddyg teulu yn defnyddio un o'r fferyllfeydd lleol fel mater o drefn at ddibenion dosbarthu eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae cyfran o gleifion yn dewis cael eu presgripsiynau o rywle arall. Mae hyn fel arfer gan ei fod yn well ganddynt fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu cyfarpar sydd wedi'u lleoli'n agosach at ble maent yn gweithio, yn siopa, yn treulio amser hamdden, neu am reswm personol arall.

O ran mynediad, mae rhestr fanwl o oriau agor Fferyllfeydd Cymunedol a Meddygon Fferyllol ar gael yn atodiad N ac yn atodiad M.

6.5.1.4. Gwasanaethau GIG Eraill sy'n Dylanwadu ar Anghenion Fferyllol

Mae rhagor o wybodaeth am ddylanwad gwasanaethau GIG eraill ar anghenion fferyllol wedi'u hamlinellu ym Mhennod Pedwar, yn cynnwys

manylion cynhwysfawr a ddarperir yn Atodiad O. Nid yw asesiad y Bwrdd Iechyd wedi canfod unrhyw wasanaethau GIG ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai a restrir yn Atodiad O, y disgwylir iddynt effeithio ar anghenion fferyllol yng Ngogledd Sir Fynwy.

6.5.1.5. Asesiad o Ddigonolrwydd y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae fferyllfeydd o fewn yr ardal leol wedi'u lleoli ar y cyfan mewn ardaloedd lle bo dwysedd y boblogaeth yn uwch a lle bo mwy o amddifadedd. I wrthgyferbynnu â hyn, mae nifer o rannau gogleddol o'r ardal leol y tu allan i amser teithio o 20 munud mewn car i'r fferyllfa agosaf, ac nid oes unrhyw fferyllfeydd hygyrch ar draws y ffin yn Lloegr. Mae'r ardaloedd gogleddol hyn yn wledig, prin eu poblogaeth, ac mae trigolion fel arfer yn cael eu gwasanaethu gan bractisau meddygon teulu dosbarthu fferyllol. Er bod amseroedd teithio'n hirach, mae gan yr ardaloedd hyn lefelau uchel o symudedd hefyd, galw cymharol isel sy'n gysylltiedig ag iechyd, ac mae bron i hanner yr aelwydydd yn berchen ar ddau neu fwy o geir. O ystyried y boblogaeth fach, byddai unrhyw fferyllfa newydd yn debygol o gael ei dynodi fel lleoliad neilltuedig, gan ganiatáu i drigolion o fewn 1.6 km barhau i dderbyn presgripsiynau gan eu practis meddyg teulu a lleihau cyfaint presgripsiynau.

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn dangos y bydd poblogaeth Sir Fynwy yn cynyddu o 16.6% rhwng 2022 a 2047. Cafodd dau safle tai hanesyddol eu canfod yn Y Fenni a Sir Fynwy o fewn LDP 2011-2021[103], gyda chapasiti cyfunol o 620 o eiddo newydd, y mae rhai o'r rhain eisoes wedi cael eu cwblhau. Gan nad yw'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei ddiweddaru ers y PNA yn 2021, erys y rhain fel y dyraniadau tai a fabwysiadwyd yn ffurfiol yn fwyaf diweddar. Nid yw Cynllun Datblygu Lleol newydd (2018-2033) wedi cael ei baratoi ond nid yw wedi cael ei fabwysiadu eto; fodd bynnag, efallai y bydd yn cael ei fabwysiadu o fewn oes y PNA a chaiff ei fonitro gan y Bwrdd Iechyd. Ni ddisgwylir i dwf o'r lefel hon newid galw yn sylweddol, ac ystyrir bod gan y fferyllfeydd presennol gapasiti digonol i ddiwallu unrhyw anghenion ychwanegol.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol o ran gwasanaethau fferyllol hanfodol yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn yr ardal leol hon ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn ôl pob tebyg.

---

[103] Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig 2011-2021 - Sir Fynwy

Mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol ychwanegol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth o fewn y NCN, gan gynnwys gwasanaethau craidd sydd wedi'u comisiynu'n genedlaethol megis y Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol, y Gwasanaeth Brechu Rhag Ffliw Tymhorol, Adolygu Meddyginiaethau ar Adeg Rhyddhau, ochr yn ochr â Helpa Fi i Stopio (Rhoi'r Gorau i Ysmygu). Mae pob gwasanaeth wedi cael ei asesu o ran nifer y contractwyr sydd wedi'u comisiynu i'w ddarparu, lefel y gweithgarwch a welwyd, ac i fesur i ba raddau y mae'r ddarpariaeth bresennol yn adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd. Mae dadansoddiad manwl o ddarpariaeth a defnydd gwasanaeth wedi'i amlinellu yn Nhablau 18 a 19 uchod.

Mae'r asesiad hwn yn dangos, ar draws y gwasanaethau hyn, bod y lefelau presennol o ran darpariaeth a gweithgarwch yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, ac nid oes unrhyw dystiolaeth o alw heb ei ddiwallu neu ofyniad am gomisiynu ychwanegol o fewn y NCN ar hyn o bryd.

Caiff ystod o wasanaethau fferyllol ychwanegol eraill, gan gynnwys cymorth i gartrefi gofal, adolygu defnydd o anadlyddion, profion feirysau a gludir yn y gwaed, cyfnewid nodwyddau, DOTS twbercwlosis, gofal lliniarol a gwasanaethau meddyginiaethau brys, eu comisiynu naill ai ar sail Gwent gyfan neu mewn ymateb i anghenion penodol y boblogaeth, yn hytrach na bod ar gael yn unffurf o fewn pob ardal leol. Yn gyson â'r dull a amlinellir yn Adran 6.2, mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu hasesu ar lefel system gyfan i adlewyrchu trefniadau comisiynu, ffurfwedd gwasanaethau a phatrymau o ran defnydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol ar lefel Gwent gyfan a darpariaeth wedi'i thargedu o ran y gwasanaethau hyn yn ddigonol i ddiwallu anghenion trigolion yn yr ardal leol hon, ac nid yw eu habsenoldeb o fewn ôl troed y NCN yn cynrychioli bwlch mewn darpariaeth gwasanaeth.

Yn seiliedig ar y wybodaeth a amlinellir yn nhablau 18 a 19, a'r manylion cysylltiedig uchod, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y gwasanaethau fferyllol presennol, gan gynnwys darpariaeth y ceir mynediad ati mewn ardaloedd cyfagos, yn ddigonol ar hyn o bryd i ddiwallu'r angen a nodwyd.

6.5.2. De Sir Fynwy

Mae De Sir Fynwy yn cynnwys cymysgedd o drefi marchnad, cymunedau cymudo ac aneddiadau mwy poblog o'i gymharu â rhan ogleddol y sir. Mae'r ardal yn elwa o gysylltiadau trafnidiaeth cryfach a symudiad trawsffiniol, gyda phatrymau poblogaeth yn cael eu dylanwadu gan gymudo i

ganolfannau trefol cyfagos. Mae lefelau amddifadedd yn gyffredinol is na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd, er bod pocedi o angen o hyd.

Mae proffil y boblogaeth yn cynnwys aelwydydd o oedran gwaith a phoblogaeth hŷn sy'n tyfu, ac mae hyn yn creu sy'n codi'n raddol am gyflenwi meddyginiaethau'n rheolaidd a rheoli cyflyrau hirdymor. Er bod baich clefydau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd yn llai amlwg nag yng nghymunedau'r cymoedd mewn mannau eraill yng Ngwent, mae cyflyrau cronig megis clefyd cardiofasgwlaidd a diabetes yn parhau i gyfrannu'n sylweddol at y galw am wasanaethau fferyllol. Mae saith fferyllfa yn yr ardal hon . Mae yna bedwar meddyg fferyllol hefyd.

6.5.2.1. Y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae'r tablau isod yn amlinellu gwasanaethau fferyllol y GIG sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ne Sir Fynwy, ynghyd â'r ddarpariaeth bresennol a lefelau'r gweithgarwch ar gyfer pob gwasanaeth yn ystod 2024/25.

Tabl 20- Data Gweithgarwch De Sir Fynwy

De Sir Fynwy Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol 2024/25					**BIPAB**
Nifer y Fferyllfeydd				**7**	**125**
Poblogaeth practis cofrestredig wedi'i bwysoli				**42,892**	**618,679**
Nifer y fferyllfeydd ar gyfer pob 10,000 claf				**1.63**	**2.02**
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	Nifer y fferyllfeydd wedi'u comisiynu	Canran y fferyllfeydd wedi'u comisiynu	Gweithgarwch	Gweithgarwch ar gyfer bob 10,000 claf	Gweithgarwch ar gyfer bob 10,000 claf
Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin	7	100%	3,692 Ymgynghoriadau	861 Ymgynghoriadau	1,142 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Atal Cenhedlu (CCPS)	7	100%	210 Ymgynghoriadau	49 Ymgynghoriadau	74 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Cyflenwad Brys o Feddyginiaethau (CCPS)	7	100%	574 Ymgynghoriadau	134 Ymgynghoriadau	376 o Ymgynghoriadau
Y Gwasanaeth Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol (PIPS):	0	0%	0 Ymgynghoriadau	0 Ymgynghoriadau	399 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygiad o Feddyginiaethau wrth Ryddhau	7	100%	84 Adolygiadau	20 o Adolygiadau	40 o Adolygiadau
Gwasanaeth Brechu rhag y Ffliw	6	86%	342 o Frechiadau	80 o Frechiadau	235 o Frechiadau
Gwasanaeth Adolygu	5	71%	0 Ymgynghoriadau	0 Ymgynghoriadau	19 o Ymgynghoriadau

Anadlyddion Lefel 1					
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 2	5	71%	0	0	0
Gwasanaeth rhoi meddyginiaeth dan oruchwyliaeth	7	100%	7,236 Goruchwyliaethau	1,687 Goruchwyliaethau	1,138 o Oruchwyliaethau
Gwasanaeth Prawf Llif Unffordd	7	100%	83 Profion wedi'u Cyflenwi	19 Profion wedi'u Cyflenwi	38 Profion wedi'u Cyflenwi
Gwasanaeth cartrefi gofal	0	0%	0	0	1 Cartref Gofal
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2	6	86%	221 o Gysylltiadau	52 o Gysylltiadau	81 o Gysylltiadau
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3	4	57%	196 O Ymgeision rhoi'r gorau iddi	46 O Ymgeision rhoi'r gorau iddi	57 O Ymgeision rhoi'r gorau iddi
Gwasanaeth Cyfnewid Nodwyddau	2	29%	598 o Ryngweithiadau	139 o Ryngweithiadau	115 o Ryngweithiadau
Gwasanaeth Firysau a gludir yn y gwaed	0	0%	0 o Brofion	0 o Brofion	5 o Brofion
Gwasanaeth Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth	5	71%	40 claf	9 Claf	38 Claf
Gwasanaeth Lleihau Gwastraff	5	71%	2,968 o Ymyriadau	692 o Ymyriadau	267 o Ymyriadau
Gwasanaeth Cyflenwi DOTS Twbercwlosis	0	0%	0	0	4 Claf
Gwasanaeth Rota Gofal Lliniarol y Tu Allan i oriau gwaith	0	0%	N/A	N/A	N/A
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 1	2	29%	N/A	N/A	N/A
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 2	0	0%	N/A	N/A	N/A
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau	5	71%	N/A	N/A	N/A

Tabl 21- Data Gweithgarwch De Sir Fynwy

De Sir Fynwy Gweithgaredd cyflenwi 2024/25		**BIPAB**
Nifer y Fferyllfeydd	7	125
Poblogaeth practis cofrestredig wedi'i bwysoli	42,892	618,679
Nifer y fferyllfeydd ar gyfer pob 10,000 claf	1.63	2.02

Presgripsiynydd	Cyfanswm y presgripsiynau	Presgripsiynau a gyflenwir ar gyfer bob 10,000 o'r boblogaeth wedi'i phwysoli	Presgripsiynau a gyflenwir ar gyfer bob 10,000 o'r boblogaeth wedi'i phwysoli
Pob un	912,755	212,803	266,224
MEDDYG TEULU BIPAB	885,410	206,428	254,204
Byrddau Iechyd Eraill	4,595	1,071	4,624
Ysbyty	14,511	3,383	4,160
Deintydd	1,806	421	809
Cymru Anhysbys	3,399	792	718
Carchar BIPAB	0	0	431
BIPAB OOH	559	130	406
Fferyllfa (IP)	2	0	388
GDAS	1,530	357	195
IP Offthalmig	287	67	116
Presgripsiynydd o Loegr	546	127	79
Tîm VBH BIPAB	36	8	30
ABSDAS	0	0	27
ATS	26	6	25
Gwasanaeth Ataliaeth BIPAB	38	9	10
Podiatreg BIPAB	10	2	2
Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	0	0	0.15

6.5.2.2. Gwasanaethau fferyllol wedi'u cyrchu y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd, naill ai ar gyfer gwasanaethau fferyllol sy'n agosach i ble maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld, neu i gael mynediad at y gwasanaethau a gynigir gan Contractwyr Cyfarpar sy'n Dosbarthu.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd yn 2024/25 gan y saith practis meddyg teulu o fewn yr NCN wedi'u cyflenwi gan fferyllfeydd yn yr ardal, dosbarthwyd tua un rhan o bump (21.6%) mewn mannau eraill. O fewn hyn, dosbarthwyd tua 11.9% yn uniongyrchol gan y meddygon fferyllol, cyflenwyd 5.5% arall gan gontractwyr o Loegr, a chyflenwyd tua 3.2% ar draws Casnewydd gyfan. Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn cyfrif am y gyfran fwyaf o weithgarwch dosbarthu y tu allan i'r ardal .

Dim ond cyfrannau bach iawn o bresgripsiynau a gyflenwyd mewn lleoliadau cyfagos eraill, gyda symiau bach tebyg yn cael eu trin gan fferyllfeydd mewn Byrddau Iechyd eraill. Cofnodwyd cyfran fechan arall o eitemau fel rhai a weinyddwyd yn bersonol yn hytrach na'u cyflawni trwy fferyllfeydd cymunedol.

Efallai hefyd bod mwy o ddefnydd wedi'i wneud o wasanaethau fferyllol mewn fferyllfeydd sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd

Iechyd. Ni ellir mesur y gweithgarwch hwn oherwydd nad yw wedi'i gofnodi yn y set ddata a gofnodwyd. .

6.5.2.3. Dewis a Mynediad at Wasanaethau Fferyllol

Mae'r rhan fwyaf o drigolion sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r pedwar practis meddyg teulu fel arfer yn defnyddio un o'r fferyllfeydd lleol i gael eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae cyfran o gleifion yn dewis cael eu presgripsiynau yn rhywle arall. Fel arfer, mae hyn oherwydd bod yn well ganddynt fferyllfa gyfagos neu gontractwr cyfarpar sy’n dosbarthu sydd wedi'u lleoli'n agosach at ble maent yn gweithio, yn siopa, yn treulio amser hamdden, neu am reswm personol arall.

O ran mynediad, gellir dod o hyd i restr fanwl o oriau agor Fferyllfeydd Cymunedol a Meddygon Fferyllol yn atodiad N ac atodiad M.

6.5.2.4. Gwasanaethau GIG Eraill sy'n Dylanwadu ar Anghenion Fferyllol

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch dylanwad gwasanaethau eraill y GIG ar yr angen fferyllol wedi'i nodi ym Mhennod pedwar, ac mae manylion cynhwysfawr yn Atodiad O. Nid yw asesiad y Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw wasanaethau GIG ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai a restrir yn Atodiad O, y disgwylir iddynt effeithio ar yr angen fferyllol yn Ne Sir Fynwy.

6.5.2.5. Asesiad o Ddigonolrwydd y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Nododd y Bwrdd Iechyd bod fferyllfeydd yn yr ardal wedi'u lleoli'n bennaf yn y de, yn gyffredinol mewn ardaloedd â mwy o drwch o boblogaeth a lefelau uwch o amddifadedd. Mewn cyferbyniad, mae canol ac ardaloedd gogleddol yr ardal yn ardaloedd llai poblog, ac mae trigolion yn yr ardaloedd hyn fel arfer yn derbyn gwasanaethau cyflenwi yn uniongyrchol gan eu meddygfa. Mae pedair ardal sydd ymhellach nag 20 munud wrth yrru o fferyllfa; mae gwaith mapio yn dangos mai dim ond nifer fechan o dai a ffermydd gwasgaredig sydd yn y lleoliadau hyn, ac felly mae'n debygol y bydd preswylwyr sy'n byw yno yn cael eu presgripsiynau wedi’u dosbarthu gan eu meddygfa. Mae rhagamcanion poblogaeth yn dangos y disgwylir i boblogaeth Sir Fynwy gynyddu 16.6% rhwng 2022 a 2047.

Nodwyd pum safle tai strategol yn y Cynllun Datblygu Lleol (LDP) 2011–2021, ac mae disgwyl i tua 1,590 o gartrefi gael eu hadeiladu i gyd. Mae'r holl safleoedd hyn wedi'u lleoli yn rhan ddeheuol yr ardal, gan ymestyn tua'r gorllewin o Gasnewydd. Gan nad yw'r LDP wedi'i ddiweddaru ers i'r PNA gael ei gyhoeddi yn 2021, y rhain yw'r dyraniadau tai a fabwysiadwyd yn ffurfiol diweddaraf, ac mae'r ffigurau tai a ddefnyddir yma yn parhau i

ddibynnu ar gynllun 2011–2021 nad yw wedi’i ddiwygio. Mae LDP Newydd (2018–2033) wedi'i baratoi ond nid yw wedi'i fabwysiadu eto; fodd bynnag, mae’n bosib y bydd yn cael ei fabwysiadu o fewn oes yr PNA hwn a bydd y Bwrdd Iechyd yn ei fonitro.

Ymatebodd chwech allan o saith fferyllfa i'r holiadur contractwyr, a chadarnhaodd pedair ohonynt fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau a'u lefelau staffio presennol i ymateb i’r cynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu, ond nododd dwy fferyllfa nad oes ganddynt gapasiti ar hyn o bryd ond y gallent wneud addasiadau os oes angen.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon y gellir darparu ar gyfer y galw ychwanegol am wasanaethau fferyllol a gynhyrchir gan y datblygiadau hyn o fewn yr ystâd bresennol.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol hanfodol yn ddigonol i ddiwallu anghenion presennol a disgwyliedig y boblogaeth yn yr ardal hon.

O ran gwasanaethau fferyllol ychwanegol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ddarpariaeth o fewn yr NCN, gan gynnwys gwasanaethau craidd a gomisiynwyd yn genedlaethol megis y Gwasanaeth Fferyllfa Gymunedol Glinigol, y Gwasanaeth Brechu Ffliw Tymhorol ac Adolygiadau o Feddyginiaethau wrth Ryddhau, ochr yn ochr â Helpa Fi i Stopio (Rhoi’r gorau i ysmygu). Mae pob gwasanaeth wedi cael ei asesu o ran nifer y contractwyr a gomisiynwyd i'w gyflawni, lefel y gweithgarwch a welwyd, a'r graddau y mae'r ddarpariaeth bresennol yn adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd. Mae dadansoddiad manwl o’r ddarpariaeth a’r defnydd a wneir o’r gwasanaethau wedi'i nodi yn nhablau 20 a 21 uchod.

Mae'r asesiad hwn yn dangos, ar draws y gwasanaethau hyn, bod lefelau presennol y ddarpariaeth a'r gweithgarwch yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, ac nad oes unrhyw dystiolaeth o alw heb ei ddiwallu na gofyniad am gomisiynu ychwanegol o fewn yr NCN ar hyn o bryd.

Mae amrywiaeth o wasanaethau fferyllol ychwanegol eraill, gan gynnwys cymorth mewn cartrefi gofal, adolygiad o’r defnydd o anadlyddion, profion firysau a gludir yn y gwaed, cyfnewid nodwyddau, DOTS twbercwlosis, gofal lliniarol a gwasanaethau meddyginiaethau brys, yn cael eu comisiynu naill ai ar sail Gwent gyfan neu mewn ymateb i anghenion penodol y boblogaeth, yn hytrach na bod ar gael yn unffurf ym mhob ardal. Yn gyson â'r dull a nodir yn Adran 6.2, mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu hasesu ar lefel

system gyfan er mwyn adlewyrchu trefniadau comisiynu, ffurfweddiad gwasanaethau a phatrymau o ran defnydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol o'r gwasanaethau hyn ledled Gwent ac wedi'u targedu yn ddigonol i ddiwallu anghenion trigolion yn yr ardal hon, ac nad yw eu habsenoldeb o fewn ôl troed yr NCN yn cynrychioli bwlch yn y ddarpariaeth gwasanaeth.

Yn seiliedig ar y wybodaeth a nodir yn nhablau 20 a 21, a'r manylion cysylltiedig uchod, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y gwasanaethau fferyllol presennol, gan gynnwys darpariaeth y ceir mynediad ati mewn ardaloedd cyfagos, yn ddigonol ar hyn o bryd i ddiwallu'r angen a nodwyd.

6.6. Casnewydd

Mae Casnewydd yn un o'r ardaloedd mwyaf poblog ac un o’r rhai sy'n tyfu gyflymaf o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae Pennod Dau yn nodi twf demograffig parhaus, proffil oedran iau o'i gymharu â Sir Fynwy, ac mwy a mwy o amrywiaeth ethnig. Fodd bynnag, yng Nghasnewydd, hefyd, mae cyfran uchel o ardaloedd sydd o fewn y degraddau cenedlaethol mwyaf difreintiedig.

Mae bylchau o ran marwolaethau cynamserol ac anghydraddoldeb sylweddol o hyd mewn rhai cymunedau. Mae cyfraddau ffrwythlondeb yn uwch na chyfartaledd Cymru, sy'n dynodi galw parhaus am iechyd mamau a phlant. Mae tri deg o fferyllfeydd yn yr ardal hon, ac mae pob un ohonynt yn darparu gwasanaethau hanfodol. Mae’n rhaid i ddarpariaeth yng Nghasnewydd fynd i'r afael â:

- Niferoedd uchel o bresgripsiynau sy’n gysylltiedig â thwf yn y boblogaeth
- Angen o ran atal mewn cymunedau trefol difreintiedig
- Cymorth atgenhedlu ac iechyd mamau
- Mân anhwylderau a gwasanaethau mynediad brys ar gyfer poblogaeth ddwys
- Optimeiddio meddyginiaethau mewn ardaloedd sydd â disgwyliad oes iach is
- Nodweddion poblogaeth Deep End, gan gynnwys cymhlethdod clinigol uwch, cyfraddau ymgynghori uwch a'r angen am fodelau gofal rhagweithiol, sy’n seiliedig ar allgymorth a hygyrch i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad a chanlyniadau

Mae hygyrchedd, oriau agor estynedig a dosbarthiad ar draws ardaloedd sy’n tyfu yn ffactorau perthnasol wrth asesu digonolrwydd y ddarpariaeth.

6.6.1. Dwyrain Casnewydd

Mae Dwyrain Casnewydd yn cynnwys cymunedau preswyl yn bennaf gydag ardaloedd o amrywiad economaidd-gymdeithasol a chymdogaethau sefydledig ochr yn ochr â gwaith adeiladu tai parhaus. Er nad yw'n cael ei nodweddu gan yr un crynodiad o amddifadedd â rhannau o Orllewin Casnewydd, mae anghydraddoldeb o ran canlyniadau iechyd yn parhau i fod yn amlwg o fewn rhai cymunedau. Mae gan yr ardal broffil oedran cytbwys, gan gynnwys teuluoedd ac oedolion o oedran gwaith, ynghyd â phocedi o drigolion hŷn. Mae hyn yn creu galw cyson am gyflawni meddyginiaethau'n rheolaidd, rheoli cyflyrau hirdymor ac optimeiddio meddyginiaethau. Mae twf mewn tai a symudiad y boblogaeth yn cyfrannu at niferoedd uchel parhaus o bresgripsiynau a'r angen am wasanaethau hygyrch, lleol. Mae tair ar ddeg o fferyllfeydd yn yr ardal hon.

6.6.1.1. Y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae'r tablau isod yn amlinellu gwasanaethau fferyllol y GIG sydd ar gael ar hyn o bryd yn Nwyrain Casnewydd, ynghyd â'r ddarpariaeth bresennol a lefelau'r gweithgarwch ar gyfer pob gwasanaeth yn ystod 2024/25.

Tabl 22 - Data Gweithgarwch Dwyrain Casnewydd

Dwyrain Casnewydd Gweithgarwch Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol 2024/25					BIPAB
Nifer y Fferyllfeydd			**13**		**125**
Poblogaeth practis cofrestredig wedi'i bwysoli			**83,519**		**618,679**
Nifer y fferyllfeydd ar gyfer pob 10,000 claf			**1.56**		**2.02**
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	Nifer y fferyllfeydd wedi'u comisiynu	Canran y fferyllfeydd wedi'u comisiynu	Gweithgarwch	Gweithgarwch ar gyfer bob 10,000 claf	Gweithgarwch ar gyfer bob 10,000 claf
Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin	13	100%	10,215 Ymgynghoriadau	1,223 Ymgynghoriadau	1,142 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Atal Cenhedlu (CCPS)	13	100%	745 Ymgynghoriadau	89 Ymgynghoriadau	74 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Cyflenwad Brys o Feddyginiaethau (CCPS)	13	100%	4,370 Ymgynghoriadau	523 Ymgynghoriadau	376 o Ymgynghoriadau
Y Gwasanaeth Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol (PIPS):	9	69%	5,253 Ymgynghoriadau	629 Ymgynghoriadau	399 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygiad o	13	100%	376 o Adolygiadau	45 o Adolygiadau	40 o Adolygiadau

Feddyginiaethau wrth Ryddhau					
Gwasanaeth Brechu rhag y Ffliw	13	100%	1,832 o Frechiadau	218 o Frechiadau	235 o Frechiadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 1	7	54%	174 Ymgynghoriadau	21 Ymgynghoriadau	19 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 2	7	54%	0	0	0
Gwasanaeth rhoi meddyginiaeth dan oruchwyliaeth	13	100%	6,381 Goruchwyliaethau	764 Goruchwyliaethau	1,138 o Oruchwyliaethau
Gwasanaeth Prawf Llif Unffordd	6	46%	176 Profion wedi'u Cyflenwi	21 Profion wedi'u Cyflenwi	38 Profion wedi'u Cyflenwi
Gwasanaeth cartrefi gofal	1	8%	12	1	1 Cartref Gofal
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2	13	100%	904 o Gysylltiadau	108 o Gysylltiadau	81 o Gysylltiadau
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3	10	77%	379 O Ymgeision rhoi’r gorau iddi	45 O Ymgeision rhoi’r gorau iddi	57 O Ymgeision rhoi’r gorau iddi
Gwasanaeth Cyfnewid Nodwyddau	2	15%	1,603 o Ryngweithiadau	192 o Ryngweithiadau	115 o Ryngweithiadau
Gwasanaeth Firysau a gludir yn y gwaed	2	15%	40	5	5 o Brofion
Gwasanaeth Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth	7	54%	104 claf	12 Claf	38 Claf
Gwasanaeth Lleihau Gwastraff	12	92%	4,541 o Ymyriadau	544 o Ymyriadau	267 o Ymyriadau
Gwasanaeth Cyflenwi DOTS Twbercwlosis	0	0%	0	0	4 Claf
Gwasanaeth Rota Gofal Lliniarol y Tu Allan i oriau gwaith	1	8%	N/A	N/A	N/A
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 1	2	15%	N/A	N/A	N/A
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 2	1	8%	N/A	N/A	N/A
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau	12	92%	N/A	N/A	N/A

Tabl 23 - Data Gweithgaredd Casnewydd Dwyrain

Dwyrain Casnewydd Gweithgaredd Cyflenwi 2024/25	BIPAB

Nifer y Fferyllfeydd		13	125
Poblogaeth practis cofrestredig wedi'i bwysoli		83,519	618,679
Nifer y fferyllfeydd ar gyfer pob 10,000 claf		1.56	2.02
Presgripsiynydd	Cyfanswm y presgripsiynau	Presgripsiynau a gyflenwir ar gyfer bob 10,000 o'r boblogaeth wedi'i phwysoli	Presgripsiynau a gyflenwir ar gyfer bob 10,000 o'r boblogaeth wedi'i phwysoli
Pob un	1,695,749	203,038	266,224
MEDDYG TEULU BIPAB	1,626,522	194,749	254,204
Byrddau Iechyd Eraill	15,520	1,858	4,624
Ysbyty	30,769	3,684	4,160
Deintydd	5,882	704	809
Cymru Anhysbys	5,637	675	718
Carchar BIPAB	1	0	431
BIPAB OOH	2,525	302	406
Fferyllfa (IP)	4,909	588	388
GDAS	1,062	127	195
IP Offthalmig	1,538	184	116
Presgripsiynydd o Loegr	347	42	79
Tîm VBH BIPAB	159	19	30
ABSDAS	312	37	27
ATS	526	63	25
Gwasanaeth Ataliaeth BIPAB	36	4	10
Podiatreg BIPAB	4	0	2
Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	0	0	0.15

6.6.1.2. Gwasanaethau fferyllol wedi'u cyrchu y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd, naill ai ar gyfer gwasanaethau fferyllol sy'n agosach i ble maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld, neu i gael mynediad at y gwasanaethau a gynigir gan Contractwyr Cyfarpar sy'n Dosbarthu.

Er bod mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd yn 2024/25 gan y naw practis meddyg teulu o fewn yr NCN wedi'u cyflenwi gan fferyllfeydd yn yr ardal, dosbarthwyd tua chwarter yr holl bresgripsiynau (25.4%) mewn mannau eraill. O fewn hyn, dosbarthwyd 12.8% yng Ngorllewin Casnewydd, dosbarthwyd 8.1% arall gan Dde Torfaen, a dosbarthwyd tua 2.4% yn Nwyrain Caerffili. Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn cyfrif am y gyfran fwyaf o weithgarwch dosbarthu y tu allan i'r ardal .

Dim ond cyfrannau bach iawn o bresgripsiynau a gyflenwyd mewn lleoliadau cyfagos eraill, gyda symiau bach tebyg yn cael eu trin gan fferyllfeydd mewn Byrddau Iechyd eraill a Chontractwyr yn Lloegr.

Cofnodwyd cyfran fechan arall o eitemau fel rhai a weinyddwyd yn bersonol yn hytrach na'u cyflawni trwy fferyllfeydd cymunedol.

Efallai hefyd bod mwy o ddefnydd wedi’i wneud o wasanaethau fferyllol mewn fferyllfeydd sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Ni ellir mesur y gweithgarwch hwn oherwydd nad yw wedi'i gofnodi yn y set ddata a gofnodwyd. .

6.6.1.3. Dewis a Mynediad at Wasanaethau Fferyllol

Mae'r rhan fwyaf o drigolion sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r naw practis meddyg teulu fel arfer yn defnyddio un o'r fferyllfeydd lleol i gael eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae cyfran o gleifion yn dewis cael eu presgripsiynau yn rhywle arall. Fel arfer, mae hyn oherwydd bod yn well ganddynt fferyllfa gyfagos neu gontractwr cyfarpar sy’n dosbarthu sydd wedi'u lleoli'n agosach at ble maent yn gweithio, yn siopa, yn treulio amser hamdden, neu am reswm personol arall.

O ran mynediad, gellir dod o hyd i restr fanwl o oriau agor Fferyllfeydd Cymunedol yn atodiad N.

6.6.1.4. Gwasanaethau GIG Eraill sy'n Dylanwadu ar Anghenion Fferyllol

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch dylanwad gwasanaethau eraill y GIG ar yr angen fferyllol wedi'i nodi ym Mhennod pedwar, ac mae manylion cynhwysfawr yn Atodiad O. Nid yw asesiad y Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw wasanaethau GIG ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai a restrir yn Atodiad O, y disgwylir iddynt effeithio ar yr angen fferyllol yn Nwyrain Casnewydd.

6.6.1.5. Asesiad o Ddigonolrwydd y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae fferyllfeydd Casnewydd wedi'u lleoli o fewn ardaloedd adeiledig y ddinas, gydag un wedi'i lleoli ymhellach i'r dwyrain lle mae trwch y boblogaeth yn is. Er bod un rhan o'r ardal ymhellach na 15 munud o amser gyrru i'r fferyllfa agosaf, mae data mapio yn dangos nad oes unrhyw eiddo preswyl yn yr ardal hon. Rhagwelir y bydd poblogaeth Casnewydd yn tyfu 19.8% rhwng 2022 a 2047, gan ychwanegu mwy o bwysau ar wasanaethau lleol.

Nodwyd dau safle tai strategol mawr yng Nglan Llyn a Phentref Llanwern yn y LDP 2011–2026.[104] , gyda chapasiti, gyda’u gilydd, ar gyfer 5,100 o eiddo newydd, ac mae rhai ohonynt eisoes wedi'u cwblhau. At hyn, roedd

[104] Local Development Plan adoption | Newport City Council

adfywio Canolfan Ringland i fod i ddarparu 165 o dai newydd hefyd. Gan nad yw'r LDP wedi'i ddiweddaru ers yr PNA 2021, y rhain yw'r dyraniadau tai a fabwysiadwyd yn ffurfiol diweddaraf o hyd.

Ymatebodd chwech allan o dair fferyllfa ar ddeg i'r holiadur contractwyr, a chadarnhaodd pob un ohonynt fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau a'u lefelau staffio presennol i ymateb i’r cynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol hanfodol yn ddigonol i ddiwallu anghenion presennol y boblogaeth yn yr ardal hon.

O ran gwasanaethau fferyllol ychwanegol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ddarpariaeth o fewn yr NCN, gan gynnwys gwasanaethau craidd a gomisiynwyd yn genedlaethol megis y Gwasanaeth Fferyllfa Gymunedol Glinigol, y Gwasanaeth Brechu Ffliw Tymhorol ac Adolygiadau o Feddyginiaethau wrth Ryddhau, ochr yn ochr â Helpa Fi i Stopio (Rhoi’r gorau i ysmygu). Mae pob gwasanaeth wedi cael ei asesu o ran nifer y contractwyr a gomisiynwyd i'w gyflawni, lefel y gweithgarwch a welwyd, a'r graddau y mae'r ddarpariaeth bresennol yn adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd. Mae dadansoddiad manwl o’r ddarpariaeth a’r defnydd a wneir o’r gwasanaethau wedi'i nodi yn nhablau 22 a 23 uchod.

Mae'r asesiad hwn yn dangos, ar draws y gwasanaethau hyn, bod lefelau presennol y ddarpariaeth a'r gweithgarwch yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, ac nad oes unrhyw dystiolaeth o alw heb ei ddiwallu na gofyniad am gomisiynu ychwanegol o fewn yr NCN ar hyn o bryd.

Mae amrywiaeth o wasanaethau fferyllol ychwanegol eraill, gan gynnwys cymorth mewn cartrefi gofal, adolygiad o’r defnydd o anadlyddion, profion firysau a gludir yn y gwaed, cyfnewid nodwyddau, DOTS twbercwlosis, gofal lliniarol a gwasanaethau meddyginiaethau brys, yn cael eu comisiynu naill ai ar sail Gwent gyfan neu mewn ymateb i anghenion penodol y boblogaeth, yn hytrach na bod ar gael yn unffurf ym mhob ardal. Yn gyson â'r dull a nodir yn Adran 6.2, mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu hasesu ar lefel system gyfan er mwyn adlewyrchu trefniadau comisiynu, ffurfweddiad gwasanaethau a phatrymau o ran defnydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol o'r gwasanaethau hyn ledled Gwent ac wedi'u targedu yn ddigonol i ddiwallu anghenion trigolion yn yr ardal hon, ac nad yw eu habsenoldeb o fewn ôl troed yr NCN yn cynrychioli bwlch yn y ddarpariaeth gwasanaeth.

Yn seiliedig ar y wybodaeth a nodir yn nhablau 22 a 23, a'r manylion cysylltiedig uchod, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y gwasanaethau fferyllol presennol, gan gynnwys darpariaeth y ceir mynediad ati mewn ardaloedd cyfagos, yn ddigonol ar hyn o bryd i ddiwallu'r angen a nodwyd.

6.6.1.6 Datblygiadau yn y Dyfodol ac Angen Fferyllol

Gall datblygiad a meddiannaeth ardal dwf ddwyreiniol Glan Llyn greu galw ychwanegol am wasanaethau fferyllol. Nid oes unrhyw fylchau wedi'u nodi ar hyn o bryd, ac mae'n bosib bod gan fferyllfeydd o fewn ac yn agos i Ddwyrain Casnewydd ddigon o gapasiti i ddiwallu'r galw hwnnw. Bydd y Bwrdd Iechyd yn monitro'r feddiannaeth o dai, twf y boblogaeth, mynediad, defnydd o wasanaethau a chapasiti darparwyr. Os yw'r dystiolaeth yn dangos na all y rhwydwaith o wasanaethau fferyllol presennol ddiwallu'r angen a nodwyd mwyach, bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried y camau priodol, gan gynnwys a oes angen asesiad diwygiedig neu, lle bodlonir yr amodau statudol, a oes angen datganiad atodol.

Felly, mae Glan Llyn wedi'i nodi fel mater sy'n gofyn am fonitro, yn hytrach na bwlch presennol neu angen a nodwyd yn y dyfodol am ddarpariaeth fferyllol ychwanegol. Gall datblygiad a meddiannaeth gynyddu'r galw yn ystod oes y PNA, ond nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn dangos bod angen darpariaeth fferyllol ychwanegol.

6.6.2. Gorllewin Casnewydd

Mae Gorllewin Casnewydd yn cwmpasu cymunedau trefol dwys eu poblogaeth ac mae'n cynnwys ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol sylweddol ac anghydraddoldeb iechyd amlwg. Mae'r ardal yn profi galw cynyddol gan y boblogaeth, gyda phroffil demograffig amrywiol a thwf parhaus mewn rhai cymdogaethau. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at lefelau uchel o weithgarwch rhagnodi a galw cyson am wasanaethau gofal sylfaenol hygyrch. Mae yna ddwy ar bymtheg o fferyllfeydd yn yr ardal hon.

6.6.2.1. Y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae'r tablau isod yn amlinellu gwasanaethau fferyllol y GIG sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ngorllewin Casnewydd, ynghyd â'r ddarpariaeth bresennol a lefelau'r gweithgarwch ar gyfer pob gwasanaeth yn ystod 2024/25.

Tabl 24 - Data Gweithgarwch Gorllewin Casnewydd

Gorllewin Casnewydd Gweithgarwch Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol 2024/25		BIPAB
Nifer y Fferyllfeydd	17	125

Poblogaeth practis cofrestredig wedi'i bwysoli			86,290		618,679
Nifer y fferyllfeydd ar gyfer pob 10,000 claf			1.97		2.02
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	Nifer y fferyllfeydd wedi'u comisiynu	Canran y fferyllfeydd wedi'u comisiynu	Gweithgarwch	Gweithgarwch ar gyfer bob 10,000 claf	Gweithgarwch ar gyfer bob 10,000 claf
Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin	17	100%	9,562 Ymgynghoriadau	1,108 Ymgynghoriadau	1,142 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Atal Cenhedlu (CCPS)	17	100%	957 o Ymgynghoriadau	111 o Ymgynghoriadau	74 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Cyflenwad Brys o Feddyginiaethau (CCPS)	17	100%	4,445 o Ymgynghoriadau	515 o Ymgynghoriadau	376 o Ymgynghoriadau
Y Gwasanaeth Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol (PIPS):	11	65%	3,480 o Ymgynghoriadau	403 o Ymgynghoriadau	399 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygiad o Feddyginiaethau wrth Ryddhau	17	100%	338 o Adolygiadau	39 o Adolygiadau	40 o Adolygiadau
Gwasanaeth Brechu rhag y Ffliw	17	100%	2,202 o Frechiadau	255 o Frechiadau	235 o Frechiadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 1	5	29%	119 o Ymgynghoriadau	14 o Ymgynghoriadau	19 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 2	5	29%	1	0	0
Gwasanaeth rhoi meddyginiaeth dan oruchwyliaeth	16	94%	6,829 Goruchwyliaethau	791 o Oruchwyliaethau	1,138 o Oruchwyliaethau
Gwasanaeth Prawf Llif Unffordd	13	76%	390 Profion wedi'u Cyflenwi	45 Profion wedi'u Cyflenwi	38 Profion wedi'u Cyflenwi
Gwasanaeth cartrefi gofal	2	12%	0	0	1 Cartref Gofal
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2	17	100%	499 o Gysylltiadau	58 o Gysylltiadau	81 o Gysylltiadau
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3	12	71%	618 O Ymgeision rhoi’r gorau iddi	72 O Ymgeision rhoi’r gorau iddi	57 O Ymgeision rhoi’r gorau iddi
Gwasanaeth Cyfnewid Nodwyddau	1	6%	56 o Ryngweithiadau	6 o Ryngweithiadau	115 o Ryngweithiadau

Gwasanaeth Firysau a gludir yn y gwaed	1	6%	50 o Brofion	6 o Brofion	5 o Brofion
Gwasanaeth Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth	11	65%	136 claf	16 Claf	38 Claf
Gwasanaeth Lleihau Gwastraff	15	88%	1,637 o Ymyriadau	190 o Ymyriadau	267 o Ymyriadau
Gwasanaeth Cyflenwi DOTS Twbercwlosis	2	12%	255 o Gyflenwadau	30 o Gyflenwadau	4 o Gyflenwadau
Gwasanaeth Rota Gofal Lliniarol y Tu Allan i oriau gwaith	1	6%	N/A	N/A	N/A
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 1	1	6%	N/A	N/A	N/A
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 2	1	6%	N/A	N/A	N/A
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau	12	71%	N/A	N/A	N/A

Tabl 25 - Data Gweithgarwch Gorllewin Casnewydd

Gorllewin Casnewydd Gweithgaredd cyflenwi 2024/25			**BIPAB**
Nifer y Fferyllfeydd		17	125
Poblogaeth practis cofrestredig wedi'i bwysoli		86,290	618,679
Nifer y fferyllfeydd ar gyfer pob 10,000 claf		1.97	2.02
Presgripsiynydd	Cyfanswm y presgripsiynau	Presgripsiynau a gyflenwir ar gyfer bob 10,000 o'r boblogaeth wedi'i phwysoli	Presgripsiynau a gyflenwir ar gyfer bob 10,000 o'r boblogaeth wedi'i phwysoli
Pob un	2,365,676	274,154	266,224
MEDDYG TEULU BIPAB	2,245,404	260,216	254,204
Byrddau Iechyd Eraill	42,631	4,940	4,624
Ysbyty	48,486	5,619	4,160
Deintydd	8,034	931	809
Cymru Anhysbys	6,172	715	718
Carchar BIPAB	0	0	431
BIPAB OOH	6,050	701	406
Fferyllfa (IP)	4,249	492	388
GDAS	1,425	165	195
IP Offthalmig	1,326	154	116
Presgripsiynydd o Loegr	314	36	79
Tîm VBH BIPAB	101	12	30
ABSDAS	1,354	157	27
ATS	23	3	25
Gwasanaeth Ataliaeth BIPAB	88	10	10

Podiatreg BIPAB	17	2	2
Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	2	0	0.15

6.6.2.2. Gwasanaethau fferyllol wedi'u cyrchu y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd, naill ai ar gyfer gwasanaethau fferyllol sy'n agosach i ble maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld, neu i gael mynediad at y gwasanaethau a gynigir gan Contractwyr Cyfarpar sy'n Dosbarthu.

Cafodd mwyafrif helaeth o bresgripsiynau a ysgrifennwyd yn 2024/25 gan y saith practis meddyg teulu o fewn yr NCN eu cyflawni gan fferyllfeydd yn yr ardal. Dim ond 5.7% a gyflenwyd mewn mannau eraill, gyda 2.7% o'r rhain wedi'u cyflenwi yn Nwyrain Casnewydd. Mae hyn yn dangos bod trigolion yn dibynnu ar ddarpariaeth fferyllol gerllaw a bod y galw yn aros, i raddau helaeth, o fewn ardal Casnewydd.

Dim ond cyfrannau bach iawn o bresgripsiynau a gyflenwyd mewn lleoliadau cyfagos eraill, gyda symiau bach tebyg yn cael eu trin gan fferyllfeydd mewn Byrddau Iechyd eraill a Chontractwyr yn Lloegr. Cofnodwyd cyfran fechan arall o eitemau fel rhai a weinyddwyd yn bersonol yn hytrach na'u cyflawni trwy fferyllfeydd cymunedol.

Efallai hefyd bod mwy o ddefnydd wedi'i wneud o wasanaethau fferyllol mewn fferyllfeydd sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Ni ellir mesur y gweithgarwch hwn oherwydd nad yw wedi'i gofnodi yn y set ddata a gofnodwyd. .

6.6.2.3. Dewis a Mynediad at Wasanaethau Fferyllol

Mae'r rhan fwyaf o drigolion sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r saith practis meddyg teulu fel arfer yn defnyddio un o'r fferyllfeydd lleol i gael eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae cyfran o gleifion yn dewis cael eu presgripsiynau yn rhywle arall. Fel arfer, mae hyn oherwydd bod yn well ganddynt fferyllfa gyfagos neu gontractwr cyfarpar sy'n dosbarthu sydd wedi'u lleoli'n agosach at ble maent yn gweithio, yn siopa, yn treulio amser hamdden, neu am reswm personol arall.

O ran mynediad, gellir dod o hyd i restr fanwl o oriau agor Fferyllfeydd Cymunedol yn atodiad N.

6.6.2.4. Gwasanaethau GIG Eraill sy'n Dylanwadu ar Anghenion Fferyllol

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch dylanwad gwasanaethau eraill y GIG ar yr angen fferyllol wedi'i nodi ym Mhennod pedwar, ac mae manylion cynhwysfawr yn Atodiad O. Nid yw asesiad y Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw wasanaethau GIG ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai a restrir yn Atodiad O, y disgwylir iddynt effeithio ar yr angen fferyllol yn Ngorllewin Casnewydd.

6.6.2.5. Asesiad o Ddigonolrwydd y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Nododd y Bwrdd Iechyd bod fferyllfeydd yn yr ardal wedi'u lleoli yn gyffredinol mewn ardaloedd â mwy o drwch o boblogaeth a lefelau uwch o amddifadedd, a bod yr ardal gyfan o fewn 10 munud mewn cerbyd o fferyllfa. Mae rhagamcanion poblogaeth yn dangos y disgwylir i Gasnewydd weld cynnydd o 19.8% rhwng 2022 a 2047.

Nodwyd un datblygiad tai yn yr LDP 2011–2026, nad yw wedi'i ddiweddaru ers PNA 2021: cyn safle Gwaith Whitehead, lle mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 471 o unedau tai newydd. Gan fod y LDP yn parhau i fod heb ei newid, mae hyn yn parhau i gynrychioli'r dyraniad tai a fabwysiadwyd yn ffurfiol diweddaraf.

Ymatebodd wyth allan o saith fferyllfa ar ddeg i'r holiadur contractwyr, a chadarnhaodd pob un ohonynt fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau a'u lefelau staffio presennol i ymateb i’r cynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Er na wnaeth pob darparwr ymateb, mae cysondeb yr ymateb yn dangos darlun calonogol o sefydlogrwydd a pharodrwydd ar draws yr ardal.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon y gellir darparu ar gyfer y galw ychwanegol am wasanaethau fferyllol a gynhyrchir gan y datblygiadau hyn o fewn yr ystâd bresennol ac felly nid yw wedi nodi unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol am wasanaethau hanfodol yn yr ardaloedd hyn.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol hanfodol yn ddigonol i ddiwallu anghenion presennol a disgwyliedig y boblogaeth yn yr ardal hon.

O ran gwasanaethau fferyllol ychwanegol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ddarpariaeth o fewn yr NCN, gan gynnwys gwasanaethau craidd a gomisiynwyd yn genedlaethol megis y Gwasanaeth Fferyllfa Gymunedol Glinigol, y Gwasanaeth Brechu Ffliw Tymhorol ac Adolygiadau o Feddyginiaethau wrth Ryddhau, ochr yn ochr â Helpa Fi i

Stopio (Rhoi’r gorau i ysmygu). Mae pob gwasanaeth wedi cael ei asesu o ran nifer y contractwyr a gomisiynwyd i'w gyflawni, lefel y gweithgarwch a welwyd, a'r graddau y mae'r ddarpariaeth bresennol yn adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd. Mae dadansoddiad manwl o’r ddarpariaeth a’r defnydd a wneir o’r gwasanaethau wedi'i nodi yn nhablau 24 a 25 uchod.

Mae'r asesiad hwn yn dangos, ar draws y gwasanaethau hyn, bod lefelau presennol y ddarpariaeth a'r gweithgarwch yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, ac nad oes unrhyw dystiolaeth o alw heb ei ddiwallu na gofyniad am gomisiynu ychwanegol o fewn yr NCN ar hyn o bryd.

Mae amrywiaeth o wasanaethau fferyllol ychwanegol eraill, gan gynnwys cymorth mewn cartrefi gofal, adolygiad o’r defnydd o anadlyddion, profion firysau a gludir yn y gwaed, cyfnewid nodwyddau, DOTS twbercwlosis, gofal lliniarol a gwasanaethau meddyginiaethau brys, yn cael eu comisiynu naill ai ar sail Gwent gyfan neu mewn ymateb i anghenion penodol y boblogaeth, yn hytrach na bod ar gael yn unffurf ym mhob ardal. Yn gyson â'r dull a nodir yn Adran 6.2, mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu hasesu ar lefel system gyfan er mwyn adlewyrchu trefniadau comisiynu, ffurfweddiad gwasanaethau a phatrymau o ran defnydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol o'r gwasanaethau hyn ledled Gwent ac wedi'u targedu yn ddigonol i ddiwallu anghenion trigolion yn yr ardal hon, ac nad yw eu habsenoldeb o fewn ôl troed yr NCN yn cynrychioli bwlch yn y ddarpariaeth gwasanaeth.

Yn seiliedig ar y wybodaeth a nodir yn nhablau 24 a 25, a'r manylion cysylltiedig uchod, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw angen cyfredol nac yn y dyfodol am wasanaethau fferyllol ychwanegol yn yr ardal hon.

6.7. Torfaen

Mae Torfaen yn cynnwys proffil cymysg o drefi a chymoedd gydag amrywiad mewn lefelau amddifadedd ar draws cymunedau. Mae disgwyliad oes iach yn is nag mewn ardaloedd mwy goludog ac mae marwolaethau cynamserol yn parhau i fod yn uwch na’r niferoedd gorau yng Ngwent. Mae'r strwythur oedran yn cynnwys cymunedau oedran gweithio sefydledig a phoblogaeth hŷn sy'n tyfu.

Mae amrywiad economaidd-gymdeithasol yn cyfrannu at gyffredinrwydd gwahanol lefelau o gyflyrau hirdymor a baich clefydau y gellir eu hatal ar draws cymdogaethau. Mae ugain o fferyllfeydd yn yr ardal hon. Mae yna un meddyg fferyllol hefyd . Mae’n rhaid i ddarpariaeth yn Nhorfaen ymateb i:

- Anghenion rheoli clefydau cronig

- Ymyriadau ataliol sy'n targedu ffactorau risg y gellir eu haddasu
- Optimeiddio meddyginiaethau ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio
- Gwasanaethau hygyrch o fewn aneddiadau trefol a’r rheiny yn y cymoedd
- Nodweddion poblogaeth Deep End, gan gynnwys cymhlethdod clinigol uwch, cyfraddau ymgynghori uwch a'r angen am fodelau gofal rhagweithiol, sy’n seiliedig ar allgymorth a hygyrch i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad a chanlyniadau

Bydd y gallu i reoli presgripsiynu cymhleth ochr yn ochr â mynediad daearyddol teg yn ystyriaethau allweddol wrth asesu'r ddarpariaeth.

Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn y bennod hon, o’r 1ah Hydref 2025 ymlaen, bydd Torfaen yn cael ei ystyried yn un NCN wedi i’r Gogledd a'r De uno. Nid yw’r asesiadau sy'n dilyn yn newid yn sgil yr uno.

6.7.1. Gogledd Torfaen

Mae Gogledd Torfaen yn cynnwys cymunedau cymoedd yn bennaf, gan gynnwys Blaenafon a'r aneddiadau cyfagos, a nodweddir gan leoliad lled-wledig gydag ardaloedd cymdeithasol-economaidd anodd. Mae'r ardal yn cynnwys ardaloedd preswyl gwasgaredig a chyn gymunedau diwydiannol, gyda phroffil poblogaeth wedi'i siapio gan drigolion sy'n heneiddio ac aelwydydd sefydledig o oedran gweithio. Mae lefelau amddifadedd yn uwch mewn rhannau o'r ardal o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, gan gyfrannu at anghydraddoldeb o ran canlyniadau iechyd a baich cynyddol clefydau y gellir eu hatal. Mae cyflyrau cronig, gan gynnwys clefydau cardiofasgwlaidd ac anadlol, yn cyfrannu'n sylweddol at y galw am wasanaethau fferyllol, ochr yn ochr â ffactorau risg ymddygiadol fel ysmygu. Mae'r ddaearyddiaeth led-wledig hefyd yn golygu bod hygyrchedd a pharhad cyflenwad meddyginiaethau yn ystyriaethau pwysig, yn enwedig i drigolion nad oes ganddynt lawer o ddewis o ran trafnidiaeth. Mae deg fferyllfa yn yr ardal hon.

6.7.1.1. Y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae'r tablau isod yn amlinellu gwasanaethau fferyllol y GIG sydd ar gael ar hyn o bryd yng Ngogledd Torfaen, ynghyd â'r ddarpariaeth bresennol a lefelau’r gweithgarwch ar gyfer pob gwasanaeth yn ystod 2024/25.

Tabl 26 - Data Gweithgarwch Gogledd Torfaen

Gogledd Torfaen Gweithgarwch Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol 2024/25		BIPAB
Nifer y Fferyllfeydd	10	125

Poblogaeth practis cofrestredig wedi'i bwysoli				**48,525**	**618,679**
Nifer y fferyllfeydd ar gyfer pob 10,000 claf				**2.06**	**2.02**
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	Nifer y fferyllfeydd wedi'u comisiynu	Canran y fferyllfeydd wedi'u comisiynu	Gweithgarwch	Gweithgarwch ar gyfer bob 10,000 claf	Gweithgarwch ar gyfer bob 10,000 claf
Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin	10	100%	8,808 o Ymgynghoriadau	1,815 o Ymgynghoriadau	1,142 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Atal Cenhedlu (CCPS)	10	100%	186 o Ymgynghoriadau	38 o Ymgynghoriadau	74 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Cyflenwad Brys o Feddyginiaethau (CCPS)	10	100%	2,238 o Ymgynghoriadau	470 o Ymgynghoriadau	376 o Ymgynghoriadau
Y Gwasanaeth Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol (PIPS):	6	60%	3,313 o Ymgynghoriadau	683 o Ymgynghoriadau	399 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygiad o Feddyginiaethau wrth Ryddhau	10	100%	371 o Adolygiadau	76 o Adolygiadau	40 o Adolygiadau
Gwasanaeth Brechu rhag y Ffliw	10	100%	1,305 o Frechiadau	269 o Frechiadau	235 o Frechiadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 1	6	60%	89 o Ymgynghoriadau	18 o Ymgynghoriadau	19 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 2	6	60%	0	0	0
Gwasanaeth rhoi meddyginiaeth dan oruchwyliaeth	10	100%	2,770 o Oruchwyliaethau	571 o Oruchwyliaethau	1,138 o Oruchwyliaethau
Gwasanaeth Prawf Llif Unffordd	7	70%	483 o Brofion wedi'u Cyflenwi	100 o Brofion wedi'u Cyflenwi	38 Profion wedi'u Cyflenwi
Gwasanaeth cartrefi gofal	1	10%	0	0	1 Cartref Gofal
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2	10	100%	522 o Gysylltiadau	108 o Gysylltiadau	81 o Gysylltiadau
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3	9	90%	219 O Ymgeision rhoi’r gorau iddi	45 O Ymgeision rhoi’r gorau iddi	57 O Ymgeision rhoi’r gorau iddi
Gwasanaeth Cyfnewid Nodwyddau	3	30%	7 o Ryngweithiadau	1 o Ryngweithiadau	115 o Ryngweithiadau
Gwasanaeth Firysau a gludir yn y gwaed	1	10%	13 o Brofion	3 o Brofion	5 o Brofion
Gwasanaeth Cofnodion	9	90%	423 claf	87 Claf	38 Claf

Gweinyddu Meddyginiaeth					
Gwasanaeth Lleihau Gwastraff	10	100%	464 o Ymyriadau	96 o Ymyriadau	267 o Ymyriadau
Gwasanaeth Cyflenwi DOTS Twbercwlosis	0	0%	0 o Gyflenwadau	0 o Gyflenwadau	4 o Gyflenwadau
Gwasanaeth Rota Gofal Lliniarol y Tu Allan i oriau gwaith	2	20%	N/A	N/A	N/A
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 1	1	10%	N/A	N/A	N/A
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 2	2	20%	N/A	N/A	N/A
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau	7	70%	N/A	N/A	N/A

Tabl 27 - Data Gweithgarwch Gogledd Torfaen

Gogledd Torfaen Gweithgaredd Cyflenwi 2024/25			**BIPAB**
Nifer y Fferyllfeydd		10	125
Poblogaeth practis cofrestredig wedi'i bwysoli		48,525	618,679
Nifer y fferyllfeydd ar gyfer pob 10,000 claf		2.06	2.02
Presgripsiynydd	Cyfanswm y presgripsiynau	Presgripsiynau a gyflenwir ar gyfer bob 10,000 o'r boblogaeth wedi'i phwysoli	Presgripsiynau a gyflenwir ar gyfer bob 10,000 o'r boblogaeth wedi'i phwysoli
Pob un	1,394,193	287,314	266,224
MEDDYG TEULU BIPAB	1,363,433	280,975	254,204
Byrddau Iechyd Eraill	2,499	515	4,624
Ysbyty	16,829	3,468	4,160
Deintydd	3,462	713	809
Cymru Anhysbys	1,883	388	718
Carchar BIPAB	0	0	431
BIPAB OOH	1,092	225	406
Fferyllfa (IP)	3,730	769	388
GDAS	487	100	195
IP Offthalmig	342	70	116
Presgripsiynydd o Loegr	67	14	79
Tîm VBH BIPAB	310	64	30
ABSDAS	0	0	27
ATS	2	0	25
Gwasanaeth Ataliaeth BIPAB	41	8	10
Podiatreg BIPAB	16	3	2
Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	0	0	0.15

6.7.1.2. Gwasanaethau fferyllol wedi'u cyrchu y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd, naill ai ar gyfer gwasanaethau fferyllol sy’n agosach i ble maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld, neu i gael mynediad at y gwasanaethau a gynigir gan Contractwyr Cyfarpar sy’n Dosbarthu.

Cafodd mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd yn 2024/25 gan y pedwar practis meddyg teulu o fewn yr NCN eu cyflenwi gan fferyllfeydd yn yr ardal, gyda 17.3% wedi'u cyflenwi mewn mannau eraill. O'r gyfran hon, cyflenwyd 10.3% yn Ne Torfaen, cyflenwyd 2.4% yn uniongyrchol gan feddygon fferyllol a chyflenwyd 1.7% arall yn Nwyrain Caerffili a Chasnewydd gyda'i gilydd.

Dim ond cyfrannau bach iawn o bresgripsiynau a gyflenwyd mewn lleoliadau cyfagos eraill, gyda symiau bach tebyg yn cael eu trin gan fferyllfeydd mewn Byrddau Iechyd eraill a Chontractwyr yn Lloegr. Cofnodwyd cyfran fechan arall o eitemau fel rhai a weinyddwyd yn bersonol yn hytrach na'u cyflawni trwy fferyllfeydd cymunedol.

Efallai hefyd bod mwy o ddefnydd wedi’i wneud o wasanaethau fferyllol mewn fferyllfeydd sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Ni ellir mesur y gweithgarwch hwn oherwydd nad yw wedi'i gofnodi yn y set ddata a gofnodwyd. .

6.7.1.3. Dewis a Mynediad at Wasanaethau Fferyllol

Mae'r rhan fwyaf o drigolion sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r pedwar practis meddyg teulu fel arfer yn defnyddio un o'r fferyllfeydd lleol i gael eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae cyfran o gleifion yn dewis cael eu presgripsiynau yn rhywle arall. Fel arfer, mae hyn oherwydd bod yn well ganddynt fferyllfa gyfagos neu gontractwr cyfarpar sy’n dosbarthu sydd wedi'u lleoli'n agosach at ble maent yn gweithio, yn siopa, yn treulio amser hamdden, neu am reswm personol arall.

O ran mynediad, gellir dod o hyd i restr fanwl o oriau agor Fferyllfeydd Cymunedol yn Atodiad N a Meddygon Fferyllol yn atodiad M.

6.7.1.4. Gwasanaethau GIG Eraill sy'n Dylanwadu ar Anghenion Fferyllol

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch dylanwad gwasanaethau eraill y GIG ar yr angen fferyllol wedi'i nodi ym Mhennod 4, ac mae manylion cynhwysfawr yn Atodiad O. Nid yw asesiad y Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw

wasanaethau GIG ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai a restrir yn Atodiad O, y disgwylir iddynt effeithio ar yr angen fferyllol yng Ngogledd Torfaen.

6.7.1.5. Asesiad o Ddigonolrwydd y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sylwi bod fferyllfeydd yn Nhorfaen wedi'u dosbarthu ar draws yr ardal mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag ardaloedd â thrwch poblogaeth ac amddifadedd uwch, gan sicrhau bod y boblogaeth gyfan o fewn taith 20 munud mewn cerbyd i fferyllfa. Rhagwelir y bydd poblogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cynyddu 15.5% rhwng 2022 a 2047.

Nodwyd dau ddatblygiad tai pwysig yn y CDLl 2013–2021,[105] nad yw wedi'i ddiweddaru ers PNA 2021. Bydd datblygiad De Sebastopol yn darparu hyd at 1,200 o unedau tai, ac mae’r gwaith adeiladu eisoes wedi cychwyn, a bydd Pentref Trefol Mamhilad yn ychwanegu 900 yn fwy o unedau tai. Gan fod y LDP yn parhau i fod heb ei newid, mae hyn yn parhau i gynrychioli'r dyraniad tai a fabwysiadwyd yn ffurfiol diweddaraf. Er nad yw datblygiad pentref trefol Mamhilad wedi dechrau eto, mae'r ddau gynllun yn cynrychioli mwy o bwysau yn sgil poblogaeth uwch a bydd angen ystyried hyn wrth asesu'r galw am wasanaethau fferyllol yn y dyfodol ar draws yr ardal.

Ymatebodd pump darparwr allan o ddeg i'r holiadur contractwyr, a chadarnhaodd pob un ohonynt fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau a'u lefelau staffio presennol i ymateb i’r cynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Er mai dim ond hanner y darparwyr a ymatebodd i'r holiadur, mae'r ymatebion unfrydol yn awgrymu bod yr ardal mewn sefyllfa dda i reoli twf yn y galw yn y dyfodol, gan atgyfnerthu sefydlogrwydd cyffredinol y ddarpariaeth gwasanaeth.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol hanfodol yn ddigonol i ddiwallu anghenion presennol y boblogaeth yn yr ardal hon.

O ran gwasanaethau fferyllol ychwanegol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ddarpariaeth o fewn yr NCN, gan gynnwys gwasanaethau craidd a gomisiynwyd yn genedlaethol megis y Gwasanaeth Fferyllfa Gymunedol Glinigol, y Gwasanaeth Brechu Ffliw Tymhorol ac Adolygiadau o Feddyginiaethau wrth Ryddhau, ochr yn ochr â Helpa Fi i Stopio (Rhoi’r gorau i ysmygu). Mae pob gwasanaeth wedi cael ei asesu o ran nifer y contractwyr a gomisiynwyd i'w gyflawni, lefel y gweithgarwch a

[105] Local Development Plan | Torfaen County Borough Council

welwyd, a'r graddau y mae'r ddarpariaeth bresennol yn adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd. Mae dadansoddiad manwl o’r ddarpariaeth a’r defnydd a wneir o’r gwasanaethau wedi'i nodi yn nhablau 26 a 27 uchod.

Mae'r asesiad hwn yn dangos, ar draws y gwasanaethau hyn, bod lefelau presennol y ddarpariaeth a'r gweithgarwch yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, ac nad oes unrhyw dystiolaeth o alw heb ei ddiwallu na gofyniad am gomisiynu ychwanegol o fewn yr NCN ar hyn o bryd.

Mae amrywiaeth o wasanaethau fferyllol ychwanegol eraill, gan gynnwys cymorth mewn cartrefi gofal, adolygiad o’r defnydd o anadlyddion, profion firysau a gludir yn y gwaed, cyfnewid nodwyddau, DOTS twbercwlosis, gofal lliniarol a gwasanaethau meddyginiaethau brys, yn cael eu comisiynu naill ai ar sail Gwent gyfan neu mewn ymateb i anghenion penodol y boblogaeth, yn hytrach na bod ar gael yn unffurf ym mhob ardal. Yn gyson â'r dull a nodir yn Adran 6.2, mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu hasesu ar lefel system gyfan er mwyn adlewyrchu trefniadau comisiynu, ffurfweddiad gwasanaethau a phatrymau o ran defnydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol o'r gwasanaethau hyn ledled Gwent ac wedi'u targedu yn ddigonol i ddiwallu anghenion trigolion yn yr ardal hon, ac nad yw eu habsenoldeb o fewn ôl troed yr NCN yn cynrychioli bwlch yn y ddarpariaeth gwasanaeth.

Yn seiliedig ar y wybodaeth a nodir yn nhablau 26 a 27, a'r manylion cysylltiedig uchod, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y gwasanaethau fferyllol presennol, gan gynnwys darpariaeth y ceir mynediad ati mewn ardaloedd cyfagos, yn ddigonol ar hyn o bryd i ddiwallu'r angen a nodwyd.

6.7.1.6 Datblygiadau yn y dyfodol ac anghenion fferyllol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried a oes angen presennol neu angen yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn natblygiad De Sebastopol. Mae wedi nodi bod y fferyllfeydd agosaf o fewn 10 munud mewn cerbyd, ac mae fferyllfa hefyd i'r de o'r datblygiad yn ardal De Torfaen.

Yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol am ddatblygiad, hygyrchedd a chapasiti darparwyr, ni ddaeth i’r amlwg bod unrhyw fwlch ar hyn o bryd nac angen a nodwyd yn y dyfodol am wasanaethau fferyllol hanfodol ychwanegol yn Ne Sebastopol. Bydd datblygiad a meddiannaeth yn parhau i gael eu monitro yn ystod oes y PNA.

Gall datblygiad a meddiannaeth Pentref Trefol Mamhilad greu galw ychwanegol am wasanaethau fferyllol. Nid oes unrhyw fwlch wedi’i nodi ar

hyn o bryd ac mae’n bosib y bydd gan fferyllfeydd o fewn pellter rhesymol ddigon o gapasiti i ddiwallu'r galw hwnnw.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn monitro’r feddiannaeth o dai, twf y boblogaeth, mynediad, defnydd o wasanaethau a chapasiti darparwyr. Os yw'r dystiolaeth yn dangos na all y rhwydwaith o wasanaethau fferyllol presennol ddiwallu'r angen a nodwyd mwyach, bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried y camau priodol, gan gynnwys a oes angen asesiad diwygiedig neu, lle bodlonir yr amodau statudol, a oes angen datganiad atodol.

Felly, mae Pentref Trefol Mamhilad wedi'i nodi fel mater sy'n gofyn am fonitro, yn hytrach na bwlch presennol neu angen a nodwyd yn y dyfodol am ddarpariaeth fferyllol ychwanegol. Gall datblygiad a meddiannaeth gynyddu'r galw yn ystod oes y PNA, ond nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn dangos bod angen darpariaeth fferyllol ychwanegol.

6.7.2. De Torfaen

Mae De Torfaen yn cynnwys rhannau mwy trefol y fwrdeistref, gan gynnwys Cwmbrân a'r ardaloedd preswyl cyfagos. Mae'r ardal yn elwa o ganolfannau manwerthu sefydledig a chysylltedd trafnidiaeth, gan arwain at drwch poblogaeth uwch a mwy o ymwelwyr o'i gymharu â chymunedau'r cymoedd yn y gogledd. Er bod lefelau amddifadedd yn amrywio o gymdogaeth i gymdogaeth, mae ardaloedd o anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol yn parhau, ac mae hyn yn cyfrannu at amrywiad mewn canlyniadau iechyd a baich clefydau y gellir eu hatal. Mae proffil y boblogaeth yn cynnwys carfan sylweddol o oedran gweithio ochr yn ochr â theuluoedd a thrigolion hŷn, gan greu patrymau amrywiol o ran galw am wasanaethau fferyllol. Mae deg fferyllfa yn yr ardal hon.

6.7.2.1. Y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae'r tablau isod yn amlinellu gwasanaethau fferyllol y GIG sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ne Torfaen, ynghyd â'r ddarpariaeth bresennol a lefelau’r gweithgarwch ar gyfer pob gwasanaeth yn ystod 2024/25.

Tabl 28 - Data Gweithgarwch De Torfaen

De Torfaen Gweithgarwch Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol 2024/25					**BIPAB**
Nifer y Fferyllfeydd			**10**		**125**
Poblogaeth practis cofrestredig wedi'i bwysoli			**49,825**		**618,679**
Nifer y fferyllfeydd ar gyfer pob 10,000 claf			**2.01**		**2.02**
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	Nifer y fferyllfeyd	Canran y fferyllfeyd	Gweithgarwch	Gweithgarwch ar gyfer bob 10,000 claf	Gweithgarwch ar gyfer bob 10,000 claf

	d wedi'u comisiynu	d wedi'u comisiynu			
Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin	10	100%	5,586 o Ymgynghoriadau	1,121 o Ymgynghoriadau	1,142 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Atal Cenhedlu (CCPS)	10	100%	626 o Ymgynghoriadau	126 o Ymgynghoriadau	74 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Cyflenwad Brys o Feddyginiaethau (CCPS)	10	100%	3,344 o Ymgynghoriadau	671 o Ymgynghoriadau	376 o Ymgynghoriadau
Y Gwasanaeth Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol (PIPS):	8	80%	3,052 o Ymgynghoriadau	613 o Ymgynghoriadau	399 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygiad o Feddyginiaethau wrth Ryddhau	10	100%	311 o Adolygiadau	62 o Adolygiadau	40 o Adolygiadau
Gwasanaeth Brechu rhag y Ffliw	10	100%	1,526 o Frechiadau	306 o Frechiadau	235 o Frechiadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 1	5	50%	29 o Ymgynghoriadau	6 o Ymgynghoriadau	19 o Ymgynghoriadau
Gwasanaeth Adolygu Anadlyddion Lefel 2	5	50%	1	0	0
Gwasanaeth rhoi meddyginiaeth dan oruchwyliaeth	9	90%	7,317 o Oruchwyliaethau	1,469 o Oruchwyliaethau	1,138 o Oruchwyliaethau
Gwasanaeth Prawf Llif Unffordd	8	80%	287 o Brofion wedi'u Cyflenwi	58 o Brofion wedi'u Cyflenwi	38 Profion wedi'u Cyflenwi
Gwasanaeth cartrefi gofal	2	20%	64	13	1 Cartref Gofal
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 2	10	100%	671 o Gysylltiadau	135 o Gysylltiadau	81 o Gysylltiadau
Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3	9	90%	446 O Ymgeision rhoi’r gorau iddi	90 O Ymgeision rhoi’r gorau iddi	57 O Ymgeision rhoi’r gorau iddi

Gwasanaeth Cyfnewid Nodwyddau	2	20%	1502 o Ryngweithiadau	301 o Ryngweithiadau	115 o Ryngweithiadau
Gwasanaeth Firysau a gludir yn y gwaed	2	20%	174 o Brofion	35 o Brofion	5 o Brofion
Gwasanaeth Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth	8	80%	783 claf	157 Claf	38 Claf
Gwasanaeth Lleihau Gwastraff	8	80%	893 o Ymyriadau	179 o Ymyriadau	267 o Ymyriadau
Gwasanaeth Cyflenwi DOTS Twbercwlosis	0	0%	0 o Gyflenwadau	0 o Gyflenwadau	4 o Gyflenwadau
Gwasanaeth Rota Gofal Lliniarol y Tu Allan i oriau gwaith	2	20%	N/A	N/A	N/A
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 1	2	20%	N/A	N/A	N/A
Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys Lefel 2	2	20%	N/A	N/A	N/A
Gwasanaeth Rota y Tu Allan i Oriau	6	60%	N/A	N/A	N/A

Tabl 29 - Data Gweithgarwch De Torfaen

De Torfaen Gweithgaredd Cyflenwi 2024/25			**BIPAB**
Nifer y Fferyllfeydd		**10**	**125**
Poblogaeth practis cofrestredig wedi'i bwysoli		**49,825**	**618,679**
Nifer y fferyllfeydd ar gyfer pob 10,000 claf		**2.01**	**2.02**
Presgripsiynydd	Cyfanswm y presgripsiynau	Presgripsiynau a gyflenwir ar gyfer bob 10,000 o'r boblogaeth wedi'i phwysoli	Presgripsiynau a gyflenwir ar gyfer bob 10,000 o'r boblogaeth wedi'i phwysoli
Pob un	1,553,769	311,845	266,224
MEDDYG TEULU BIPAB	1,510,790	303,219	254,204
Byrddau Iechyd Eraill	2,066	415	4,624
Ysbyty	27,066	5,432	4,160

Deintydd	6,068	1,218	809
Cymru Anhysbys	906	182	718
Carchar BIPAB	0	0	431
BIPAB OOH	2,139	429	406
Fferyllfa (IP)	2,457	493	388
GDAS	1,137	228	195
IP Offthalmig	531	107	116
Presgripsiynydd o Loegr	190	38	79
Tîm VBH BIPAB	307	62	30
ABSDAS	0	0	27
ATS	41	8	25
Gwasanaeth Ataliaeth BIPAB	44	9	10
Podiatreg BIPAB	27	5	2
Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	0	0	0.15

6.7.2.2. Gwasanaethau fferyllol wedi'u cyrchu y tu allan i'r ardal leol

Mae rhai trigolion yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd, naill ai ar gyfer gwasanaethau fferyllol sy'n agosach i ble maent yn gweithio, yn siopa neu'n ymweld, neu i gael mynediad at y gwasanaethau a gynigir gan Contractwyr Cyfarpar sy'n Dosbarthu.

Cafodd mwyafrif y presgripsiynau a ysgrifennwyd yn 2024/25 gan y pum practis meddyg teulu o fewn yr NCN eu cyflenwi gan fferyllfeydd yn yr ardal, gyda 8.8% wedi'u cyflenwi mewn mannau eraill. O'r gyfran hon, dosbarthwyd 2.9% yng Ngogledd Torfaen a Gorllewin Casnewydd.

Dim ond cyfrannau bach iawn o bresgripsiynau a gyflenwyd mewn lleoliadau cyfagos eraill, gyda symiau bach tebyg yn cael eu trin gan fferyllfeydd mewn Byrddau Iechyd eraill a Chontractwyr yn Lloegr. Cofnodwyd cyfran fechan arall o eitemau fel rhai a weinyddwyd yn bersonol yn hytrach na'u cyflawni trwy fferyllfeydd cymunedol.

Efallai hefyd bod mwy o ddefnydd wedi'i wneud o wasanaethau fferyllol mewn fferyllfeydd sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal leol ac ardal y Bwrdd Iechyd. Ni ellir mesur y gweithgarwch hwn oherwydd nad yw wedi'i gofnodi yn y set ddata a gofnodwyd. .

6.7.2.3. Dewis a Mynediad at Wasanaethau Fferyllol

Mae'r rhan fwyaf o drigolion sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r pum practis meddyg teulu fel arfer yn defnyddio un o'r fferyllfeydd lleol i gael eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae cyfran o gleifion yn dewis cael eu presgripsiynau yn rhywle arall. Fel arfer, mae hyn oherwydd bod yn well ganddynt fferyllfa gyfagos neu gontractwr cyfarpar sy’n dosbarthu sydd wedi'u lleoli'n agosach at ble maent yn gweithio, yn siopa, yn treulio amser hamdden, neu am reswm personol arall.

O ran mynediad, gellir dod o hyd i restr fanwl o oriau agor Fferyllfeydd Cymunedol yn atodiad N.

6.7.2.4. Gwasanaethau GIG Eraill sy'n Dylanwadu ar Anghenion Fferyllol

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch dylanwad gwasanaethau eraill y GIG ar yr angen fferyllol wedi'i nodi ym Mhennod pedwar, ac mae manylion cynhwysfawr yn Atodiad O. Nid yw asesiad y Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw wasanaethau GIG ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai a restrir yn Atodiad O, y disgwylir iddynt effeithio ar yr angen fferyllol yn Ne Torfaen.

6.7.2.5. Asesiad o Ddigonolrwydd y Ddarpariaeth o Wasanaethau Fferyllol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi, ac eithrio un fferyllfa, fod y fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd sydd â thrwch poblogaeth uwch ac amddifadedd uwch, gan sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Mae'r ardal gyfan o fewn 10 munud mewn cerbyd o fferyllfa, sy'n cefnogi mynediad cyfartal ledled Torfaen. Rhagwelir y bydd poblogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cynyddu 15.5% rhwng 2022 a 2047.

Nodwyd pedwar datblygiad tai, yng Nghwmbrân a'r cyffiniau, yn yr LDP 2013–2021, nad yw wedi'i ddiweddaru ers PNA 2021. Gyda'i gilydd byddent yn creu 1246 o unedau tai, ac mae rhai ohonynt eisoes wedi'u hadeiladu, ac mae'r rhain yn cynrychioli pwysau twf mwy uniongyrchol. Gan fod y LDP yn parhau i fod heb ei newid, mae hyn yn parhau i gynrychioli'r dyraniad tai a fabwysiadwyd yn ffurfiol diweddaraf.

Ymatebodd chwech darparwr allan o ddeg i'r holiadur contractwyr, a chadarnhaodd pump ohonynt fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu hadeiladau a'u lefelau staffio presennol i ymateb i’r cynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Nododd y chweched, er nad oedd ganddynt gapasiti o ran safle na staff ar hyn o bryd, y gallent wneud

addasiadau i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw. Mae hyn yn dangos lefel sefydlog a gwydn o ddarpariaeth gwasanaeth ar draws yr ardal.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol hanfodol yn ddigonol i ddiwallu anghenion presennol a disgwyliedig y boblogaeth yn yr ardal hon.

O ran gwasanaethau fferyllol ychwanegol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ddarpariaeth o fewn yr NCN, gan gynnwys gwasanaethau craidd a gomisiynwyd yn genedlaethol megis y Gwasanaeth Fferyllfa Gymunedol Glinigol, y Gwasanaeth Brechu Ffliw Tymhorol ac Adolygiadau o Feddyginiaethau wrth Ryddhau, ochr yn ochr â Helpa Fi i Stopio (Rhoi’r gorau i ysmygu). Mae pob gwasanaeth wedi cael ei asesu o ran nifer y contractwyr a gomisiynwyd i'w gyflawni, lefel y gweithgarwch a welwyd, a'r graddau y mae'r ddarpariaeth bresennol yn adlewyrchu'r angen lleol a nodwyd. Mae dadansoddiad manwl o’r ddarpariaeth a’r defnydd a wneir o’r gwasanaethau wedi'i nodi yn nhablau 28 a 29 uchod.

Mae'r asesiad hwn yn dangos, ar draws y gwasanaethau hyn, bod lefelau presennol y ddarpariaeth a'r gweithgarwch yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, ac nad oes unrhyw dystiolaeth o alw heb ei ddiwallu na gofyniad am gomisiynu ychwanegol o fewn yr NCN ar hyn o bryd.

Mae amrywiaeth o wasanaethau fferyllol ychwanegol eraill, gan gynnwys cymorth mewn cartrefi gofal, adolygiad o’r defnydd o anadlyddion, profion firysau a gludir yn y gwaed, cyfnewid nodwyddau, DOTS twbercwlosis, gofal lliniarol a gwasanaethau meddyginiaethau brys, yn cael eu comisiynu naill ai ar sail Gwent gyfan neu mewn ymateb i anghenion penodol y boblogaeth, yn hytrach na bod ar gael yn unffurf ym mhob ardal. Yn gyson â'r dull a nodir yn Adran 6.2, mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu hasesu ar lefel system gyfan er mwyn adlewyrchu trefniadau comisiynu, ffurfweddiad gwasanaethau a phatrymau o ran defnydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y ddarpariaeth bresennol o'r gwasanaethau hyn ledled Gwent ac wedi'u targedu yn ddigonol i ddiwallu anghenion trigolion yn yr ardal hon, ac nad yw eu habsenoldeb o fewn ôl troed yr NCN yn cynrychioli bwlch yn y ddarpariaeth gwasanaeth.

Yn seiliedig ar y wybodaeth a nodir yn nhablau 28 a 29, a'r manylion cysylltiedig uchod, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod y gwasanaethau fferyllol presennol, gan gynnwys darpariaeth y ceir mynediad ati mewn ardaloedd cyfagos, yn ddigonol ar hyn o bryd i ddiwallu'r angen a nodwyd.

6.8. Crynodeb

Mae'r bennod hon wedi asesu’r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol ar draws pob awdurdod lleol a Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth yn erbyn nodweddion y boblogaeth a'r anghenion iechyd a nodwyd ym Mhennod dau a'r anghenion sy'n berthnasol i wasanaethau fferyllol a ddisgrifir ym Mhennod pump. Mae'r asesiad wedi ystyried dosbarthiad gwasanaethau, hygyrchedd, capasiti a chyd-destun ehangach y GIG sy'n dylanwadu ar y galw.

6.8.1 Materion a nodwyd sydd angen eu monitro trwy’r ymgynghoriad

Ar y cyfan cefnogodd ymatebwyr i’r ymgynghoriad y disgrifiad o ddarpariaeth fferyllol gyfredol. Serch hynny, nododd rhai ymatebwyr bryderon yn ymwneud â mynediad ar y penwythnos, yr amseroedd i baratoi presgripsiynau, argaeledd meddyginiaethau ac effaith twf tai ar gapasiti darparwyr presennol. Roedd sylwadau penodol yn ymwneud â phwysau capasiti canfyddedig ym Magwyr a Chas-gwent. Nid oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn darparu sail ddigonol i nodi bwlch ychwanegol ar hyn o bryd nac angen amodol yn y dyfodol yn y naill ardal na'r llall.

Yn ystod oes y PNA, bydd y Bwrdd Iechyd monitro nifer yr tai sy’n cael eu cwblhau a’u meddiannu, newid yn y boblogaeth gofrestredig, gweithgaredd presgripsiwn a gwasanaeth, capasiti contractwyr, oriau agor, mynediad ar benwythnosau a gwyliau banc, ystyriaethau teithio, amseroedd i baratoi presgripsiynau ac argaeledd gwasanaethau fferyllol amgen a gwasanaethau GIG eraill. Lle mae monitro yn nodi newid sylweddol sy'n berthnasol i geisiadau i ddod ar y rhestr fferyllol, bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried gweithredu o dan reoliad 6 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Bydd pryderon gweithredol, cyflenwi meddyginiaethau neu ansawdd gwasanaeth yn cael eu cyfeirio trwy'r llwybr cytundebol, llwybr llywodraethu neu’r llwybr cynllunio gwasanaeth priodol ac ni chânt eu trin yn awtomatig fel tystiolaeth o angen am fferyllfa ychwanegol.

Er bod amrywiad rhwng ardaloedd, pwysau a risg bosibl wedi'u nodi, nid yw'r bennod hon ynddi'i hun yn pennu a oes bylchau yn y ddarpariaeth at ddibenion y Rheoliadau.

Mae'r bennod ganlynol yn dwyn ynghyd ganfyddiadau'r asesiad lefel leol hwn ac yn nodi casgliadau ffurfiol y Bwrdd Iechyd at ddibenion Atodlen 1 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, gan gynnwys nodi

unrhyw fylchau presennol yn y ddarpariaeth gwasanaethau ac anghenion disgwyliedig yn y dyfodol.

Pennod Saith - Casgliadau at Ddiben Atodlen 1 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

7.1. Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn nodi casgliadau ffurfiol y Bwrdd Iechyd at ddibenion Atodlen 1 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

Mae'r asesiad o anghenion fferyllol wedi dadansoddi a yw'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu anghenion y boblogaeth ac a oes unrhyw ar hyn o bryd neu fwlch yn y dyfodol yn bodoli. Er eglurder, mae'r bennod hon yn gwahaniaethu rhwng: bwlch cyfredol, lle mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod angen darparu gwasanaeth fferyllol nawr; angen amodol yn y dyfodol, lle mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon y bydd angen darparu gwasanaeth os bydd amgylchiadau penodol yn y dyfodol yn codi yn ystod cyfnod y PNA; a mater i'w fonitro, lle gall newid effeithio ar anghenion yn y dyfodol ond nad yw'r dystiolaeth sydd ar gael eto yn cyfiawnhau nodi angen o dan Atodlen 1 paragraff 3(b).

7.2. Y Ddarpariaeth Gyfredol o Wasanaethau Fferyllol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r gwasanaethau canlynol fel y rhai sy'n angenrheidiol o ran diwallu'r angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal:

- Gwasanaethau hanfodol a'r Gwasanaethau Fferyllol Ychwanegol, y Gwasanaeth Fferyllfa Gymunedol Glinigol a'r gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau wrth Ryddhau a ddarperir ym mhob safle sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr fferyllol.
- Y gwasanaeth cyflenwi a ddarperir gan y meddygfeydd teulu hynny sydd wedi'u cynnwys yn rhestr y meddygon fferyllol.
- Y Gwasanaethau Fferyllol Ychwanegol gan gynnwys Rhoi'r Gorau i Ysmygu, Brechu rhag y Ffliw Tymhorol, Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaethau, a Gwasanaethau Lleihau Gwastraff a ddarperir yn y rhan fwyaf o fferyllfeydd ym mhob ardal Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth (NCN).
- Gwasanaeth Fferyllydd-bresgripsiynydd Annibynnol i'w ddarparu mewn mwy o fferyllfeydd o flwyddyn i flwyddyn, gan weithio tuag at y nod o sicrhau bod y gwasanaeth ar gael ym mhob fferyllfa gymunedol erbyn 2030.
- Y Gwasanaethau Fferyllol Ychwanegol ar gyfer Rota a ddarperir mewn digon o fferyllfeydd ym mhob Ardal Awdurdod Lleol i ddarparu o leiaf

2 awr o wasanaethau fferyllol ar ddydd Sul, pan nad oes fferyllfa ar agor yn fasnachol.

- Bydd y Gwasanaethau Fferyllol Ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth Gofal Lliniarol y Tu Allan i Oriau ar gael ar lefel sy'n darparu darpariaeth gynaliadwy ar sail y Bwrdd Iechyd cyfan, yn benodol bydd hyn yn golygu o leiaf deg darparwr ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.
- Y gwasanaeth Cyfeiriedig ar gyfer Cyflenwad o Feddyginiaethau Brys ar gael mewn o leiaf un fferyllfa fesul Ardal Awdurdod Lleol.
- Cyfnewid nodwyddau / BBV – wedi'i gomisiynu mewn o leiaf un fferyllfa ym mhob NCN yn dibynnu ar yr angen.

Mae pennod chwech yn nodi'r ddarpariaeth o'r gwasanaethau hyn ym mhob ardal NCN.

Mae hefyd wedi nodi contractwyr y tu allan i'r ardal sy'n darparu'r gwasanaethau uchod, neu'r rhai cyfatebol, boed hynny mewn mannau eraill yng Nghymru neu yn Lloegr, gan bodi bod hyn yn cyfrannu at ddiwallu'r angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal.

7.3. Gwasanaethau GIG Eraill

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penderfynu bod y gwasanaethau GIG canlynol yn dylanwadu ar yr angen am wasanaethau fferyllol ac wedi'u hystyried wrth ymgymryd â'r gwaith ar yr asesiad o anghenion fferyllol hyn:

- Gwasanaethau ysbyty
- Gweinyddiaeth bersonol o eitemau gan feddygon teulu
- Gwasanaeth y tu allan i oriau meddyg teulu a GIG 111
- Unedau Mân Anafiadau
- Gwasanaethau fferyllol carchar
- Gwasanaeth Triniaeth Amgen y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
- Gwasanaethau cyffuriau ac alcohol
- Y Tîm Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth
- Helpa Fi i Stopio
- Gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu, deintyddion ac optometryddion o dan eu contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru, a
- Clinigau hwb iechyd rhywiol.

7.4. Digonolrwydd y Ddarpariaeth Bresennol

Ar ôl asesu dosbarthiad, hygyrchedd a chwmpas gwasanaethau ym Mhennod Chwech, mae'r Bwrdd Iechyd yn dod i'r casgliad bod y ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau fferyllol yn cael ei hystyried yn gydnaws â'r anghenion a nodwyd ar gyfer y boblogaeth ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Mae'r ddarpariaeth yn adlewyrchu dosbarthiad y boblogaeth a phatrymau sefydledig o ran galw, gyda fferyllfeydd cymunedol a meddygon fferyllol wedi'u lleoli o fewn canolfannau poblogaeth ac ardaloedd lle mae'r angen mwyaf.

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr PNA hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod digon o ddewis i bobl yng Ngwent gael mynediad at wasanaethau fferyllol. Fel gyda'r PNA blaenorol, ni nodwyd unrhyw fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth, ac nid yw’r sefyllfa hon wedi newid.

Cydnabyddir hefyd ei bod yn debygol y bydd fferyllfeydd cymunedol yn parhau i esblygu tuag at fodel mwy clinigol, gyda llai o bwyslais ar gyflenwi a mwy o bwyslais ar ddefnyddio mwy o dechnoleg ac awtomeiddio er mwyn gwella effeithlonrwydd.

7.5. Bylchau yn y Ddarpariaeth a Nodwyd yn Flaenorol

7.5.1. Darpariaeth rhoi'r gorau i ysmygu Lefel 3

Mae'r bwlch a nodwyd yn flaenorol mewn perthynas â darpariaeth Lefel 3 Rhoi'r Gorau i Ysmygu o fewn PNA 2021 wedi'i ddatrys drwy ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau o fewn y ddarpariaeth fferyllol bresennol a datblygu cefnogaeth rhoi'r gorau i ysmygu yn y gymuned ac o bell a ddarperir gan Helpa Fi i Stopio.

Felly, casgliad y Bwrdd Iechyd yw nad oes unrhyw fwlch ar hyn o bryd mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn.

7.5.2. Gwasanaeth Brechu rhag y Ffliw

Mae'r bwlch a nodwyd yn flaenorol mewn perthynas â darpariaeth brechu rhag y ffliw o fewn PNA 2021 wedi'i ddatrys drwy ehangu'r ddarpariaeth o’r gwasanaeth o fewn y ddarpariaeth fferyllol bresennol.

Felly mae'r Bwrdd Iechyd yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw fwlch ar hyn o bryd mewn perthynas â gwasanaethau brechu ffliw tymhorol.

7.6. Materion sy’n Effeithio ar Angen Fferyllol yn y Dyfodol

7.6.1. Twf yn y Galw

Yn ystod oes y PNA hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld twf parhaus yn y galw sy'n gysylltiedig â:

- Poblogaeth sy’n heneiddio ac chydafiachedd
- Ardaloedd trefol yn tyfu
- Amddifadedd ac anghydraddoldeb parhaus
- Cymhlethdod cynyddol o ran presgripsiynu
- Adleoli practisau meddygon teulu
- Gwent 35 a pholisïau eraill

At hyn, mae’r PNA wedi ystyried Fferylliaeth; Cyflawni Cymru Iachach sy'n nodi'r nodau hirdymor ar gyfer trawsnewid gwasanaethau i sicrhau bod y buddion iechyd mwyaf posib yn deillio o feddyginiaethau a roddir ar bresgripsiwn.

Er yr ystyrir bod y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol, bydd angen gwaith monitro parhaus i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn gymesur â newid mewn demograffeg a modelau gofal sy'n esblygu.

7.6.2. Capasiti sy'n Gysylltiedig â Thwf Tai Strategol

Ystyriodd yr Asesiad o Anghenion Fferyllol (PNA) 2021 effaith bosibl datblygiadau tai strategol yn Glan Llyn, Pentref Trefol Mamhilad a De Sebastopol. Ar gyfer yr asesiad diwygiedig hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried statws cynllunio ac amseriad disgwyliedig pob datblygiad, twf poblogaeth rhagamcanol, hygyrchedd, capasiti darparwyr presennol a chyfraniad gwasanaethau fferyllol a gwasanaethau GIG eraill o fewn ac y tu allan i'r ardal berthnasol.

Nid oes unrhyw fwlch wedi’i nodi ar hyn o bryd o ran y ddarpariaeth fferyllol mewn perthynas â'r datblygiadau hyn. Fodd bynnag, gall datblygiad a meddiannaeth gynyddu'r galw am wasanaethau fferyllol. Efallai y bydd angen yn codi yn y dyfodol dim ond lle mae twf yn y boblogaeth gysylltiedig yn creu galw na ellir ei ddiwallu'n rhesymol gan hygyrchedd, capasiti a chynnig gwasanaeth y rhwydwaith o wasanaethau fferyllol presennol.

Felly, mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried bod y datblygiadau yn Glan Llyn, Pentref Trefol Mamhilad a De Sebastopol yn faterion sy'n gofyn am waith monitro.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn monitro gwaith adeiladu, cwblhau cartrefi a meddiannaeth, twf poblogaeth, mynediad, defnydd o wasanaethau a chapasiti darparwyr trwy gydol oes y PNA hwn. Os yw'r dystiolaeth yn

dangos na all y ddarpariaeth bresennol ddiwallu'r angen a nodwyd mwyach, bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried y camau priodol o dan reoliad 6, gan gynnwys a oes angen asesiad diwygiedig neu, lle bodlonir yr amodau yn rheoliad 6(3), a ddylid cyhoeddi datganiad atodol.

7.7. Penderfyniad Cyffredinol ar Fylchau

At ddibenion Atodlen 1 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, mae'r Bwrdd Iechyd yn dod i'r casgliad:

- nad oes unrhyw fwlch systemig neu ddaearyddol ar hyn o bryd yn y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd;
- mae'r bylchau a nodwyd yn flaenorol o ran darpariaeth rhoi'r gorau i ysmygu Lefel 3 a brechu rhag y ffliw tymhorol wedi cael sylw trwy ddarpariaeth bresennol a threfniadau cyflwyno cysylltiedig;
- nad oes unrhyw angen penodol yn y dyfodol am ddarpariaeth fferyllol ychwanegol wedi'i nodi ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.
- gall newidiadau yn y boblogaeth, datblygiad, mynediad, argaeledd gwasanaethau neu gapasiti darparwyr effeithio ar yr angen fferyllol a byddant yn cael eu monitro yn ystod oes y PNA; a
- lle mae'r dystiolaeth yn dangos newid sylweddol yn yr angen fferyllol neu argaeledd, bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried camau priodol o dan y rheoliad

7.8. Penderfyniad at Ddiben Ceisiadau

Bydd y PNA hwn yn rhoi sail dystiolaeth bwysig ar gyfer ystyried ceisiadau i fod ar y rhestr fferyllol, ceisiadau i symud, newid i oriau agor craidd a cheisiadau eraill o dan y Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Bydd penderfyniad ar bob cais yn cael ei wneud yn unol â'r darpariaethau rheoleiddiol perthnasol, gan ystyried y PNA hwn, unrhyw ddatganiadau atodol ac unrhyw dystiolaeth ac amgylchiadau sy'n berthnasol ar y pryd.

Atodiad A – Fframwaith Deddfwriaethol a Dyletswyddau'r Bwrdd Iechyd mewn Perthynas â'r Asesiad o Anghenion Fferyllol

1. Fframwaith Deddfwriaethol

Caiff gwasanaethau fferyllol yng Nghymru eu llywodraethu'n bennaf gan **Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006** a **Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020**.

O dan adran 80 o Ddeddf 2006, mae dyletswydd ar Fyrddau Iechyd i wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol i'w poblogaeth breswyl. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gwasanaethau cyflenwi ac, lle bo'n briodol, gwasanaethau fferyllol ychwanegol.

Mewnosododd Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 adran 82A i Ddeddf 2006, gan osod dyletswydd statudol ar Fyrddau Iechyd i baratoi a chyhoeddi Asesiad o Anghenion Fferyllol (PNA).

Dirymodd Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 y trefniadau blaenorol a rhoi darpariaethau newydd yn eu lle, gyda'r darpariaethau sy'n ymwneud â PNAs yn dod i rym ar 1 Hydref 2020. Nodir y gofynion manwl yn Rhan 2 o'r rheoliadau, sy'n sefydlu system seiliedig ar angen ar gyfer penderfynu ar geisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol.

2. Diben yr Asesiad o Anghenion Fferyllol

Y PNA yw'r mecanwaith statudol y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei ddefnyddio i:

- asesu'r angen am wasanaethau fferyllol o fewn ei ardal;
- penderfynu a yw'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu'r anghenion hynny;
- nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau;
- nodi anghenion yn y dyfodol yn ystod cyfnod y PNA.

Mae'r PNA yn sail i benderfyniadau ar:

- geisiadau i agor fferyllfa newydd neu safle contractwr cyfarpar cyflenwi;
- geisiadau i adleoli safleoedd;
- geisiadau i newid oriau agor craidd;
- geisiadau sy'n ymwneud â gwasanaethau meddygon sy'n cyflenwi mewn ardaloedd rheoledig.

Yn gyffredinol, rhaid i unrhyw gais i ddarparu gwasanaethau fferyllol ddangos ei fod yn diwallu angen a nodir yn y PNA.

3. Dyletswyddau'r Bwrdd Iechyd o dan Reoliadau 2020

Mae Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd:

- gyhoeddi PNA diwygiedig o leiaf bob pum mlynedd;
- gyhoeddi PNA diwygiedig yn gynt os nodir newidiadau sylweddol i anghenion fferyllol sy'n berthnasol i gymeradwyo cais y cyfeirir atynt yn adran 83 Deddf 2006, oni bai y byddai gwneud hynny'n anghymesur;
- Ystyried cyhoeddi datganiad atodol lle mae newidiadau i argaeledd gwasanaethau fferyllol yn berthnasol i geisiadau adran 83 a lle mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon y byddai adolygiad llawn yn anghymesur neu fod addasiad ar unwaith yn hanfodol i atal niwed i ddarpariaeth fferyllol;
- cynnal ymgynghoriad statudol o o leiaf 60 diwrnod wrth baratoi'r PNA;
- rhoi sylw i faterion penodedig wrth baratoi'r PNA, gan gynnwys asesiadau iechyd perthnasol a data poblogaeth.

4. Rhestrau Fferyllol a Rheoli Mynediad

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd gynnal rhestrau fferyllol o ddarparwyr cymeradwy. Mae cynnwys ar restr fferyllol yn rhoi hawl i gontractwr ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG mewn safleoedd penodedig.

Mae Rheoliadau 2020 yn sefydlu dull seiliedig ar angen ar gyfer penderfynu ar geisiadau i'w cynnwys yn y rhestr fferyllol. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd asesu ceisiadau yn erbyn yr anghenion a nodir yn y PNA.

Mae'r PNA yn llywodraethu mynediad at ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol y GIG; nid yw'n rheoleiddio'r hawl i agor na gweithredu busnes fferyllfa, a reoleiddir ar wahân o dan ddeddfwriaeth feddyginiaethau'r DU.

Nid yw'r PNA ei hun yn cymeradwyo fferyllfa newydd. Rhaid cyflwyno cais a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar wahân o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried yr angen a nodwyd yn y PNA, y prawf rheoleiddiol sy'n berthnasol i'r safle arfaethedig a'r dystiolaeth a'r amgylchiadau sy'n bodoli ar y pryd.

5. Meddygon Fferyllol

Mae Rheoliadau 2020 yn caniatáu darparu gwasanaethau meddygon sy'n cyflenwi mewn "ardaloedd rheoledig" dynodedig, sef ardaloedd gwledig lle mae cleifion yn byw fwy na 1.6 km o fferyllfa, yn ddarostyngedig i feini prawf rheoleiddiol.

Mae'r PNA yn llywio penderfyniadau o fewn y fframwaith statudol hwn, ond ni all ymestyn darpariaeth meddygon sy'n cyflenwi y tu hwnt i'r terfynau a bennir gan ddeddfwriaeth genedlaethol.

6. Perthynas â Chomisiynu

Mae'r PNA yn nodi anghenion ond nid yw, ynddo'i hun, yn comisiynu gwasanaethau. Mae penderfyniadau comisiynu yn parhau'n ddarostyngedig i:

- Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020;
- Cyfarwyddiadau Cenedlaethol;
- yr adnoddau sydd ar gael;
- blaenoriaethau strategol y Bwrdd Iechyd

Atodlen B – Gwasanaethau Hanfodol

Gwasanaeth	Rheoliad	Disgrifiad
Gwasanaethau cyflenwi	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 Atodlen 5, rhan 2 paragraff 4-12	Gwasanaethau cyflenwi: Paratoi, labelu a chyflenwi meddyginiaethau ac offer yn ddiogel ac yn gywir i glaf, yn seiliedig ar bresgripsiwn cyfreithiol. Ynghyd â darparu gwybodaeth a chyngor i alluogi cleifion i'w defnyddio'n ddiogel ac yn effeithiol, a chynnal a chadw cofnodion priodol.
Gwasanaethau amlweinyddu	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 Atodlen 5, rhan 2 paragraff 4-12	Cyflenwi presgripsiynau amlroddadwy: Rheoli a dosbarthu presgripsiynau NHS amlroddadwy mewn partneriaeth â'r claf a'r rhagnodwr. I gleifion addas, gall meddyg teulu awdurdodi hyd at 12 mis o feddyginiaeth drwy "swp" o bresgripsiynau. Mae cleifion yn casglu dosau'n uniongyrchol o'u fferyllfa heb fod angen ail-archebu gan y meddyg teulu, gan wella cyfleustra a diogelwch a lleihau llwyth gwaith y meddyg teulu.
Gwaredu cyffuriau diangen	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 Atodlen 5, rhan 2 paragraff 13-15	Derbyn meddyginiaethau diangen gan fferyllfeydd cymunedol, sydd angen eu gwaredu'n ddiogel, o gartrefi preifat a chartrefi gofal preswyl. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd drefnu casglu a gwaredu meddyginiaethau gwastraff o fferyllfeydd.
Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 Atodlen 5, rhan 2 paragraff 16-18	Pan fydd unigolyn sy'n defnyddio fferyllfa yn cyflwyno ffurflen bresgripsiwn neu bresgripsiwn amlroddadwy i fferyllydd y GIG, ac os yw'n ymddangos i fferyllydd y GIG bod yr unigolyn yn dioddef o broblem iechyd andwyol neu mewn perygl o ddatblygu un, mae’n rhaid i'r fferyllydd hwnnw, yn briodol, roi cyngor i'r unigolyn hwnnw gyda'r nod o gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r problemau iechyd sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau personol.
Cyfeirio	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 Atodlen 5, rhan 2 paragraff 19-20	Darparu gwybodaeth i bobl sy'n ymweld â'r fferyllfa, sydd angen cymorth, cyngor neu driniaeth bellach na all y fferyllfa eu darparu, ond sydd ar gael gan ddarparwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol eraill neu sefydliadau cymorth a allai fod yn gallu cynorthwyo'r unigolyn. Lle bo'n briodol, gall hyn fod ar ffurf atgyfeiriad.

Cefnogaeth ar gyfer hunan-ofal.	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 Atodlen 5, rhan 2 paragraff 21-22	Os yw fferyllydd y GIG neu eu staff yn meddwl y byddai rhywun sy'n defnyddio'r fferyllfa yn elwa o gyngor i helpu i reoli cyflwr meddygol. Rhaid i staff y fferyllfa roi cyngor priodol i'r unigolyn hwnnw. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ofalwyr sydd angen arweiniad i helpu i reoli cyflwr rhywun arall.

Atodlen C – Gwasanaethau Fferyllol Ychwanegol (y mae’n rhaid eu cynnig i bob fferyllfa yn BIPAB)

Gwasanaeth	Deddfwriaeth	Disgrifiad
Adolygiad o Feddyginiaethau wrth Ryddhau	Cyfarwyddiadau Y Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) 2022, Cyfarwyddiad 4	Mae'r Adolygiad o Feddyginiaethau Wrth Ryddhau yn wasanaeth a gynigir gan fferyllfeydd cymunedol i gefnogi cleifion o fewn pedair wythnos ers iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty neu leoliad gofal arall. Mae'n sicrhau bod newidiadau a wneir i feddyginiaeth yn ystod arhosiad yn yr ysbyty yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yng nghofnodion meddyg teulu'r claf, gyda'r nod o leihau gwallau ac ail-dderbyniadau. Mae'r gwasanaeth yn helpu cleifion i reoli eu meddyginiaethau: • helpu cleifion i gymryd eu meddyginiaethau newydd yn gywir • helpu cleifion i ddilyn eu trefn feddyginiaeth newydd • ei gwneud yn haws i gleifion gymryd eu meddyginiaethau newydd fel y'u rhagnodwyd • cefnogi cleifion i ddefnyddio eu meddyginiaethau newydd yn ddiogel ac yn gywir
Y Gwasanaeth Fferyllol Cymunedol Clinigol	Cyfarwyddiadau Y Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) 2022, Cyfarwyddiadau 6 (2) (a, b a d)	Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin: Gwasanaeth rhad ac am ddim gan y GIG, sy'n caniatáu i gleifion gael cyngor a thriniaeth am ddim ar gyfer llawer o fân afiechydon yn uniongyrchol o fferyllfa gymunedol. Mae'n cynnwys cael ymgynghoriad preifat gyda'r fferyllydd fel y gallant gynnig cyngor a thriniaeth (mewn llawer o achosion mae’n golygu y gall cleifion dderbyn meddyginiaeth cryfder presgripsiwn), a hyrwyddo mynediad cyflymach at ofal ar gyfer cyflyrau megis haint llwybr wrinol, dolur gwddf, a doluriau anwyd. Gwasanaeth Atal Cenhedlu: Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu mynediad cyfrinachol, am ddim i ddulliau atal cenhedlu brys (y bilsen bore wedyn) a chyflenwad pontio neu gyflenwad cyflym (cyflenwad tri mis o'r bilsen). Mae'n cynnwys cael ymgynghoriad preifat gyda'r fferyllydd neu'r technegydd fferyllol i gynnig cyngor a thriniaeth. Os yw’r claf yn 13, 14, neu 15 oed, cynigir y gwasanaeth yn unol â chymhwysedd Gillick, canllawiau Fraser ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â darparu cyngor a/neu driniaeth iechyd rhywiol gyfrinachol i gleifion 13 oed ac hŷn. Cyflenwad Brys o Feddyginiaethau Mae'r gwasanaeth GIG hwn yn caniatáu i fferyllwyr cymunedol ddarparu meddyginiaeth frys, a meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn unig, heb fod angen presgripsiwn pan na all claf gael mynediad at eu meddyg teulu heb oedi afresymol. Mae'n

		cynnwys ymgynghoriad preifat gyda'r fferyllydd, yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw bydd y fferyllydd yn cael mynediad at gofnod Meddyg Teulu y claf i gadarnhau'r meddyginiaethau, y dos, a'r amlder y presgripsiynau blaenorol. Ni all fferyllwyr gyflenwi'r rhan fwyaf o gyffuriau a reolir (e.e., morffîn). Gallai eitemau eraill gael eu cyfyngu i'r maint pecyn lleiaf.
Y Gwasanaeth Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol (PIPS):	Cyfarwyddiadau Y Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) 2022, Cyfarwyddiad 7	Anhwylderau Cyffredin ac Atal Cenhedlu: Mae'r gwasanaeth hwn yn caniatáu i glaf weld fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol cymwysedig mewn ymgynghoriad preifat i: • asesu, gwneud diagnosis, a rhagnodi meddyginiaeth yn uniongyrchol o fewn llwybrau clinigol y cytunwyd arnynt ar gyfer amrywiol gyflyrau, gan gynnwys heintiau a mân salwch. • darparu cyngor a thriniaeth atal cenhedlu am ddim a chyfrinachol, a all gynnwys dulliau atal cenhedlaeth drwy'r geg ac atal cenhedlaeth brys
"I answered no because the ABHB undertake a regular 'appliance use review' each time BEFORE any repeat services are (or at least that appears to be the case because every time a patient requires to use these external services or equipment, `and currently these services are provided by contractors outside the area of the ABHB. HOWEVER, in order to access then in `repeat form because of a patients continued needs, each patient has to make contact with agents working in, and for, the ABHB, already and currently none of those regular continued, repeat services can be activated UNTILL they are REGULARLY sanctioned and I presume by the ABHB direct. Patients do not have direct access to the `providers` of stoma and bowel, equipment. "

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi'r sylwadau ar y parodrwydd i ddarparu Adolygiadau o Ddefnydd o Offer ac Addasu Cyfarpar Stoma ac hefyd yn nodi'r sylw am y llwybrau awdurdodi offer amrloddadwy. Mae'r PNA yn asesu a yw angen y boblogaeth yn cael ei ddiwallu yn hytrach na gwneud penderfyniadau ar atgyfeiriad neu drefniadau ail awdurdodi unigol. Mae tystiolaeth gyfredol ar gyflenwi yn dangos bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu cyflenwi gan gontractwyr o'r tu allan i'r ardal, ac mae llawer ohonynt yn darparu cymorth adolygu ac addasu cysylltiedig. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o angen heb ei ddiwallu, oedi nac anallu i gael mynediad at y gwasanaethau hyn drwy ymgynghori. Felly mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw at ei gasgliad bod yr angen presennol yn cael ei ddiwallu drwy ddarpariaeth bresennol y tu allan i'r ardal, tra bydd mynediad a defnydd yn parhau i gael eu hadolygu.

Cwestiwn 4

4. Yn eich barn chi, a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau nad yw'r Asesiad Anghenion Fferyllol wedi'u nodi?	
Oes	**5**
Nac oes	**8**
Dwi ddim yn gwybod	**1**

Sylwadau gair am air mewn perthynas â'r cwestiwn uchod;
“Scope of IP services provided by Pharmacist”
“Covid, pneumonia and RSV vaccination - why can’t pharmacists do these vaccines? They did during the pandemic when GP practices were more or less closed……. More cash for GPs? It’s like a cartel or monopoly”
“Need a pharmacy delivery service in [town removed] and a more helpful pharmacy,7 days wait for tablets is not acceptable.”
“Weekend opening times and availability of pharmacies which are open.”
“The introduction and best use of NHS IT to benefit patients was not mentioned (as far as I can see). The promotion of the use of the NHS App and take up of the EPS system should underpin future needs. EPS is well rolled out now, but it still has much more potential to reduce patient frustration and inefficiency - for example, alerts when medicines are ready, better planning to reduce medicines out of stock... This improvement should be front and centre of the strategy. (There must be benefits to surgeries and pharmacies too, but I am looking only at patient benefits). User-facing IT should seek to integrate diverse systems to the tangible benefit of patients - improving systems, not just digitizing them.”

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y pwyntiau a godwyd uchod. O ran Rhagnodi Annibynnol gan Fferyllwyr (PIPS), pe byddai unrhyw wasanaethau’n cael eu ehangu, byddai hyn yn dibynnu ar newidiadau i fanyleb y Gwasanaeth Cyfarwyddedig Cenedlaethol a'r trefniadau comisiynu cysylltiedig. Gan fod y materion hyn yn cael eu pennu'n genedlaethol, maent y tu allan i gwmpas y PNA.

Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod brechiad atgyfnerthu COVID-19, brechiad firws niwmococol a Feirws Syncytiol Anadlol yn wasanaethau y gellid, o bosib, eu darparu mewn fferyllfa gymunedol yn y dyfodol. Pe byddai’r rhain yn cael eu ehangu, byddai hyn yn amodol ar bolisi cenedlaethol, angen wedi’i asesu, capasiti'r gweithlu, trefniadau llywodraethu clinigol a chomisiynu cynaliadwy. Nid yw'r gwasanaethau hyn wedi'u nodi fel bylchau o ran y ddarpariaeth fferyllol ar hyn o bryd.

Efallai y bydd datblygiadau digidol, gan gynnwys parhau i gyflwyno'r Gwasanaeth Presgripsiwn Electronig a datblygu Ap GIG Cymru, yn gwella mynediad at wasanaethau fferyllol a'r profiad ohonynt yn ystod oes y PNA.

Mae manteision posibl yn cynnwys cyfathrebu gwell rhwng cleifion, presgripsiynwyr a fferyllfeydd, gwybodaeth gliriach am statws presgripsiynau, hysbysiad pan fydd meddyginiaethau'n barod i'w casglu a llai o deithiau aflwyddiannus. Mae systemau digidol yn galluogi seilwaith yn hytrach na gwasanaethau fferyllol ynddynt eu hunain ac nid ydynt yn newid yr asesiad statudol o angen. Fe ddylent gryfhau cefnogaeth briodol i bobl na allant ddefnyddio gwasanaethau digidol neu sy'n dewis peidio â gwneud hynny.

Fel y manylwyd uchod, mae oriau agor craidd fferyllfeydd yn cael eu pennu trwy drefniadau cytundebol cenedlaethol. Nid yw gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau cartref arferol wedi'i nodi fel gwasanaeth fferyllol a gomisiynwyd yn genedlaethol at ddibenion y PNA hwn. Gall contractwyr unigol gynnig trefniadau dosbarthu y tu allan i gwmpas eu rhwymedigaethau gwasanaeth fferyllol y GIG. Nid yw argaeledd trefniadau o'r fath, ynddo'i hun, yn pennu a oes bwlch statudol yn y ddarpariaeth fferyllol.

Cwestiwn 5

5. A ydych chi'n teimlo bod yr Asesiad o Anghenion Fferyllol drafft yn adlewyrchu anghenion poblogaeth eich ardal?	
Ydw	9
Nac ydw	3
Dwi ddim yn gwybod	2

Sylwadau gair am air mewn perthynas â'r cwestiwn uchod;
"Local community requires services fairly efficiently hence they are willing to see pharmacist and their team as doctor appointments are difficult to manage."
"In [town removed] the pharmacy service is diabolical considering all the new houses built"
"I HOPE IT DOES, after all the pharmaceutical services have ONE job to do, and that it continue to provide access to those once prescribed by a fully qualified clinician after considerable consideration by the Doctor after a full and qualified interaction with a patient, PHARMACIST are, in my opinion demonstrating they do not ALL have the personal qualities to

interact with patients, in fact some already demonstrate they do not, and will not, or find it impossible to follow current guidelines produced by the ABHB to protect the care and interests of patients.”
“Torfaen North and South.”

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod rhai sylwadau'n ymwneud yn bennaf â phrofiad o wasanaeth unigol yn hytrach na thystiolaeth o fwlch ar lefel y boblogaeth yn y ddarpariaeth fferyllol. Ni ddangosodd tystiolaeth yr ymgynghoriad fwlch systemig na daearyddol cyfredol nac angen penodol yn y dyfodol am safleoedd fferyllol ychwanegol yn yr ardaloedd y cyfeiriwyd atynt.

Fodd bynnag, roedd y sylwadau ynghylch twf tai, mynediad, amseriad presgripsiwn, argaeledd meddyginiaethau a chapasiti darparwyr yn sail i drefniadau monitro ychwanegol a gynhwysir ym Mhennod Chwech.

Bydd pryderon unigol ynghylch ansawdd gwasanaeth yn parhau i gael eu hystyried drwy'r llwybr cytundebol, trefniadau llywodraethu neu drefniadau rheoli gwasanaeth priodol.

Cwestiwn 6

6. Yn eich barn chi, a yw'r Asesiad o Anghenion Fferyllol drafft wedi darparu digon o wybodaeth i gefnogi gwneud penderfyniadau h.y. penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer fferyllfeydd newydd a chontractwr cyfarpar sy’n dosbarthu	
Do	9
Naddo	2
Dwi ddim yn gwybod	3

Sylwadau gair am air mewn perthynas â'r cwestiwn uchod;
“Not enough detail about the application process and who makes the decision.”
“The public cannot easily access the draft Pharmaceutical Needs Assessment DRAFT. there has been no public centred publicity about this issue and proposed ABHB actions.”

"We don't have any additional needs for pharmacist in our area as we are already have sufficient number in our community."

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Diben y PNA yw asesu'r angen am wasanaethau fferyllol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Er bod y PNA yn llywio penderfyniadau ar geisiadau am safleoedd fferyllfa newydd ac adleoliadau, mae'r broses ymgeisio ei hun yn cael ei llywodraethu gan Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac felly mae y tu allan i gwmpas y PNA.

Roedd y drafft o'r PNA ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd, a rhannwyd gwybodaeth trwy nifer o sianeli, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, Llais a grwpiau cymunedol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi bod y gofynion gweithdrefnol manwl ar gyfer cyflwyno a phenderfynu ar gais a'u bod wedi'u nodi yn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac nad ydynt wedi'u hailadrodd yn llawn o fewn y PNA. Fodd bynnag, mae'r Crynodeb Gweithredol, Pennod Un, Pennod Saith ac Atodiad A wedi'u diwygio er mwyn esbonio'n gliriach bod y PNA yn darparu sail dystiolaethol bwysig ar gyfer penderfyniadau mynediad i'r farchnad, nad yw ei hun yn cymeradwyo fferyllfa newydd nac yn penderfynu ar gais, a bod rhaid penderfynu ar bob cais ar wahân o dan y darpariaethau rheoleiddio perthnasol a'r dystiolaeth sy'n bodoli ar y pryd.

Cwestiwn 7:

7. Yn eich barn chi, a yw'r Asesiad o Anghenion Fferyllol drafft wedi darparu digon o wybodaeth i lywio sut y gellir comisiynu gwasanaethau fferyllol yn ardal y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol?	
Do	7
Naddo	1
Dwi ddim yn gwybod	6

Sylwadau gair am air mewn perthynas â'r cwestiwn uchod;
"Not much new information provided"
"With the development of North Torfaen in Mamilhad it is planned that there will be a pharmacy built? If so this would have implications

on dispensing practices who have dispensing patients within 1.7km. This would likely destabilise local GP dispensaries”

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried y sylwadau ynghylch Pentref Trefol Mamhilad a'r effaith bosibl y gallai darpariaeth fferyllfeydd yn y dyfodol ei chael ar drefniadau meddygon fferyllol. Mae'r gofynion sefydlog ar gyfer safleoedd fferyllfa newydd a gynigiwyd yn flaenorol ar gyfer Mamhilad wedi'u dileu. Mae'r asesiad manwl o leoliad yn disgrifio Pentref Trefol Mamhilad fel mater sydd angen ei fonitro. Nid yw'r ardal wedi'i diffinio fel bwlch ar hyn o bryd, ac mae Pennod Saith yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw angen penodol yn y dyfodol am ddarpariaeth fferyllol ychwanegol wedi'i nodi ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

Bydd gwaith monitro yn ystyried adeiladu a meddiannaeth, twf poblogaeth, mynediad, defnydd o wasanaethau, capasiti darparwyr a gwasanaethau fferyllol amgen a gwasanaethau GIG eraill. Byddai penderfyniad ar unrhyw gais yn y dyfodol yn cael ei wneud ar wahân o dan y rheoliadau perthnasol a'r dystiolaeth sy'n bodoli ar y pryd, gan gynnwys darpariaethau perthnasol ar gyfer lleoliad rheoledig a phellter. Nid yw'r PNA ei hun yn penderfynu ar unrhyw newid i gymhwysedd o ran cyflenwi.

Mewn ymateb i Gwestiynau 7 ac 8, mae'r PNA terfynol wedi'i ddiwygio er mwyn gwahaniaethu rhwng bylchau presennol, anghenion amodol yn y dyfodol a materion sydd angen eu monitro. Mae'r asesiad manwl o leoliad bellach yn disgrifio Pentref Trefol Mamhilad fel mater y dylid ei fonitro. Mae Pennod Saith bellach yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw angen penodol yn y dyfodol am ddarpariaeth fferyllol ychwanegol wedi'i nodi ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r PNA terfynol hefyd yn egluro'r camau gweithredu sydd ar gael o dan reoliad 6 os bydd newid sylweddol yn yr angen fferyllol neu newid i argaeledd gwasanaeth.

Cwestiwn 8

8. Yn eich barn chi, a yw'r Asesiad o Anghenion Fferyllol drafft wedi darparu digon o wybodaeth i lywio’r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol a chynlluniau ar gyfer fferyllfeydd, Contractwyr Cyfarpar sy’n Dosbarthu yn y dyfodol	
Do	7
Naddo	1
Dwi ddim yn gwybod	6

Sylwadau gair am air mewn perthynas â'r cwestiwn uchod;
"With the development of North Torfaen in Mamilhad it is planned that there will be a pharmacy built? If so this would have implications on dispensing practices who have dispensing patients within 1.7km. This would likely destabilise local GP dispensaries"
"The population of Chepstow continues to increase and the pharmacies we currently have appear to be at capacity in that the repeat prescription turnaround time keeps increasing. This has been noticeable since the development of a housing estate near Tesco in Chepstow."

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried y sylwadau ynghylch Pentref Trefol Mamhilad a'r effaith bosibl y gallai darpariaeth fferyllfeydd yn y dyfodol ei chael ar drefniadau meddygon fferyllol. Mae'r gofynion sefydlog ar gyfer fferyllfeydd newydd a gynigiwyd yn flaenorol ar gyfer Mamhilad a Glan Llyn wedi'u dileu.

Mae'r asesiad manwl o leoliad wedi'i ddiwygio i ddisgrifio Glan Llyn a Phentref Trefol Mamhilad fel materion sydd angen eu monitro. Ni chaiff yr un ohonynt eu nodi fel bwlch ar hyn o bryd, ac mae Pennod Saith yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw angen penodol yn y dyfodol am ddarpariaeth fferyllol ychwanegol wedi'i nodi ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

Ynglŷn â chynnydd mewn poblogaethau. Bydd gwaith monitro parhaus yn ystyried gwaith adeiladu a meddiannaeth, twf y boblogaeth, mynediad, defnydd o wasanaethau, capasiti darparwyr a gwasanaethau fferyllol amgen a gwasanaethau GIG eraill. Byddai penderfyniad ar unrhyw gais yn y dyfodol yn cael ei wneud ar wahân o dan y rheoliadau perthnasol a'r dystiolaeth sy'n bodoli ar y pryd, gan gynnwys darpariaethau perthnasol ar gyfer lleoliad rheoledig a phellter. Mae'r PNA terfynol hefyd yn egluro'r camau gweithredu sydd ar gael o dan reoliad 6 os bydd newid sylweddol yn yr angen fferyllol neu newid i argaeledd gwasanaeth.

Cwestiwn 9:

9. Yn eich barn chi, a oes unrhyw wasanaethau fferyllol y gellid eu darparu yn y fferyllfa yn y dyfodol nad ydynt wedi'u hamlygu yn yr Asesiad o Anghenion Fferyllol drafft?

Oes	4
Nac oes	6
Dwi ddim yn gwybod	4

Sylwadau gair am air mewn perthynas â'r cwestiwn uchod;
"Covid, pneumonia and RSV vaccination"
"Friendly staffed pharmacy needed in [town removed]."
"A proper and meaningful ENFORCMENT of a pharmacists' activities in respects to ensure members of the public continue to have proper access to Necessary medication, and to prevent pharmacist from taking an independent position and ignoring ABHB patient safety provisions, and this would only be the case if the ABHB ensured a proper inspection and audit of a pharmacist `ACTIVITIES and prevented ANY local sweetheart deals in respect to public concerns at anytime."
"Vaccinations for Covid boosters, RSV vaccinations."

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod brechiad atgyfnerthu COVID-19, brechiad firws niwmococol a Feirws Syncytiol Anadlol yn wasanaethau y gellid, o bosib, eu darparu mewn fferyllfa gymunedol yn y dyfodol. Pe byddai'r rhain yn cael eu ehangu, byddai hyn yn amodol ar bolisi cenedlaethol, angen wedi'i asesu, capasiti'r gweithlu, trefniadau llywodraethu clinigol a chomisiynu cynaliadwy. Nid yw'r gwasanaethau hyn wedi'u nodi fel bylchau o ran y ddarpariaeth fferyllol ar hyn o bryd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y sylwadau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â dull staff, goruchwyliaeth a gorfodi. Nid yw'r materion hyn yn dangos bwlch ar lefel y boblogaeth yn y ddarpariaeth fferyllol ac felly nid ydynt yn newid yr asesiad Atodlen 1. Bydd pryderon ynghylch ansawdd gwasanaeth, rheoleiddio proffesiynol a chontractwyr unigol yn parhau i gael eu hystyried drwy'r llwybr cwynion, llwybr cytundebol, llwybr llywodraethu a'r llwybr rheoleiddio priodol.

Cwestiwn 10:

10. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau a fydd yn codi o fewn oes yr Asesiadau o Anghenion Fferyllol nad ydynt wedi'u nodi? Er enghraifft, datblygiadau tai, prosiectau adfywio?	
Ydw	4
Nac ydw	8
Dwi ddim yn gwybod	2

Sylwadau gair am air mewn perthynas â'r cwestiwn uchod;
"There are number of new developments approved by council in the area however we don't have any plans for new services for community reflect that."
"LDPs and pharmacy's going bust due to the contract and rising cost of drugs and staff costs"
"I refer you to my response in the previous question, and refers to the basic `control` of a pharmacist to ensure the BASIC quality of the service is properly SECURED for all current and future USERS of the patient lead service."
"See answer to question 8" (regarding the population of Chepstow)

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Adolygwyd Cynlluniau Datblygu Lleol a datblygiadau o ran poblogaeth perthnasol eraill ar draws ardal y Bwrdd Iechyd wrth baratoi'r PNA. Roedd hyn yn cynnwys datblygiadau strategol a nodwyd yng Nghasnewydd a Thorfaen. Ni wnaeth tystiolaeth yr ymgynghoriad sefydlu bwlch ychwanegol ar hyn o bryd nac angen penodol yn y dyfodol am safleoedd fferyllol newydd sy'n deillio o'r datblygiadau pellach a grybwyllwyd gan yr ymatebwyr.

Fodd bynnag, mae Pennod Chwech wedi'i diwygio er mwyn cofnodi'n benodol y pryderon sy'n ymwneud â thwf tai, mynediad at benwythnosau, amseroedd cwblhau presgripsiynau, argaeledd meddyginiaethau a phwysau canfyddedig o ran capasiti darparwyr, gan gynnwys sylwadau ynghylch Magwyr a Chas-gwent.

Bydd y materion hyn yn cael eu monitro drwy nifer yr anheddau sy'n cael eu cwblhau a'u meddiannu, newid yn y boblogaeth gofrestredig,

gweithgaredd presgripsiwn a gwasanaeth, capasiti contractwyr, oriau agor, mynediad ar benwythnosau a gwyliau banc, ystyriaethau teithio, amseroedd gwirdroi ac argaeledd gwasanaethau fferyllol amgen a gwasanaethau GIG eraill.

Cwestiwn 11:

11. Ydych chi'n cytuno â chasgliadau'r Asesiad o Anghenion Fferyllol drafft?	
Ydw	9
Nac ydw	0
Dwi ddim yn gwybod	5

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ychwanegol mewn perthynas â'r cwestiwn hwn

Cwestiwn 12:

12. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r Asesiad o Anghenion Fferyllol drafft?	
Oes	2
Nac oes	12
Dwi ddim yn gwybod	0

Sylwadau gair am air mewn perthynas â'r cwestiwn uchod;
"The ABHB HAVE to ensure that the proper enforcement and inspection regulatory function of pharmacy's and individual pharmacist takes place, and that any observations or formal submissions by PATIENTS have a proper role within the process to ensure the high quality of pharmaceutical services in GWENT is maintained. I do not know if such a provision is considered AT ANY TIME" by the AGHB even currently.?"
"Far greater need for old age pensioner services as there is nothing apart from voluntary organisations and charities. Far more provision for patients with serious long term health conditions especially at weekends."

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu mewn modd diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel a bod gan gleifion gyfleoedd i roi adborth ar y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Fodd bynnag, cyfrifoldeb cyrff rheoleiddio a phroffesiynol cenedlaethol yw arolygu, rheoleiddio a gorfodi gwasanaethau fferyllfa a fferyllwyr unigol ac nid ydynt yn faterion a ystyrir fel rhan o'r PNA.

Cynhaliwyd asesiad cynhwysfawr o anghenion y boblogaeth fel rhan o ddatblygiad y PNA. Roedd hyn yn cynnwys ystyried newidiadau i’r boblogaeth cyfredol a’r rhagamcan o’r boblogaeth, nodweddion demograffig, anghenion iechyd, disgwyliad oes, amddifadedd, anabledd a ffactorau eraill a allai ddylanwadu ar yr angen yn y dyfodol am wasanaethau fferyllol ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

Mae canfyddiadau'r asesiad hwn wedi llywio'r casgliadau o fewn y PNA. Ar ôl ystyried y dystiolaeth hon, ni nodwyd unrhyw anghenion gwasanaeth fferyllol ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a nodir yn y ddogfen.

Crynodeb o'r Ymateb Ysgrifenedig ac Ystyriaethau'r Bwrdd Iechyd

Derbyniwyd ymateb ysgrifenedig manwl gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru (CPW). Cydnabu CPW y gwaith a wnaed wrth baratoi'r PNA drafft a chefnogodd yn fras ei ddisgrifiad o'r ddarpariaeth fferylliaeth gymunedol bresennol. Fodd bynnag, cododd CPW bryderon ynghylch y sail dystiolaethol ar gyfer rhai casgliadau drafft ynghylch yr angen fferyllol yn y dyfodol, newidiadau damcaniaethol yn argaeledd gwasanaethau, lleoliadau rheoledig a chynaliadwyedd capasiti darparwyr. Mae'r ymateb wedi'i grynhoi isod.

Cwestiwn 1

1. A yw pwrpas yr Asesiad o Anghenion Fferyllol wedi'i egluro'n ddigonol?	
Ymateb Fferylliaeth Gymunedol Cymru	Ydy, gyda chymwysterau

Crynodeb o sylwadau
Roedd CPW o'r farn bod y drafft yn disgrifio'r PNA yn gywir fel asesiad statudol o angen fferyllol nawr ac yn y dyfodol.

Crynodeb o sylwadau
Argymhellodd CPW y dylai'r Crynodeb Gweithredol a'r Cyflwyniad roi mwy o amlygrwydd i rôl y PNA fel sail dystiolaethol bwysig ar gyfer penderfyniadau o dan y fframwaith mynediad i'r farchnad fferyllol, oherwydd gall y dystiolaeth, y fethodoleg a'r casgliadau effeithio ar benderfyniadau rheoleiddio dilynol.

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd yr argymhelliad hwn. Mae'r Crynodeb Gweithredol, Pennod Un, Pennod Saith ac Atodiad A wedi'u diwygio i roi mwy o amlygrwydd i rôl y PNA fel sail dystiolaeth bwysig ar gyfer penderfyniadau ar fynediad i'r farchnad, gan egluro nad yw'r PNA ei hun yn cymeradwyo fferyllfeydd newydd nac yn penderfynu ar gais.

Cwestiwn 2

2. A yw'r Asesiad o Anghenion Fferyllol yn adlewyrchu'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol yn eich ardal	
Ymateb Fferylliaeth Gymunedol Cymru	Ydy, gyda chymwysterau

Crynodeb o sylwadau
Roedd CPW o'r farn bod y drafft yn adlewyrchu'n fras y ddarpariaeth o ran fferyllfeydd cymunedol bresennol ac yn defnyddio ystod briodol o ddata cytundebol, data cyflenwi, data ar weithgarwch gwasanaeth a data deallusrwydd lleol.
Cynghorodd CPW y dylid trin canfyddiadau holiadur contractwyr ar gapasiti fel asesiad ar adeg benodol yn hytrach na thystiolaeth o wydnwch yn y dyfodol. Nododd fod capasiti a darpariaeth gwasanaeth parhaus yn dibynnu ar gyllid cytundebol a chynaliadwyedd y gweithlu.

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd y sylw. Caiff canfyddiadau holiaduron contractwyr eu trin fel tystiolaeth ar adeg benodol a'u hystyried ochr yn ochr â safleoedd, gweithlu, gweithgaredd, hygyrchedd a gwybodaeth leol. Nid yw'r PNA terfynol yn trin capasiti a adroddir fel gwarant o wydnwch yn y dyfodol ac mae'n cydnabod ei ddibyniaeth ar argaeledd gweithlu,

trefniadau cytundebol, trefniadau llywodraethu clinigol ac adnoddau cynaliadwy.

Cwestiwn 3

3. A yw'r angen am Adolygiadau Defnydd o Gyfarpar ac Addasu Offer Stoma yn cael ei ddiwallu gan ddarparwyr y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd?	
Ymateb Fferylliaeth Gymunedol Cymru	Oes

Crynodeb o sylwadau
Roedd CPW o'r farn ei bod yn rhesymol, yn absenoldeb tystiolaeth i'r gwrthwyneb, tybio bod yr angen am Adolygiadau Defnydd o Gyfarpar ac Addasu Offer Stoma yn cael ei ddiwallu trwy ddarpariaeth bresennol y tu allan i'r ardal.

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Cytunodd y Bwrdd Iechyd fod y dystiolaeth sydd ar gael yn cefnogi'r casgliad bod yr angen presennol yn cael ei ddiwallu drwy ddarpariaeth y tu allan i'r ardal. Nid yw parodrwydd contractwr lleol i ddarparu gwasanaeth ynddo'i hun yn sefydlu angen nad yw’n cael ei ddiwallu. Bydd mynediad at wasanaeth offer a'r defnydd ohonynt yn parhau i gael eu hadolygu .

Cwestiwn 4

4. A oes bylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau nad ydynt wedi'u nodi yn yr asesiad o anghenion fferyllol?	
Ymateb Fferylliaeth Gymunedol Cymru	Methu cadarnhau

Crynodeb o sylwadau
Roedd CPW o'r farn bod y PNA yn cynnwys llawer o'r wybodaeth berthnasol am leoliad, oriau agor ac ystod y gwasanaethau fferyllol.
Nid oedd CPW mewn sefyllfa annibynnol i wirio cyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth honno ac felly ni allai gadarnhau a oedd bylchau ychwanegol yn bodoli.

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Adolygodd y Bwrdd Iechyd y data ar ddarpariaeth, oriau agor, lleoliadau, gweithgarwch, adborth contractwyr a thystiolaeth ymgynghori. Ni nodwyd unrhyw fwlch systemig na daearyddol ychwanegol ar hyn o bryd. Bydd unrhyw newid sylweddol mewn argaeledd, mynediad neu gapasiti a nodwyd yn ystod oes y PNA yn cael ei ystyried o dan reoliad 6.

Cwestiwn 5

5. A yw'r asesiad o anghenion fferyllol drafft yn adlewyrchu anghenion poblogaeth yr ardal?	
Ymateb Fferylliaeth Gymunedol Cymru	Nac oes

Crynodeb o sylwadau
Roedd CPW o'r farn nad oedd y drafft yn rhoi digon o dystiolaeth mewn perthynas â gofynion fferyllol arfaethedig yn y dyfodol yn Nwyrain Casnewydd a Gogledd Torfaen, na'r canlyniadau a briodolir i gau fferyllfeydd, gostyngiadau yn nifer y fferyllfeydd sy'n agor ar ddydd Sadwrn a rhoi'r gorau i wasanaethau meddygon fferyllol.
Ar gyfer Glan Llyn a Phentref Trefol Mamhilad, cwestiynodd CPW a fyddai'r trothwyon datblygu yn cael eu cyrraedd yn ystod cyfnod y PNA a thynnodd sylw at hygyrchedd fferyllfeydd presennol. Argymhellodd fonitro oni bai bod tystiolaeth yn dangos y byddai datblygiadau a newidiadau i’r poblogaeth perthnasol yn digwydd ac na allai'r ddarpariaeth bresennol ddiwallu'r galw.
Roedd CPW yn gwrthwynebu rhagdybiaethau y byddai colli fferyllfa, oriau ychwanegol ar ddydd Sadwrn neu ddarpariaeth meddygon fferyllol yn awtomatig yn creu angen am union yr un fath. Roedd o'r farn y dylai unrhyw newid ysgogi asesiad newydd o fynediad, darpariaeth amgen, defnydd o wasanaethau, anghenion y boblogaeth, gofynion lleoliad rheoledig a chapasiti'r rhwydwaith.
Rhybuddiodd CPW hefyd y gallai anghenion mynediad i'r farchnad sydd heb ddigon o dystiolaeth greu gorddarpariaeth a chael effaith andwyol ar gynaliadwyedd fferyllfeydd presennol.

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd y pryder yn rhannol. Mae'r gofynion sefydlog ar gyfer safleoedd fferyllfa newydd a gynigiwyd yn flaenorol ar gyfer Glan Llyn a Phentref Trefol Mamhilad wedi'u dileu. Mae'r asesiad lleol manwl yn disgrifio Glan Llyn a Phentref Trefol Mamhilad fel materion sydd angen eu monitro. Ni nodir y naill na'r llall fel bwlch ar hyn o bryd, ac nid yw Pennod Saith yn nodi unrhyw angen penodol yn y dyfodol am ddarpariaeth fferyllol ychwanegol ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae datganiadau sy'n awgrymu y byddai colli fferyllfa, colli oriau ychwanegol ar ddydd Sadwrn neu golli gwasanaethau meddygon fferyllol yn awtomatig yn creu'r angen am wasanaethau i gymryd eu lle wedi'u dileu.

Mae datganiadau sy’n nodi y bydd unrhyw newid yn y dyfodol yn cael ei reoli yn unol â'r amodau a nodir yn rheoliad 6 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 wedi'u hymgorffori mewn pwyntiau perthnasol.

Cwestiwn 6

6. A yw'r asesiad o anghenion fferyllol wedi darparu digon o wybodaeth i lywio penderfyniadau ynghylch mynediad i'r farchnad?	
Ymateb Fferylliaeth Gymunedol Cymru	Nac oes

Crynodeb o sylwadau
Roedd CPW o'r farn y dylid datrys y pryderon a godwyd o dan gwestiwn 5 cyn dibynnu ar y PNA ar gyfer penderfyniadau mynediad i'r farchnad.
Cododd CPW bryderon hefyd ynghylch penderfyniadau a reolir yn lleol, ardaloedd caniatâd amlinellol meddygon fferyllol a mapio. Gofynnodd am eglurhad ar frys ynghylch Y Fenni ac eglurhad o'r sefyllfa sy'n berthnasol i Bentref Trefol Mamhilad cyn ystyried unrhyw gais yn y dyfodol.

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Mae'r PNA terfynol yn cryfhau'r esboniad o'i swyddogaeth mynediad i'r farchnad ac yn egluro bod ceisiadau'n cael eu pennu ar wahân o dan y profion rheoleiddio perthnasol a'r dystiolaeth gyfredol.

Mae Pennod Un bellach yn egluro bod cymhwysedd meddygon gyflenwi meddyginiaethau yn cael ei lywodraethu gan y fframwaith statudol ar gyfer lleoliadau rheoledig ac na ellir ei ymestyn drwy'r PNA. Mae map Atodlen 1

yn nodi safleoedd fferyllol a safleoedd cyflenwi ond nid yw'n pennu nac yn atgynhyrchu ffiniau ardaloedd rheoledig. Mae'r pryderon o ran ymgynghori ynghylch gwybodaeth am leoliadau rheoledig, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r Fenni a'r statws sy'n berthnasol i Bentref Trefol Mamhilad, wedi'u cofnodi.

Ni chaiff y sefyllfa sylfaenol o ran lleoliad rheoledig a mapio ei datrys trwy gyhoeddi'r PNA a bydd angen ei hystyried trwy'r broses statudol, reoleiddiol a llywodraethu briodol y Bwrdd Iechyd. Cyn penderfynu ar unrhyw gais yr effeithir arno, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sefydlu ac ystyried y dystiolaeth berthnasol o ran lleoliad rheoledig, pellter, caniatâd amlinellol a thystiolaeth reoleiddiol arall sy'n bodoli ar y pryd.

Cwestiwn 7:

7. A yw'r asesiad o anghenion fferyllol wedi darparu gwybodaeth i lywio'r ffordd y gellir comisiynu gwasanaethau fferyllol yn y dyfodol?	
Ymateb Fferylliaeth Gymunedol Cymru	Ymateb cymwys

Crynodeb o sylwadau
Roedd CPW yn cydnabod bod y PNA yn darparu fframwaith gynllunio pum mlynedd ond cyfeiriodd yn ôl at ei bryderon ynghylch y dystiolaeth sy'n cefnogi'r anghenion presennol a'r anghenion yn y dyfodol a nodwyd yn y drafft.

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Mae'r PNA yn parhau i fod yn asesiad pum mlynedd o angen fferyllol ond mae'n wahanol i benderfyniadau comisiynu dilynol. Rhaid ystyried comisiynu yn y dyfodol ochr yn ochr â pholisi cenedlaethol, angen wedi'i asesu, capasiti'r gweithlu, trefniadau llywodraethu clinigol, trefniadau cytundebol a chyllid cynaliadwy. Mae darpariaethau monitro wedi'u cynnwys yn unol â hynny.

Cwestiwn 8

8. A yw'r asesiad o anghenion fferyllol wedi darparu digon o wybodaeth i lywio darpariaeth gwasanaethau a chynlluniau yn y dyfodol ar gyfer fferyllfeydd, contractwyr cyfarpar a meddygon fferyllol?	
Ymateb Fferylliaeth Gymunedol Cymru	Nac oes

Crynodeb o sylwadau
Roedd CPW o'r farn nad oedd y drafft yn dangos y byddai angen darpariaeth fferyllol newydd yn Nwyrain Casnewydd neu Ogledd Torfaen yn ystod cyfnod y PNA, o ystyried ansicrwydd ynghylch amseriad y datblygiad, meddiannaeth, twf y boblogaeth, mynediad, galw, capasiti presennol a gwasanaethau meddygol cyffredinol yn y dyfodol.
Argymhellodd CPW y dylid parhau i adolygu gan ddefnyddio tystiolaeth gliriach ar gynnydd y datblygiad, meddiannaeth, mynediad a chapasiti'r rhwydwaith. Nododd hefyd y dylai casgliadau o ran capasiti gydnabod pwysau ariannol a phwysau o ran y gweithlu a'r angen am gyllid rheolaidd a chefnogaeth gytundebol.

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Mae'r asesiad manwl o leoliad wedi'i ddiwygio i ddisgrifio Glan Llyn a Phentref Trefol Mamhilad fel materion sydd angen eu monitro. Ni chaiff yr un lleoliad ei nodi fel bwlch ar hyn o bryd, ac mae Pennod Saith bellach yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw angen penodol yn y dyfodol am ddarpariaeth fferyllol ychwanegol wedi'i nodi ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae datganiadau wedi'u cynnwys i ddisgrifio y bydd monitro'n cynnwys cwblhau cartrefi a meddiannaeth, twf poblogaeth, mynediad, defnydd o wasanaethau, oriau agor, capasiti darparwyr a gwasanaethau fferyllol a GIG amgen. Os bydd tystiolaeth yn dangos na all y ddarpariaeth bresennol ddiwallu'r angen mwyach, bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried camau gweithredu o dan reoliad 6.

Cwestiwn 9:

9. A oes gwasanaethau fferyllol y gellid eu darparu mewn fferyllfa yn y dyfodol nad ydynt wedi'u hamlygu?	
Ymateb Fferylliaeth Gymunedol Cymru	Oes

Crynodeb o sylwadau
Awgrymodd CPW y gallai gwasanaethau rheoli pwysau mewn fferyllfeydd gyfrannu at fynd i'r afael â chyffredinrwydd gorbwysau a gordewdra a nodwyd ym Mhennod Dau.

Crynodeb o sylwadau
Nododd CPW y byddai gwasanaethau o'r fath yn gofyn am fuddsoddiad y tu hwnt i'r Fframwaith Cytundebol Fferyllfeydd Cymunedol presennol ac argymhellodd ddatblygiad yn unol ag egwyddorion Fferyllfeydd Cymunedol trwy Ddylunio a chyllid rheolaidd cynaliadwy.

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Mae Pennod Dau bellach yn cofnodi cymorth rheoli pwysau fel gwasanaeth posib mewn fferyllfa gymunedol yn y dyfodol. Byddai unrhyw ddatblygiad yn destun polisi cenedlaethol, asesiad ar wahân o angen, capasiti'r gweithlu, trefniadau llywodraethu clinigol, egwyddorion Fferyllfa Gymunedol o’r cychwyn a chomisiynu cynaliadwy. Ni chanfuwyd unrhyw fwlch Atodlen 1 ar hyn o bryd

Cwestiwn 10:

10. A oes datblygiadau’n debygol o godi yn ystod oes yr asesiad o anghenion fferyllol nad ydynt wedi’u nodi?	
Ymateb Fferylliaeth Gymunedol Cymru	Nac oes

Crynodeb o sylwadau
Nid oedd CPW yn ymwybodol o ddatblygiadau ychwanegol ond nododd y gallai contractwyr, aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill sydd â gwybodaeth leol nodi datblygiadau pellach drwy ymgynghori.

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Ni nodwyd unrhyw ddatblygiadau ychwanegol gan CPW. Mae'r PNA terfynol yn parhau i ystyried newidiadau sylweddol i'r boblogaeth neu'r gwasanaeth, trwy waith monitro parhaus . Bydd unrhyw newid yn y dyfodol yn cael ei reoli yn unol â'r amodau a nodir yn rheoliad 6 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 wedi'u hymgorffori mewn pwyntiau perthnasol.

Cwestiwn 11:

11. Ydych chi'n cytuno â chasgliadau'r asesiad o anghenion fferyllol?	
Ymateb Fferylliaeth Gymunedol Cymru	Nac oes

Crynodeb o sylwadau
Nid oedd CPW yn cytuno â'r casgliadau drafft oherwydd ei fod o'r farn nad oedd yr anghenion nad ydynt yn cael eu ac anghenion yn y dyfodol a nodwyd wedi'u dangos yn ddigonol, yn bennaf am y rhesymau a nodir yn ei ymateb i gwestiwn 5.

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Yn dilyn ymgynghori, mae'r casgliadau wedi cael eu diwygio'n sylweddol. Nid yw'r PNA terfynol yn nodi unrhyw fwlch systemig na daearyddol cyfredol nac unrhyw angen penodol yn y dyfodol am ddarpariaeth fferyllol ychwanegol ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Caiff datblygiadau strategol a newidiadau o ran argaeledd gwasanaethau eu trin fel materion i'w monitro, gyda newidiadau sylweddol yn cael eu hystyried o dan reoliad 6. Y Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol, o hyd, am ei asesiad statudol terfynol.

Cwestiwn 12:

12. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach?	
Ymateb Fferylliaeth Gymunedol Cymru	Nac oes

Crynodeb o sylwadau
Ni wnaeth CPW unrhyw sylwadau ychwanegol.

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Ni wnaed unrhyw sylwadau ychwanegol o dan y cwestiwn hwn. Serch hynny, roedd yr ymateb yn ei gyfanrwydd yn sail i'r diwygiadau i'r Crynodeb Gweithredol, Pennod Un, Penodau Dau, Chwech a Saith, Atodiad A a'r cofnod o ddiwygiadau hwn.

1.1.1. Crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru

- Roedd CPW yn cefnogi'r disgrifiad o'r ddarpariaeth fferyllol gymunedol bresennol ar y cyfan ac yn cytuno â'r asesiad o wasanaethau sy'n gysylltiedig â chyfarpar a gafwyd gan ddarparwyr o'r du allan i'r ardal.

- Nid oedd CPW yn cytuno â chasgliadau cyffredinol y drafft oherwydd ei fod o'r farn nad oedd digon o dystiolaeth ar gael mewn perthynas â sawl angen a nodwyd a allai godi yn y dyfodol a gofynion damcaniaethol o ran cymryd lle gwasanaethau.
- Argymhellodd CPW y dylid rhoi cydnabyddiaeth mwy pendant o rôl mynediad i'r farchnad y PNA; monitro datblygiadau strategol ar sail tystiolaeth; dileu neu ddiwygio datganiadau sy'n dyfalu am anghenion yn y dyfodol; egluro gwybodaeth am leoliadau rheoledig; cydnabod dibyniaethau ar gyllid a'r gweithlu; ac ystyried gwasanaethau rheoli pwysau sy'n seiliedig ar fferyllfeydd yn amodol ar angen wedi'i asesu a chomisiynu cynaliadwy.

Ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd na ddylid trin newidiadau damcaniaethol sy'n codi yn ystod oes y PNA yn awtomatig fel anghenion a fydd yn bendant yn codi yn y dyfodol.

Mae'r Crynodeb Gweithredol, Pennod Un, Pennod Saith ac Atodiad A wedi'u diwygio i egluro ac esbonio dyletswyddau'r Bwrdd Iechyd o dan reoliad 6, gan gynnwys ystyried asesiad diwygiedig o dan reoliad 6(2) a, lle bodlonir yr amodau statudol, cyhoeddi datganiad atodol o dan reoliad 6(3).

Casgliadau cryno

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r disgrifiad o'r ddarpariaeth fferyllol bresennol ar y cyfan ond codwyd pryderon ynghylch y dystiolaeth sy'n cefnogi rhai anghenion arfaethedig yn y dyfodol a gofynion damcaniaethol o ran gwasanaethau i gymryd eu lle. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd y pryderon hynny yn rhannol.

Nid yw'r PNA terfynol yn nodi unrhyw fwlch systemig na daearyddol cyfredol nac unrhyw angen penodol yn y dyfodol am ddarpariaeth ychwanegol ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd twf strategol mewn tai, mynediad ar benwythnosau, argaeledd gwasanaethau, amseroedd cwblhau presgripsiynau, argaeledd meddyginiaethau a chapasiti darparwyr yn cael eu monitro, gyda newidiadau sylweddol yn cael eu hystyried o dan reoliad 6 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

Mae'r PNA terfynol yn dileu datganiadau damcaniaethol y byddai colli darparwyr, lleihad yn yr oriau agor ychwanegol ar ddydd Sadwrn neu golli gwasanaethau meddygon fferyllol yn arwain yn awtomatig at greu'r angen i gymryd eu lle. Mae'r asesiad manwl o'r ardal yn disgrifio Glan Llyn a

Phentref Trefol Mamhilad fel materion y dylid eu monitro; ni chaiff yr un o’r ddau eu nodi fel bwlch ar hyn o bryd, ac nid yw Pennod Saith yn nodi unrhyw angen penodol yn y dyfodol ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae gwasanaethau brechu a rheoli pwysau posibl yn ystyriaethau o ran comisiynu yn y dyfodol, yn amodol ar bolisi, angen wedi’i asesu, capasiti'r gweithlu, trefniadau llywodraethu clinigol a chyllid cynaliadwy, ac nid ydynt yn fylchau ar hyn o bryd.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud defnydd cymesur o'r rhwydwaith fferyllol bresennol a modelau gofal sy'n seiliedig ar leoliad, gan gydnabod bod y capasiti a adroddir yn dystiolaeth o'r amser penodol dan sylw a gall ddibynnu ar argaeledd y gweithlu a chefnogaeth gytundebol gynaliadwy.

Monitro cydraddoldebau

Cwblhaodd un ar ddeg o'r 14 ymatebydd ar-lein yr adran monitro cydraddoldeb a bu iddynt ddarparu gwybodaeth ddemograffig. O'r rhain:

- Nododd un ar ddeg o ymatebwyr mai Saesneg yw eu dewis iaith.
- Mae un ymatebydd rhwng 35 a 44 oed, dau rhwng 45 a 54 oed, dau rhwng 55 a 64 oed, pedwar rhwng 65 a 74 oed a dau yn 75 oed neu'n hŷn.
- Mae tri o'r ymatebwyr yn ddynion ac wyth yn fenywod.
- Disgrifiodd pump o ymatebwyr eu grŵp ethnig fel Gwyn, tri fel Cymry, dau fel Prydeinig ac un fel Indiaidd.
- Dywedodd naw ymatebydd eu bod yn heterorywiol neu'n syth ac roedd yn well gan ddau beidio â dweud.
- Mae wyth o’r ymatebwyr yn Gristnogion, un yn Anffyddiwr, un yn Hindŵ ac roedd yn well gan un beidio â dweud.
- Nododd chwech o ymatebwyr nad oedd ganddynt salwch hirdymor nac anabledd a nododd pump bod ganddynt.
- Nododd un ar ddeg o ymatebwyr nad yw eu hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a neilltuwyd iddynt adeg eu geni.
- Cadarnhaodd pump o ymatebwyr fod ganddynt gyfrifoldebau gofalu, dywedodd pump nad oedd ganddynt ac roedd yn well gan un beidio â dweud.

Diwygiadau

- Diwygiwyd y Crynodeb Gweithredol, Pennod Un, Pennod Saith ac Atodiad A i bwysleisio rôl y PNA fel sail dystiolaethol bwysig ar gyfer penderfyniadau mynediad i'r farchnad gan egluro bod ceisiadau'n cael eu penderfynu ar wahân.
- Ehangwyd Pennod Un ac Atodiad A i esbonio rheoliad 6 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 gan gynnwys asesiadau diwygiedig o dan reoliad 6(2) a datganiadau atodol o dan reoliad 6(3).
- Cywirwyd ac ehangwyd yr adrannau ar feddygon fferyllol er mwyn esbonio lleoliadau rheoledig, y prawf 1.6 cilomedr, y gwahaniaeth rhwng mapio lleoliadau rheoledig a map safleoedd Atodlen 1, a'r angen i sefydlu statws perthnasol cyn penderfynu ar gais yr effeithir arno.
- Diwygiwyd testun brechu i gofnodi brechiad atgyfnerthu COVID-19, brechu firws niwmococol a syncytiol anadlol fel gwasanaethau posibl yn y dyfodol yn amodol ar bolisi, angen wedi'i asesu, capasiti'r gweithlu, trefniadau llywodraethu clinigol a chomisiynu cynaliadwy, ond nid fel bylchau cyfredol.
- Cofnodwyd cefnogaeth rheoli pwysau fel gwasanaeth fferyllol cymunedol posibl yn y dyfodol, yn amodol ar bolisi cenedlaethol, angen wedi'i asesu, capasiti'r gweithlu, trefniadau llywodraethu clinigol a chomisiynu cynaliadwy, ac nid fel bwlch cyfredol. Dylid darllen y derminoleg hon ar y cyd â'r cyfeiriad cyfatebol yn y PNA at gymorth colli pwysau.
- Cafodd tystiolaeth yn ymwneud â chapasiti contractwyr ei chymhwyso fel gwybodaeth ar adeg benodol yn hytrach na gwarant o wydnwch yn y dyfodol.
- Diwygiwyd Pennod Chwech i gofnodi pryderon a ddeilliodd o'r ymgynghoriad ynghylch mynediad ar benwythnosau, amseroedd cwblhau presgripsiynau, argaeledd meddyginiaethau, twf tai a phwysau o ran capasiti canfyddedig, gan gynnwys Magwyr a Chas-gwent, ac er mwyn sefydlu'r fframwaith fonitro gysylltiedig.
- Cafodd y gofynion fferyllol sefydlog yn y dyfodol a gynigiwyd yn flaenorol ar gyfer Glan Llyn a Phentref Trefol Mamhilad eu dileu. Mae'r asesiad manwl o'r ardal yn disgrifio Glan Llyn a Phentref Trefol Mamhilad fel materion i'w monitro; mae Pennod Saith yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw angen penodol yn y dyfodol am ddarpariaeth

fferyllol ychwanegol wedi'i nodi ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

- Mae datganiadau sy'n awgrymu y byddai colli fferyllfa, lleihau oriau ychwanegol ar ddydd Sadwrn neu golli gwasanaethau meddygon fferyllol yn awtomatig yn creu'r angen am wasanaethau i gymryd eu lle wedi'u dileu. Bydd newidiadau sylweddol yn cael eu rheoli yn unol â rheoliad 6 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.
- Diwygiwyd y casgliadau o fewn asesiadau NCN unigol ym Mhennod Chwech i ddatgan bod gwasanaethau fferyllol presennol, gan gynnwys darpariaeth a geir mewn lleoliadau cyfagos, yn ddigonol ar hyn o bryd ar gyfer diwallu'r angen a nodwyd. Mae hyn yn disodli datganiadau mwy absoliwt nad oes angen amdanynt ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.
- Diwygiwyd Pennod Saith er mwyn gwahaniaethu rhwng bylchau presennol, anghenion amodol yn y dyfodol a materion y mae angen eu monitro, ac er mwyn dod i'r casgliad nad oes angen penodol yn y dyfodol am ddarpariaeth ychwanegol wedi'i nodi ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.
- Diweddarwyd Atodiad K i ddarparu ystyriaeth ac ymateb y Bwrdd Iechyd i bob prif fater a ddeilliodd o’r ymgynghoriad ac er mwyn darparu cofnod y gellir ei olrhain o'r gwelliannau a ddilynodd.

Atodiad L - Data Nodweddion Gwarchodedig a Grwpiau Bregus a Chynhwysiant

Grwpiau ethnig yn ôl canran, yn ôl awdurdod lleol a Chymru[106]					
Awdurdod lleol	Gwyn	Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	Grwpiau ethnig cymysg/amryfal	Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig	Grŵp ethnig arall
Blaenau Gwent	97.7	1.0	0.8	0.1	0.3
Caerffili	97.6	1.0	0.9	0.2	0.2
Sir Fynwy	96.9	1.3	1.2	0.2	0.4
Casnewydd	85.6	7.6	2.8	2.3	1.7
Torfaen	97.0	1.3	1.1	0.2	0.2
Cymru	93.8	2.9	1.6	0.9	0.9

Sgiliau Cymraeg yn ôl awdurdod lleol[107]					
%	Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen
Dim sgiliau Cymraeg	90.2	84.8	87.3	88.6	88.2
Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	4.7	8.5	6.8	5.7	6.5
Deall Cymraeg	2.3	3.1	2.5	2.5	2.3

[106] Grŵp ethnig, Cymru a Lloegr - Office for National Statistics

[107] Cyfrifiad 2021

llafar yn unig					
Yn gallu siarad a chyfuniadau eraill o sgiliau yn y Gymraeg	0.1	0.2	0.1	0.2	0.1
Gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg	0.9	1.2	1.2	1.2	1.1
Gallu siarad a darllen ond nid ysgrifennu Cymraeg.	0.5	0.6	0.5	0.5	0.6

Crefydd ar lefel awdurdod lleol a Chymru[108]					
Crefydd	Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen
Dim crefydd	56.4	56.7	43.4	43.0	50.8
Cristnogol	36.5	36.4	48.7	42.8	41.5
Bwdhaidd	0.2	0.2	0.4	0.3	0.3
Hindw	0.1	0.1	0.2	0.5	0.3
Iddewig	0.0	0.0	0.1	0.1	0.0
Mwslemaidd	0.4	0.3	0.5	7.1	0.4
Sikh	0.2	0.1	0.1	0.3	0.1

[108] Nomis 2021 - Crefydd

Crefydd arall	0.5	0.4	0.6	0.5	0.5
Heb ei ateb	5.8	5.7	6.2	5.6	6.1

Canran o grwpiau ethnig Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig a oedd yn byw ym mhob awdurdod lleol haen isaf yng Nghymru a Lloegr, Cyfrifiad 2021[109]
Blaenau Gwent - 0.0% o'r boblogaeth
Caerffili - 0.1% o'r boblogaeth
Sir Fynwy - 0.0% o'r boblogaeth
Casnewydd - 0.4% o'r boblogaeth
Torfaen – 0.0% o'r boblogaeth

[109] (Gypsy or Irish Traveller populations, England and Wales - Office for National Statistics)

Atodiad M - Oriau Agor y Practis Dosbarthu

Mae'r copi diweddaraf o'r atodiad hwn ar gael oddi wrth:

Dispensing Doctors Opening Hours WELSH.xlsx

Dispng Doctors Opening Hours ...

Atodiad N – Oriau Agor y Fferyllfa Gymunedol

Mae'r copi diweddaraf o'r atodiad hwn ar gael oddi wrth:

Appendix N v1welsh.xlsx

Atodiad O — Mapiau at ddibenion Atodlen 1 o Reoliadau Gwasanaethau Fferyllol y GIG

Map cyffredinol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn dangos lleoliadau fferyllfeydd a meddygon fferyllol



Pharmaceutical Services Distribution: ● Pharmacy ◇ Dispensing Doctor

Source: Office for National Statistics licensed under the Open Government Licence v.3.0
Contains OS data © Crown copyright and database right 2026

Map o Flaenau Gwent - Yn dangos lleoliadau fferyllfeydd yn NCNs Dwyrain a Gorllewin Blaenau Gwent.



Pharmaceutical Services Distribution: Pharmacy Dispensing Doctor

Source: Office for National Statistics licensed under the Open Government Licence v.3.0
Contains OS data © Crown copyright and database right 2026

Map o Gaerffili - Yn dangos lleoliadau fferyllfeydd yn NCNs Dwyrain Caerffili, Gogledd Caerffili a De Caerffili.



Pharmaceutical Services Distribution: ● Pharmacy ◇ Dispensing Doctor

Source: Office for National Statistics licensed under the Open Government Licence v.3.0
Contains OS data © Crown copyright and database right 2026

Map o Sir Fynwy - Yn dangos lleoliadau Fferyllfeydd a Meddygon Fferyllol yn NCNs Gogledd Sir Fynwy a De Sir Fynwy



Pharmaceutical Services Distribution: ● Pharmacy ◇ Dispensing Doctor

Source: Office for National Statistics licensed under the Open Government Licence v.3.0
Contains OS data © Crown copyright and database right 2026

Map o Gasnewydd - Dangos Lleoliadau Fferyllfeydd yn NCNs Dwyrain Casnewydd a Gorllewin Casnewydd



Pharmaceutical Services Distribution: ● Pharmacy ◇ Dispensing Doctor

Source: Office for National Statistics licensed under the Open Government Licence v.3.0
Contains OS data © Crown copyright and database right 2026

Map o Dorfaen — Yn Dangos Lleoliadau Fferyllfeydd a Meddygon Fferyllol yn NCNs Gogledd Torfaen a De Torfaen



Pharmaceutical Services Distribution: ● Pharmacy ◇ Dispensing Doctor

Source: Office for National Statistics licensed under the Open Government Licence v.3.0
Contains OS data © Crown copyright and database right 2026